


Gwerddon



.....
Cyfnodolyn Academaidd Cymraeg

Golygydd: Dr Anwen Jones



Cyfnodolyn Academaidd Cymraeg
Golygydd: Dr Anwen Jones

Bwrdd Golygyddol

Golygydd:	Dr Anwen Jones, Prifysgol Aberystwyth
Is-Olygydd:	Dr Hywel M. Griffiths, Prifysgol Aberystwyth
Cynorthwyyr Golygyddol:	Mari Fflur, Dr Angharad Watkins a Lois McGrath
Cadeirydd y Bwrdd Golygyddol:	Dr Paula Roberts, Prifysgol Bangor
Aelodau'r Bwrdd Golygyddol:	Yr Athro Jane Aaron, Prifysgol De Cymru Yr Athro David Evans, Prifysgol Caerdydd Dr Gwennan Higham, Prifysgol Abertawe Dr Rhian Hodges, Prifysgol Bangor Dr Sioned Vaughan Hughes, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant Yr Athro Arwyn Jones, Prifysgol Caerdydd Yr Athro Carwyn Jones, Prifysgol Metropolitan Caerdydd Dr Hefin Jones, Prifysgol Caerdydd Yr Athro Rhys Jones, Prifysgol Aberystwyth Yr Athro R. Gwynedd Parry, Prifysgol Abertawe Wyn Thomas, Prifysgol Bangor Yr Athro Ioan M. Williams

E-gyfnodolyn academiaidd cyfrwng Cymraeg yw *Gwerddon*. Y mae'n cyhoeddi ymchwil ysgolheigaidd yn y Gwyddorau, y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Cyhoeddir *Gwerddon* ar y we o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Arferir cyfraniadau gan arbenigwyr yn y meysydd perthnasol yn y modd arferol. Ceir gwybodaeth lawn am amcanion, polisiau golygyddol, canllawiau i awduron a chanllawiau i arfarnwyr ar y wefan: www.gwerddon.cymru

Cyllidir *Gwerddon* gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Cysylltwch â *Gwerddon* drwy e-bostio gwybodaeth@gwerddon.cymru neu drwy'r post: Gwerddon, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Y Llyfyan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ.

ISSN 1741-4261

Hawlfraint *Gwerddon*
www.gwerddon.cymru

Cynnwys

Golygyddol	5
Huw L. Williams, ‘Y Llwybr tuag at Heddwch Parhaol: John Rawls a’r Athrawiaeth Rhyfel Cyfiawn’	7
Wyn Mason, ‘ <i>Gwlad yr Asyn</i> a’r golwg deublyg: diffinio’r ddrama ôl-drefedigaethol Gymreig’	31
Laura Beth Davies, ‘Cyflogadwyedd, cyfrifoldeb, cael digon o’r Gymraeg? Dewisiadau ieithyddol dysgwyr Addysg Bellach’	59
Catrin Wyn Edwards, ‘Seduir, seduce, més que dir que han de fer català: Astudiaeth o bolisiâu iaith mewn addysg, integreiddio a mewnfudo rhyngwladol yng Nghatalwnia’	83
Robert Bowen a Wyn Morris, ‘Egni adnewyddadwy: cyfle i ffermwyr arallgyfeirio mewn amgylchedd busnes heriol?’	112
Cyfranwyr	134

Golygyddol

Dr Anwen Jones

Mae cyfraniadau ysgolheigaidd y rhifyn hwn o *Gwerddon* yn dra amrywiol. Maent yn ystyried ac yn archwilio rychwant o feysydd pynciol ac o diriogaethau cysyniadol. Agorir y rhifyn gan gyfraniad Huw L. Williams wrth iddo gynnig gwerthusiad newydd o athrawiaeth John Rawls ynghylch rhyfel cyfiawn. Dadleua fod Rawls yn meithrin gweledigaeth feiddgar ac arloesol o blaid heddwch fel egwyddor lywodraethol rhyfel. Nid trafodaeth athronyddol a geir gan Wyn Mason, ond yn hytrach ysgrifenna am esblygiad darn o waith creadigol o fewn fframwaith gwleidyddol, penodol. Mae ei drafodaeth ddadansoddol ar ddatblygiad ei ddrama wreiddiol *Gwlad yr Asyn* yn canolbwyntio ar heriau'r ddisgwrs ôl-drefedigaethol yng nghyd-destun agweddau ar hanes llenyddol a gwleidyddol Cymru. Gallwn droi wedyn at drafodaeth addysgol-gymdeithasol Laura Beth Davies ar resymau dysgwyr dros beidio ag astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn sefydliadau Addysg Bellach. Yn yr un maes, ceir erthygl gan Catrin Wyn Edwards sy'n cynnig cyd-destun rhyngwladol i gwestiynau pwysig ynghylch effeithiau mewnffudo ar hirhoedledd ieithoedd lleiafrifol. I gloi, ceir ymdriniaeth Robert Bowen a Wyn Morris â photensial technolegau ynni adnewyddadwy i gynnal y diwydiant amaeth yng Nghymru'r dyfodol. Amrywiaeth amheuthun yn ddi-os.

Ac eto, mae i'r amrywiaeth gysondeb a chyfanrwydd.

Ers blynnyddoedd lawer, bu i *Gwerddon* gynnig llwyfan i drafodaeth gyfoethog ac eang am agweddau tuag at y Gymraeg ym maes addysg yn ogystal â mewn cyd-destunau cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol eraill. Yn y rhifyn cyntaf oll, cafwyd cyfraniad hynod o ddifyr gan Enlli Thomas a oedd yn archwilio prosesau caffael iaith ymysg plant. Cynhaliwyd ffocws cyson ar y maes pwysig hwn, ac yn fwy diweddar, cafwyd trafodaeth Iwan Rees a Jonathan Morris ar yr un maes canolog yn eu hastudiaeth hwy ar ganfyddiadau tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion ynghylch heriau ynganu'r Gymraeg. At hynny, cysegrwyd rhifyn 26 yn gyfan gwbl i drafodaeth ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod meithrin a'r cyfnod sylfaen. Mae'n braf cael cyfraniad sy'n agor cil y drws ar brofiad dysgwyr galwedigaethol yn y rhifyn hwn, gan gychwyn gofyn cwestiynau pellgyrhaeddol am natur y cyfleoedd sydd ar gael er mwyn i'r garfan hon o bobl ifanc allu cyfrannu at ddyfodol Cymru ddwyieithog. Mae cyfraniad Laura Beth Davies yn amserol yng nghyd-destun targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2020. Mae hefyd yn arwyddocaol wrth i ni ystyried ymrwymiad diweddar y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i yrru'r agenda addysg bellach a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ei blaen mewn cydweithrediad â nifer o randdeiliaid allweddol, megis darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr.

Yn yr un modd, mae trafodaeth Catrin Wyn Edwards ar bolisiau iaith yng nghyd-destun addysg, integreiddio a mewnffudo rhyngwladol yng Nghatalwnia yn rhoi cyd-destun rhyngwladol i drafodaeth sydd yn greiddiol i genadwri *Gwerddon*. Mae'r math hwn o gyd-destun rhyngwladol yn allweddol i drafodaeth ar Gymru yn y byd sydd ohoni ac mae

mewnwelediad Edwards i brosesau cynllunio iaith yng nghyd-destun creu cymdeithasau amlieithog yn arbennig o ddiddorol yn erbyn cefnlen lansio strategaeth ryngwladol genedlaethol gyntaf Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020. Dichon nad yw cyfraniad Bowen a Morris yn trin a thrafod ffactorau ieithyddol yn uniongyrchol ond mae eu hastudiaeth o botensial ynni adnewyddadwy i ddatrys rhai o heriau economaidd y diwydiant amaeth yng Nghymru yn amlygu'r berthynas rhwng gwytnwch ac arloesedd economaidd a hirhoedledd diwylliannau lleiafrifol yn fwy cyffredinol.

Hawdd yw dirnad arwyddocâd trafodaeth Wyn Mason ar y syniad o gyfrifoldeb a chyfraniad Cymru at y prosiect ôl-drefedigaethol. Mae i'r erthygl ei blas creadigol ei hun ond mae hefyd yn cyfrannu at y ddisgwrs am ddyfodol diwylliannau lleiafrifol fel y'u dadansoddir gan Davies, Edwards, a Bowen a Morris.

Beth felly am erthygl athronyddol Huw L. Williams ar gwestiwn hanfodol i hanes a dyfodol dynoliaeth; y cyfiawnhad dros ryfel neu ryfel cyfiawn? Sut mae honno'n cyfrannu at gyfanwaith y rhifyn? Gofyn y mae Williams: sut y gellir arbed dynoliaeth a'r agweddau gwerthfawr ar ei phrofiad a'i phwysigrwydd?

Yr un cwestiwn sydd wrth wraidd yr holl gyfraniadau amrywiol at rifyn diweddaraf *Gwerddon*: beth yw'r ffordd orau o gynnal, gwarchod, tyfu a meithrin yr hyn sydd yn werthfawr i ni o fewn ein diwylliannau, ein gwleidyddiaeth, ein heconomi, ein cymdeithas a'n profiad? Diolch i awduron y rhifyn am eu mewnwelediad penodol i gwestiynau sy'n gyffredin ac yn bwysig i ni oll.

Y Llwybr tuag at Heddwch Parhaol: John Rawls a'r Athrawiaeth Rhyfel Cyfiawn

Huw L. Williams

Ysgol Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth, Prifysgol Caerdydd

Cyflwynwyd: 19 Mawrth 2020; Derbyniwyd: 4 Mehefin 2020

Crynodeb: Mae athrawiaeth John Rawls ynghylch rhyfel cyfiawn yn cael ei dehongli'n bennaf fel estyniad ar ddamcaniaeth Walzer. Fodd bynnag, o'i ystyried yng ngoleuni ymrwymiad Rawls i feirniadaeth Kant, a natur iwtopaidd ei fyfyrddau ar gysylltiadau rhyngwladol yn *The Law of Peoples*, ymddengys ei safbwynt ar ryfel yn un nodedig a beiddgar. Mae dylanwad Kant yn amlwg ar ei athrawiaeth soffistigedig, sydd wedi ei nodweddu gan heddwch fel egwyddor lywodraethol rhyfel, ac egwyddorion rhyfel cyfiawn sydd yn gyfystyr â chyfiawnder dros dro, nad ydynt byth yn gwbl gyfiawn. Daw persbectif sgeptigol i'r amlwg felly sy'n gwrthod estyn ei athrawiaeth ar ryfel cyfiawn i ryfela dyngarol. Colomen yn hytrach na hebog fyddai'r gwladweinydd Rawlsaidd, wedi'i ymrwymo i'r gred fod rhyfel yn ddrygioni i'w osgoi a'i orchfygu, a bod modd gweithio tuag at heddwch parhaol.

Allweddeiriau: John Rawls, Rhyfel Cyfiawn, Cyfraith y Pobloedd, Ymyrraeth Ddyngarol, Kant.

The Path to Universal Peace: John Rawls and the Just War Doctrine

Abstract: John Rawls's just war doctrine is primarily interpreted as an elaboration of Walzer's theory. However, when considered in light of Rawls's Kantian commitments and the utopian nature of his reflections on international relations in *The Law of Peoples*, his perspective on just war is distinctive and challenging. This Kantian influence leads to a nuanced doctrine with a commitment to peace as the regulative principle of war, characterised as principles of transitional justice that are never fully just. A sceptical perspective emerges that rejects extending the just war doctrine to humanitarian warfare. The Rawlsian statesman would be a dove, rather than a hawk, committed to the belief that war is an evil to be avoided and overcome, and that universal peace should be aspired to.

Key words: John Rawls, Just War, The Law of Peoples, Humanitarian Intervention, Kant.

Cyflwyniad

Damcaniaeth ym maes gwleidyddiaeth yw athrawiaeth rhyfel cyfiawn a gellir olrhain ei gwreiddiau mor bell yn ôl ag athroniaeth ei hun, a ddaeth wedyn dan gryn ddylanwad y meddwl Cristnogol yng ngwaith Awstin Sant a Sant Tomos o Acwin.¹ Yr ysbrydoliaeth ar gyfer yr erthygl hon yw sylwadau cryno John Rawls, athronydd gwleidyddol amlycaf yr ugeinfed ganrif, ar yr athrawiaeth honno. Y bwriad yw cyflwyno dehongliad o'i safbwynt sydd yn cynnig cyfraniad unigryw at y drafodaeth ar y pwnc. Yma, disgrifir ei athrawiaeth ar ryfel cyfiawn fel un o gyfiawnder dros dro, a ddiffinnir gan egwyddor lywodraethol, sef y nod o sefydlu heddwch yn y dyfodol mewn cymdeithas fyd-eang o bobloedd. Amlygir natur unigryw'r persbectif hwn trwy ei gymhwyso i'r broblem o ymyrraeth ddyngarol, sy'n cyflwyno'r syniad o 'ryfel cyfiawnadwy', yn hytrach na rhyfel cyfiawn.

Mae'r erthygl hefyd yn gyfraniad pwysig i'r ddadl ynghylch gwaith Rawls ar wleidyddiaeth ryngwladol – *The Law of Peoples* (LP o hyn ymlaen). Mae'n awgrymu i'r trafod hyd yma fod yn rhy barod i ddisgrifio ei safbwynt fel un ymosodol, 'hebogaidd', yn hytrach nag un heddwchlon, 'colomennaidd'. Cyflwynir dehongliad newydd o'i waith gan gyfeirio'n benodol at ddylanwad Kant a chan amlygu safbwynt sy'n tueddu tuag at heddwchiaeth, gan gyfrannu'n ogystal at y llenyddiaeth sy'n gosod gwerth ar LP fel testun sydd yn cwblhau prosiect athronyddol Rawls.

Mae tri phen i'r ddadl. Yn gyntaf, cyflwynir rhywfaint o'r sylwebaeth ar Rawls fel athronydd 'Hegelaidd' ei safbwynt ar ryfel cyfiawn, sy'n rhagdybio ei fod yn dilyn theori Michael Walzer gan ymestyn yr athrawiaeth i ryfel dyngarol. I'r gwrthwyneb, honnir y dylem ddehongli safbwynt Rawls yng ngoleuni ei ymrwymiad clir i destun Kant, *Towards Perpetual Peace* (TPP), gan esbonio sut y mae hyn yn amlygu tensiynau ymddangosiadol o fewn ei athrawiaeth ynghylch rhyfel cyfiawn.

Yn ail, eir ati i lacio'r tensiynau ymddangosiadol hyn trwy ddangos cysondeb a natur unigryw ei athrawiaeth. Mae'r ddadl hon yn cael ei datblygu mewn dau gam: yn dilyn gwaith Arthur Ripstein ar Kant, rwy'n dadlau bod safbwynt Rawls yn cael ei nodweddu gan syniad Kantaidd, sef mai heddwch yw egwyddor lywodraethol rhyfel. Yna, rwy'n ategu'r honiad hwn trwy ddangos sut y mae athrawiaeth Rawls yn cynrychioli egwyddorion cyfiawnder dros dro, gan symud o gyflwr o ryfel, nad yw'n ddelfrydol, i gyflwr delfrydol o heddwch parhaol.

Yn olaf, ymhelaethaf ar y persbectif gwreiddiol, Rawlsaidd hwn, gan gyfeirio at fater hynod ddadleuol a chyfoes, sef rhyfel dyngarol, gan honni mai 'cyfiawnadwy' – ac nid *cyfiawn* – yw rhyfel o'r fath yn ôl y safbwynt hwn. Yn benodol, ni ellir apelio at y syniad o iawnder (*right*) mewn rhyfel o'r fath. Braslun yn unig o athrawiaeth ynghylch rhyfel cyfiawn a gynigir gan Rawls, felly mae'n agored i nifer o ddehongliadau. Fodd bynnag, o gymryd ei sylwadau ar ddylanwad Kant o ddifrif, dadleuir yn yr erthygl hon y gellir darganfod dull gwreiddiol a phwyllog o ymdrin â rhyfel – un sydd yn fwy addawol o ran lleihau'r camddefnydd o'r athrawiaeth yn enw polisi tramor ymosodol a rhyfygus.

¹ Gweler, er enghraifft, y llyfr *Just Wars: From Cicero to Iraq* (Cambridge: Polity) gan Alex Bellamy (2009).

I – Darllen Rawls ar Ryfel Cyfiawn ac Ymyrraeth Ddyngarol

i) “Hegeliaeth” Rawls

Cymharol gyfyng yw'r sylw a roddir i ymdriniaeth Rawls â rhyfel gan athronwyr. Rheswm pwysig dros hynny yw'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r rhai sydd wedi ymateb i LP yn athronwyr a ysbrydolwyd gan *A Theory of Justice* (TJ o hyn ymlaen), a oedd â mwy o ddiddordeb mewn cwestiynau ynghylch ailddosbarthiad yn y cyd-destun rhyngwladol. Ymhellach, roedd eu beirniadaeth mor ffyrnig fel mai ychydig o ysgolheigion Gwleidyddiaeth Ryngwladol sydd wedi gweld gwerth mewn trafod y testun.

Ar yr olwg gyntaf, a'i gymryd ar ei ben ei hun, nid yw'n hawdd dirnad cyfraniad unigryw Rawls at y drafodaeth am ryfel cyfiawn, ac ymhellach, nid yw Rawls ei hun yn gwneud unrhyw honiadau i'r perwyl hwn. Mae ei drafodaeth yn LP yn rychwantu un dudalen ar bymtheg, ac nid yw'n awgrymu fawr ddim o ran pwyntiau sylweddol sy'n ei gwahaniaethu oddi wrth ddehongliad Walzer. Yn wir, wrth nodi ei syniadau ar *jus in bello*, mae'n cydnabod ei fod yn cyflwyno 'six principles and assumptions familiar from traditional thought on the subject'.²

Mewn troednodyn diweddarach i'w drafodaeth ar imiwnedd sifiliaid mewn rhyfel, dywed:

I follow here Michael Walzer's *Just and Unjust Wars* ... and what I say does not, I think, depart from it in any significant respect.³

Digon rhesymol fyddai tybio bod cyfaddefiad Rawls yn berthnasol i'w drafodaeth ar ryfel cyfiawn, a hynny yn ei chyfanrwydd. Ymddengys mai hwn yw'r doethineb a dderbyniwyd. Honnwyd gan Rex Martin nad yw Rawls yn ychwanegu fawr ddim, os unrhyw beth o gwbl, at ddamcaniaeth Walzer ar ryfel cyfiawn.⁴

Fodd bynnag, mae Martin yn cyferbynnu safbwyntiau Rawls a Walzer, gan ddadlau bod persbectif Rawls yn cynnig gwelliant mewn sawl ffordd: yn ei ymdriniaeth ag iawnderau ymladdwyr, amodau'r argyfwng goruchaf (*supreme emergency*), ynghyd â'r drafodaeth ar weithredwyr cyfreithlon o safbwynt gweinyddu ymyrraeth ddyngarol. Mae Peri Roberts wedi gwneud cyfraniad sylweddol arall o ran ymdriniaeth Rawls â'r argyfwng goruchaf, gan dynnu sylw at ei arwyddocâd mewn perthynas â dehongliad ehangach Rawls o gysylltiadau rhyngwladol,⁵ a dilynir Roberts wrth osod barn Rawls ar ryfel yn benodol o fewn cyd-destun ehangach ei syniadaeth.

Er mwyn enghreifftio'r farn ehangach am Rawls fel damcaniaethwr confensiynol rhyfel cyfiawn, esbonnir dealltwriaeth Martin ac Alyssa Bernstein o Rawls yng nghyd-destun ymyrraeth ddyngarol yn benodol. Mae sylwadau Rawls ar ymyrraeth yn brin, ond ceir

² Rawls, John (1999a), *The Law of Peoples* (Cambridge, MA; London: Harvard University Press), t. 94.

³ Ibid., t. 95, troednodyn 8.

⁴ Martin, Rex (2005), 'Walzer and Rawls on just wars and humanitarian interventions', *Journal of Social Philosophy*, 36 (4), 453.

⁵ Roberts, Peri (2012), 'The supreme emergency exemption: Rawls and the use of force', *European Journal of Political Theory*, 11 (2), 155–71.

peth cydnabyddiaeth y gellir cael cymdeithasau lle y mae iawnderau dynol yn cael eu tramgwyddo'n aml ac yn fwriadol.⁶ Mewn achosion o'r fath, efallai y daw amser pan fydd 'ymyrraeth rymus' yn dderbyniol ac y byddai galw amdani, sef 'when the offenses against human rights are egregious and the society does not respond to the imposition of sanctions'.⁷ Mae Bernstein yn nodi'r tensiynau rhwng egwyddor sy'n mynnu anrhydeddu iawnderau dynol, ac egwyddor yr hawl i ryfel sy'n cyfyngu rhyfel i ryfeloedd hunanamddiffynnol yn unig. O safbwynt barn Rawls, mae'n amau:

Either [he] contradicts himself or else: (a) he does not regard intervening militarily in order to halt egregious violations of human rights as going to war, or (b) he proposes to interpret the fifth principle of LP, which denies to peoples a right to go to war for reasons other than self-defense, as modified by the sixth principle, which requires peoples to honor human rights.⁸

Ei barn hi, a barn Martin, yw bod Rawls wedi dewis opsiwn (b). I Bernstein, mae Rawls yn dechrau lle y gorffennodd Kant: gyda'i feini prawf o drefn degweddol (*decent*) ac iawnderau sylfaenol brys, mae'n adeiladu barn Kantaidd (honedig) ar ryfel dyngarol, sy'n rhoi mwy o fanylion ac arweiniad inni na Kant ar y mater dyrys a thrasig hwn.

Nid yw dehongliad Bernstein o Rawls yn gosod meini prawf isel iawn o ran ymyrraeth arfog. Yn wir, mewn ysgrif arall mae'n dadlau yn erbyn yr awgrym bod athroniaeth Rawls yn cyfiawnhau ymyrraeth mewn cymdeithasau annemocrataidd, er mwyn sicrhau newid cyfundrefn i drefn ddemocrataidd (roedd hyn yn ystod adeg o fyfyrrio ar ryfel Irac).⁹ Mae cymdeithasau tegweddol yn ffurfiau dilys o reolaeth wleidyddol, a rhaid goddef mathau eraill o gymdeithasau yn yr un modd; term Rawls ar gyfer y rheiny yw 'Unbennaeth Graslun' (*Benevolent Absolutism*), lle nad oes strwythurau'n bodoli i ganiatáu diwygio'r drefn wleidyddol gan y dinasyddion, ond lle y mae iawnderau dynol sylfaenol yn cael eu parchu a'u gwarchod.

Fodd bynnag, mae Bernstein yn tynnu sylw at y posibilrwydd fod agwedd Rawlsaidd yn cyfiawnhau rhyfel dyngarol, os bu i lywodraeth gwlad fynd yn groes i iawnderau dynol sylfaenol i'r fath raddau nes bod rheswm moesol digonol dros ei disodli.¹⁰ Fodd bynnag, mae'n ofalus iawn wrth ddadlau'r achos, gan nodi'n bwrpasol: hyd yn oed os yw'r weithred hon yn golygu y bydd angen cymorth ar ôl y rhyfel, ni ellir defnyddio sefydlu trefn ddemocrataidd

⁶ Rawls, LP, t. 90, troednodyn 1.

⁷ Ibid., t. 94, troednodyn 6.

⁸ Bernstein, Alyssa (2009), 'Kant, Rawls, and Cosmopolitanism: Toward Perpetual Peace and The Law of Peoples', yn *Jahrbuch für Recht und Ethik / Annual Review of Law and Ethics*, 17 (Berlin: Duncker & Humblot), 33.

⁹ Bernstein, Alyssa (2006), 'A Human Right to Democracy? Legitimacy and Intervention', yn *Rawls's Law of Peoples: A Realistic Utopia?*, Martin, Rex, a Reidy, David (goln) (Oxford: Blackwell Publishing), tt. 278–98.

¹⁰ Ibid., t. 293.

o'r newydd fel ffactor sy'n cyfiawnhau rhyfel. Yn ogystal, mae'n ddyletswydd foesol sicrhau bod ailadeiladu o'r fath ar ôl y rhyfel yn gydnaws â hanes, traddodiadau a dyheadau penodol y gymdeithas dan sylw, ac nad yw'n gorfodi strwythurau democrataidd ar y gymdeithas. Nid yr honiad hwn bod Rawls yn caniatáu'r fath ddefnydd o rym yr anghytunir ag ef yn yr erthygl hon – yn hytrach, dadleuir yn erbyn yr awgrym fod Rawls yn derbyn trais mewn achos o'r fath yn gyfystyr ag estyniad llawn o'i athrawiaeth ynghylch rhyfel cyfiawn i gynnwys rhyfel dyngarol.

Er nad yw Martin yn mentro i dir trafodaeth ynglŷn ag aildrefnu democrataidd o gyfundrefnau gwleidyddol (*regime change* yn y Saesneg), mae yr un mor ddiamwys â Bernstein ynghylch estyniad Rawls o'r athrawiaeth rhyfel cyfiawn. O ran Rawls a Walzer, mae'n nodi bod y ddau ddamcaniaethwr yn dadlau y gall gwlad ryfela'n gyfiawn am ddau reswm: gall wneud hynny wrth amddiffyn ei hun neu wrth amddiffyn ar y cyd yn erbyn ymddygiad ymosodol, neu gall wneud hynny mewn ymateb i dramgwyddo iawnderau dynol o'r math difrifol.¹¹ Gyda'r safbwynt hwn, mae Martin yn tynnu sylw at y ffaith fod y fersiwn hwn o athrawiaeth Rawls yn cyd-fynd â dealltwriaeth llawer o bobl eraill o ryfel cyfiawn. Mae Rawls yn nodi'n benodol ei fod wedi llunio'i egwyddorion ar sail hanes a defnydd cyfraith, ac ymarfer cyfraith ryngwladol.¹² Maent hefyd yn cyd-fynd â newid dramatig diweddar yn y modd yr hoffai rhai i gyfraith ryngwladol gael ei deall¹³ gan gynnig sail dros dybio bod Rawls yn bwriadu i'w athrawiaeth ynghylch rhyfel cyfiawn gynnwys rhyfel dyngarol.¹⁴

Yr hyn sydd efallai'n fwyaf arwyddocaol am yr honiadau hyn ynglŷn â Rawls yw'r math o bortread y mae Martin yn ei gynnig o'i safbwynt. Mae ei athrawiaeth ynghylch rhyfel cyfiawn yn cael ei phortreadu fel un 'Hegelaidd' ei naws, gan dderbyn rhyfel, fe ymddengys, fel nodwedd barhaol o'r drefn ryngwladol, a chan ganiatáu'r honiad o ryfel cyfiawn dan amgylchiadau niferus. Yn wir, mae'r amwysedd ynglŷn â pha mor isel y mae Rawls yn gosod y bar o safbwynt ymyrraeth arfog yn arwain Henry Shue i ddadlau y byddai persbectif Rawlsaidd yn cyfiawnhau cyhoeddi rhyfel yn erbyn unrhyw wladwriaeth sy'n arddangos tueddiad i amharchu iawnderau dynol.¹⁵ I Shue, mae'r agwedd oddefol hon yn deillio o fethiant Rawls i amlinellu egwyddorion i strwythuro perthnasau¹⁶ rhwng aelodau ei 'Gymdeithas o Bobloedd' a herw-wladwriaethau (*outlaw states*); pe rhoddid mwy o sylw i'r mater pwysig hwn, yn ei farn ef, ni fuasai Rawls yn cynnig egwyddorion mor gyffredinol, a byddai'n agored i gamddefnydd yn enw cyfiawnder. Yn wir, mae Shue yn peintio darlun apocalyptaidd o berthnasau rhyngwladol trwy lens honedig Rawlsaidd.¹⁷

¹¹ Martin, 'Walzer and Rawls', 439.

¹² Rawls, *The Law of Peoples*, t. 57.

¹³ Ibid., t. 27.

¹⁴ Mae Martin, fodd bynnag, yn awgrymu'r angen am ofal wrth ymdrin â dehongliad o'r fath. Gweler Martin, 'Walzer and Rawls', t. 448.

¹⁵ Shue, Henry (2002), 'Rawls and the Outlaws', *Politics, Philosophy & Economics*, 1 (3), 307–23. Gweler Reidy am ddehongliad cywir: Reidy, David (2010), 'Human Rights and Liberal Toleration', *Canadian Journal of Law and Jurisprudence*, 23 (2), 287–317.

¹⁶ Shue, 'Rawls and the Outlaws', 308.

¹⁷ Ibid., 309–10.

ii) ‘Kantiaeth’ Rawls

Tra bo dadl Shue yn dangos i ba raddau y gellir cyflwyno safbwynt Rawls fel un ‘hebogaidd’, mae lle i dybio bod dehongliad llai radical Bernstein a Martin hefyd yn groes i fwriad cyffredinol Rawls. Byddai’r un mor hawdd i ddisgrifio’i farn fel un ‘golomennaidd’ sydd yn amheus o’r defnydd o drais, ac fel y noda Darren Moellendorf, mae ei ddehongliad wedi’i gynnwys o fewn llwyth cyfoethog o ymrwymadau ymarferol i gysylltiadau rhyngwladol.¹⁸ Yr ymrwymadau Kantiaidd hyn yr eir ati i’w trafod yn awr; bydd hyn yn amlygu’r tensiynau rhyngddynt a’r dehongliadau uchod, ac yn wir y drafodaeth ehangach o gwmpas ymdriniaeth Rawls â chysylltiadau rhyngwladol, gan osod y sylfaen ar gyfer dehongliad mwy gwerthfawr o’i ddull o gyfiawnhau rhyfel.

Yn wyneb rhai o’r dadleuon blaenorol, mae Rawls mewn perygl o gael ei ddarlunio fel un sydd ag agwedd oddefgar iawn tuag at ryfel, darlun a ddylai godi amheuon yn syth (yn wir, mae Moellendorf yn awgrymu bod y term ‘heddychiaeth amodol’¹⁹ yn un priodol wrth ddisgrifio’r safbwynt y mae’n dechrau ei ddatblygu yn TJ). Ymhellach, o ran LP, honiad sylfaenol Rawls yw ei fod yn dilyn TPP Kant, a’i fod yn credu y gall gwladwriaethau anelu’n raddol at ffurfio ffederasiwn heddychlon byd-eang. Yn reddfól, byddai rhywun yn tybio nad yw’r agweddau hyn yn cyd-fynd â’r dehongliadau ymladdgar braidd o du Bernstein a Martin. Yn wir, yn dilyn gwaith diweddar Arthur Ripstein ar Kant, dadleuir yn yr erthygl hon mai heddwch yw’r cysyniad canolog ym moesoldeb rhyfel o safbwynt Rawls.²⁰

Noda Rawls yn y cyflwyniad i LP mai ei syniad sylfaenol yw dilyn arweiniad Kant fel y’i hamlinellwyd ganddo yn TPP a’i syniad o ‘*foedus pacificum*’.²¹ Yn fwy penodol, mae’n cyd-fynd â chynnwys y testun hwnnw’n llwyr, a syniad Kant fod yn rhaid i bob cyfundrefn gyfansoddiadol gyfrannu at gyfraith y pobloedd (*law of peoples*) rhyngwladol effeithiol, er mwyn llawn wireddu rhyddid ei dinasyddion yn y sffêr domestig.²² O ystyried awydd Rawls i efelychu TPP, mae angen craffu rhywfaint ar y cysyniad o ryfel cyfiawn yn y testun hwn. Wedi’r cyfan, mae testun enwog Kant y mae Rawls yn ceisio ei efelychu yn gwrthod yr athrawiaeth yn llwyr.

Yn eu hymdrechion i gyfiawnhau rhyfel o dan gyfraith ryngwladol, cyfeiria Kant at Grotius, Pufendorf a Vattel fel cysurwyr Job.²³ Yn hytrach, dadleua y dylai gwladwriaethau symud o gyflwr o anarchiaeth gymharol (wedi ei llunio gan gyfraith sy’n seiliedig ar gydraddoldeb sofran ac annibyniaeth, lle y gwél pob gwladwriaeth ‘its majesty ... in its being subject to no external legal coercion’²⁴) tuag at gytundeb sy’n seiliedig ar ffederasiwn heddychlon. Byddai

¹⁸ Moellendorf, Darren (2013), ‘Just War’, yn *A Companion to Rawls*, Reidy, David, a Mandle, Jon (goln) (Chichester: Blackwell Companions to Philosophy), t. 383.

¹⁹ Ibid., ‘Just War’, t. 382.

²⁰ Ripstein, Arthur (2016), ‘Just War, Regular War and Perpetual Peace’, *Kant-Studien*, 107, t. 184.

²¹ Rawls, *The Law of Peoples*, t. 10.

²² Ibid., t. 10.

²³ Kant, Immanuel (2006), *Toward Perpetual Peace and Other Writings on Politics, Peace, and History*, Kleingeld, Pauline (gol.), cyfieithwyd gan Colclasure, David L. (New Haven and London: Yale University Press), t. 79.

²⁴ Ibid.

ffederaliaeth rydd o'r fath yn 'surrogate for the compact of civil society'.²⁵ Dim ond o dan gyfundrefn ddirprwyol o'r fath y gall cysyniad o iawnder rhyngwladol olygu unrhyw beth o gwbl.²⁶ Mae iawnder rhyngwladol, h.y. yr hawl i ryfela, yn ddim mwy na hawl ragdybiedig ar ran gwladwriaeth i benderfynu'r hyn sydd yn iawn, trwy drais, a hynny ar sail rheol unochrog.²⁷ Mae Kant yn gwrthod y syniad hwn bod gan iawnder unrhyw rôl syml yn y cyhoeddiad ac arfer o ryfel. Yn fwy ymarferol, mae'n poeni bod damcaniaethwyr fel Vattel, trwy bennu hawl i ryfel, yn cynnig cyfiawnhad di-sail ac athronyddol anghydnaws y gall gwladwriaethau ei ddefnyddio er mwyn cyhoeddi rhyfel; yn wir, mae'r cysurwyr Job hyn yn dal i gael eu dyfynnu'n ffyddlon, er mwyn cyfiawnhau rhyfel ymosodol.²⁸

O ystyried pryderon Kant yn TPP ynghylch peryglon ymgorffori rheolau rhyfel cyfiawn mewn gwleidyddiaeth ryngwladol, a'u potensial i gynyddu ansefydlogrwydd a thrais, gallasai Rawls fod wedi cynnig rhesymau pam y bu iddo dderbyn a chymeradwyo damcaniaeth rhyfel cyfiawn, a chydabod y gwahaniaeth rhyngddo a Kant ar y mater.²⁹ Mae Moellendorf yn tynnu sylw at y ffaith hon:

Rawls takes Kant's *Perpetual Peace* as a guide for the development of his views in *LP* (*LP*, 10). But nothing could be further from Kant's concerns in *Perpetual Peace* than the interest that Rawls has in incorporating principles of just war into the Law of Peoples. Kant is openly hostile to just war principles and is scathing in his criticism of his predecessors who sought to develop the doctrines of just war.³⁰

Nid yw Rawls yn cynnig unrhyw ymateb uniongyrchol, nac esboniad dros ei benderfyniad i ymgorffori egwyddorion rhyfel cyfiawn fel egwyddorion o gyfiawnder o fewn siarter cyfraith y pobloedd. Mae'r egwyddorion yn ymddangos fel rhan o'r hyn y gellir ei alw'n *hanfodion cyfansoddiadol* ei gyfraith ryngwladol. Tra bo dull cyffredinol Kant o ymdrin â rhyfel yn TPP yn canolbwyntio ar y camau y gall gwladwriaethau eu cymryd er mwyn tanseilio'r tueddiad tuag at ryfel – gan wfftio'r rhyfel cyfiawn fel cysyniad sy'n anrnod yn cyfiawnhau trais – mae Rawls yn cynnig lle amlwg i'r egwyddorion hyn, ochr yn ochr â'i egwyddorion eraill ynghylch cyfiawnder rhyngwladol. Mae Kant yn derbyn bod rhyfel yn rhan hynod alaethus o arfer gwleidyddiaeth ryngwladol – lle nad oes cyfraith gyffredin na hawliad o iawnder yn bodoli – ond mae'n credu bod ei elfennau dinistriol yn ein cymell i'w wrthod yn y tymor hir, a cheisio datrysiaid heddychlon; ar yr wyneb, gall ymddangos fel petai Rawls yn caniatáu swyddogaeth fwy parhaol i ryfel.

²⁵ Ibid., t. 80.

²⁶ Ibid.

²⁷ Ibid., t. 81.

²⁸ Ibid., t. 80.

²⁹ Dim ond ers cyhoeddi LP y rhoddwyd sylw i'r farn fod gan Kant athrawiaeth ynghylch rhyfel cyfiawn, gyda'r farn honno'n dibynnu ar ddehongliad amgen o destunau eraill Kant.

³⁰ Moellendorf, 'Just War', t. 389.

Mae modd pwysleisio ymhellach y tensiwn ymddangosiadol hwn yn safbwynt Rawls drwy gyfeirio at waith arloesol Walzer ar ryfel cyfiawn. Yn ei gyflwyniad i *Just and Unjust Wars*, awgryma Walzer fod cryn wahaniaeth rhwng yr arddull y mae ef yn ei mabwysiadu a'r arddull feta-foesegol 'Kantaidd'. Diddordeb pennaf Walzer yw egluro a datgelu strwythur presennol y byd moesol drwy gyflwyno egwyddorion rhyfel cyfiawn. Fodd bynnag, mae hefyd yn cydnabod persbectif arall sydd wedi ymrwymo i ailstrwythuro cymdeithas ryngwladol.³¹ Mae'n cyfeirio at ddull o'r fath fel un iwtalitaraid, ond gellir cymhwysu'r disgrifiad cyffredinol i safbwynt Rawls: un sydd yn ymateb i dlodi'r drefn ryngwladol gyfoes trwy briodoli rhyw bwrpas iddi – cyflawni rhyw fath o 'drefn fyddol' – gan ailddehongli'r gyfraith er mwyn cyd-fynd â'r pwrpas hwnnw.³²

Er bod gan Walzer uchelgais gymedrol o fynegi syniadau am ryfel cyfiawn, sef cyfyngu ar ffyrnigrwydd ac amllder rhyfel ynghyd â sicrhau heddwch gwell, mae theori ryngwladol Rawls wedi ei seilio mewn modd penodol ar y rhagdybiaeth fod ei egwyddorion a'i syniadau yn ysgogiad i sicrhau cyfundrefn fyd-eang heddychlon – *iwtopia ddichonadwy*. O'i ddeall yn y fath fodd, mae'n rhaid cwestiynu'r argraff gyntaf hon y byddai Rawls am sefydlu athrawiaeth rhyfel cyfiawn ymysg egwyddorion hanfodol a pharhaol ei weledigaeth o'r gymdeithas ryngwladol. Nid gwrthod beirniadaeth Kant yn unig fyddai hyn; byddai hefyd yn ymgorffori'r syniad o ryfel cyfiawn fel rhan barhaol o wead cysylltiadau rhyngwladol: safbwynt sy'n amlwg yn groes i'w honiadau am iwtopia ddichonadwy ledled y byd. Yn y mater hwn, ymddengys fod safbwynt Rawls yn nes at bersbectif Walzeraid, sy'n llai gobeithiol am y syniad o sefydlu heddwch parhaol, ac sy'n ystyried gweithredoedd ymosodol fel bygythiad parhaus. Ni ellir byth ddisgwyl i ryfeloedd cyfiawn ddileu trais anghyfreithlon, dim ond ymdopi â gweithredoedd treisgar penodol.³³ Yn bwysicach na dim, ymddengys mai dyma'r modd mae ei ddehonglwyr wedi deall ei safbwynt. Wrth weithio trwy'r tensiwn hwn a chanolbwyntio ar 'gasgliad cyfoethog o ymrwymadau ymarferol' Rawls, cyflwynir yn yr erthygl hon ddehongliad gwahanol o'i athrawiaeth ynghylch rhyfel cyfiawn, gan ddangos ei fod yn fwy o golomen na hebog, gydag agwedd gynnil tuag at ymyrraeth ddyngarol, sy'n adleisio amheuan Kant ynghylch rhyfel.

II – Ailystyried safbwynt Rawls ar ryfel

Wrth ddehongli Rawls, gan gyfeirio at themâu Kantaidd, eir ati i ddehongli ei egwyddorion ynghylch rhyfel cyfiawn fel rhai a ddiffinnir yn benodol gan y syniadau mai 1) heddwch yw'r egwyddor lywodraethol a 2) eu bod yn cynrychioli egwyddorion cyfiawnder dros dro. Wrth ddadlau mai colomen yn hytrach na hebog yw Rawls, ac athronydd sy'n amheus ynghylch rhyfel, mae'n briodol nodi bod Rawls ei hun wedi profi gwewyr rhyfel. Pan noda felly fod

³¹ Walzer, Michael (2006), *Just and Unjust Wars: A Moral Argument with Historical Illustrations*, 4ydd argraffiad (New York: Basic Books), t. xxi.

³² Ibid., t. xi.

³³ Ibid., t. 121.

rhyfel yn fath ar uffern,³⁴ mae'n gwneud hynny gyda rhywfaint o deimlad ac awdurdod. Yn ei henaint, cyfaddefodd i ddigwyddiadau rhyfel, yn ogystal â natur annealladwy yr Holocaust, ei droi oddi wrth Gristnogaeth a thuag at athroniaeth.³⁵ Mewn gwirionedd, cymhellant dwfn dros ddiddordeb athronyddol Rawls mewn cyfiawnder yw ei gred, unwaith y bydd y ffurfiau mwyaf enbyd o anghyfiawnder gwleidyddol yn cael eu dileu, trwy greu sefydliadau sy'n sylfaenol gyfiawn (neu o leiaf yn degweddol), bydd y drygau mawr yn diflannu yn y pen draw.³⁶

Gan ddilyn Rousseau, mae Rawls yn credu – lle y mae gwerthoedd cyfiawn a thegweddol yn bodoli, wedi eu hymgorffori o fewn sefydliadau cymdeithas – fod pob rheswm dros dybio y bydd y rhai sy'n cael eu magu o fewn y sefydliadau hyn yn dod i gefnogi'r gwerthoedd hynny a'u cadarnhau.³⁷ Mae'r syniad fod personau a phobloedd yn gallu dysgu mewn modd moesol yn allweddol i'r posibilrwydd o wireddu iwtopia ddichonadwy ar y gwastad domestig a rhyngwladol, lle y gall pob cymdeithas yn y byd gytuno ar gyfraith y pobloedd sylfaenol. Mewn cymdeithas o'r fath o bobloedd ryddfrydol a thegweddol, gellir dileu drygau mawr hanes dynol ac, yn unol â thybiaethau'r ddamcaniaeth heddwch democrataidd (*democratic peace theory*), bydd y pobloedd hyn yn byw mewn heddwch. Er bod Rawls yn mynd i drafferth fawr i gyflwyno LP fel damcaniaeth wleidyddol yn hytrach nag un fetaffisegol, yn ei ffydd Rousseauaidd yn y natur ddynol, mae'n amlygu'r math o nodau metaffisegol optimistaidd sy'n ei nodweddu fel meddyliwr, ac yn datgelu'r hyn sy'n ysgogi ei iwtopiaeth ddichonadwy, ynghyd â'i optimistiaeth a gobaith ynghylch sefydlu'r heddwch parhaol.³⁸

i) Egwyddor llywodraethol heddwch

Cyflwynwyd trafodaeth gyntaf Rawls am ryfel cyfiawn yn TJ (ychydig flynyddoedd cyn gwaith Walzer).³⁹ Y prif nod yn y cyd-destun hwn oedd cyflwyno'i gyfiawnhad o wrthwynebiad cydwybodol (yn ystod adeg rhyfel Fietnam), ac roedd gwneud hynny yn gofyn am fraslun byr o gyfraith y cenhedloedd, y byddai'n ymhelaethu arni yn LP. Yn y bôn, ei nod oedd sefydlu egwyddorion rhyfel cyfiawn fel sail ar gyfer cysyniad gwleidyddol o wrthwynebiad cydwybodol. Dadleua mai'r cyfiawnhad eithaf dros ryfel hunanamddiffynnol yw galluogi cymdeithas i gynnal ei sefydliadau cyfiawn a'r amodau sy'n eu gwneud yn bosibl,⁴⁰ tra bydd yr egwyddorion sy'n rheoli dulliau rhyfel yn gyson ag amcan rhyfel: sef heddwch cyfiawn. Yn hynny o beth, mae'n rhaid i'r dulliau a ddefnyddir beidio â dinistrio'r posibilrwydd o heddwch, nac annog dirmyg tuag at fywyd dynol a fyddai'n gosod ein diogelwch ein hunain a dynol ryw yn y fantol.⁴¹

³⁴ Rawls, *The Law of Peoples*, t. 103.

³⁵ Gweler Thomas Pogge (2007), *John Rawls: His Life and Theory of Justice* (Cambridge: Polity Press) am yr hanesion hyn a manylion bywgraffiadol pellach.

³⁶ Rawls, *The Law of Peoples*, t. 7.

³⁷ Ibid., t. 7.

³⁸ Ibid., t. 103.

³⁹ Rawls, John (1999b), *A Theory of Justice* [1971], arg. diwygiedig (Oxford, New York: Oxford University Press), tt. 331–4.

⁴⁰ Ibid., t. 333.

⁴¹ Ibid., t. 332.

Cyflwynir dau bwynt arwyddocaol yma. Er bod Moellendorf yn nodi bod y drafodaeth yn TJ yn arddangos rhai problemau (yn bennaf y diffyg ymdriniaeth ag egwyddorion *jus in bello*, sef yr egwyddorion sy'n rheoli dulliau rhyfel), yr hyn sydd o'r pwys mwyaf yma yw'r polisi o amheuaeth radical a chyffredinol⁴² y mae Rawls yn ei sefydlu o ran y cwestiwn: a all rhyfeloedd fodloni gofynion rhyfel cyfiawn? Yn wyneb hyn, gall math o heddychiaeth amodol fod yn safbwynt hollol resymol.⁴³ Nid yw man cychwyn o'r fath heb ei arwyddocâd, gan adlewyrchu profiadau Rawls ei hun a llywio ei farn ar ryfel ac ymyrraeth ddyngarol.

Yr ail bwynt yw'r pwysigrwydd canolog y mae Rawls yn ei roi i'r nod o sicrhau heddwch cyfiawn, fel y cysyniad diffiniol mewn perthynas â'n hymdriniaeth â rhyfel. Yn hyn o beth, gallwn nodi thema Kantaid yn y gwaith, fel a ddisgrifir yn esboniad Ripstein o agwedd Kant tuag at ryfel. Mae Ripstein yn esbonio, er bod Kant yn dangos dirmyg at ryfel, mae'n caniatáu'r posibilrwydd y gellir ei gynnal o fewn cwrpawd egwyddor arweiniol; gyda rhyfel, yr unig ganlyniad cyfreithlon yw sicrhau heddwch.⁴⁴ Yn y bôn, mae rhyfel yn sefyllfa farbaraidd lle y mae cyfreithlondeb yn darford; fodd bynnag, gall rhywun ddarnad y ddelfryd o iawnder, ac felly egwyddor arweiniol, yn y syniad bod rhywbeth tebyg i gontract wedi ei ragdybio, h.y. bod y ddwy ochr wedi derbyn eu bod yn ceisio sefydlu eu hawliau trwy ryfel. Dim ond o feddwl am ryfel yn y cyd-destun hwn y gellir ei wneud yn ddealladwy (er y rhagdybir nad yw'r sawl sy'n rhyfela yn ei ddeall fel hyn) – gan gymryd bod y ddwy ochr yn benderfynol o ddod â'r anghydfod i ben a derbyn yr heddwch sy'n dilyn:

That is, the grounds and conduct of war must be consistent with future peaceful resolution ... a positive condition in which states accept that disputes will be resolved peacefully, that is on their merits.⁴⁵

Dadleuir yma fod dealltwriaeth Rawls o ryfel cyfiawn yn glynu wrth yr un gwerth arweiniol â Kant: mai 'peace is the constitutive principle through which war can have a regulative principle ... Even in horrific circumstances, morality still has something to say'.⁴⁶

Datblygir trafodaeth Rawls am ryfel cyfiawn yn LP, yn gyforiog o'r pwyslais ar heddwch yn TJ. Mewn gwirionedd, gallai rhywun fentro bod yr egwyddorion hyn yn deillio llawn cymaint o'r 'Rawls cynnar' ag y maent o theori Walzer. Mae'r ddwy egwyddor berthnasol y mae'n eu hamlinellu fel rhan o siarter cyfraith y pobloedd fel a ganlyn:

5. Peoples have the right of self-defence but *no right* to instigate war for reasons other than self-defence ... (italeiddiwyd gan yr awdur)

7. Peoples are to observe certain specified restrictions in the conduct of war.⁴⁷

⁴² Moellendoerf, 'Just War', t. 382.

⁴³ Rawls, *A Theory of Justice*, t. 335.

⁴⁴ Ripstein, 'Just War, Regular War', 193.

⁴⁵ Ibid., 190.

⁴⁶ Ibid., 195.

⁴⁷ Rawls, *The Law of Peoples*, t. 38.

O ran *jus ad bellum* (yr amodau hynny sy'n caniatáu rhyfel), yn ôl Rawls mae cyfraith y pobloedd yn pennu 'to all well-ordered peoples (both liberal and decent) ... the right to war in self-defence'.⁴⁸ Wrth weithredu i'w hamddiffyn eu hunain, efallai fod gan bobl ddehongliadau gwahanol o'r hyn y maent yn ei amddiffyn. Yn achos Rawls, gan gyfeirio at egwyddor lywodraethol heddwch, gallai rhywun awgrymu bod yr hawl dybiedig i ryfela, a gorfodaeth filwrol, yn seiliedig ar ei farn ef ynghylch y posibilrwydd o warchod sefydliadau a breintiau, yn ogystal â'r heddwch a'r rhyddid y maent yn eu cynrychioli. Mae llywodraethiant rhyfel wedi ei ymgorffori o fewn dyhead ehangach ffederasiwn heddychlon byd-eang, gyda'r pwyslais nid yn unig ar amddiffyn pobl, ond ar gynnal ac annog llywodraethiant da (thema y mae James Turner Johnson yn ei chysylltu â'r traddodiad Cristnogol).⁴⁹

Ymhelaethir ar egwyddorion *jus in bello* gan Rawls. Maent yn egwyddorion a thybiaethau y mae Rawls yn honni sy'n gyfarwydd mewn ymdriniaethau traddodiadol â'r pwnc, yn yr un modd ag y mae ei wyth egwyddor ar gyfer siarter cyfraith y pobloedd i raddau helaeth yn egwyddorion cyfarwydd a thraddodiadol.⁵⁰ Ac eto, mae Moellendorf yn nodi nad yw'r naill na'r llall o ddwy egwyddor gyntaf Rawls (sef mai nod rhyfel cyfiawn yw heddwch cyfiawn a pharhaol, ac nid yw cymdeithasau trefnus yn rhyfela yn erbyn ei gilydd) yn draddodiadol ymysg egwyddorion *jus in bello*.⁵¹ Mae'n eu cyfiawnhau yn nhermau eu gwerth gweithredol yn y prosiect tymor hir o sicrhau cyfiawnder rhyngwladol⁵² – hynny yw, gwelir bod Rawls wedi ymgorffori'r egwyddor llywodraethol o heddwch, ynghyd â'r uchelgais o greu *foedus pacificum*, o fewn egwyddorion *jus in bello*.

Mae ffigwr y gwladweinydd yn pwysleisio'r syniad hwn (ffigwr sydd â nodweddion tebyg i 'wleidydd moesol' Kant, gwleidydd sy'n ceisio'r hyn sy'n iawn yn hytrach na hwylustod, ac sy'n ystyried gwleidyddiaeth fel tasg foesol yn hytrach na thasg dechnegol fel y'i disgrifiwyd gan y moesolwr gwleidyddol).⁵³ Mae Rawls yn priodoli pwysigrwydd aruthrol i'r ffigwr hwn, ac mae'r ddelfryd yn cael ei hawgrymu trwy ddweud: ar yr etholiad nesaf y mae llygad y gwleidydd, ond edrych ymlaen at y genhedlaeth nesaf y mae'r gwladweinydd.⁵⁴ Mae'r gwladweinydd yn berson o natur unigryw sydd, trwy ei berfformiad a'i arweiniad rhagorol yn ei swydd, yn amlygu cryfder, doethineb a dewrder.⁵⁵ Unigolion fel Washington a Lincoln sydd gan Rawls mewn golwg (yn hytrach na Churchill, a brofodd yn fwy o wleidydd na gwladweinydd gyda'i ymosodiad ar Dresden), unigolion sydd ar adegau peryglus yn sylfaenol bwysig drwy sicrhau bod gwladwriaethau trefnus yn ymddwyn yn unol ag egwyddorion *jus in bello*, ac nad ydynt yn gwegian dan angerdd na mileindra. Yn yr un modd, gallant arfer crebwyll gwleidyddol, pan na all yr egwyddorion hyn eu tywys i'r eithaf. Yn anad dim,

⁴⁸ Ibid., t. 91.

⁴⁹ Johnson, James Turner (2013), 'Contemporary Just War Thinking: Which is Worse, Friends or Critics?', *Ethics and International Affairs*, 27 (1), 41.

⁵⁰ Rawls, *The Law of Peoples*, t. 43.

⁵¹ Moellendorf, 'Just War', t. 386.

⁵² Ibid., t. 386.

⁵³ Kant, *Toward Perpetual Peace*, t. 100.

⁵⁴ Ibid., t. 97.

⁵⁵ Ibid.

mae gofyn bod gwladweinwyr yn glynu at y nod o emill heddwch cyfiawn a thrwy hynny weithredu yn unol â'r egwyddor lywodraethol o heddwch.⁵⁶

Dylid nodi, serch hynny, na ddylai'r gwladweinwyr sefyll ar eu pennau eu hunain wrth fynd i'r afael â chyfyng-gyngor moesol rhyfel, na gweithredu penderfyniadau o bwysigrwydd oesol ar eu pennau eu hunain. Tasg athronwyr yw mynegi amodau parhaol a gwir fuddiannau cymdeithas drefnus⁵⁷ (eto, mae'r swyddogaeth hon yn ymdebygu i sefyllfa athronydd Kant) tra bo'n rhaid ymgorffori normau rhyfel cyfiawn yn niwylliant gwleidyddol pobloedd rhyddfrydol a thegweddol. Dadleua Rawls, hyd yn oed pe bai mynegiant cryw o egwyddorion o ryfel cyfiawn wedi dod i'r amlwg cyn bomio Hiroshima a Nagasaki, y byddai wedi bod yn rhy hwyr gan fod bomio sifiliaid yn arfer derbyniol mewn rhyfel bryd hynny.⁵⁸ Felly, er mwyn cael unrhyw ddylanwad ar wrthdaro milwrol, mae angen i'r egwyddorion hyn fod yn rhan o'r diwylliant gwleidyddol o flaen llaw, yn yr un modd ag y dylid trafod sylfeini democratiaeth yn barhaus, gan ragdybio eu bod yn gweithredu yn y cefndir.⁵⁹

Yma, gwelir trywyddau Rawls a Kant yn cydreddeg ac yna'n ymwahanu oddi wrth ei gilydd; mae gan y cyntaf gred glir y gall egwyddorion rhyfel cyfiawn fod yn weithredol er mwyn osgoi erchyllterau gwaethaf rhyfel, gan liniaru yn hytrach na dwysáu sefyllfaoedd o drais. Yn hyn o beth, mae Rawls o'r farn bod iawnder yn amlwg mewn rhyfel amddiffynnol, ac y gellir ei fynegi o fewn fframwaith athrawiaeth rhyfel cyfiawn. Mae Kant, fodd bynnag, yn awgrymu y dylir yn hytrach ragdybio'r syniad o iawnder mewn rhyfel (un sydd yn absennol i raddau helaeth) er mwyn amgyffred egwyddor llywodraethol heddwch. Ond er bod Rawls yn wahanol i Kant o ran iawnder, mae'n rhannu'r syniad allweddol y *gallwn* ac y *dylem* symud tuag at heddwch sefydlog, ac yn hyn o beth mae ei egwyddorion ynghylch rhyfel cyfiawn yn cael eu cynnwys o fewn yr ymrwymiad i sicrhau heddwch sefydlog yn yr hir dymor. Yr hyn a welir, felly, yw gwahaniaeth rhyngddo ef a Kant, nid yn eu ffydd mewn heddwch parhaol, ond yn hytrach yn y modd o'i sicrhau – a bod Rawls yn gweld rhyfel cyfiawn fel athrawiaeth sydd yn ein symud tuag at y nod hwnnw, ond mai rhwystr ydyw i Kant.

ii) Athrawiaeth rhyfel cyfiawn fel egwyddor cyfiawnder dros dro

Wedi sefydlu heddwch fel yr egwyddor llywodraethol sy'n strwythuro athrawiaeth Rawls ynghylch rhyfel cyfiawn, symudir ymlaen yn awr at yr ail ddadl sy'n sail dros honni bod ei ddehongliad yn newydd ac yn wahanol, sef bod ei athrawiaeth yn un o gyfiawnder dros dro. Mae'r ddadl hon yn mynd i'r afael â her y tensiwn rhwng ffydd Rawls mewn heddwch, a swyddogaeth ymddangosiadol sefydlog athrawiaeth rhyfel cyfiawn yn ei ddehongliad o wleidyddiaeth ryngwladol – safbwynt sydd wedi ei ddisgrifio fel persbectif Hegelaidd. Mae'r flaenoriaeth gyffredinol a roddir i'r wladwriaeth yn ei feddylfryd moesegol, y flaenoriaeth a roddir i fuddiannau'r wladwriaeth yn LP, a'i ddarlun o ryfel fel ffurf gyfreithlon o ryngweithio

⁵⁶ Rawls, *The Law of Peoples*, t. 98.

⁵⁷ Ibid., t. 97.

⁵⁸ Ibid., t. 102.

⁵⁹ Ibid.

gwleidyddol⁶⁰ i gyd yn fotiffau y gellir eu hadnabod fel rhai Hegelaidd. Dadleua Howard Williams fod damcaniaethwyr cyfoes ynghylch rhyfel cyfiawn fel Walzer yn tueddu'n fras i fod yn Hegelaidd, gyda'u rhagdybiaeth fod gan ryfel ei ran i'w chwarae yn normalrwydd cysylltiadau rhyngwladol, yn ogystal â rhagdybiaeth o gyfreithlondeb rhyfel fel modd o ddatrys anghydfod o fewn y fframwaith rhyngwladol cyfredol⁶¹ – agwedd sy'n adlewyrchu barn Grotius, Pufendorf a Vattel, a'r hyn y mae Ripstein yn cyfeirio ato fel y persbectif llywodraethol ar ryfel.⁶² Nid yw Rawls yn eithriad yn ôl Williams, hyd yn oed os yw'n torri allan o'r mowld Hegelaidd wrth dderbyn efallai y bydd cymdeithas fyd-eang well a mwy heddwchlon i ddod.⁶³ Yma, dadleuir y gellir ystyried Rawls yn y pen draw yn fwy Kantaidd na Hegelaidd, yn ei gred ei bod yn bosibl hepgor egwyddorion dros dro rhyfel cyfiawn mewn iwtopia ddichonadwy, yn y dyfodol.

Mae'r tueddiadau Hegelaidd sydd wrth wraidd safbwyntiau Rawls ynghlwm wrth y cysyniad o gydbwysedd myfyriol, sy'n agwedd sylfaenol ar ei athroniaeth. Mae'n bwysig amgyffred y dull hwn wrth werthfawrogi pam fod Rawls yn cofleidio damcaniaeth am ryfel cyfiawn yn y lle cyntaf. Mae'n dwyn i gof farn Hegel mai rôl athroniaeth yw gweld y byd go iawn fel ei gwrthrych, a cheisio tynnu sylw at y rheswm sy'n gynhenid ynddo, yn hytrach na rhesymu'n haniaethol neu ddychmygu delfrydau'r dyfodol. Ym marn Rawls, mae'n rhaid i unrhyw ddamcaniaeth foesol sy'n werth ei hystyried (un sy'n gallu gosod sylfaen sefydlog ar gyfer egwyddorion gwleidyddol cyfreithlon) gyd-fynd â'r farn a'r gwerthoedd bob dydd sydd wedi eu cronni dros amser, yn ogystal â chaniatáu inni wneud synnwyr ohonynt. Er mwyn i athroniaeth wleidyddol fod â seiliau ddichonadwy, mae'n rhaid iddi ganiatáu inni fyfyrion ar ein barn ystyrlon ynghylch yr hyn sy'n gyfiawn, a'i beirniadu. Mae'n rhaid bod lle hefyd i ailaddasu'r ddamcaniaeth ar sail y farn a ffurfiwyd. Dim ond pan fydd athroniaeth o'r fath yn caniatáu inni fynegi ac ailfynegi ein hegwyddorion y gellir ei hystyried yn ddamcaniaeth ddichonadwy. Gellir dweud bod damcaniaeth o'r fath, yn ôl Rawls, mewn cydbwysedd myfyriol.⁶⁴

Yn yr ystyr hwn, y lle cyntaf y dylid edrych wrth geisio profi ein damcaniaeth wleidyddol yw'r diwylliant gwleidyddol cyhoeddus ynghyd â'r syniadau a'r gwerthoedd y mae'r diwylliant hwn yn eu hymgorffori. Tra bo ideaeth drosgynnol (*transcendental*) Kant yn apelio at awdurdod rheswm wrth fynegi syniadau ynghylch heddwch parhaol, mae LP wedi ei sefydlu ar bwyntiau moesol sefydlog y diwylliant gwleidyddol cyhoeddus rhyngwladol. Felly, mae'n gwbl briodol i Rawls amlygu'r athrawiaeth rhyfel cyfiawn a ddaeth i'r amlwg o fewn cymdeithas ryngwladol dros y canrifoedd, yn hytrach na dilyn y llwybr o lunio beirniadaeth a ysbrydolwyd gan Kant. Byddai anwybyddu athrawiaeth rhyfel cyfiawn yn fater o gwestiynu

⁶⁰ Williams, Howard L. (2012), *Kant and the End of War* (Palgrave Macmillan: Basingstoke) tt. 162–3.

⁶¹ Ibid., t. 143.

⁶² Ripstein, 'Just War, Regular War'.

⁶³ Williams, *Kant and the End of War*, t. 161.

⁶⁴ Gweler Kukathas, Chandran, a Pettit, Philip (1990), *Rawls: A Theory of Justice and its Critics* (Cambridge: Polity Press) am drafodaeth ar gydbwysedd myfyriol a thueddiadau Hegelaidd Rawls, tt. 7–8, tt. 144–8.

un o bwyntiau moesol, sefydlog, y gymdeithas ryngwladol fel y mae heddiw, yn ogystal â chwestiynu ei ddull athronyddol ei hun yn y pen draw. Yn hynny o beth, gall rhywun ddeall, wrth wynebu'r posibilrwydd o gefnu ar ei ddull athronyddol, neu gefnu ar un agwedd ar feddwl rhyngwladol Kant, y dylai Rawls ddewis yr ail lwybr.

Serch hynny, er gwaethaf y rhwyg 'Hegelaid' hwn oddi wrth farn Kant, gellir gwerthfawrogi hynodrwydd athrawiaeth sy'n rhanu'r uchelgais am heddwch parhaol. Ar un wedd, gellir cydnabod ei ffafiaeth tuag at y persbectif Kantaidd yn y modd y mae athrawiaeth Rawls ynghylch rhyfel cyfiawn yn cael ei chynnwys oddi mewn i'w fersiwn ef o'r *foedus pacificum*. Mae'r hawl i ryfel wrth hunanamddiffyn yn un egwyddor ymhlith llawer o fewn ffederasiwn o bobloedd rydd, sy'n cynrychioli'r math o ddirprwy i gyfamod rhyngwladol y mae Kant yn cyfeirio ato. Mae iawnder rhyngwladol wedi ei seilio ar gyfraith y pobloedd sy'n amlochrog, yn rhyngwladol (neu hyd yn oed yn gyffredinol) ac yn ddilys, nid ar hawl unigol gwladwriaethau i gyhoeddi rhyfel cyfiawn. Byddai Kant, fel y'i deallwyd yn fwy traddodiadol, yn cilio rhag yr awgrym o labelu unrhyw ffurf ar ryfel yn 'gyfiawn', a byddai'n gwadu hawl 'mor syml' i ryfel; mae iawnder yng nghyflwr rhyfel yn cael ei ddeall yn amlach fel rhywbeth sydd yn annirnadwy,⁶⁵ neu, ar y gorau, wedi ei ragdybio.⁶⁶ Serch hynny, gallai rhyfel a gyhoeddir gan aelod o ffederasiwn o wladwriaethau gyda chydysyniad ei aelodau eraill fynegi mwy o gyfreithlondeb i Kant na chyhoeddiad rhyfel unochrog, lle nad oes cyfamod rhyngwladol yn bodoli.

Er gwaethaf cyd-destun Kantaidd yr egwyddorion hyn, erys y tensiwn ymddangosiadol rhwng y cymhelliant tuag at heddwch a'r duedd Hegelaidd i bwysleisio natur ddigyfnewid rhyfel. Er mwyn llacio'r tensiwn hwn a gwerthfawrogi sut mae Rawls yn dianc o rigolau Hegelaidd, mae angen i ni gydnabod pwysigrwydd y gwahaniaeth rhwng damcaniaeth ddelfrydol a damcaniaeth annelfrydol (*non-ideal*). Tra bo damcaniaeth ddelfrydol yn rhagdybio y bydd personau a phobloedd yn cydymffurfio (h.y. amgylchiadau delfrydol), mae damcaniaeth annelfrydol yn rhagdybio'r gwrthwyneb. Yn hynny o beth, mae'r math hwn o theori yng nghyd-destun LP yn canolbwyntio ar y gweithredoedd moesol ac ymarferol a all gyflawni'r nod tymor hir o sicrhau iwtopia ddichonadwy ledled y byd.⁶⁷ Yn benodol, mae'n rhaid i ddamcaniaeth annelfrydol edrych tuag at amodau penodol ein byd wrth chwilio am atebion effeithiol i sut i weithio o fyd sy'n cynnwys herw-wladwriaethau i fyd lle y mae pob cymdeithas yn dod i dderbyn a dilyn cyfraith y pobloedd.⁶⁸

Mae'n hawdd anwybyddu'r gwahaniaeth hwn rhwng damcaniaeth ddelfrydol ac annelfrydol wrth asesu datganiad cychwynnol Rawls ynghylch siarter cyfraith y pobloedd, lle y cyflwynir yr egwyddorion sylfaenol mewn trefn fympwyol braidd. Mae'n nodi bod rhai yn ddiangen mewn cymdeithas o bobl drefnus, er enghraifft, y seithfed egwyddor ynglŷn ag

⁶⁵ Rossi, Philip J. (2016), 'War as Unintelligible: Sovereign Agency and the Limits of Kantian Autonomy', yn *The Monist*, 99, 1–12.

⁶⁶ Ripstein, 'Just War, Regular War', 191.

⁶⁷ Rawls, *The Law of Peoples*, t. 93.

⁶⁸ Ibid., t. 90.

ymddygiad mewn rhyfel a'r chweched egwyddor ynghylch hawliau dynol,⁶⁹ ond mae hyn yn gydnabyddiaeth eithaf cyfyngedig o ba mor wahanol yw natur yr wyth egwyddor i'w gilydd, a goblygiadau'r gwahaniaeth hwn. Mewn gwirionedd, er mwyn pwysleisio natur dros dro ei athrawiaeth ynghylch rhyfel cyfiawn, byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai Rawls wedi rhannu egwyddorion y gyfraith, yn yr un modd ag y gwnaeth Kant wahaniaethu rhwng ei erthyglau rhagarweiniol a diffiniol. Byddai hyn wedi cynnig darlun cliriach o'r modd y mae athrawiaeth Rawls ar ryfel cyfiawn yn unigryw, a'i wahaniaethu oddi wrth feddylwyr cyfoes eraill gyda'i bwyslais ar natur amherffaith yr athrawiaeth, a'i rôl weithredol fel modd o wireddu Cymdeithas y Pobloedd sy'n heddychlon a byd-eang.

Mae dehongli ei egwyddorion ynghylch rhyfel cyfiawn fel rhai annelfrydol, dros dro, yn adlewyrchu'r posibilrwydd o drosgynnu rhyfel a'r gobaith o heddwch cyfiawn a bwysleisir mewn mannau eraill yn LP. Mae natur 'drosiannol' yr athrawiaeth a'r modd y mae wedi ei thrwytho yn egwyddor lywodraethol heddwch yn cael eu mynegi'n dwt ac yn dachus yn y canllawiau ar gyfer gwladweinwyr a'r milwyr fel ei gilydd. Trwy gynnal rhyfel yn agored a pharchu iawnderau dynol milwyr y gelyn a sifiliaid, mae'r gwladweinwyr a'r milwyr yn rhagfynegi'r heddwch y dyhëir amdano, ac maent yn dangos mewn ffordd agored natur eu hamcanion a'r math o bobl ydynt.⁷⁰

The statesman understands that relations with the present enemy have special importance: war must be openly and publicly conducted in ways that prepare the enemy people for how they will be treated and that make a lasting and amicable peace possible.⁷¹

Yn yr adran hon, nodir rhai pwyntiau cysylltiol rhwng barn Rawls a barn Kant ar ryfel, ac wrth wneud hynny, cyflwynir dwy ddadl allweddol wrth dynnu sylw at safbwynt unigryw Rawls. Mae'r thema amlycaf, sef rhyfel sy'n cael ei gynnal gyda'r nod o sicrhau heddwch cyfiawn a pharhaol, ynghyd â'r syniad o egwyddorion rhyfel cyfiawn fel rhai annelfrydol a thros dro, yn creu naws wahanol iawn i athrawiaeth Rawls ynghylch rhyfel cyfiawn. Mae'n ei gysylltu â meddylwyr sy'n rhagweld ailstrwythuro'r system ryngwladol, yn hytrach na'r rhai sydd am ei dadansoddi. Tra bo rhai o'r farn bod rhyfel yn agwedd barhaol ar wleidyddiaeth fyd-eang, ac felly'n ystyried egwyddorion rhyfel fel rhan barhaol o'r gyfraith ryngwladol, mae Rawls yn cynnig dehongliad gwahanol iawn o'r egwyddorion hynny: fel rhai sy'n cynrychioli cam dros dro yn natblygiad cymdeithas fyd-eang. Yn y pen draw, gellir gobeithio y bydd egwyddorion annelfrydol rhyfel cyfiawn yn troi'n rhai na fydd yn cael eu defnyddio (fel yn achos yr Undeb Ewropeaidd), ac na fydd galw arnynt eto, ac mai dim ond os dychwelir at ryfela neu y ceir trasiedïau dyngarol y bydd galw i'w defnyddio eto.

Felly, nid yw'r egwyddorion dros dro hyn o gyfiawnder yn fynegiant o'r ddelfryd barhaol

⁶⁹ Ibid., t. 38.

⁷⁰ Ibid., t. 98.

⁷¹ Ibid., t. 101.

o gyfundrefn fyd-eang gwbl gyfiawn. Yn hytrach, maent yn egwyddorion ar gyfer ein byd amherffaith. Gellir datgan y ddadl hon mewn modd gwahanol gan gyfeirio at y rhagdybiaeth fod pob trais, ac felly rhyfel, yn ddrwg. O'r man cychwyn hwn, lle y mae rhyw elfen o anghyfiawnder bob amser yn gysylltiedig â lladd, ni ellir ystyried unrhyw ryfel yn gwbl gyfiawn, nac yn rhywbeth y gellir ei 'gyfiawnhau', ac eithrio er mwyn amddiffyn heddwch a threfn yn y tymor hwy. Dyma swyddogaeth y gellir ei phriodoli i egwyddorion Rawls ar ryfel cyfiawn. Yn wir, mae labelu ei egwyddorion rhyfel cyfiawn fel rhai dros dro yn awgrymu nad ydynt yn egwyddorion cyfiawnder yn yr un ystyr, er enghraifft, â'i ddwy egwyddor o gyfiawnder cymdeithasol ar gyfer cymdeithas gwbl gyfiawn. Yn gynhenid ynddynt y mae elfen o anghyfiawnder y mae'n rhaid i ni geisio ei goresgyn yn y pen draw. Efallai y gellir cyfiawnhau rhyfel drwy droi at yr egwyddorion hyn, ond nid yw datgan fod rhyfel yn un 'cyfiawn' yn gosod y gwladweinydd ac iawnder ar yr un ochr. Hwyrach y bydd yn gallu cyfiawnhau rhyfel, a chyhoeddi ei fod yn gyfreithiol, ond nid yw hyn i ddweud y gellir cyfreithloni rhyfel fel gweithred sydd yn *gwbl* gyfiawn (gan ddefnyddio ymadrodd Rawls).

Ffordd arall o fynegi'r gwahaniaeth yw awgrymu bod rhyfel cyfiawn yn gyfreithlon, ond nid yw'n gyfiawn. Dywed Rawls:

War is a kind of hell; but why should that mean that normative distinctions cease to hold? Sometimes all or nearly all may be to some degree guilty; but that does mean that all are equally so.⁷²

Yma mae'n tynnu sylw at amwysedd moesol rhyfela, ond hefyd yr angen i gynnal yr hyn y mae'n ei ddisgrifio fel 'fine-grained distinctions of moral and political principles and graduated restraints'.⁷³ Hynny yw, nid yw'r egwyddorion hyn i Rawls yn ddelfryd o gyfiawnder, ond yn hytrach maent yn cynrychioli'r math mwyaf derbynol a digonol o egwyddorion moesol sy'n berthnasol i amodau rhyfel hynod anghyfiawn a dinistriol. Mae syniadau Rawls a Kant, ac Acwin yn ogystal, yn gydnaws yn eu pwyslais ar y syniad bod cyfiawnder, yn enwedig mewn rhyfel, yn fras yn hytrach na phendant; fel y dywed Joan Tooke:

Any killing, even in war and even if unintentional, is only half just.⁷⁴

Ymyrraeth ddyngarol

Yn yr adrannau blaenorol, cyflwynwyd dadleuon ynghylch pam fod safbwynt Rawls yn unigryw. Mae athrawiaeth rhyfel cyfiawn yn cynnig inni'r offer moesol i feirniadu, i reoleiddio, ac yn y pen draw i danseilio rhyfel. Iddo ef, i'r gwrthwyneb i Kant, rhyfel cyfiawn – wedi ei gyfyngu i hunanamddiffyniad – yw'r dull mwyaf addawol o sicrhau heddwch fel egwyddor

⁷² Rawls, *The Law of Peoples*, t. 103.

⁷³ Ibid.

⁷⁴ Took, Joan D. (1965), *The Just War in Aquinas and Grotius* (London: Society for Promoting Christian Knowledge), t. 156.

lywodraethol rhyfel. Mae disgrifio'r athrawiaeth fel un annelfrydol yn adlewyrchu gobaith Rawls fod yr egwyddorion yn rhai o gyfiawnder dros dro, ac felly mae'n amlwg ei fod yn rhannu gobaith Kant o sicrhau heddwch parhaol, er bod y modd o'i sicrhau yn wahanol. Ac er nad yw Rawls yn cwestiynu statws iawnder mewn rhyfel fel y mae Kant yn ei wneud, serch hynny fe'i cyflwynir mewn modd llawer mwy amwys a bregus yng nghyd-destun rhyfel – ni all rhyfel cyfiawn fyth fod yn gwbl gyfiawn.

Yn yr adran olaf hon, y nod yw amlygu'n benodol sut mae damcaniaeth Rawls yn wahanol o ran ymyrraeth ddyngarol. Wrth wneud hynny, ceisir ategu'r darlun o Rawls fel 'colomen'. Dadleuir nad yw Rawls yn ymestyn ei athrawiaeth rhyfel cyfiawn i gynnwys ymyrraeth ddyngarol oherwydd ni fydd iawnder yn ymestyn i gynnwys gweithredoedd rhyfel ymosodol – mae ymgais i hawlio cyfiawnder yn y cyd-destun hwn yn annealladwy. Ar un ystyr, mae Rawls yn ymestyn y syniad Kantaid o egwyddor llywodraethol heddwch i ryfel ymosodol, ond nid yw'n gwneud hynny yn enw iawnder. Mae Rawls yn deall y defnydd o rym yn yr achos hwn mewn ffordd debyg i'r ffordd yr ystyria Kant bob rhyfel, sef fel gweithred farbaraid a ddefnyddir i ddod â'r anghydfod i ben. Yn fwy uniongyrchol, eir ati i honni bod Rawls yn cyflwyno achos dros ryfel 'cyfiawnadwy', yn hytrach na rhyfel cyfiawn. Nid ystyrir ymyrraeth ddyngarol yn rhyfel cyfiawn yn yr ystyr na ellir honni hawl i 'iawnder', ond gellir ei chyfiawnhau'n gyhoeddus. Hynny yw, gellir cyfiawnhau ymyrraeth o'r fath yn wyneb craffu gan wleidyddion, athronwyr a barn ystyrion y cyhoedd, os gellir dangos bod y weithred yn hyrwyddo'r posibilrwydd o heddwch sefydlog heb amwysedd.

Yn y pen draw, awgrymir yn yr erthygl hon y gellir dehongli Rawls yn ôl y syniad ei fod yn gosod cyfyngiadau ar ddefnyddio rhyfel cyfiawn, gan wthio'n ôl yn erbyn yr hyn y mae Cian O'Driscoll wedi ei gydnabod fel yr ehangu a'r llacio sydd wedi digwydd wrth gymhwyso'r ddamcaniaeth.⁷⁵ Mae hyn yn lliniaru'r pryder Kantaid bod gwleidyddion yn defnyddio'r cysyniad fel esgus dros ryfel, ac yn gwrthio'r ddadl i dir pryderon ymarferol ac 'asesiad gwleidyddol o ganlyniadau tebygol amrywiol bolisiau'.⁷⁶ Roedd y ddadl ynghylch yr ymyrraeth yn Syria ar ddiwedd 2015 yn enghraifft o agwedd anffodus ar gymhwyso rhyfel cyfiawn: mae gwleidyddion yn dibrisio pwysigrwydd canlyniadau ymarferol a rhagolygon tymor hir drwy ddefnyddio iaith sydd wedi ei thrwytho â moesoldeb gan honni bod penderfyniadau o'r fath yn 'fater o gydwybod' yn y pen draw. Mae hawlio bod ymyrraeth yn 'gyfiawn' gyda meini prawf cymharol lac neu amhenodol – megis 'bwriad cywir' a 'chymesuredd' – yn llawer haws na dadlau'n gryf fod ymyrraeth wedi ei chyfiawnhau, o safbwynt y gobaith o hyrwyddo heddwch parhaol.

Fodd bynnag, erys rhai anawsterau wrth honni nad yw Rawls yn ymestyn ei athrawiaeth rhyfel cyfiawn i ymyrraeth ddyngarol. Mae ei ddealltwriaeth ar y mater hwn yn drafferthus ac mae ei bersbectif yn agored i ddehongliadau amrywiol. Fel yr amlinellwyd ar y dechrau, caiff Bernstein a Martin eu perswadio bod Rawls yn bwriadu ymestyn ei athrawiaeth rhyfel

⁷⁵ O'Driscoll, Cian (2008), *Renegotiation of the Just War Tradition and the Right to War in the Twenty-first Century* (New York: Palgrave MacMillan).

⁷⁶ Rawls, *The Law of Peoples*, t. 94.

cyfiawn i'r defnydd penodol hwn o rym. Mae Bernstein yn credu bod Rawls yn awgrymu bod y ddyletswydd i amddiffyn iawnderau dynol yn addasu'r egwyddor o hunanamddiffyn (ac nid yw Rawls felly'n arddel y syniad y gellir disgrifio ymyrraeth filwrol sy'n amddiffyn hawliau dynol mewn unrhyw gyd-destun heblaw am yng nghyd-destun rhyfel). Yn wyneb fy nehongliad o Rawls yn y fan hon, nid wyf wedi fy mherswadio yn yr un modd â Bernstein. Fodd bynnag, mae'r un mor anodd i amddiffyn y ddadl arall: mae'n anodd disgrifio'r gweithredoedd o drais rhwng gwladwriaethau, y mae Rawls yn amlwg yn eu hystyried, trwy ddefnyddio unrhyw air heblaw am 'ryfel', ac mae ef ei hun yn defnyddio'r term 'rhyfel' o leiaf unwaith i ddisgrifio hyn. Yn lle hynny, cynigir trydydd dehongliad yn yr erthygl hon, sef bod Rawls yn ceisio llywio cwrs rhwng y ddau – bod yr ymyrraeth ddyngarol honno wir yn weithred o ryfel y gellir ei chyfiawnhau'n gyhoeddus, ond nid yw'n weithred y gellir ei disgrifio'n sicr fel gweithred o ryfel 'cyfiawn' sy'n addasu'r egwyddor o hunanamddiffyn.

Mae ei amharodrwydd i ymestyn ei athrawiaeth rhyfel cyfiawn yn hyn o beth yn cael ei gynrychioli yn yr iaith a ddefnyddir, a hefyd yn y modd *ad hoc*, amhenodol, y mae'n delio â'r mater. Yn ei drafodaeth gyntaf ar y broblem, mae'n disgrifio rhyfel fel agwedd dderbyniol ar bolisi llywodraeth, a dim ond wrth hunanamddiffyn y gellir ei gyfiawnhau, neu mewn achosion difrifol o ymyrraeth i amddiffyn hawliau dynol.⁷⁷ Gellir cyfiawnhau ymyrraeth ddyngarol, ond nid yw hyn yn honni ei bod yn gyfiawn; mae'n arwyddocaol nad yw'n cynnwys y weithred hon mewn modd systematig o fewn ei athrawiaeth rhyfel cyfiawn. Ymhellach, yn y drafodaeth ddilynol ar ryfel dyngarol o fewn damcaniaeth annelfrydol (wedi ei chyfyngu i droednodiadau i raddau helaeth), mae'n osgoi'r gair 'rhyfel' o blaid geiriad mwy amwys: 'some form of intervention'⁷⁸ a 'forceful intervention',⁷⁹ tra ei fod yn aneglur mewn mannau eraill a yw 'intervention of some form'⁸⁰ yn ymwneud â defnyddio grym ynteu ystod o bolisiau. Ar ben hynny, yn ei drafodaeth yn adran 13.2 o dan y teitl 'Hawl Pobloedd Trefnus i Ryfela',⁸¹ mae Rawls yn caniatáu un amod yn unig ar yr hawl i ryfela mewn achos o hunanamddiffyn: yr hawl i amddiffyn cynghreiriaid.⁸² Nid oes unrhyw gymeradwyaeth glir, ddiamwys i'r syniad o ryfel dyngarol fel gweithred sy'n perthyn i'w athrawiaeth rhyfel cyfiawn.

Wrth ymwneud yn fwy penodol â'r broblem yng nghyd-destun damcaniaeth annelfrydol, mae'n amlwg hefyd fod Rawls yn gwrthod ychwanegu'n ffurfiol y math o herw-wladwriaeth sydd o dan sylw yn ei dacsonomi o bobl. Mae hyn er gwaethaf y ffaith amlwg ei fod yn ystyried bod cymdeithasau o'r fath, nad ydynt yn ymosodol, ond sy'n cyflawni troseddau enbyd yn erbyn iawnderau dynol, yn broblem benodol iawn. Mae'n ddiddorol nad yw'n cymryd y cam o'u cynnwys fel categori ar wahân yn ei dacsonomi, o ystyried bod math cymdeithasol arall ('unbenaethau graslon') yn rhan annatod ohono, er eu bod yn cael sylw llai beirniadol na'r

⁷⁷ Rawls, *The Law of Peoples*, t. 79.

⁷⁸ Ibid., t. 90, troednodyn 1.

⁷⁹ Ibid., t. 94, troednodyn 6.

⁸⁰ Ibid., t. 93, troednodyn 6.

⁸¹ Ibid., tt. 91–3.

⁸² Ibid., t. 91, troednodyn 2.

herw-wladwriaethau y gellir eu galw'n 'unbenaethau gormesol'. Ceir swildod ar ran Rawls i'w trin mewn modd systematig a chymerir bod rheswm da iawn dros hyn: gallai hynny olygu sefydlu'n ddiamheuol y math o orchmynion moesol penodol sy'n amhriodol ar gyfer achosion o'r fath, lle y mae iawnderau dynol a'r norm o ddiffyg ymyrraeth yn gwrthdaro, lle y mae llinellau'n aneglur a'r hyn sy'n gyfiawn ac anghyfiawn yn anodd i'w dirnad, a lle y mae'n anodd iawn rhagweld canlyniadau clir. Mewn cyd-destun Kantaid, symudir i gyfeiriad maes lle y mae moeseg yn annealladwy, lle nad yw honiadau syml i weithredu'n gyfiawn yn ymarferol, ac ni ellir dirnad llwybr clir at iawnder.

Mae natur bwylllog Rawls, a'i gydnabyddiaeth o'r anawsterau ymarferol a natur ddyrys y broblem foesol, yn amlwg yn adran 13.3 lle y mae'n trafod 'cyfraith y pobloedd fel canllaw i bolisi tramor'.⁸³ Yn y fan hon mae ei drafodaeth fwyaf helaeth ar ymyrraeth rymus yn ymddangos, ac nid, dylid nodi, fel rhan o'i drafodaeth ar yr hawl i ryfel. Mae Rawls yn osgoi ymestyn *jus ad bellum* mewn unrhyw fodd penodol neu ffurfiol i athrawiaeth ynghylch rhyfel dyngarol. Mae'r adran hon yn cynrychioli ymdriniaeth fwy cyffredinol â pholisi tramor pobl ryddfrydol mewn perthynas â gwladwriaethau nad ydynt yn rhyfelgar ond sy'n tramgwyddo iawnderau dynol yn fynych (dyma'r mater y mae Shue yn honni bod Rawls yn ei esgeuluso, ond yng ngoleuni'r drafodaeth hon, mae ei honiad yn amlwg anghywir). O ran yr 'unbenaethau gormesol' hyn, fel yn achos polisi tramor yn fwy cyffredinol, egwyddor llywodraethol heddwch a'r nod tymor hir o iwtopia ddichonadwy, fyd-eang yw'r brif flaenoriaeth. Yma, mae Rawls yn gwneud cyfaddefiad amlwg sy'n awgrymu terfynau ymresymu moesol diamod a therfynau cymhwyso egwyddorion moesegol rhagnodedig: y bydd yr heddwch hwn sy'n cael ei gyflawni yn yr achosion hyn yn galw am ddoethineb gwleidyddol, a bod llwyddiant yn dibynnu'n rhannol ar lwc. Nid yw'r rhain yn faterion y mae gan athroniaeth wleidyddol lawer i'w ychwanegu atynt.⁸⁴

Ei farn ef felly yw, er mwyn gwireddu'r prif nod (sef dod â phob cymdeithas yn y pen draw i anrhydeddu cyfraith y pobloedd), y bydd angen i Gymdeithas y Pobloedd greu sefydliadau ac arferion er mwyn penderfynu ar eu barn gyffredin a'u polisi tuag at rai nad ydynt yn gyfundrefnau trefnus.⁸⁵ Bydd sefydliadau o'r fath yn ceisio rhoi pwysau diplomyddol ar herw-wladwriaethau, yn ogystal â defnyddio ffurfiau eraill, mwy ymwthiol o ymyrryd, megis eu rhwystro rhag cymryd rhan mewn cytundebau o fudd cyfunol, sefydlu sancsiynau economaidd, ac atal cymorth. Efallai y daw amser, fodd bynnag, pan fydd y troseddau yn erbyn iawnderau dynol yn rhy enbyd ac na fydd sancsiynau wedi cael effaith, ac mewn achosion o'r fath mae Rawls yn disgrifio ymyrraeth arfog fel gweithred dderbyniol – ond nid un gyfiawn.⁸⁶

Felly, nid yw Rawls yn ôl dehongliad yr erthygl hon yn ymgorffori ymyrraeth ddyngarol fel un o egwyddorion ei athrawiaeth rhyfel cyfiawn. Mae ei holl drafodaethau ar y mater hwn yn awgrymu bod Rawls yn gweld y trasiedïau hyn yn rhai moesol, dyrys, ac yn ofnadwy o

⁸³ Rawls, *The Law of Peoples*, tt. 93–4.

⁸⁴ Ibid., t. 93.

⁸⁵ Ibid.

⁸⁶ Ibid., t. 94, troednodyn 6.

anodd eu trafod, a lle y mae dynodi dyletswydd ddiamwys i ymyrryd yn anghynnaladwy. Nid yw dweud hyn yn golygu nad yw'n darparu unrhyw sail foesol dros ymyrraeth o'r fath; gellid egluro seiliau o'r fath yn eithaf hawdd o ran y dyletswyddau naturiol y mae'n eu disgrifio⁸⁷ – y dyletswyddau hynny sydd yn sefyll heb weithred wirfoddol wleidyddol o ymrwymiad, nac unrhyw gysylltiadau cymdeithasol neu sefydliadol. Yn hyn o beth, gellir credu bod y ddyletswydd negyddol o gynnig cymorth cyfunol yn berthnasol pan droseddir yn erbyn iawnderau dynol – ar yr amod y gall rhywun wneud hynny heb risg gormodol.⁸⁸ Yr un mor berthnasol, os nad yn fwy pwysig fel cafeat, yw'r ddyletswydd gadarnhaol i beidio â niweidio neu anafu eraill. Felly, gellir cyfiawnhau ymyrraeth arfog o safbwynt dyletswydd naturiol, ond mae'n rhaid pwysu a mesur unrhyw gamau o'r fath yn gyhoeddus yn erbyn y risg i'r rhai sy'n eu cyflawni, a'r risg o greu mwy o niwed ac anafiadau; dyma lle y mae moeseg ganlyniadol yn dod i'r amlwg o ran y canlyniadau tebygol, y gobaith am heddwch sefydlog yn y tymor hir, a doethineb gwleidyddol ymyrraeth o'r fath. Fodd bynnag, nid rhyfel cyfiawn drwy hawl a neilltuwyd fel y gallai gwladwriaeth ei hamddiffyn ei hun fyddai ymyrraeth o'r fath; yn hytrach byddai'n weithred o ryfel y gellir ei chyfiawnhau – wedi ei chyfiawnhau ar sail ein dyletswyddau naturiol fel unigolion i helpu ein gilydd, a hyder mewn canlyniad tymor hir cadarnhaol yng ngoleuni'r ffeithiau.

O ystyried ei ymrwymladau Kantaid, mae'n briodol bod Rawls yn amheus ynghylch dynodi egwyddor rhyfel cyfiawn a allai gael ei chamddefnyddio gan wladwriaethau rhesymegol, sy'n rhoi eu buddiannau eu hunain yn gyntaf, neu wleidyddion sydd, yn ôl disgrifiad Kant, yn foesolwyr gwleidyddol. Gellir awgrymu'n rhesymol ei fod yn symudiad bwriadol i beidio ag ymestyn *jus ad bellum* i ymyrraeth ddyngarol. Yn hytrach, yr hyn y mae Rawls yn caniatáu ar ei gyfer yw'r posibilrwydd y gall gwladweinwyr, mewn rhai sefyllfaoedd, fel dewis olaf eu polisi tramor, droi at ymyrraeth arfog, neu mewn geiriau eraill, at ryfel. Gyda'r telerau a nodwyd gan Ripstein, ein gobaith gorau – er na ellir apelio at unrhyw hawl i ryfela – yw y bydd y weithred o ryfela yn cael ei chynnwys o dan egwyddor llywodraethol heddwch; felly gellir cyfiawnhau a chymryd pob cam gweithredol gyda'r nod tymor hir o sicrhau heddwch sefydlog. Er bod rhyfel amddiffynnol mewn ambell ystyr yn gyfiawn i Rawls (er nad yw byth yn gwbl gyfiawn), ni ellir cyfiawnhau rhyfel dyngarol yn yr un modd, dim ond mewn perthynas â dyletswyddau unigol a'r gobaith am heddwch.

O edrych o safbwynt y gwladweinydd, felly, ni ellir cyfreithloni ymyrraeth ddyngarol fel estyniad o ryfel cyfiawn. Fel offeryn polisi tramor, fodd bynnag, gellir ei ystyried yn benderfyniad dilys – un y gellir ei gyfiawnhau yn ei nod arweiniol o sicrhau bod cymdeithas heddychlon y pobloedd yn cael ei hehangu, ac yn y cyd-destun hwn, grym yw'r opsiwn olaf un. Fel ym mhob achos o weithred o'r fath, mater o farn wleidyddol ydyw yn ei hanfod ac mae'n dibynnu ar asesiad gwleidyddol o ganlyniadau tebygol amrywiol bolisiau.⁸⁹ Byddai polisi o'r fath yn hwylus i'r gwladweinydd yn ein byd annelfrydol, ond wrth weithredu

⁸⁷ Rawls, *A Theory of Justice*, tt. 114–17.

⁸⁸ Ibid.

⁸⁹ Rawls, *The Law of Peoples*, t. 93

felly, ni ellir defnyddio *jus ad bellum* fel amddiffyniad; hwyrach y gall y gwladweinydd gyfiawnhau cymryd llwybr o'r fath yn ei bolisi tramor, ond ni all honni ei fod yn gweithredu mewn modd cyfiawn. Y cwestiwn terfynol yw, a yw'r weithred hon yn cyd-fynd ag egwyddor llywodraethol heddwch ac yn osgoi yn hytrach na chreu niwed?

Mae Rawls yn gosod cyfyngiadau hollbwysig ar athrawiaeth rhyfel cyfiawn, ond mae'n caniatáu'r posibilrwydd y gallai ymyrraeth ddyngarol arfog (er nad yw hyd yn oed yn hanner cyfiawn yn yr un ystyr â rhyfel amddiffynnol) fod yn ddull gweithredu 'decent' – gan ddefnyddio ei eiriau ef. Mae categorïau moesol amrywiol o'r fath yn hollol gyson ag agwedd gyffredinol Rawls tuag at ddamcaniaeth foesol. Mae'n bwysig hefyd nad yw'n gwadu y dylid disgrifio gweithredoedd o'r fath fel rhyfel, oherwydd, o'u disgrifio yn y modd hwnnw, dylem gymryd yn ganiataol bod egwyddorion *jus in bello* yn parhau'n berthnasol. Yn wir, fel y nododd Mollendorf, mae dehongliad Rawls ei hun o'r egwyddorion penodol hyn yn bwysig oherwydd eu bod yn rhoi sylw arbennig i'r angen i reoleiddio ymddygiad rhyfel fel ei fod yn gosod y sylfaen ar gyfer heddwch sefydlog. O ystyried bod ymyrraeth ddyngarol yn ffordd foesol amwys a phroblematig o weithredu, mae'n bwysig sicrhau y dylai'r defnydd hwn o rym – a ddisgrifir orau fel un cyfreithlon neu degweddol – fod yn ddiamwys ddarostyngedig i'r cyfyngiadau ar ryfela a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae'r datgysylltiad hwn rhwng *jus ad bellum* a *jus in bello* yn adlewyrchu pwysigrwydd cynnal y ddeuoliaeth – a heriwyd yn fwy diweddar⁹⁰ – rhwng y gyfraith sy'n delio â throi at rym a'r gyfraith sy'n llywodraethu ymddygiad gelyniaethus. Felly hyd yn oed os nad yw fframwaith Rawls yn caniatáu rhyfel ymosodol o'r fath – nid oes modd ei gyfiawnhau trwy *jus ad bellum* – byddai egwyddor llywodraethol heddwch yn parhau'n berthnasol i'r rhyfel ei hun, trwy egwyddorion *jus in bello*.

Mae gan y safbwynt hwn o ryfel dyngarol arwyddocâd ychwanegol wrth fyfyrir ar ddigwyddiadau'r ddau ddegawd diwethaf. Mae dadleuon ar ddwy ochr Môr yr Iwerydd wrth gyfiawnhau ryfela mewn perthynas ag Afghanistan, Irac, Libya a Syria wedi eu cynnal gan ystyried yr eirfa yng nghyd-destun rhyfel cyfiawn. Yn ddiau, byddai Rawls wedi croesawu'r ffaith fod y syniad o ryfel cyfiawn wedi'i gynnwys mor gadarn o fewn diwylliant gwleidyddol cyhoeddus rhyngwladol, yn enwedig o ran yr egwyddor o *jus in bello*. Mae'n rhaid ystyried hyn yn welliant ar y diffyg ymwybyddiaeth foesol a nododd a oedd yn nodweddu'r Ail Ryfel Byd. Serch hynny, nid oes modd credu y byddai wedi croesawu'r ffordd y mae'r athrawiaeth wedi ei llacio, a'i hymestyn i barth rhyfel dyngarol – i'r graddau iddi gael ei defnyddio fel modd o gyfiawnhau cynnydd mewn trais, a gwneud i'r posibilrwydd o heddwch sefydlog, yn y Dwyrain Canol yn benodol, ymddangos mor bell i ffwrdd. Gellir ystyried hyn fel camddefnydd systematig o ddamcaniaeth rhyfel cyfiawn yn yr union ffordd a ddisgrifiwyd gan Kant, a honnir yma ei bod yn amlwg yn groes i'r ysbryd y mae Rawls yn datblygu ei athrawiaeth ei hun ynddo.

⁹⁰ Er enghraifft, gweler Sloane, Robert D. (2009), 'The Cost of Conflation: Preserving the Dualism of Jus ad Bellum and Jus in Bello in the Contemporary Law of War', *Yale Journal of International Law*, 34, 47–112.

Yn wir, bu gwleidyddion yn rhy barod o lawer i ddefnyddio'r term 'cyfiawn' mewn perthynas â rhyfela, mewn modd nad yw'n cyd-fynd yn addas â'r traddodiad, fel a ddangosir gan Rawls. Pe na bai modd troi at y syniad o ryfel dyngarol cyfiawn, a phe byddent yn cael eu gorfodi i amddiffyn eu penderfyniadau i fynd i ryfel ar sail egwyddor lywodraethol heddwch a'r canlyniadau ymarferol, dylai fod yn anos iddynt gyfiawnhau rhyfela. Mae'n amlwg fod damcaniaethwyr cyfoes wedi llunio adroddiadau ar ryfel cyfiawn sy'n ceisio cyfiawnhau'n llawn weithredoedd milwrol y prif weithredydd penodol mewn unrhyw wrthdaro, yn hytrach na bod y syniad o ryfel cyfiawn yn gweithredu fel rhywbeth sy'n cyfyngu.⁹¹ Pe na bai modd i wleidyddion sicrhau cyfiawnhad pendant o'r fath, gan honni fod grym iawnder ar eu hochr, byddai'n ddyletswydd arnynt i fynegi'n fanylach, gyda mwy o dryloywder, a chyda mwy o gyfiawnhad yn union sut y mae'r gweithredoedd hyn yn amddiffyn iawnderau dynol, sut y maent yn cyfrannu at achos heddwch parhaol yn y tymor hir, ac ymestyn y gynghrair heddwch fyd-eang – yn hytrach na throi at y cysyniad o 'ryfel cyfiawn' er mwyn ysgubo pob gwrthwynebiad o'r neilltu.

Casgliad

Prif nod yr erthygl hon oedd ceisio amlygu athrawiaeth rhyfel cyfiawn Rawls mewn ffordd sy'n egluro'i ddull unigryw a'i gyfraniad at y ddadl gyfoes, yn enwedig ei agwedd at y broblem o ymyrraeth ddyngarol sy'n cynnig dewis arall pwysig, sgeptigol, yn lle'r duedd ddiweddar i'w hystyried yn gyson â honiadau o hawl i ryfel. Wrth wneud hynny, aed ati yn yr erthygl hon i herio'r dehongliad o Rawls fel damcaniaethwr Hegelaidd confensiynol sy'n ystyried rhyfel fel rhan annatod a chyfreithlon o gysylltiadau rhyngwladol, ac yn weithred gyfiawn yn achos ymyrraeth ddyngarol. Datblygwyd y ddadl yn gyntaf gan gyfeirio at ddehongliadau cyfredol o Rawls a'r tensiynau amlwg mewn perthynas â'i ymrwymiad i'r weledigaeth o wleidyddiaeth ryngwladol a gyflwynwyd gan Kant yn TPP. Wrth weithio drwy'r tensiynau hyn, aed at yr agweddau arwyddocaol a newydd hynny ar ei ddamcaniaeth, gan ddadlau yn gyntaf mai heddwch yw egwyddor llywodraethol rhyfel – hyd yn oed os yw hyn yng nghyd-destun derbyn, yn hytrach na herio, athrawiaeth rhyfel cyfiawn. Yn hynny o beth, mae gan Rawls yr un amcanion tymor hir â Kant ond, yn wahanol iddo ef, mae'n credu y gall egwyddorion rhyfel cyfiawn arwain at heddwch sefydlog, parhaol. Ategwyd yr honiad hwn gan yr ail ddadl bod yr ysgogiad Kantaidd hwn yn torri damcaniaeth Rawls oddi wrth ei hangorfa Hegelaidd, a dangosir hyn yn glir wrth iddo fframio'i athrawiaeth rhyfel cyfiawn o fewn ei ddamcaniaeth annelfrydol. Yn hyn o beth, gellir ystyried egwyddorion rhyfel cyfiawn ym marn Rawls fel egwyddorion cyfiawnder dros dro, sy'n berthnasol i'r cyflwr y cawn ein hunain ynddo, ond sydd yn y pen draw yn gweithio tuag at iwtopia ddichonadwy; ni allwn eu deall fel egwyddorion sy'n gwbl gyfiawn ac yn berthnasol bob amser i wleidyddiaeth ryngwladol, ond yn hytrach maent yn safonau moesol i'w cynnal mewn 'uffern' hynod anfoesol a threisgar.

Mae damcaniaeth Rawls ynghylch rhyfel cyfiawn felly'n newydd ac unigryw gyda'i sylfeini

⁹¹ Williams, *Kant and the End of War*, t. 145.

Kantaidd a'r agwedd sgeptigol ac amheus o ryfel, fel sy'n nodweddiadol o'i waith cynnar gyda'r term 'heddychiaeth amodol'. Mae'r newydd-deb hwn yn fwyaf heriol o ran problem mymraeth ddynarol, gweithred sydd i Rawls yn mynd â ni tuag at barth moesol annealladwy lle mai dim ond barn y gwladweinydd, hawliau naturiol, ac egwyddor llywodraethol heddwch sy'n gallu cynnig cyfiawnhad cyhoeddus dros ryfel. Ni ellir honni bod rhyfel yn gyfiawn mewn perthynas â thrais o'r fath; dim ond dadl y gellir ei chyfiawnhau ac a adeiladwyd ar dystiolaeth a rhesymu cydwybodol a thrylwyr a all ddangos i'r cyhoedd y bydd y brwydro'n cyfrannu at heddwch sefydlog a pharhaol yn y tymor hir. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Chilcot, efallai y gresynir bod honiadau di-sail mewn perthynas â chyfiawnder – yn gyntaf yn enw hunanamddiffyniad ac yna yn enw'r genhadaeth ddynarol – wedi eu hystyried yn fwy dilys a phwysfawr na'r cwestiynau, yr amheuan a'r gwrthwynebiadau ynghylch y dystiolaeth simsan o blaid yr hawl i ryfela.

Llyfryddiaeth

- Bellamy, Alex (2009), *Just Wars: From Cicero to Iraq* (Cambridge: Polity).
- Bernstein, Alyssa (2006), 'A Human Right to Democracy? Legitimacy and Intervention', yn Martin, Rex, a Reidy, David (goln), *Rawls's Law of Peoples: A Realistic Utopia?* (Oxford: Blackwell Publishing), 278–98.
- Bernstein, Alyssa (2009), 'Kant, Rawls, and Cosmopolitanism: Toward Perpetual Peace and The Law of Peoples', yn *Jahrbuch für Recht und Ethik / Annual Review of Law and Ethics*, 17 (Berlin: Duncker & Humblot), tt. 3–52.
- Johnson, James Turner (2013), 'Contemporary Just War Thinking: Which is Worse, Friends or Critics?', *Ethics and International Affairs*, 27 (1), 25–45.
- Kant, Immanuel (2006), *Toward Perpetual Peace and Other Writings on Politics, Peace, and History*, Kleingeld, Pauline (gol.), cyfieithwyd gan Colclasure, David L. (New Haven and London: Yale University Press).
- Kukathas, Chandran, a Pettit, Philip (1990), *Rawls: A Theory of Justice and its Critics* (Cambridge: Polity Press).
- Martin, Rex (2005), 'Walzer and Rawls on just wars and humanitarian interventions', *Journal of Social Philosophy*, 36 (4), 439–56.
- Moellendorf, Darren (2013), 'Just War', yn *A Companion to Rawls (Blackwell Companions to Philosophy)*, Reidy, David, a Mandle, Jon (goln), 378–94.
- O'Driscoll, Cian (2008), *Renegotiation of the Just War Tradition and the Right to War in the Twenty-first Century* (New York: Palgrave MacMillan).
- Pogge, Thomas (2007), *John Rawls: His Life and Theory of Justice* (Cambridge: Polity Press).
- Rawls, John (1999a), *The Law of Peoples* (Cambridge, MA, London: Harvard University Press).
- Rawls, John (1999b), *A Theory of Justice* [1971], argraffiad diwygiedig (Oxford, New York: Oxford University Press).

- Reidy, David (2010), 'Human Rights and Liberal Toleration', *Canadian Journal of Law and Jurisprudence*, 23 (2), 287–317.
- Ripstein, Arthur (2016), 'Just War, Regular War and Perpetual Peace', *Kant Studien*, 107, 179–95.
- Roberts, Peri (2012), 'The supreme emergency exemption: Rawls and the use of force', *European Journal of Political Theory*, 11 (2), 155–71.
- Rossi, Philip J. (2016), 'War as Unintelligible: Sovereign Agency and the Limits of Kantian Autonomy', *The Monist*, 99, 1–12.
- Shue, Henry (2002), 'Rawls and the Outlaws', *Politics, Philosophy & Economics*, 1 (3), 307–23.
- Sloane, Robert D. (2009), 'The Cost of Conflation: Preserving the Dualism of Jus ad Bellum and Jus in Bello in the Contemporary Law of War', *Yale Journal of International Law*, 34, 47–112.
- Took, Joan D. (1965), *The Just War in Aquinas and Grotius* (London: Society for Promoting Christian Knowledge).
- Williams, Howard (2012), *Kant and the End of War* (Palgrave Macmillan: Basingstoke).

Gwlad yr Asyn a'r golwg deublyg: diffinio'r ddrama ôl-drefedigaethol Gymreig

Wyn Mason

Cyfadrn y Diwydiannau Creadigol, Prifysgol De Cymru

Cyflwynwyd: 29 Tachwedd 2019; Derbyniwyd: 30 Mehefin 2020

Crynodeb: Trafoda'r erthygl gwestiynau a gododd yn sgil llunio *Gwlad yr Asyn*, sef drama lwyfan ar ffurf monolog. Cafodd y ddrama ei hysgrifennu fel ymateb gwrthimperialaidd Cymreig i destun canonaidd Shakespeare, *The Tempest*. Yn gyntaf, ystyria'r erthygl y diffyg traddodiad a geir yng Nghymru o ysgrifennu dramâu gwrthddisgwrs Shakespeariaidd o safbwynt Cymreig, cyn canolbwyntio ar y cwestiwn, 'beth a ddylai nodweddu'r ddrama ôl-drefedigaethol Gymreig?'. Dadleua y dylai gyfleu 'golwg deublyg', hynny yw, cydnabod bod gan Gymru etifeddiaeth o ddwy ochr y rhaniad imperialaidd: gwlad a gafodd ei gwladychu ond sydd hefyd wedi gwladychu.

Allweddeiriau: *Gwlad yr Asyn*, drama, ôl-drefedigaethol, Shakespeare, ysgrifennu creadigol.

Gwlad yr Asyn and double vision: defining the postcolonial Welsh play

Summary: This article discusses questions that arose during the writing of *Gwlad yr Asyn* (*Donkeyland*), a stage play that takes the form of a monologue. The play was written as a Welsh, anti-imperialist response to Shakespeare's canonical text, *The Tempest*. The article considers how the tradition of Shakespearian counter-discourse playwriting from a Welsh perspective is generally lacking in Wales, before focusing on the question of what should characterize a Welsh postcolonial play. It is argued that it should convey a 'double vision', a perspective which acknowledges that Wales inhabits a legacy of both colonized and colonizer.

Key words: *Gwlad yr Asyn*, drama, post-colonial, Shakespeare, creative writing.

Cyflwyniad

Cyflwyno'r erthygl hon ddamcaniaeth am natur y ddrama ôl-drefedigaethol Gymreig, gan gynnig y term 'golwg deublyg' fel ffordd o enwi'r agwedd a dybir yn addas ar gyfer llunio drama o'r fath – hynny yw, dramâu sy'n cydnabod perthynas gymhleth a deuol Cymru â threfedigaethedd. Gwneir hyn o fewn cyd-destun trafod fy nrama lwyfan, sioe un person, *Gwlad yr Asyn*.¹ Cafodd ei hysgrifennu'n benodol fel drama ôl-drefedigaethol Gymreig, gyda'r nod o 'ysgrifennu 'nôl'² at Shakespeare trwy ailymweld â'i ddrama ganonaidd, *The Tempest* (c. 1610), a'i herio o safbwynt ôl-drefedigaethol Cymreig. Yn rhan agoriadol yr erthygl, eglurir beth oedd sbardun syniadol y ddrama yn y lle cyntaf. Ac yna, yn yr ail ran, trafodir sail wleidyddol a damcaniaethol y ddrama. Hynny yw, cyn medru llunio drama o'r fath, mae'n rhaid penderfynu beth yn union a olygir wrth gyfeirio at safiad gwleidyddol ôl-drefedigaethol Cymreig. Dadleuir dros ddefnyddioldeb y cysyniad 'golwg deublyg' fel ffordd o grisialu a chynrychioli perthynas Cymru â threfedigaethedd. Ac yn olaf, yn y drydedd ran, eglurir sut y llywiwyd y broses o lunio'r ddrama gan yr egwyddor o gyfleu'r 'golwg deublyg' ôl-drefedigaethol.

I. Man cychwyn

Fel rhan annatod o broses drefedigaethol yr Ymerodraeth Brydeinig, cafodd llenyddiaeth ganonaidd Saesneg ei defnyddio ledled y byd fel ffordd o ddyrchafu diwylliant Seisnig ar draul diwylliannau brodorol:

For generations during (and often after) imperial rule, the formal education of colonial subjects was circumscribed by the concerns and canons of a distant European centre. Because of its supposed humanistic functions, 'English Literature' occupied a privileged position in the colonial classroom, where its study was designed to 'civilise' native students by inculcating in them British tastes and values, regardless of the exigencies of the local context.³

Wrth i feddylfryd gwrthimperialaidd gynyddu yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, ac wrth i wledydd yr ymerodraeth ennill eu hannibyniaeth wleidyddol, datblygwyd traddodiad

¹ Bwriadwyd i *Gwlad yr Asyn* gael ei pherfformio ar faes Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Nhregaron ym mis Awst 2020 fel cydgynhyrchiad rhwng cwmni theatr Os Nad Nawr a Theatr Genedlaethol Cymru, gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, yr Eisteddfod a Phrifysgol De Cymru. Gan i'r Eisteddfod gael ei gohirio oherwydd feirws Corona, bwriedir llwyfannu'r ddrama yn Eisteddfod 2021.

² Gweler Ashcroft, B., Griffiths, G., a Tiffin, H. (1989), *The Empire Writes Back* (Abingdon: Routledge).

³ Gilbert, H., a Tompkins, J. (1996), *Post-Colonial Drama: theory, practice, politics* (Abingdon: Routledge), t. 15.

neu draddodiadau llenyddol a elwir yn ôl-drefedigaethol.⁴ Un o'r arddulliau llenyddol o fewn y traddodiad ôl-drefedigaethol yw'r hyn a elwir yn wrthddisgwrs ganonaidd (*canonical counter-discourse*),⁵ sef ailymweld â llenyddiaeth ganonaidd Ewrop er mwyn ei beirniadu o safbwynt gwrthimperialaidd. Yng nghyd-destun penodol yr Ymerodraeth Brydeinig, ni fu neb yn fwy o darged wrthddisgwrs na Shakespeare, dramodydd ac awdur mwyaf canonaidd Lloegr:

Among the many post-colonial reworkings of canonical texts, Shakespeare's plays figure prominently as targets of counter-discourse. The circulation of 'Shakespeare's Books' within educational and cultural spheres has been a powerful hegemonic force throughout the history of the British Empire, and is one which continues to operate in virtually all former colonies of England. In India, Canada, Australia, South Africa, New Zealand, and the West Indies, Shakespeare was for generations the most popular playwright, indeed the only playwright deemed worthy of attention.⁶

Derbyniodd Cymru, wrth gwrs, yr un driniaeth.⁷ Yn ei ragair i'w gyfieithiad o *Hamlet*, disgrifia'r dramodydd Cymreig Gareth Miles ei atgasedd cychwynnol tuag at waith Shakespeare gan ei fod yn cael ei ddefnyddio i brofi goruchafiaeth diwylliant Seisnig:

Cenedlaetholdeb imperialaidd, haerllug yn datgan yn feunyddiol: "Gynnon ni mae'r Lluoedd Arfog dewra'n y byd, y Frenhinas anwyla', y Teulu Brenhinol mwya' urddasol, y Senedd fwya' democrataidd, y ceir a'r awyrenna' cyflyma', y Gyfraith deca' a'r plismyn ffeindia'. Ac ar ben hyn i gyd, bardd-ddramodydd-lenor-broffwyd-athronydd-diwinydd-seicolegydd mwya'r Oesoedd".⁸

Ac, o holl ddramâu Shakespeare, *The Tempest* yw'r un sydd wedi ennyn y nifer mwyaf o ymdriniaethau gwrthddisgwrs ôl-drefedigaethol. Un o'r rhesymau dros hyn yw dylanwad llyfr gan Octave Mannoni, gwyddonydd cymdeithasol o Fadagasgar, sef *Psychologie de la*

⁴ Yn aml, caiff y termau 'imperialaeth' a 'threfedigaethedd' eu defnyddio'n gyfnewidiol. Er mwyn helpu i wahaniaethu rhwng y ddau, gellir edrych ar eiriau Edward Said: "imperialism" means the practice, the theory, and the attitudes of a dominating metropolitan centre ruling a distant territory; "colonialism", which is almost always a consequence of imperialism, is the implanting of settlements on distant territory.' Gweler Said, E. W. (1994), *Culture and Imperialism* (London: Vintage), t. 8.

⁵ Term a fathwyd gan Helen Tiffin, gweler Tiffin, H. (1987), 'Post-colonial literatures and counter-discourse', *Kunapipi* 9 (3), 17–34, <<https://ro.uow.edu.au/cgi/viewcontent.cgi?article=1705&context=kunapipi>> [Cyrchwyd: 13 Medi 2019].

⁶ Gilbert a Tompkins, *Post-Colonial Drama*, t. 19.

⁷ Meddylier am Dylan Thomas, a'r modd yr oedd ei dad, y Cymro Cymraeg ac athro ysgol Saesneg, yn darllen Shakespeare iddo, a sut yr addysgwyd ef yn y canon Seisnig. 'From the time Dylan could talk his father began to inculcate in him a love of the English language [...] in the evenings there were family readings of Shakespeare's plays and the English poets.' Ackerman, J. (1995), *Dylan Thomas: His Life and Work* (New York: Palgrave Macmillan), t. 25.

⁸ Miles, G., a Bogdanov, M. (2004), *Hamlet William Shakespeare* (Caerdydd: UWIC Press), t. v.

colonisation (1950), a gafodd ei gyhoeddi yn y Saesneg o dan y teitl *Prospero and Caliban: The Psychology of Colonization*.

Seldom has a work about non-literary matters so profoundly influenced actors, directors, critics and teachers [...] Soon after 1950, post-colonial interpretations of *The Tempest*, often with acknowledgement of Mannoni's influence, dominated stages and studies around the world.⁹

Nid yw hyn yn syndod, gan fod trefedigaethedd yn rhan ganolog o stori *The Tempest*, sef dyn o dras Ewropeaidd (Prospero) yn coloneiddio ynys a oedd yn gartref i fenyw o dras Affricanaidd (Sycorax), ac yn ymsefydlu yno fel unben gyda'i ferch, Miranda. Felly ceisia mab Sycorax (Caliban), sydd wedi cael ei droi'n gaethwas i Prospero, ailgipio'r ynys oddi ar ei feistr. Er bod cymeriadau ac isblotiau eraill yn rhan o'r ddrama, gellir ystyried y prif gymeriadau, fel y gwna Mannoni, yn archdeipiau trefedigaethol: Prospero (y meistr estron), Caliban (y caethwas brodorol, gwrthryfelgar), Ariel (y gwas brodorol, cynorthwyol), Miranda (yr un 'ddiniwed', i'w hamddiffyn yn erbyn y bygythiad brodorol, anwaraidd).

Un o'r addasiadau theatraidd, gwrthddisgwrs cyntaf a mwyaf dylanwadol o *The Tempest* yw *Une Tempête* (1969) gan Aimé Césaire, awdur o Martinique, un o Ynysoedd y Caribî.¹⁰ Yn ei fersiwn ef, glyna Césaire fwy neu lai at naratif Shakespeare, ond cyflwynir pob agwedd ar y stori o safbwynt gwrthimperialaidd. Un o'r prif newidiadau yw troi Caliban yn gaethwas du, ac Ariel yn gaethwas *mulatto*, sef adlewyrchiad o hierarchaeth hiliol imperialaeth America. Ac ymdebyga cymeriad Caliban i'r actifydd hawliau sifil Malcolm X (1925–65) – mynna fod Prospero yn ei alw'n X, ac mae ei agwedd tuag at ddisodli grym Prospero yn ddigyfaddawd. Cyferbynna hyn ag agwedd fwy cyfaddawdol Ariel, sy'n ymdebygu i'r gweinidog a'r actifydd Martin Luther King Jr. (1929–68). Prif gymeriad *The Tempest* yw Prospero, y dyn Ewropeaidd sy'n ceisio rheoli pawb a phopeth (gan gynnwys natur), ond yn fersiwn Césaire, symudir canolbwynt y naratif tuag at y cymeriadau brodorol sy'n cael eu gorfodi i ymateb, yn eu gwahanol ffyrdd, i'r sefyllfa drefedigaethol, dreisgar. Ysgrifenna Césaire yn ôl at Shakespeare o bersbectif dyn o dras Affricanaidd; fel y dywed is-deitl y ddrama, dyma 'adaptation for a Black Theatre'. Ychwanegir cymeriad newydd, sef Eshu ('a black devil-god'), a chana Caliban ganeuon i annerch Shango, duw sy'n tarddu o lwyth yr Yorùbá yng ngorllewin Affrica,¹¹ a chyfeirir at Macaya, un o arweinwyr militaraidd rhyfel annibyniaeth Haiti.¹²

⁹ Shakespeare, W. (1999), *The Tempest*, Vaughan, Virginia Mason a Vaughan, Alden T. (goln) (London: Arden), t. 104.

¹⁰ '*Une Tempête* [...] was the earliest influential post-colonial rewriting of *The Tempest* in dramatic form.' (Gilbert a Tompkins, *Post-Colonial Drama*, t. 31.) 'Pallister (1991) cites an 1878 play, *Caliban*, by Ernest Renan, which depicts Caliban's eventual over-throwing of Prospero's rule. It is unclear, however, whether Césaire had read this relatively unknown play when he wrote his own version of *The Tempest*.' (Ibid., tt. 51–2.)

¹¹ Césaire, A. (2002), *A Tempest*, cyfieithwyd gan Richard Miller (New York: TCG Translations), t. 25.

¹² Ibid., t. 37.

Erbyn heddiw, yn dilyn dylanwad Mannoni, Césaire, a disgwrs ôl-drefedigaethol yn gyffredinol, mae bron yn ddisgwyliedig i lwyfaniad proffesiynol o *The Tempest* ymdrin ag elfennau gwleidyddol y ddrama mewn ffyrdd uniongyrchol:

Counter-discourse is always possible in the theatrical presentation of a canonical text, and even expected in some cases: for instance, it is rare to see a contemporary production of William Shakespeare's *The Tempest* that does not refigure Caliban in ways which demonstrate how the racial paradigms characteristic of Renaissance thought are no longer acceptable.¹³

Efallai fod gweld cynhyrchiad proffesiynol o *The Tempest* sy'n anwleidyddol yn ddigwyddiad prin, ond dyma yn wir a welwyd mewn cynhyrchiad Cymraeg o'r ddrama gan Theatr Genedlaethol Cymru yn 2012, sef *Y Storm*, wedi ei gyfieithu gan Gwyneth Lewis a'i gyfarwyddo gan Elen Bowman.¹⁴ Roedd y sioe yn rhan o ŵyl Byd Shakespeare a oedd yn dathlu Chwaraeon Olympaidd Llundain.¹⁵ Perfformiwyd y cynhyrchiad am y tro cyntaf yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bro Morgannwg, cyn teithio i Gaerfyrddin ac yna i Ystad y Faenol, Bangor. Llwyfannwyd y ddrama mewn pabell uchel, a defnyddiwyd estheteg syrcau er mwyn creu sbectacl trawiadol i gyfleu byd swynol ynys *The Tempest*. Derbyniodd y cynhyrchiad adolygiadau ffafriol, er enghraifft:

Mae'r cynhyrchiad yn ffres, ifanc, egniol ac yn fwy na dim, yn wahanol. Yn amlwg mae Theatr Genedlaethol yn symud tuag at gynyrchiadau sy'n gwthio'r ffiniau.¹⁶

Ac ar ddiwedd ei lyfryn, *Shakespeare yn y Theatr Gymraeg*, rhydd Emyr Edwards glod mawr i'r cynhyrchiad. Ar ôl olrhain hanes cynyrchiadau a chyfieithiadau o ddramâu Shakespeare yng Nghymru o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg i'r presennol, daw i'r casgliad:

Yn sgîl [*sic*] y cyfieithu a'r llwyfannu ysbeidiol o waith Shakespeare i'r Gymraeg yn ystod y ganrif aeth heibio, y mae cynhyrchiad *Y Storm* yn 2012 yn binael i'r holl weithgaredd.¹⁷

¹³ Gilbert a Tompkins, *Post-Colonial Drama*, t. 18.

¹⁴ Shakespeare, W. (2012), *Y Storm*, cyfieithiad Gwyneth Lewis o *The Tempest* (Tal-y-bont: Y Lolfa). Honnir ar glawr y llyfr fod y gwaith yn addasiad, ond cyfieithiad llythrennol ydyw mewn gwirionedd.

¹⁵ Bu Chwaraeon Olympaidd Llundain 2012 yn gatalydd ar gyfer trafodaethau cyffredinol am hunaniaeth Brydeinig. Er enghraifft, gweler Stephens, A. Closs (2016), 'The affective atmospheres of nationalism', *Cultural Geographies*, 23, 17 Chwefror, 181–98: <<https://journals.sagepub.com/doi/abs/10.1177/1474474015569994>> [Cyrchwyd: 22 Hydref 2019].

¹⁶ Williams, E. (2012), 'Adolygiad *Y Storm* gan Shakespeare', *National Theatre Wales Community* <<https://community.nationaltheatrewales.org/profiles/blogs/adolygiad-y-storm-gan-shakespeare-cyfieithiad-gan-gwyneth-lewis>> [Cyrchwyd: 18 Awst 2019].

¹⁷ Edwards, E. (2016), *Shakespeare yn y Theatr Gymraeg* (Caerdydd: Argraffwyr yr Abaty), t. 92.

Ond, o ystyried y cynhyrchiad o bersbectif ôl-drefedigaethol, mae'n anodd meddwl ym mha fodd y bu iddo 'wthio'r ffiniau', na llwyddo i fod yn 'binac'l' ar ymwneud Cymru â Shakespeare. Gellir dychmygu y byddai testun canonaid gan Shakespeare sy'n ymhél â threfedigaethedd yn addas ar gyfer ymdriniaeth wrthddisgwrs Gymreig, gan fod Cymru wedi ymwneud ag imperialaeth o'r ddau begwn. Hynny yw, mae Cymru'n wlad a gafodd ei gwladychu ond sydd hefyd wedi gwladychu gwledydd eraill.¹⁸ Yn y lle cyntaf, cafodd Cymru ei gwladychu gan deyrnas Lloegr.¹⁹ Ac yn ddiweddarach, fel rhan o system wleidyddol, economaidd a milwrol Prydain Fawr, cyfrannodd Cymru at imperialaeth fyd-eang yr Ymerodraeth Brydeinig,²⁰ yn ogystal â sefydlu gwladfa annibynnol ar lywodraeth Prydain ym Mhatagonia.²¹ Ymhelaethir ymhellach ar berthynas Cymru â threfedigaethedd yn ail ran yr erthygl, ond, am y tro, ystyrier perthnasedd *The Tempest* i etifeddiaeth drefedigaethol Cymru yn y ddeialog rhwng Miranda a Caliban. Ar y naill law, mae'r hiliaeth a fynegir yn berthnasol i Gymru gan ei bod yn nodweddiadol o agwedd haerllug gyffredinol pobloedd Ewrop tuag at bobloedd aneuropaidd yn ystod y cyfnod imperialaidd. Ond, ar y llaw arall, mae'r darn hefyd yn berthnasol gan ei fod yn adlewyrchu agwedd ragfarnlyd Seisnig y cyfnod tuag at y gwledydd Celtaidd yn gyffredinol, gan gynnwys Cymru,²² a thuag at Iwerddon yn enwedig.²³

¹⁸ Yn yr erthygl hon, ystyrir bod y geiriau 'trefedigaethu', 'gwladychu' a 'choloneiddio' yn gyfystyr â'i gilydd.

¹⁹ Mae ceisio nodi un dyddiad penodol pan gafodd Cymru ei gwladychu gan Loegr yn broblematig. Un dyddiad arwyddocaol, er enghraifft, yw marwolaeth y Tywysog Llywelyn ap Gruffudd yn 1282: 'Independent Gwynedd was obliterated and Edward took pains to secure all insignia and any other symbols which might service a revival, to take action against the poets and to wipe out whatever trace of a Welsh state remained [...] The Welsh passed under the nakedly colonial rule of an even more arrogant, and selfconsciously alien, imperialism.' (Williams, G. A. (1985), *When Was Wales?* (Harmondsworth: Penguin), t. 85.)

²⁰ 'Great Britain, as a human reality rather than a ritual title, took shape around the union of England and Scotland in 1707 and was built on merchant capitalism, imperialism, naval power, a modernized agriculture and liberal oligarchy. In its sweep to maritime supremacy, its hegemony over the Atlantic trade and its slave economies [...] in its uniquely dominant capital of London sucking in talent from the four corners, it evolved a highly unusual structure in which what was in fact a multinational state (with the so-called Celtic Fringe providing 46 per cent of its population) achieved a British uniformity [...] Within this state and its developing nation, the Welsh, like the Slovaks in Austria-Hungary, had disappeared into the dominant partner' (Ibid., tt. 141–2). Gweler hefyd: Davies, J. (1992), *Hanes Cymru* (London: Penguin) neu Brooks, S. (2015), *Pam Na Fu Cymru: Methiant Cenedlaetholdeb Cymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

²¹ Lublin, G. (2009), 'Y Wladfa: gwladychu heb drefedigaethu?', *Gwerddon*, 4, Gorffennaf, 8–23.

²² Meddylier, er enghraifft, am adroddiad y Llyfrau Gleision: 'The Welsh language is a vast drawback to Wales, and a manifold barrier to the moral progress and commercial prosperity of the people. It is not easy to over-estimate its evil effects'. (Llyfrau Gleision, *Reports of the commissioners of inquiry into the state of education in Wales* (1847), <<https://www.llyfrgell.cymru/darganfod/oriel-ddigidol/deunydd-print/llyfrau-gleision-1847>> [Cyrcwyd: 25 Mai 2020].)

²³ Mae llawer o ddeunydd wedi ei gyhoeddi am y cysylltiad rhwng Caliban ac Iwerddon. Am grynodeb, gweler Shakespeare, W. (1999), *The Tempest*, Vaughan, Virginia Mason, a Vaughan, Alden T. (goln) (London: Arden), tt. 47–54. Er enghraifft: 'Some specifics, according to [Dympna] Callaghan, reflect the imperialists' vision of Caliban: their fear of his attempted miscegenation; their contempt for his language ('gabble', a word of Irish provenance, first appears in a sixteenth-century Anglo-Irish description of Irish speech); their efforts to displace his culture; their curtailments of his freedom and territory.' (Ibid., t. 52.)

MIRANDA Abhorred slave,
Which any print of goodness wilt not take,
Being capable of all ill; I pitied thee,
Took pains to make thee speak, taught thee each hour
One thing or other. When thou didst not, savage,
Know thine own meaning, but wouldst gabble like
A thing most brutish, I endowed thy purposes
With words that made them known. But thy vile race,
(Though thou didst learn) had that in't which good natures
Could not abide to be with; therefore wast thou
Deservedly confined into this rock,
Who hadst deserved more than a prison.

CALIBAN You taught me language, and my profit on't
Is I know how to curse. The red plague rid you
For learning me your language.²⁴

Er ei berthnasedd amlwg i Gymru, ymddengys nad oes addasiad ôl-drefedigaethol Cymreig o *The Tempest* yn bodoli. Beth a olygir pan gyfeirir at safbwynt 'ôl-drefedigaethol Cymreig'? Cyfeiria'r ansoddair at safbwynt ôl-drefedigaethol sy'n meddu ar bersbectif Cymreig yn benodol, yn hytrach nag un Prydeinig, er enghraifft, neu un mwy cyffredinol. Hynny yw, dyma safiad gwleidyddol sy'n ystyried i Gymru gael ei gwladychu, ond iddi hefyd wladychu gwleidydd eraill. Dyma felly oedd man cychwyn *Gwlad yr Asyn*: llunio drama sydd wedi ei seilio'n fras ar *The Tempest*, a gwneud hynny o safbwynt ôl-drefedigaethol, gwrthddisgwrs Cymreig. Sylwer bod yr ymateb hwn i waith Shakespeare yn cyferbynnu ag un Saunders Lewis, er enghraifft, a oedd hefyd wedi ei symbylu i gyfansoddi dramâu o safbwynt cenedlaetholgar Cymreig. Ei ymateb ef oedd llunio dramâu neo-glasurol Cymraeg (rhai ohonynt yn fydryddol, sy'n amlygu ei hoffter o waith Shakespeare), fel ffordd o wrthbwysio arglwyddiaeth bardd cenedlaethol Lloegr ar Gymru. Mae'r dull gwrthddisgwrs yn anelu at fod yn fwy hunanymwybodol feirniadol o dueddiadau a meddylfryd imperialaidd. Er mwyn cynyddu potensial beirniadol y ddrama, penderfynwyd adfeddu (*appropriate*) prif gymeriadau *The Tempest* yn unig, a hepgor ei naratif gwreiddiol yn gyfan gwbl. A chan ddilyn esiampyl Césaire, penderfynwyd canolbwyntio'n bennaf ar y gwrthdaro rhwng y ddau gymeriad brodorol: Caliban, y caethwas gwrthryfelgar, ac Ariel, y gwas ufudd. Yn hyn o beth felly, mae *Asyn* yn gymaint o addasiad/adfeddiad o *Une Tempête* ag ydyw o *The Tempest*.²⁵

Yn gyntaf, cyn parhau i olrhain y broses greadigol o lunio *Gwlad yr Asyn*, mae'n rhaid ystyried y cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth gymryd safiad ôl-drefedigaethol Cymreig. Dim

²⁴ Shakespeare, *The Tempest*, act I, gol. ii, tt. 175–6.

²⁵ Am gymhariaeth rhwng addasu ac adfeddu llenyddol, gweler Sanders, J. (2005), *Adaptation & Appropriation* (Abingdon: Routledge).

ond hyd at ryw bwynt penodol y gall dramodydd ôl-drefedigaethol Cymreig ddilyn awdur fel Césaire gan fod sefyllfa geowleidyddol a threfedigaethol Cymru mor wahanol i un Martinique, a hynny oherwydd bod y Cymry ymhlith yr Ewropeaid a wladychodd gyfandiroedd America, Asia ac Affrica. Gellir dadlau felly fod gan diriogaeth fel Martinique (a Césaire fel dramodydd o dras Affricanaidd) berthynas glasurol, ddiwyll â threfedigaethedd, tra bo un Cymru yn llawer mwy amwys. Felly, wrth ddewis ysgrifennu drama ôl-drefedigaethol Gymreig, mae'n rhaid i ddramodydd ddod i delerau â chymhlethdodau perthynas Cymru â threfedigaethedd yn gyffredinol, sef penderfynu beth yw sail wleidyddol y dramodi. Dyma yw bwriad rhan nesaf yr erthygl.

II. Golwg deublyg

Lleoli Cymru

O edrych ar gyhoeddiadau ym maes y ddrama ôl-drefedigaethol, prin iawn yw'r sôn am Gymru. Er enghraifft, yn eu cyflwyniad i'r gyfrol *Post-Colonial Drama: theory, practice, politics*, teimla'r awduron fod angen iddynt gyfiawnhau cynnwys dramâu Gwyddelig yn eu hastudiaeth, ond nid ydynt yn sôn am Gymru:

This study considers plays from Australia, Canada, India, Ireland, New Zealand, various countries in Africa, parts of South-East Asia, and the Caribbean. Ireland, Britain's oldest colony, is often considered inappropriate to the post-colonial grouping, partly because it lies just off Europe [*sic*]. Yet Ireland's centuries-old political and economic oppression at the hands of the British – and its resistance to such control – fits well within the post-colonial paradigm.²⁶

Mae cael ei hepgor yn brofiad cyffredin i'r genedl Gymreig. Fel arfer gwelir hyn yng nghyd-destun Prydeindod, ond, yn aml, digwydd hyn hefyd oddi mewn i rai disgyrsiau ôl-drefedigaethol. Un o ffigyrau craidd maes astudiaethau ôl-drefedigaethol oedd Edward W. Said. Canolbwyntia ei lyfr dylanwadol *Orientalism* (1978) ar ddatgelu sut y mae cynrychiolaeth ddiwylliannol y gorllewin wedi portreadu'r dwyrain. Yn ddiweddarach, yn *Culture and Imperialism* (1993), ehangodd ei ymchwil i edrych ar y berthynas rhwng Ewrop a'i thiriogaethau tramor ledled y byd.²⁷ Arweiniodd cyhoeddiadau fel y rhain at duedd o fewn astudiaethau ôl-drefedigaethol i feddwl mewn termau deuaidd a phegynol: gorllewin/dwyrain, Ewropeaidd/anewropeaidd, gwyn/du. Ond, serch hyn, tueddir i gynnwys Iwerddon fel rhan o'r ddisgwrs ôl-drefedigaethol glasurol, er iddi fod yn wlad Ewropeaidd ac yn rhan

²⁶ Gilbert a Tompkins, *Post-Colonial Drama*, t. 7.

²⁷ 'I [...] have tried here to expand the arguments of the earlier book [*Orientalism*] to describe a more general pattern of relationships between the modern metropolitan West and its overseas territories.' (Said, E. W. (1994), *Culture and Imperialism* (London: Vintage), t. xi.)

o'r Deyrnas Unedig (DU) yn ystod cyfnod yr Ymerodraeth (sef rhwng 1801 a 1922). Fel y gwelir yn y dyfyniad uchod, mae hyn i raddau yn ymwneud â'i hanes o wrthsefyll rheolaeth imperialaidd Prydain. Caiff Cymru ei hepgor o'r ddisgwrs oherwydd bod ganddi draddodiad hirhoedlog o uniaethu â Lloegr (hanes sy'n mynd yn ôl i'r Cyfnod Modern Cynnar, os nad cynt).

Ond, dros y ddau ddegawd diwethaf, heriwyd meddylfryd deuaidd astudiaethau ôl-drefedigaethol, ac mae peidio â chydabod sefyllfa gwlad fel Cymru yn rhan o'r feirniadaeth honno.²⁸ Er enghraifft, dadleua Kirsti Bohata yn *Postcolonialism Revisited*:

The sheer diversity of ethnicities, places and literatures which might be addressed through postcolonial paradigms means that, while the term may serve as a shorthand to refer to the academic discourses which engage with or make use of postcolonial theory, the subdivision (and perhaps renaming) of the field(s) is long overdue. Within such subdivision there is most certainly space for the use and expansion of postcolonial theory in the context of those countries not normally recognized as colonial or post-colonial. These are countries whose early histories include conquest and colonization prior to the period traditionally addressed by postcolonialism, and whose subjugation or marginalization may indeed continue right through and beyond the eras of overseas mercantilism, colonization and imperialism. In these cases we find a long history of cultural assimilation and/or political co-option, yet also a persistent, self-defined sense of cultural difference and, later, of nationhood.²⁹

Gellir dadlau bod yr ymadrodd 'yet also' yn y frawddeg uchod yn nodweddu hanfod perthynas hanesyddol Cymru â threfedigaethedd: gwlad a gafodd ei gwladychu, ond eto hefyd, un sydd wedi gwladychu tiriogaethau eraill. Digwyddodd y rhan helaeth o weithgareddau imperialaidd Cymru o fewn cyd-destun y gyfundrefn Brydeinig. Meddylier, er enghraifft, am yr ymfudwyr cynnar o Gymru i Unol Daleithiau America, y Cymry yn Awstralia, neu'r cenhadon Cristnogol yn Asia a'r Affrig.³⁰ Ond efallai mai'r ffordd orau o werthfawrogi perthynas ddeublyg Cymru

²⁸ Yng nghyd-destun Prydain, adeilada'r gwaith hwn ar Hechter, M. (1975), *Internal Colonialism: Celtic Fringe in British National Development* (Piscataway: Transaction Publishers); a Nairn, T. (1977), *The Break-up of Britain: Crisis and Neo-Nationalism* (London: NLB).

²⁹ Bohata, K. (2004), *Postcolonialism Revisited: Writing Wales in English* (Llandybïe: Gwasg Dinefwr), t. 3. Cafodd y llyfr hwn ei gyhoeddi yng nghanol trafodaeth frwd yng Nghymru am berthnasedd y term 'ôl-drefedigaethol' i Gymru. Er enghraifft, gweler cyfres o erthyglau a llythyrau a gyhoeddwyd yn y *New Welsh Review* yn ystod 2004–5 gan awduron megis Dai Smith, Jane Aaron, Patrick McGuinness, John Pikoulis a Kirsti Bohata.

³⁰ Am y ddadl dros gyflwyno hanes penodol-Gymreig o fewn imperialaeth Prydain yn gyffredinol, gweler Jones, A., a Jones, B. (2003), 'The Welsh World and the British Empire, c. 1851–1939: An Exploration', *Journal of Imperial and Commonwealth History*, 31 (2), 57–81. Am ddadansoddiad ôl-drefedigaethol o weithgaredd y cenhadon Cymreig, gweler Jones, A. (2015), 'The Other Internationalism? Missionary Activity and Welsh Nonconformist Perceptions of the World in the Nineteenth and Twentieth

ag imperialaeth yw trwy ystyried y fenter drefedigaethol sy'n unigryw i Gymru, sef y Wladfa Gymreig, a ddechreuodd yn 1865 pan laniodd llong y *Mimosa* ym Mhatagonia, De America. Roedd y fenter hon yn hollol annibynnol ar lywodraeth y DU. Gellir cyfeirio at nifer o gymelliannau cyffredinol a orwedda i tu ôl i'r 'Fenter Fawr' – tlodi neu ddyheadau crefyddol, er enghraifft – ond ni ellir gwadu'r dimensiwn gwrth-drefedigaethol: y dyhead i ddianc rhag gorthrwm Prydeindod a sefydlu cymuned hunan-lywodraethol, Gymraeg ei hiaith. Fel y dywed Lublin yn ei herthygl 'Y Wladfa: gwladychu heb drefedigaethu?':

Gwelir llythyr a anfonwyd ar ran y Gymdeithas Wladychfaol at awdurdodau'r Ariannin yn Buenos Aires ar 7 Tachwedd 1861. Ceir yn y llythyr gais i adfer y sefyllfa orthrymus [...] Amlygwyd yn y datganiad hwn awyddfyd cryf am ymreolaeth: 'Gallwn eich hysbysu mai ein dymuniad yw cael gwlad lle y gallwn gael llywodraethu ein hachosion mewnol yn gyfangwbl, heb unrhyw ymyriad o eiddo un genedl arall yn ein pethau bydol a chrefyddol.'³¹

Yn gyffredinol, tuedda rhethreg modernrwydd Prydeindod i bortreadu diwylliant gwledydd Celtaidd Ynysoedd Prydain fel un israddol a chyntefig. Gwelir hyn ar ei fwyaf amlwg mewn perthynas ag Iwerddon, ond mae hefyd yn bresennol yng nghyd-destun yr Alban a Chymru. Un o'r enghreifftiau mwyaf amlwg, cyhoeddus o hyn yng Nghymru (fel y soniwyd yn gynharach) oedd agwedd awduron y Llyfrau Gleision, *Reports of the commissioners of inquiry into the state of education in Wales* (1847). Yn wir, gellir ystyried yr adroddiad damniol hwn fel un o'r ffactorau a arweiniodd at yr ymgyrch i sefydlu'r Wladfa yn y lle cyntaf, fel y crybwylla Lucy Taylor yn ei herthygl, 'Global perspectives on Welsh Patagonia'. Amlyga'r adroddiad ar gyflwr addysg y cyfnod yr un ieithwedd drefedigaethol yn union ag a ddefnyddiwyd ar draws yr Ymerodraeth Brydeinig i ddyrchafu un diwylliant a dilorni un arall:

Like Ireland, Wales was the subject of colonial discourses, which echo those in the wider empire. In her work on the nineteenth-century Welsh novel written in English, Kirsti Bohata demonstrates that linguistic otherness was associated with racialized metaphors of 'darkness',³² a trope also vivid in the reports. For Commissioner Symonds, for example: 'Superstition

Centuries', yn Williams, C., Evans, N. ac O'Leary, P. (goln), *A Tolerant Nation? Revisiting Ethnic Diversity in a Devolved Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 49-60. Hefyd, gweler project rhyngddisgyblaethol Lisa Lewis et al. am genhadon Cymreig yng ngogledd-ddwyrain India; 'Welsh and Khasi Cultural Dialogues': <www.welshkhasidialogues.co.uk/index.html> [Cyrchwyd: 13 Mai 2020].

³¹ Lublin, 'Y Wladfa', t. 9. Daw'r dyfyniad yn y testun gwreiddiol o Jones, L. (1898), 'Plas Hedd', *Hanes y Wladfa Gymreig Tiriogaeth Chubut, yn y weriniaeth Ariannin, De Amerig* (Caernarfon), t. 1.

³² Troednodyn yn yr erthygl y dyfynnir ohoni (gweler troednodyn 33): 'Kirsti Bohata (2015), "Apes and cannibals in Cambria: literary representations of the racial and gendered other", in Charlotte Williams, Neil Evans, and Paul O'Leary, eds., *A tolerant nation? Revisiting ethnic diversity in a devolved Wales*, Cardiff: University of Wales Press, 2015, pp. 85-105.'

prevails. Belief in charms ... even witchcraft, sturdily survive all the civilization and light ... little or none of such light has yet penetrated the dense darkness which, harboured by their language ... enshrouds the minds of the people.’³³

Cyfrannodd profiadau dilornus o’r fath yng Nghymru at gymuned y Wladfa’n mabwysiadu agwedd o ‘gyfeillgarwch’ tuag at frodorion Patagonia: llwyth y Tehuelche i ddechrau yn nyffryn Camwy (*Chubut*), ac yn ddiweddarach y Mapuche yn yr Andes. Roedd arweinwyr menter y Wladfa yn awyddus i sefydlu polisi gwahanol mewn perthynas â brodorion De America o’i gymharu â’r un treisgar a oedd eisioes yn bodoli’n gyffredinol ar draws Gogledd America. Yn gymharol felly, roedd eu hagwedd tuag at y brodorion yn ganmoladwy. Ond, fel y dadleua ysgolheigion ôl-drefedigaethol megis Lublin a Taylor, roedd y safbwynt yn un anghyson. Y tu ôl i’r cyfeillgarwch, llechai’r ddeuoliaeth drefedigaethol: gwareiddiad Ewropeaidd/barbariaeth anewropeaidd. Nid oedd y gwrthddywediad o geisio datrys problem drefedigaethol yng Nghymru trwy sefydlu gwladfa dramor yn amlwg i’r gwladychwyr Cymreig:

The Welsh colony [...] was imbued with colonial/utopian fantasies which perhaps helped to gloss over the contradictory realities of life and power in Chubut. The Welsh were simultaneously resisting racialised cultural imperialism and keenly promoting colonisation as the means of resistance.³⁴

Rhyw ddeng mlynedd ar ôl sefydlu’r Wladfa Gymreig, cafodd gwrthddywediadau’r fenter eu chwalu wrth i wladwriaeth yr Ariannin weithredu polisi o ddifetha cymunedau trigolion brodorol Patagonia: y rhyfel a elwir yn Goncwest yr Anialwch (*Conquista del Desierto*). Lladdwyd nifer fawr o’r boblogaeth frodorol a gwahanwyd teuluoedd: anfonwyd y gwragedd i weithio fel morynion yn Buenos Aires a’r dynion i weithio ar blanhigfeydd. Er i arweinydd y Wladfa, Lewis Jones, ddanfôn llythyr at yr awdurdodau Archentaidd yn pledio achos y trigolion brodorol, cafodd yr apêl ei hanwybyddu. Nid oedd sefyllfa o ryfel yn caniatáu safbwynt amwys: daeth yn amlwg y byddai’r gymuned Gymreig yn sefyll, yn y pen draw – fel pobl wynion, Ewropeaidd – ar ochr drefedigaethol y rhaniad imperialaidd.

Roedd y fath amgylchiadau’n gosod Cymry Patagonia mewn sefyllfa ddeuol. Ar un ochr, roedd eu gorffennol fel dioddefwyr tybiedig gormes ym Mhrydain yn creu rhyw ymwybyddiaeth o orthrymder ynddynt, a allai fod wedi eu hysgogi i gydymdeimlo â chyflwr trist pobloedd ddi-rym.

³³ Taylor, L. (2018), ‘Global perspectives on Welsh Patagonia: the complexities of being both colonizer and colonized’, *Journal of Global History*, 13 (3), Tachwedd, t. 456. Troednodyn yn erthygl Taylor (2018) ar dudalen 456: ‘Quoted in R. Tudur Jones (2016), “Michael D. Jones a thynged y genedl”, in E. Wyn James and Bill Jones, eds., *Michael D. Jones a’i Wladfa Gymreig*, Cardiff: University of Wales Press, 2016, p. 77.’

³⁴ Taylor, L. (2017), ‘Welsh–Indigenous Relationships in Nineteenth Century Patagonia: “Friendship” and the Coloniality of Power’, *Journal of Latin American Studies*, 49 (1), Chwefror, 161.

Ar yr ochr arall, roedd gwreiddiau Ewropeaidd y Cymry yn eu hagosáu at lywodraeth yr Ariannin. Ac eithrio cefndir Pabyddol y rhan fwyaf o'r awdurdodau, roedd llawer mwy yn gyffredin rhwng llywodraethwyr yr Ariannin a Chymry Patagonia, ac roedd felly'n gwbl naturiol i'r gwladfawyr glosio at wareidd-dra dynion gwyn Buenos Aires.³⁵

Mae hanes y Wladfa yn cynnig portread clir o berthynas ddeublyg Cymru â threfedigaethedd. Hynny yw, o fewn cyd-destun diwylliannol, gwleidyddol ac economaidd y DU, roedd sefyllfa Cymru'n israddol; ond, wrth i longau fel y *Mimosa* hwylio i Hemisffer y De, wrth iddi groesi ffin gyfandirol Ewrop, codwyd statws y Cymry. O fewn system hierarchaidd, hiliol trefedigaethedd, rhoddwyd statws uwch i'r Cymry na phoblogaeth frodorol De America. Ond eto hefyd, fel cymuned a siaradai iaith leiafrifol, rhoddwyd iddynt statws is na'r Archentwyr Ewropeaidd. Yn dilyn Concwest yr Anialwch, cafodd annibyniaeth wleidyddol y Wladfa ei diddymu: sugnwyd y gymuned Gymreig i system wladwriaethol, homogenaidd yr Ariannin, lle y teyrnasai'r Sbaeneg dros y Gymraeg (yn wir, fe'i galwyd yn iaith farw, sef sefyllfa nid annhebyg i'r un y ceisiodd y Cymry ddianc rhagddi ym Mhrydain).³⁶

Yn eu hymchwil i hanes y Wladfa, cyfeiria Lublin a Taylor at draddodiad neilltuol o fewn ôl-drefedigaethedd sy'n tarddu o America Ladin, traddodiad sy'n cylchdroi o gwmpas cysyniad 'dad-drefedigaetholdeb' (*decoloniality*).³⁷ Bathodd Aníbal Quijano, cymdeithasegydd o Beriw, y term 'trefedigaetholdeb' (*coloniality*) yn y 1990au cynnar,³⁸ a sbardunodd hyn gasgliad o academyddion ôl-drefedigaethol, o America Ladin yn bennaf, i ddatblygu damcaniaethau pellach. Yn ei hanfod, cyflwynwyd yr ymadrodd cyfansawdd 'modernrwydd/trefedigaetholdeb' (*modernity/coloniality*) i'r ddisgwrs, gan ddatllo mai trefedigaetholdeb yw ochr dywyll, guddiedig modernrwydd, a'i bod yn amhosibl gwahanu'r naill oddi wrth y llall. Pan gafodd y cysyniad Ewropeaidd o fodernrwydd ei greu a'i wasgaru dros y byd (o tua'r flwyddyn 1500 ymlaen), ymledodd ar y cyd â threfedigaetholdeb:

If modernity is a narrative (or, better still, a set of narratives), coloniality is what the narratives hide or disguise, because it cannot be said explicitly. To say it explicitly would be to run against the very promises of modernity. It cannot be said explicitly that slavery is the exploitation of human beings for the benefit of other human beings.³⁹

³⁵ Lublin, 'Y Wladfa', t. 12.

³⁶ 'In the same year (1883), Finochetto [y comisâr Archentaidd] labelled Welsh as a "dead language" of schooling, and asserted the superiority of Spanish instruction in the new national schools'. (Taylor, *Global Perspectives*, t. 466.)

³⁷ 'I interpreted the texts [archifau'r Wladfa] through a perspective inspired by the Latin American "coloniality of power" scholarship. I approach this literature not as a set of truths but rather as a series of approaches and questions that we can ask of conventional interpretations of history and international politics.' (Taylor, 'Welsh-Indigenous Relationships', t. 146.)

³⁸ Er mwyn darllen ei waith yn Saesneg, gweler Quijano, A. (2000), 'Coloniality of Power, Eurocentrism, and Latin America', *Nepantla: Views from South*, 1 (3), tt. 533–80.

³⁹ Mignolo, W. D., a Walsh, C. E. (2018), *On Decoloniality: concepts, analytics, praxis* (Durham, NC: Duke University Press), t. 141.

Dadleua ysgolheigion sy'n ymdrin â 'threfedigaethodeb' bod ieithwedd benodol modernrwydd wedi newid rhwng yr unfed ganrif ar bymtheg a'r cyfnod presennol (e.e. y Dadeni, yr Ymoleuo, y genhadaeth Ewropeaidd o 'wareiddio' gwledydd anewropeaidd, moderneiddio, cynnydd, datblygiad, globaleiddio), ond bod trefedigaetholdeb grym (*the coloniality of power*) wedi aros yn gyson am bum can mlynedd. Cyfranna cysyniadau ôl-drefedigaethol o'r fath at ddealltwriaeth o hanes y Wladfa. Wrth ystyried y fenter Gymreig yng nghyd-destun trefedigaetholdeb, sylwir sut y defnyddiwyd rhethreg modernrwydd (gwaraid/baraaraid, Ewropeaidd/anewropeaidd) gan y gwahanol weithredwyr ar ddwy ochr yr Iwerydd er mwyn cyfiawnhau ymddygiad gormesol o fewn Prydeindod, Cymreictod a chenedlaetholdeb Archentaidd.

Cyflwyno gwaith ymchwil Lublin a Taylor Gymreictod mewn dau gyd-destun geowleidyddol cyferbyniol: o fewn ffiniau Ewrop (Cymru fel rhan o'r DU) a thu hwnt i Ewrop (y Wladfa yn Ne America). Cyflea astudiaethau o'r fath berthynas ddeublyg Cymru â threfedigaethedd, sef profiad ar naill ochr y rhaniad imperialaidd a'r llall: gwlad wedi ei gwrthio i'r cyrion gan Brydeindod ar y naill law, ond a chanddi statws breintiedig fel gwlad Ewropeaidd ar y llaw arall. Gellir dadlau bod y naill bersbectif a'r llall yn angenrheidiol i'r broses o leoli Cymru o fewn ôl-drefedigaethedd. Gellir cyfeirio at y persbectif deuol hwn fel 'golwg deublyg', sef golwg o ddau begwn trefedigaethedd yr un pryd. Gellir datgan, er enghraifft, fod astudiaethau Lublin a Taylor, gan eu bod yn trafod dwy ochr Cymreictod – y meddylfryd trefedigaethol (*colonial*) yn ogystal â'r un trefedig (*colonized*) – yn waith ysgolheigaidd sy'n cyfleu golwg deublyg.

Wrth geisio lleoli Cymru o fewn ôl-drefedigaethedd, mae'n rhaid dewis a dethol pa agweddau ar y ddisgwrs sy'n berthnasol i sefyllfa gymhleth Cymru a pha rai nad ydynt yn berthnasol. Weithiau, hefyd, mae gofyn bathu termau newydd. Mae'r ymadrodd 'golwg deublyg' yn swnio'n debyg iawn i 'ymwybyddiaeth ddeublyg' (*double consciousness*), sef y term a ddefnyddiodd W. E. B. Du Bois yn ei lyfr dylanwadol *The Souls of Black Folk* (1903). Ond golyga rywbeth ychydig yn wahanol. Yn ei lyfr, trafoda Du Bois yr ymwybyddiaeth ddeublyg sy'n tarddu o fod yn Affricanaidd ac yn Americanaidd, a'r gwrthdaro a geir rhwng y ddwy hunaniaeth:

The Negro is [...] born with a veil, and gifted with second-sight in this American world, – a world which yields him no true self-consciousness, but only lets him see himself through the revelation of the other world. It is a peculiar sensation, this double-consciousness, this sense of always looking at one's self through the eyes of others, of measuring one's soul by the tape of a world that looks on in amused contempt and pity. One ever feels his twoness, – an American, a Negro; two souls, two thoughts, two unreconciled strivings, two warring ideals in one dark body, whose dogged strength alone keeps it from being torn asunder.⁴⁰

⁴⁰ Du Bois, W. E. B. (2003), *The Souls of Black Folk* (New York: Barnes & Noble Classics), t. 2.

Â Du Bois ymlaen i ddadlau dros ddatblygu hunaniaeth Affricanaidd-Americanidd, sef cyfuniad cadarnhaol o ddwy ymwybyddiaeth. Er bod yr ymadrodd ‘ymwybyddiaeth ddeublyg’ yn ymdebygu i'r term ‘golwg deublyg’, yr hyn y mae Du Bois yn ei drafod yn ei hanfod yw cymysgrywiaeth (*hybridity*), sy'n derm cyfarwydd ym maes astudiaethau ôl-drefedigaethol.⁴¹ Yn sicr, mae'r syniad o gymysgrywiaeth ddiwylliannol yn berthnasol iawn i wlad fel Cymru gyda'i hanes hir o gymathiad trefedigaethol. Cyflea cymysgrywiaeth y syniad o ddatblygiad ffurfiau diwylliannol newydd yn sgil cydblethu ac ymdoddi (sy'n gyffredin i bron pob sefyllfa drefedigaethol), tra cyflea golwg deublyg y syniad o gynnal dau safbwynt ar yr un pryd, a'r angen i gydnabod dau bersectif.⁴² Mae'r ymadrodd ‘golwg deublyg’ yn berthnasol i sefyllfaoedd gwleidyddol sy'n ymdebygu i un Cymru, lle y ceir perthynas â'r canol imperialaidd yn ogystal â'r cyron. Fel cymysgrywiaeth, mae'r cysyniad hefyd yn un anneuaidd (*non-binary*), oherwydd, yn hytrach na chyfleu ‘y naill *neu'r* llall’, mae'n cyfleu ‘y naill *a'r* llall’. Yn hyn o beth, gellir cysylltu'r cysyniad â'r hyn a elwir o fewn traddodiad dad-drefedigaetholdeb America Ladin yn ‘meddwl ar y ffin’ (*border thinking*). Datblygodd y syniad o feddwl ar y ffin yng ngwaith Gloria Anzaldúa, yn gyntaf yn ei llyfr *Borderlands/La Frontera* (1987), ac yna yn y traethodau a gyhoeddwyd yn *Light in the Dark/Luz en lo oscuro* (2015) ar ôl iddi farw. Mewn cyfweiliad ar ddiwedd *On Decoloniality*, dywed Catherine Walsh am yr ail gyhoeddiad:

In this text, Anzaldúa relates the borders with the cracks. She speaks of the ‘cracks between the worlds’ and of ‘dwelling in liminalities’ as part of negotiating borders and becoming nepantleras.⁴³ ‘We must *choose* to occupy intermediary spaces between worlds,’ Anzaldúa says [...] Moreover, and as she goes on to argue, ‘We must *choose* to see through the holes in reality, *choose* to perceive something from multiple angles’.⁴⁴

⁴¹ ‘One of the most widely employed and most disputed terms in post-colonial theory, hybridity commonly refers to the creation of new transcultural forms within the contact zone produced by colonization. As used in horticulture, the term refers to the cross-breeding of two species by grafting or cross-pollination to form a third, “hybrid” species.’ (Ashcroft, B., Griffiths G., a Tiffin, H. (1998), *Key Concepts in Post-Colonial Studies* (Abingdon: Routledge), t. 118.)

⁴² Benthycir yr ymadrodd ‘double vision’ (‘golwg deublyg’) oddi wrth y bardd Ted Hughes (1930–98). Yn ei lyfr *Shakespeare and the Goddess of Complete Being* (1993), cyflwyno Hughes ddamcaniaeth gynhwysfawr am waith Shakespeare. Dadleua i Shakespeare lunio nifer helaeth o'i ddramâu mewn modd lle y medrir eu darllen ar ddwy lefel yr un pryd, sef y lefel realistig (plot) a'r lefel symbolaidd (mytholegol, ysbrydol, gwleidyddol).


⁴³ Gair Nahuatl (un o ieithoedd brodorol Mecsico) yw ‘nepantla’, sy'n golygu ‘yn ei ganol’. Caiff ei ddefnyddio i gyfleu'r cysyniad o fod rhwng dau le: <https://en.wikipedia.org/wiki/Nepantla#cite_note-3-10> [Cychwyd: 18 Mai 2020]. Hefyd, meddylier am gerdd enwog Waldo Williams, ‘Mewn Dau Gae’, a'r dewis o'r arddodiad ‘mewn’ yn hytrach na ‘rhwng’. Williams, W. (1956), *Dail Pren* (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth), tt. 26-7.

⁴⁴ Mignolo a Walsh, *On Decoloniality*, t. 250. Nodyn yn y testun gwreiddiol ar dudalen 250: ‘Gloria Anzaldúa, *Light in the Dark, Luz en lo Oscuro: Rewriting Identity, Spirituality, Reality*, ed. Analouise Keating (Durham, NC: Duke University Press).’

Dyma ddadl o fewn astudiaethau ôl-drefedigaethol dros ddathlu safbwynt deublyg, dros gofleidio'r cymhlethdodau a geir mewn sefyllfaoedd trefedigaethol, sef derbyn realiti'r sefyllfa yn hytrach na cheisio gwadu'r elfennau sy'n achosi cywilydd. O fewn y cyd-destun gwleidyddol Cymreig, ceir hefyd yr un positifrwydd tuag at ymwybyddiaeth ddeublyg. Er enghraifft, fel y dywedodd Rabab Ghazoul, yr artist/actifydd o Gaerdydd, ar raglen *Four Thought*, Radio 4:

These two positions don't shut things down for Wales, rather they open them up. I'd go further and say that it's within these two combined positions that an incredibly progressive power potentially lies. Why? Because being both victim of colonialism and beneficiary of colonialism means, in Wales, we have the capacity for both radical empathy and radical responsibility. And it's from that profound place of dual experience that we can unlock and model truly emancipated futures.⁴⁵

Cyflwynir yma'r ymadrodd 'golwg deublyg' gyda'r un bwriad â Ghazoul: fel ffordd o fod yn agored ac yn onest am berthynas gymhleth Cymru â threfedigaethedd, ac i ddathlu persbectif manteisiol y ffin fel rhan angenrheidiol o ddadgoloneiddio'r genedl. Gellir diffinio'r safbwynt yn gryno fel un sy'n herio hierarchaeth imperialaidd ar y lefel ficro (Prydeinig/Cymreig) ar yr un pryd â'r lefel facro (Ewropeaidd/anewropeaidd) (gweler Ffigwr 1).



Ffigwr 1: Golwg deublyg: herio hierarchaeth imperialaidd ar lefel ficro a macro.

Y ddrama ôl-drefedigaethol Gymreig

Os yw cynnwys agwedd ddeublyg yn angenrheidiol i lawn ddeall cysylltiad Cymru â threfedigaethedd, gellir dadlau y dylai cyfleu'r golwg deublyg fod yn nodwedd o'r ddrama ôl-drefedigaethol Gymreig. Hynny yw, dylai'r ddrama ôl-drefedigaethol Gymreig gydnabod perthynas ddeublyg Cymru â threfedigaethedd. Os na wneir hynny, mae perygl o gyflwyno darlun unochrog, ffug. Byddai'n anaddas i ddramodydd Cymreig geisio efelychu esiampl

⁴⁵ Ghazoul, R. (2019), *Digging Deep*, rhaglen *Four Thought*, Radio 4 <<https://www.bbc.co.uk/sounds/play/m0009cd4>> [Cyrchwyd: 25 Hydref 2019].

Césaire yn *Une Tempête*, er enghraifft, oherwydd cafodd y ddrama hon ei llunio o bersbectif penodol y trefedig (*the colonized*). Byddai hwn yn safbwynt anaddas i ddrama ôl-drefedigaethol Gymreig gan y byddai'n gwadu ymrwymiad Cymru â gwleidyddiaeth imperialaidd gorllewin Ewrop. Ond, ar y llaw arall, ac yn yr un modd, ni all y ddrama ôl-drefedigaethol Gymreig efelychu dramâu gwrthimperialaidd Seisnig/Prydeinig chwaith, sef llunio drama ôl-drefedigaethol o bersbectif y gwladychwyr (*the colonizers*). Byddai hynny'n hepgor ymwybyddiaeth o hanes Cymru fel gwlad a gafodd ei choloneiddio a chanddi statws israddol o fewn y gyfundrefn Brydeinig.

Fel enghraifft o ddrama wrthimperialaidd Seisnig, meddylier am *Cloud 9* (1979) gan Caryl Churchill.⁴⁶ Cyflwyno'r ddrama hanes teulu o Saeson trefedigaethol sy'n gorfod dod i delerau â cholli statws wrth i'r ymerodraeth ddatgymalu dros gyfnod o gan mlynedd. Yn yr act gyntaf, maent mewn safle o rym mewn gwladfa rywle yn Affrica yn ystod Oes Fictoria, ond lleolir yr ail act yn Llundain yr 1970au, lle yr ymdrechant i'w rhyddhau eu hunain o'u hetifeddiaeth drefedigaethol, batriarchaidd. Gellir dadlau bod pwnc y darn yn gweddu'n berffaith ar gyfer drama wrthimperialaidd Seisnig, gan ei bod yn ymhél â'r thema o golli rheolaeth ymreolaethol dros eraill. Roedd Cymru'n rhan o'r ymerodraeth honno, ac oherwydd hynny mae thema Churchill yn berthnasol i Gymru hefyd, ond byddai drama Gymreig gyffelyb yn unochrog a charmarweiniol pe bai'n anwybyddu rhan arall y profiad Cymreig, sef statws israddol Cymreictod o fewn Prydeindod. Er mwyn bod yn driw i berthynas Cymru â threfedigaethedd, mae'n rhaid i ddrama ôl-drefedigaethol Gymreig gyflwyno persbectif o'r naill ochr i'r rhaniad imperialaidd a'r llall. Disgwylir i ddramodydd ôl-drefedigaethol Cymreig felly gyfuno safbwynt Césaire a Churchill o fewn yr un testun, sef cyfleu'r golwg deublyg. Ar y lefel ficro, leol, disgwylir i'r ddrama ôl-drefedigaethol Gymreig herio Prydeindod o safbwynt Cymreig, ac ar y lefel facro, fyd-eang, disgwylir iddi herio imperialaeth Ewropeaidd yn gyffredinol. Neu, o'i fynegi mewn ffordd amgen, dylai'r ddrama ôl-drefedigaethol Gymreig herio imperialaeth mewn modd deublyg: o safbwynt y rhai sydd wedi cael eu gwladychu (efelychu *Une Tempête*) ac o safbwynt y gwladychwyr (efelychu *Cloud 9*).

Er mwyn ymhelaethu ar y gosodiad uchod, cyflwynir dwy enghraifft o ddramâu ôl-drefedigaethol Cymreig sy'n cyfleu'r golwg deublyg ôl-drefedigaethol, sef *Môr Tawel* (2000) gan Ian Rowlands ac *On Bear Ridge* (2019) gan Ed Thomas. Bu Rowlands a Thomas yn llunio dramâu sy'n ymhél â Chymreictod ers degawdau. Dewisir y dramâu hyn yn benodol gan eu bod yn amlygu natur ddeublyg trefedigaetholdeb Cymru'n glir.

Cafodd y fonolog *Môr Tawel* ei chomisiynu gan Eisteddfod Genedlaethol Cymru a'i pherfformio am y tro cyntaf yn 2000 yn Theatr Elli yn ystod yr Eisteddfod yn Llanelli (ceir fersiwn Saesneg ohoni hefyd, sef *Pacific*). Sioe un person yw hi am y cymeriad hanesyddol David Samwell (1751–98) o Sir Ddinbych a oedd yn feddyg ac yn llenor (yn y Gymraeg fe'i hadwaenir fel Dafydd Ddu Feddyg). Teithiodd i'r Môr Tawel ar long y *Discovery* fel meddyg o dan arweiniad Capten James Cook, y morwr adnabyddus o Sais, ac roedd yn dyst

⁴⁶ Gweler Churchill, C. (1985), *Caryl Churchill: Plays 1* (London: Methuen Drama).

i'w farwolaeth pan gafodd ei lofruddio gan frodorion ynysoedd Hawaii yn 1779. Ochr yn ochr â'i yrfa yn gwasanaethu amcanion byd-eang imperialaeth Prydain, roedd Samwell yn awdur ac yn un o sefydlwyr Cymdeithas y Gwyneddigion, sef cymdeithas lenyddol Cymry alltud Llundain. Cynorthwyodd Iolo Morganwg (y gwladgarwr Cymreig a'r gweriniaethwr) i sefydlu Gorsedd Beirdd Ynys Prydain yn 1792. Archwilia'r ddrama yr ochr ddeuol hon o gymeriad Samwell, sef y gwrthddywediad rhwng amddiffyn diwylliant Cymreig yn wyneb goruchafiaeth Seisnigrwydd ar un llaw a'r modd y mae'n gwasanaethu'r imperialaeth ddinistriol honno ar fwrdd y *Discovery* ar y llaw arall. Yn y ddrama, portreadir Samwell ar ei wely angau yn Deptford, Llundain, yn hel atgofion wrth yfed *laudanum* (disgrifia ei wely fel *lit bateau*, sef cwch-wely). Wrth annerch ei ffrind, Iolo Morganwg, teimla Samwell gywilydd mawr am weithgareddau'r Prydeinwyr ar y Môr Tawel, a gobeithia y gall Iolo faddau iddo. O ran hanfod pensaernïol y ddrama, gosodir Samwell yn y canol gyda Capten Cook ac Iolo bob ochr iddo. Cyflwynir cymeriad sy'n meddu ar ymwybyddiaeth lwyr o ddau begwn y rhaniad imperialaidd, sef persbectif David Samwell a phersbectif Dafydd Ddu: y trefedigaethu Prydeinig, byd-eang, yn ogystal â'r gorthrymder lleol, Cymreig.

SAMWELL 'Galw dy hun yn Gymro, Dafydd Ddu!' O, Iolo, Cymru yw'r
wladfa gyntaf a'r olaf. Mae ein gorchfygiad yn gyflawn.
Fe'm llethwyd yn llwyr. Melltith ar y cymylau du yma'n
pwysu, gwasgu.⁴⁷

Ar ddiwedd y ddrama, wrth iddo farw, dychmyga Samwell ei fod yn ailymuno â'i gyn-gapten, James Cook. Hwylant ymaith gyda'i gilydd, yn ôl tuag at y Môr Tawel, gan obeithio darganfod tawelwch meddwl yno. Yn y pen draw, Prydeiniwr yw Samwell, nid Cymro.

Gellir dadlau bod *Môr Tawel* yn enghraifft o feddwl ar y ffin, sef dramodydd yn ystyried natur ddeublyg perthynas Cymru â threfedigaethedd, ac yn ei chyflwyno i'r gynulleidfa, trwy Samwell, fel realiti gwleidyddol anghyfforddus. Yn sicr, cyflea'r ddrama'r golwg deublyg ôl-drefedigaethol Gymreig, a gwneir hynny mewn modd digyfaddawd, llym. Portreadir Cymro a ddewisodd Brydeindod, ac sy'n llawn cywilydd ac edifeirwch, ond erbyn hyn mae'n rhy hwyr iddo newid ei deyrngarwch. Ymddengys mai safiad gwleidyddol Rowlands yn y ddrama hon yw datgan yr angen i Gymru wynebu ei hetifeddiaeth drefedigaethol gymysg. Er bod hynny'n anesmwyth, mae'n rhaid cofleidio'r gwrthddywediadau os dymunir symud y tu hwnt iddynt. Fel y dywedodd un adolygwraig ar ôl gweld perfformiad o'r ddrama yn Saesneg:

One of the more problematically engaging aspects of Rowlands' script and [Richard] Elfyn's performance is the fact that the self-pitying Samwell, who struggles to find his 'calm sea' by confessing his complicity in spreading rashes of cultural disruption, societal chaos, violence, and

⁴⁷ Rowlands, I. (gol.) (2002), *Llais Un yn Llefain: Monologau Cyfoes Cymraeg* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch), t. 99.

sexual exploitation and disease across the island nations of the Pacific, renders himself simultaneously sympathetic and repellent. His listeners' loyalties are torn and pitted against each other just as his have been. Despite being the only player on the stage, having the floor to himself and nobody to directly contradict or challenge him, he still manages to stir up a storm of contradiction, uncertainty, and unanswerable questions that follow the audience out of the theatre and back into present-day reality.⁴⁸

Mewn cyferbyniad â *Môr Tawel*, drama anhanesyddol yw *On Bear Ridge*. Dyma gydgynhyrchiad rhwng National Theatre Wales a'r Royal Court Theatre, Llundain, ac fe'i perfformiwyd am y tro cyntaf ym mis Medi 2019 yn Theatr y Sherman, Caerdydd.⁴⁹ Gosodir y ddrama mewn cyfnod annelwig, mewn byd dystopaidd lle y mae'r drefn gymdeithasol arferol yn gyfan gwbl ar chwâl. Er bod eu siop a'u lladd-dy wedi gorfod cau, gan fod pawb wedi ymadael â'r pentref, dewisa John Daniel (Rhys Ifans) a Noni (Rakie Ayola) aros ar y mynydd, oherwydd yma y mae eu hunig fab wedi ei gladdu. Crëir portread o bobl sy'n byw ar yr ymylon. Cânt eu hanghofio gan gymdeithas. Mae datblygiad hanes wedi cefnu arnynt. Ond, er gwaethaf hyn, mae eu hysbryd gwrthryfelgar yn parhau. Er enghraifft, pan fydd awyrennau jet y llu awyr yn hedfan heibio, yn isel a byddarol dros eu pennau, gafaelant yn nhaclau'r cigydd a'u chwifio'n fygythiol tuag atynt, gan floeddio: '*WE'RE STILL HERE, YOU BASTARDS!*'⁵⁰ Cyfeiria hyn, mae'n amlwg, at gân brotest genedlaetholgar ac adnabyddus Dafydd Iwan, 'Yma o Hyd' (1983): 'Er gwaetha' pawb a phopeth/Ry'n ni yma o hyd'.⁵¹ Er nad oes sôn uniongyrchol yn y ddrama am Gymru, awgryma cyfeiriadau o'r fath fod Cymreictod, a chyflwr diwylliannol/gwleidyddol y genedl, yn un o themâu cyson y ddrama. Cuddia Thomas gyfeiriadau penodol at Gymru y tu ôl i ieithwedd fwy cyffredinol. Er enghraifft, ers i'w fab, Twm Siencyn, gael ei lofruddio yn 'the city by the sea' (Abertawe) am siarad 'the old language' (Cymraeg), yr unig iaith y gall John Daniel bellach ei siarad yw 'the big language' (Saesneg).

NONI	They attacked Twm Siencyn.
JOHN DANIEL	Thinking it would be fun to scare him for speaking a language which they thought wasn't theirs.
IFAN WILLIAM	'German cunt,' they shouted, as they hit him. 'I'm not German,' he said in the old language which used to be theirs. 'I'm speaking your language,' he said.

⁴⁸ Nesvett, R. (2001), 'A Voyage of Fabrication and Discovery: Theatr Y Byd presents Ian Rowlands' Pacific', *Theatre in Wales* <http://www.theatre-wales.co.uk/critical/critical_detail.asp?criticalID=2> [Cyrchwyd: 19 Mai 2020].

⁴⁹ Gweler <https://www.nationaltheatrewales.org/cy/ntw_shows/on-bear-ridge/> [Cyrchwyd: 27 Hydref 2019].

⁵⁰ Thomas, E. (2019), *On Bear Ridge* (London: Bloomsbury Publishing), t. 8.

⁵¹ Gweler geiriau 'Yma o Hyd': <<https://genius.com/Dafydd-iwan-yma-o-hyd-lyrics>> [Cyrchwyd: 20 Mai 2020].

But they didn't hear, didn't want to hear. They kept beating him, and hurting him. 'Fuck off back to Germany, cunt!'

NONI Or Hungary.

IFAN WILLIAM Or Poland

JOHN DANIEL Or Turkey.

NONI Or France.

IFAN WILLIAM 'Or whatever the fuck world you're from, you cunt!'⁵²

Mae'r olygfa uchod yn portreadu gwrthdaro sy'n gyfarwydd yng Nghymru, sef y tyndra parhaus rhwng Cymreictod a Phrydeindod. O fewn disgwrs ôl-drefedigaethedd, gellir ei ddisgrifio fel enghraifft o'r diwylliant brodorol yn cael ei droi yn 'arall' (*othering*) gan yr ideoleg drefedigaethol ddominyddol. Trwy beidio â chynnwys cyfeiriadau uniongyrchol at Gymru yn nhestun y ddrama, cyffredinola Thomas sefyllfa drefedigaethol Cymru. Ond nid yw hyn ynddo'i hun yn ddigon i ychwanegu elfen ddeublyg at y darn. Sicrhawyd hyn ym mhroses castio'r ddrama. Nid oes sôn yn y testun am hil y cymeriadau, ond, rywbryd yn ystod y broses ddatblygu, penderfynodd y cyd-gyfarwyddwyr, Vicky Featherstone ac Ed Thomas, gastio Ayola, sef Cymraes o dras Affricanaidd, i chwarae rhan Noni. O ganlyniad, wrth wyllo'r ddrama, gwahoddir y gynulleidfa i ystyried pobloedd eraill y byd sydd hefyd wedi colli (neu mewn perygl o golli) eu 'heniaith' ar draul 'big language' (un o ieithoedd imperialaidd gorllewin Ewrop). Gellir dadlau bod castio menyw o dras Affricanaidd yn y ddrama yn ffordd o atgoffa'r gynulleidfa am rôl Cymru, fel rhan o'r Ymerodraeth Brydeinig ac fel gwlad Ewropeaidd, yn y broses o ddinistrio ieithoedd a diwylliannau brodorol tramor. Trwy'r castio, ychwanegwyd persbectif byd-eang at y ddrama, y tu hwnt i Ynys Prydain a ffiniau Ewrop. Cyflewyd golwg deublyg felly, sef cynnig ymwybyddiaeth o Gymru fel gwlad sy'n perthyn i orllewin Ewrop (a'i hanes o wladychu gwledydd eraill), ond ar yr un pryd cynigia'r ddrama ymwybyddiaeth o'r Cymry fel pobl sydd hefyd wedi cael eu trefedigaethu a'u gwrthio i'r cyrion.

O gyferbynnu'r ddwy ddrama, gwelir bod *Môr Tawel* yn cyfleu'r golwg deublyg, fel y cyfryw, drwy'r testun, tra bo *On Bear Ridge* yn gwneud hynny drwy'r castio. Hefyd, cynrychiola'r ddwy ddrama ddau fath penodol o ddrama ôl-drefedigaethol Gymreig. Er i'r ddwy gyfleu'r golwg deublyg, Cymreig, ceir pwyslais cyferbyniol ynddynt. Cyflwynna *Môr Tawel* yr hanes Cymreig o wladychu pobloedd eraill fel rhan o'r system Brydeinig, tra canolbwyntia *On Bear Ridge* ar y profiad o Gymru yn cael ei gwladychu. Cymerodd Samwell ran weithgar yn lledaenu modernrwydd/trefedigaetholdeb ar draws y byd (roedd yn cyflawni 'hanes'), ond enghreifftiau o frodorion sy'n cael eu gormesu gan fodernrwydd/trefedigaetholdeb (dioddefwyr 'hanes') yw John Daniel a Noni. Er bod y pwyslais yn wahanol, cyfleir ymwybyddiaeth o berthynas ddeublyg Cymru â threfedigaethedd yn y ddwy ddrama.

⁵² Thomas, *On Bear Ridge*, tt. 58–9.

III. *Gwlad yr Asyn*

Cafodd *Gwlad yr Asyn* ei llunio'n fwriadol i fod yn ddrama wrthddisgwrs ganonaidd, un sy'n ymateb i *The Tempest* fel ffordd o feirniadu'r agweddau trefedigaethol a geir yng ngwaith Shakespeare, gan wneud hynny'n benodol o safbwynt Cymreig. Ystyrir y project fel un ymarfer-fel-ymchwil, gan fod cwestiwn ymchwil yn rhan annatod o'r broses gyfansoddi, sef ystyried sut y medrir cyflwyno cymeriadau trefedigaethol *The Tempest* (Prospero, Miranda, Ariel a Caliban) mewn modd sy'n cyfleu perthynas ddeublyg Cymru â threfedigaethedd. Fel y dywedwyd eisioes, rhoddodd Aimé Césaire is-deitl i'w addasiad ef o ddrama Shakespeare, *Une Tempête*, sef 'adaptation for a Black Theatre', gyda'r bwriad o geisio deall ac ailddehongli cymeriadau archdeipaidd Shakespeare o bersbectif hil. Cymer *Gwlad yr Asyn* ysbrydoliaeth o esiampl Césaire, ond gyda'r bwriad o geisio deall ac ailddehongli'r cymeriadau archdeipaidd o bersbectif cenedlaethol, gwrthimperialaidd, Cymreig. Yn y rhan hon o'r erthygl, rhestrir rhai o'r prif benderfyniadau creadigol a wnaethpwyd yn ystod y broses o lunio'r ddrama, gan bwysleisio sut y cafodd y dewisiadau eu llywio gan yr awydd i gyfleu perthynas ddeuol Cymru â threfedigaethedd, sef cyfleu'r golwg deublyg.

Cyflwyno iwtopia

Gan fod dramâu ôl-drefedigaethol o reidrwydd yn rhai gwrthimperialaidd, hwyrach y gellir disgwyl iddynt gynnwys deunydd gwleidyddol amlwg. Ond, o'r dechrau, penderfynwyd peidio â gwneud cynnwys uniongyrchol wleidyddol *Gwlad yr Asyn* yn amlwg. Gwnaethpwyd hyn yn sgil dymuniad i greu profiad emosiynol a thrawsnewidiol i'r gynulleidfa yn hytrach nag un deallusol ac eglurhaol. Gellir mynegi'r safiad hwn trwy grybwyll y gair 'iwtopia', sef y nod theatraidd o gynnig profiad i'r gynulleidfa o fyd gwell, yn hytrach na dim ond ei ddisgrifio. Dadleuodd Jill Dolan dros safiad o'r fath yn ei llyfr *Utopia in Performance*:

My investigation into utopia in performance [...] resists the effort to find representations of a better world; the word *utopia* means, literally, 'no place', and this book respects the letter of its sense by refusing to pin it down to prescription. I agree with Marxist philosophers Ernst Bloch and Herbert Marcuse [...] who 'see art as an arena in which an alternative world can be expressed – not in a didactic, descriptive way as in traditional "utopian" literature, but through the communication of an alternative experience'.⁵³

Dadleua Dolan fod natur y profiad theatraidd, yn ei hanfod, yn addas ar gyfer cynnig cipolwg ar fyd gwell:

⁵³ Dolan, J. (2005), *Utopia in Performance: Finding Hope at the Theater* (Ann Arbor: University of Michigan Press), t. 7. Troednodyn yn y gwreiddiol: Ruth Levitas, *The Concept of Utopia* (Syracuse: Syracuse University Press, 1990), 148.

The very present-tenseness of performance lets audiences imagine utopia not as some idea of future perfection that might never arrive, but as brief enactments of the possibilities of a process that starts now, in this moment at the theater [...] The politics lie in the desire to feel the potential of elsewhere. The politics lie in our willingness to attend or to create performance at all, to come together in real places – whether theaters or dance clubs – to explore in imaginary spaces the potential of the ‘not yet’ and the ‘not here’.⁵⁴

O edrych ar sefyllfa wleidyddol bresennol Cymru oddi mewn i'r DU o bersbectif ôl-drefedigaethol, mae'n hawdd gweld yr angen am newid, yr angen i gyflwyno delweddau o Gymru newydd sy'n medru ysbrydoli a chynnig gobaith i'r gynulleidfa. Yn sicr, roedd hyn yn rhan o gynllun celfyddydol/gwleidyddol *Gwlad yr Asyn*. Ond, wrth osod pwysigrwydd ar gyfleu perthynas gymhleth Cymru â threfedigaethedd, penderfynwyd y dylai'r ddelwedd iwtopaidd gynnwys y golwg deublyg. Hynny yw, penderfynwyd y dylai'r 'potensial o rywle arall' gyfleu agwedd aeddfed a chyfrifol tuag at etifeddiaeth y genedl o ddwy ochr y rhaniad imperialaidd. Anelwyd at weu'r golwg deublyg i mewn i fframwaith byd y ddrama, gyda'r bwriad o greu sioe a fyddai'n darparu profiad annhrefedigaethol i'r gynulleidfa, sef ystyried theatr fel profiad torfol o ymarfer ymwybyddiaeth gymdeithasol newydd.

Byd y ddrama a'r cymeriadau

Trwy benderfynu ar y dacteg o gyflwyno iwtopia, rhyddheir y dramodydd i ddychmygu bydoedd y tu hwnt i gyfyngiadau realaeth. Er enghraifft, agorir y drws i bosibiliadau realaeth hudol. Yn yr achos hwn, crëwyd byd sy'n portreadu'r berthynas rhwng bodau dynol ac asynnod – byd lle y gall asynnod siarad â'i gilydd a deall iaith bodau dynol. Yn *Une Tempête*, gwahaniaetha Césaire yn glir rhwng y brodorion a gafodd eu gwladychu (Caliban ac Ariel, dyn du a dyn *mulatto*) a'r estroniaid sydd wedi eu gwladychu (Prospero a Miranda, cymeriadau gwyn eu croen). Hefyd, gwahaniaetha'n glir rhwng Caliban, y caethwas gwrthryfelgar, ac Ariel, y gwas ufudd. Dilyna *Gwlad yr Asyn* yr un patrwm yn union, ond cynrychiolir y rhai sydd wedi eu gwladychu gan asynnod (gelwir hwy yn Cal ac Ari), tra cynrychiolir y gwladychwyr gan fodau dynol (sef perchnogion yr asynnod, Pross a Mira).

Pam dewis portreadu Cal ac Ari fel anifeiliaid? Daw hyn yn uniongyrchol o gynnwys *The Tempest*, lle y cyfeirir at Caliban mewn termau anifeilaidd.⁵⁵ Seiliwyd y penderfyniad

⁵⁴ Ibid., tt. 17, 20. Troednodyn yn y gwreiddiol: Ramón Rivera-Servera (2004), "Choreographies of Resistance: Latina/o Queer Dance and the Utopian Performative", *Modern Drama, special issue on utopian performatives*, 47, 2 (2004): 269–89.

⁵⁵ 'It is striking how extensively the play makes use of animal imagery in order to ridicule Caliban. Prospero, for example, refers to him as a "freckled whelp" (I.ii.283) and as a "tortoise" (I.ii.317), while Trinculo calls him a "strange fish" (II.ii.27) on their first encounter and further describes him as "Legged like a man and his fins like arms" (II.ii.32–33). Although he soon realizes that Caliban "is no fish, but an islander that hath lately suffered by a thunderbolt" (II.ii.34), he refers to Caliban as "half a fish and

felly ar chwyddo portread Shakespeare o Caliban, sef gwthio'i ymdriniaeth drefedigaethol gynhenid gam ymhellach. Mae cyfeirio at bobloedd trefedig (*colonized*) mewn perthynas ag anifeiliaid yn rhan ganolog o strategaeth wladychu, sef eu dynodi fel yr 'arall' er mwyn cyfiawnhau'r system imperialaidd.⁵⁶ Y rhaniad deuaidd a syml yw: y canol imperialaidd = gwaraidd; y cyrion trefedig = anwaraidd (fel anifeiliaid). Trwy ddewis portreadu Cal ac Ari fel anifeiliaid, a hwythau'n anifeiliaid gwaraidd, deallus a rhesymegol, y bwriad yw dinoethi rhethreg modernrwydd/trefedigaetholdeb *The Tempest*.

Pam dewis cynrychioli Cal ac Ari fel asynnod? Dewiswyd asyn yn benodol oherwydd bod gan yr anifail hwn hanes o wasanaethu dynoliaeth yn ffyddlon ers milenia, ond, serch hynny, parheir i'w drin fel testun gwawd. Tardda'r rhagfarn hon o'r traddodiad o gysylltu asynnod â chaethweision,⁵⁷ ac yn aml caiff asynnod eu taflu i'r cysgodion ar draul ceffylau, sy'n cael eu hystyried yn greaduriaid uwchraddol.⁵⁸ Yn hyn o beth, ystyrir asyn yn symbol addas ar gyfer brodorion trefedig yn gyffredinol, ac yn benodol fel un sy'n medru cynrychioli statws gwleidyddol ymylol Cymru o fewn y DU. Yna, o ddewis rhwng naill ai Cal neu Ari fel prif gymeriad y ddrama, dewiswyd Ari, oherwydd ystyrir y byddai gwas ffyddlon yn gynrychioliad mwy addas (yn gyffredinol) o agwedd bresennol y Cymry tuag at y DU, yn hytrach na chaethwas gwrthryfelgar. Caiff Ari felly ei phortreadu fel asen a gafodd ei gwladychu gan fodau dynol, i'r fath raddau fel y dychmyga ei bod hi'n greadur dynol.⁵⁹

half a monster" (III.ii.28) and as a "puppy-headed monster" (II.ii.151) only a little later. Antonio also makes use of aquatic imagery and labels Caliban "a plain fish" (V.i.266), while Stephano repeatedly calls him "mooncalf". (Jazminski, D. (2009), 'Liberating the Strange Fish: Visual Representations of Caliban and Their Successive Emancipation from Shakespeare's Original Text', yn Meyer, M. (gol.), *Word & Image in Colonial and Postcolonial Literatures and Cultures* (Amsterdam: Rodopi), t. 3.)

⁵⁶ 'The usage of animal imagery in order to create/degrade the "Other" is a common device in psychological warfare, probably dating back to the earliest stages of "civilization". This "tradition" merely reached its climax in colonial writing, which often served as an imperialist instrument to indicate the inferiority of the colonized peoples and to justify their usurpation by the colonizer as a kind of evolutionary process'. (Ibid., t. 4)

⁵⁷ Er enghraifft: 'Both the Greeks and the Romans depended on slave labour and donkeys came to be associated with slaves [...] Donkeys' contribution to these societies was invaluable, yet they were generally unappreciated because of their relegation to inferior status'. (Bough, J. (2011), *Donkey* (London: Reaktion Books), t. 59.) Mae asynnod yn destun gwawd cyson yn nramâu Shakespeare. Daw'r enghraifft fwyaf adnabyddus o *A Midsummer Night's Dream* (1595/96), lle y trawnewidia Puck ben Nick Bottom yn ben asyn, a chael brenhines y tylwyth teg, Titania, i gwympo mewn cariad ag ef. I Shakespeare a'i gynulleidfa, mae'n amlwg bod y syniad o rywun yn cwympo mewn cariad ag asyn yn un chwerthinllyd.

⁵⁸ Yn ei llyfryn *Donkey*, tynna Bough sylw at beintiadau Beiblaidd o Arch Noa, lle y portreadir parau o anifeiliaid yn cael eu hachub o'r llif, heblaw'r asyn, sy'n cael y swyddogaeth o gario pac Noa. 'In Jan van Kessel's *Boarding the Ark* (1725) [...] there is a magnificent horse dominating the foreground of the picture, head held high, nostrils flaring and mane flowing. In the background of the painting, a lowly donkey is weighed down by Noah's possessions'. (Ibid., t. 153.)

⁵⁹ Yn hyn o beth, gellir cysylltu Ari â Dic Sîon Dafydd, cymeriad a grëwyd gan y bardd Jac Glang-y-gors (John Jones, 1766–1821). Cymro oedd Dic Sîon Dafydd a aeth i Lundain ac ymwrthod â'i gefndir Cymreig er mwyn dod yn llwyddiannus. Gweler trafodaeth amdano yng nghyd-destun ôl-drefedigaethedd Cymreig gan Jane Aaron: 'Bardic Anti-colonialism', Aaron, J., a Williams, C. (goln) (2005), *Postcolonial Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 147–52. Ac, ymhellach yn ôl mewn hanes, gellir cysylltu Ari hefyd â rhai o gymeriadau Cymreig Shakespeare: Captain Fluellen o *Henry*

Trwy lunio monolog asyn, gydag Ari fel prif gymeriad, crëwyd byd theatraidd lle y medrir cyfleu'r golwg deublyg. Gan amlaf mewn sioe fonodrama, gwahoddir y gynulleidfa i ganolbwyntio ar un prif gymeriad, yr un sy'n annerch: yn yr achos hwn, Ari, yr asen ifanc. Gofynnir i'r gwylwyr felly rannu bydolwg anifail, er mwyn profi'r byd o bersbectif asen (gweler Ffigwr 2). Ond, wrth wrando ar ei stori am ymdrechion ei pherchennog newydd (Pross) i reoli ei asyn gwyllt (Cal), gwahoddir y gynulleidfa i ddeall y byd hefyd o bersbectif bod dynol. Gan mai bodau dynol yw'r gynulleidfa, disgwylir iddynt ddeall dyhead Pross i ddofi'r asyn – disgwyliad sy'n datgelu agwedd anthroposentrig tuag at anifeiliaid a byd natur (sef hawl bodau dynol i lywodraethu'r biosffer yn gyfan gwbl). Crëir tensiwn rhwng deall y byd o safbwynt asyn ac o safbwynt bodau dynol.⁶⁰ Gofynnir i aelodau'r gynulleidfa feddiannu dau bersbectif: un y dioddefwr ac un y gorthrymwr. Fe'u gwahoddir i uniaethu â statws israddol a threfedig yr asynnod, a'r eiliad nesaf fe'u gwahoddir i uniaethu ag agwedd drefedigaethol dynoliaeth tuag at anifeiliaid a natur yn gyffredinol. Dyma elfen ddeublyg y ddrama.

Ffigwr 2: *Gwlad yr Asyn* yn cael ei pherfformio gan Lowri Izzard mewn sesiwn sgript-mewn-llaw Ymchwil a Datblygu (cyfarwyddwyd gan Sara Lloyd). Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd, Rhagfyr 2019.



Y bwriad cychwynnol wrth lunio *Gwlad yr Asyn* oedd ysgrifennu drama wrthddisgwrs ganonaidd a fyddai'n datgelu agweddau trefedigaethol *The Tempest* o safbwynt Cymreig. Ond, trwy ddewis cynrychioli'r cymeriadau brodorol fel asynnod, ehangwyd y feirniadaeth y tu hwnt i'r cyd-destun Cymreig yn unig i gynnwys elfen amgylcheddol hefyd. Fel testun canonaidd sy'n perthyn i gyfnod euraidd y Dadeni yn Lloegr, amlyga *The Tempest* agweddau trefedigaethol nodweddiadol oes Elisabeth I – agweddau sydd (fel y dadleua meddylwyr ôl-

V (Cymro balch, di-Gymraeg sy'n ffyddlon i frenin Lloegr) a Sir Hugh Evans o *The Merry Wives of Windsor* (Cymro di-Gymraeg sy'n colli ei Gymreictod er mwyn ymdoddi i fyd trigolion Windsor). Gweler Lloyd, S. M. (2007), *“Speak it in Welsh”: Wales and the Welsh Language in Shakespeare* (Lanham: Lexington Books).

⁶⁰ Am enghraifft o ddrama lwyfan gyfoes sy'n creu effaith gyffelyb, gweler Teevan, C. (2009), *Kafka's Monkey* (London: Oberon Modern Plays), wedi ei pherfformio gan Kathryn Hunter. <https://www.youtube.com/watch?v=k-nEG_jNEeE> [Cyrchwyd: 21 Medi 2019]. Addasiad yw'r ddrama o stori fer gan Franz Kafka am epa sy'n cael ei ddal yn Affica ac yna'n penderfynu troi'n fod dynol: Kafka, F. (1917), *A Report to an Academy*, cyfieithiad Ian Johnston, <<https://www.kafka-online.info/a-report-for-an-academy.html>> [Cyrchwyd: 15 Awst 2020].

drefedigaethol fel Mignolo) wedi parhau'n ddi-dor hyd at y cyfnod presennol trwy feddylfryd modernrwydd/trefedigaetholdeb. Yn ôl Mignolo, carreg sylfaen y traddodiad Ewro-ganolog hwn oedd sefydlu gwahaniaethau ymerodrol/trefedigaethol:

The fictional conceptualization was achieved through the (epistemic) invention of imperial and colonial differences. Western imperial subjects secured themselves and their descendant as the superior subspecies. They invented also the idea of *nature* to separate their bodies from all living (and the very life-energy of the biosphere) organisms on the planet.⁶¹

Amlyga *Gwlad yr Asyn* y cysylltiad rhwng y ddwy agwedd drefedigaethol hyn: agwedd nawddoglyd tuag at bobloedd a ystyrir yn israddol (yr Arall brodorol, ymylol) ac agwedd anthroposentrig, uwchraddol tuag at natur (at unrhyw beth yn y biosffer nad yw'n ddynol). Gwahoddir cynulleidfa'r ddrama i fabwysiadu dau safbwynt ôl-drefedigaethol, o ddwy ochr gyferbyniol y rhaniad imperialaidd. Ar y naill law, anogir persbectif trefedig, sef cydymdeimlo â Cal, yr asyn gwyllt, sy'n breuddwydio am ddianc i fynyddoedd Pumlumon i sefydlu haid o asynnod rhydd. Ond, ar y llaw arall, rhoddir anogaeth i'r gynulleidfa hefyd i fabwysiadu persbectif trefedigaethol, hunanfeirniadol, er mwyn cael y gynulleidfa i rannu safbwynt Pross, y bod dynol sy'n ceisio rheoli ac ymelwa ar natur. Yn hyn o beth gellir datgan, wrth ganlyn y nod o gyfleu'r golwg deublyg trwy herio gwerthoedd gwladychol yn *The Tempest*, crëwyd drama ôl-drefedigaethol Gymreig sy'n cyfuno themâu cenedlaetholgar ac amgylcheddol.

Casgliad

Wrth gyflwyno'r llyfr *Theatre & Performance in Small Nations*, dadleua Steve Blandford fod gan theatr swyddogaeth bwysig i'w chwarae yn y broses o ddatblygu hunaniaeth genedlaethol mewn gwledydd bychain:

While theatre and performance are key objects of study of national identity within all states, they are of particular interest in small nations. The proximity of the citizen (and therefore the artist) to the decision-making process [...] is one key reason. A second [...] is the idea that national identity within small nations has a tendency to be the subject of continual debate and contestation. This, when added to the enhanced significance of specifically cultural practices in nations that are often 'stateless' make the role of theatre and performance in the construction of small nations of particular interest.⁶²

⁶¹ Mignolo a Walsh, *On Decoloniality*, tt. 153–4.

⁶² Blandford. S. (gol.) (2013), 'Introduction', *Theatre & Performance in Small Nations* (Bristol: Intellect), t. 6.

O ystyried y datganiad uchod, cyflwynna'r erthygl hon ddadl dros ddatblygu ffordd neilltuol Gymreig o lunio dramâu ôl-drefedigaethol. Dadleuir y dylai'r hunaniaeth genedlaethol Gymreig, os dymunir osgoi safbwynt unochrog a ffug, gydnabod perthynas amwys, ddeublyg Cymru â threfedigaethedd. Ac, fel rhan o'r broses o feithrin hunaniaeth genedlaethol aeddfed a blaengar, mae'n bwysig i'r berthynas hon gael ei chyfleu mewn dramâu ôl-drefedigaethol Cymreig. Ar hyn o bryd, ni chynhwysir dramâu Cymreig mewn antholegau o ddramâu ôl-drefedigaethol.⁶³ Cyn i rai Cymreig gael eu hystyried yn deilwng o gael eu cynnwys, mae'n rhaid i ddau beth ddigwydd. Ar y naill law, mae'n rhaid i'r ddisgwrs ôl-drefedigaethol ryngwladol esblygu i fedru cynnwys sefyllfaoedd gwleidyddol amwys gwledydd megis Cymru (fel y dadleua Bohata, ac eraill). Ac, ar y llaw arall, mae'n rhaid i fwy o ddramodwyr Cymru wynebu'r her o ddyfeisio ffyrdd neilltuol o lunio dramâu sy'n adlewyrchu perthynas ddeublyg Cymru â threfedigaethedd.

Llyfryddiaeth

- Aaron, J., a Williams, C. (goln) (2005), *Postcolonial Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- Ackerman, J. (1995), *Dylan Thomas: His Life and Work* (Efrog Newydd: Palgrave Macmillan).
- Anzaldúa, G. (2012), *Borderlands/La Frontera: The New Mestiza* (San Francisco: Aunt Lute Books).
- Anzaldúa, G. (2015), *Light in the Dark, Luz en lo oscuro: Rewriting Identity, Spirituality, Reality*, Keating, Analouise (gol.) (Durham, NC: Duke University Press).
- Ashcroft, B., Griffiths, G., a Tiffin, H. (1989), *The Empire Writes Back* (Abingdon: Routledge).
- Ashcroft, B., Griffiths, G., a Tiffin, H. (goln) (1995), *The Post-Colonial Studies Reader* (Abingdon: Routledge).
- Ashcroft, B., Griffiths, G., a Tiffin, H. (1998), *Key Concepts in Post-Colonial Studies* (Abingdon: Routledge).
- Blandford, S. (gol.) (2013), 'Introduction', *Theatre & Performance in Small Nations* (Bristol: Intellect), tt. 1–18.
- Bohata, K. (2004), *Postcolonialism Revisited* (Llandybïe: Gwasg Dinefwr).
- Bough, J. (2011), *Donkey* (London: Reaktion Books).
- Brooks, S. (2015), *Pam Na Fu Cymru: Methiant Cenedlaetholdeb Cymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- Césaire, A. (1969), *Une Tempête* (Paris: Editions du Seuil).
- Césaire, A. (2002), *A Tempest*, cyfieithwyd gan Richard Miller (New York: TCG Translations).
- Churchill, C. (1985), *Caryl Churchill: Plays 1* (London: Methuen Drama).

⁶³ Er enghraifft, gweler Gilbert, H. (gol.) (2001), *Postcolonial Plays: an anthology* (Abingdon: Routledge).

- Davies, J. (1992), *Hanes Cymru* (London: Penguin).
- Dolan, J. (2005), *Utopia in Performance: Finding Hope at the Theater* (Ann Arbor: University of Michigan Press).
- Du Bois, W. E. B. (2003), *The Souls of Black Folk* (New York: Barnes & Noble Classics).
- Edwards, E. (2013), *Perfformio: Stori'r perfformiwr ar lwyfan y Theatr Gymraeg* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch).
- Edwards, E. (2016), *Shakespeare yn y Theatr Gymraeg* (Caerdydd: Argraffwyr yr Abaty).
- Ghazoul, R. (2019), *Digging Deep*, rhaglen *Four Thought*, Radio 4, <<https://www.bbc.co.uk/sounds/play/m0009cd4>> [Cyrchwyd: 25 Hydref 2019].
- Gilbert, H. (gol.) (2001), *Postcolonial Plays: an anthology* (Abingdon: Routledge).
- Gilbert, H., a Tompkins, J. (1996), *Post-Colonial Drama: theory, practice, politics* (Abingdon: Routledge).
- Hechter, M. (1998), *Internal Colonialism: Celtic Fringe in British National Development* (Piscataway: Transaction Publishers).
- Hughes, T. (1993), *Shakespeare and the Goddess of Complete Being* (London: Faber & Faber).
- Iwan, D. (1983), 'Yma o Hyd' [cân], <<https://genius.com/Dafydd-iwan-yma-o-hyd-lyrics>> [Cyrchwyd: 20 Mai 2020].
- Jazminski, D. (2009), 'Liberating the Strange Fish: Visual Representations of Caliban and Their Successive Emancipation from Shakespeare's Original Text', yn Meyer, M. (gol.), *Word & Image in Colonial and Postcolonial Literatures and Cultures* (Amsterdam: Rodopi).
- Jones, A. (2015), 'The Other Internationalism? Missionary Activity and Welsh Nonconformist Perceptions of the World in Nineteenth and Twentieth Centuries', yn Williams, C., Evans, N., ac O'Leary, P. (goln.), *A Tolerant Nation? Revisiting Ethnic Diversity in a Devolved Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 49–60.
- Jones, A., a Jones, B. (2003), 'The Welsh World and the British Empire, c. 1851–1939: An Exploration', *Journal of Imperial and Commonwealth History*, 31 (2), 57–81.
- Kafka, F. (1917), 'A Report to an Academy', cyfieithiad Ian Johnston, <<https://www.kafka-online.info/a-report-for-an-academy.html>> [Cyrchwyd: 15 Awst 2020].
- Lewis, L. (2020), *Welsh and Khasi Cultural Dialogues*, <www.welshkhasidialogues.co.uk/index.html> [Cyrchwyd: 13 Mai 2020].
- Lloyd, S. M. (2007), *"Speak it in Welsh": Wales and the Welsh Language in Shakespeare* (Lanham: Lexington Books).
- Llyfrau Gleision, *Reports of the commissioners of inquiry into the state of education in Wales* (1847), <<https://www.llyfrgell.cymru/darganfod/oriel-ddigidol/deunydd-print/llyfrau-gleision-1847>> [Cyrchwyd: 25 Mai 2020].
- Lublin, G. (2009), 'Y Wladfa: gwladychu heb drefedigaethu?', *Gwerddon*, 4, Gorffennaf, 8–23.
- Mannoni, O. (1964), *Prospero and Caliban: The Psychology of Colonization* (New York: Praeger).

- Mignolo, W. D., a Walsh, C. E. (2018), *On Decoloniality: concepts, analytics, praxis* (Durham, NC: Duke University Press).
- Miles, G., a Bogdanov, M. (2004), *Hamlet William Shakespeare* (Caerdydd: UWIC Press).
- Nairn, T. (1977), *The Break-up of Britain: Crisis and Neo-Nationalism* (London: NLB).
- Nesvett, R. (2001), 'A Voyage of Fabrication and Discovery: Theatr Y Byd presents Ian Rowlands' Pacific', <http://www.theatre-wales.co.uk/critical/critical_detail.asp?criticalID=2> [Cyrchwyd: 19 Mai 2020].
- Quijano, A. (2000), 'Coloniality of Power, Eurocentrism, and Latin America', *Nepantla: Views from South*, 1 (3), 533–80.
- Rowlands, I. (gol.) (2002), *Llais Un yn Llefain: Monologau Cyfoes Cymraeg* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch).
- Said, E. W. (1994), *Culture and Imperialism* (London: Vintage).
- Said, E. W. (2003), *Orientalism* (London: Penguin).
- Sanders, J. (2005), *Adaptation & Appropriation* (Abingdon: Routledge).
- Shakespeare, W. (1984), *Henry V*, Taylor, Gary (gol.) (Oxford: Oxford University Press).
- Shakespeare, W. (1986), *A Midsummer's Night Dream*, Brooks, Harold F. (gol.) (Llundain: Arden).
- Shakespeare, W. (1999), *The Tempest*, Vaughan, Virginia Mason a Vaughan, Alden T. (goln.) (London: Arden).
- Shakespeare, W. (2000), *The Merry Wives of Windsor*, Melchiori, Giorgio (gol.) (Llundain: Arden).
- Shakespeare, W. (2012), *Y Storm*, cyfieithiad Gwyneth Lewis o *The Tempest* (Tal-y-bont: Y Lolfa).
- Stephens, A. Closs (2016), 'The affective atmospheres of nationalism', *Cultural Geographies*, 23, 17 Chwefror, 181–98.
- Taylor, L. (2017), 'Welsh-Indigenous Relationships in Nineteenth Century Patagonia: "Friendship" and the Coloniality of Power', *Journal of Latin American Studies*, 49 (1), Chwefror, 143–68.
- Taylor, L. (2018), 'Global perspectives on Welsh Patagonia: the complexities of being both colonizer and colonized', *Journal of Global History*, 13 (3), Tachwedd, 446–68.
- Taylor, L. (2019), 'The Welsh Way of Colonization in Patagonia: The International Politics of Moral Superiority', *The Journal of Imperial and Commonwealth History*, 47 (6), 15 Chwefror, 1073–99.
- Teevan, C. (2009), *Kafka's Monkey* (London: Oberon Modern Plays).
- Thomas, E. (2019), *On Bear Ridge* (London: Bloomsbury Publishing).
- Tiffin, H. (1987), 'Post-colonial literatures and counter-discourse', *Kunapipi*, 9 (3) <<https://ro.uow.edu.au/cgi/viewcontent.cgi?article=1705&context=kunapipi>> [Cyrchwyd: 13 Medi 2019].
- Williams, C., Evans, N. ac O'Leary, P. (goln.) (2003), *A Tolerant Nation? Revisiting Ethnic Diversity in a Devolved Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

- Williams, E. (2012), 'Adolygiad *Y Storm* gan Shakespeare', *National Theatre Wales Community*, <<https://community.nationaltheatrewales.org/profiles/blogs/adolygiad-y-storm-gan-shakespeare-cyfiethiad-gan-gwyneth-lewis>> [Cyrchwyd: 18 Awst 2019].
- Williams, G. A. (1985), *When Was Wales?* (Harmondsworth: Penguin).
- Williams, W. (1956), *Dail Pren* (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth).

Cyflogadwyedd, cyfrifoldeb, cael digon o'r Gymraeg? Dewisiadau ieithyddol dysgwyr Addysg Bellach

Laura Beth Davies

Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

Cyflwynwyd: 7 Tachwedd 2019; Derbyniwyd: 2 Ebrill 2020

Crynodeb: Mae'r erthygl hon yn archwilio'r rhesymau dros y nifer bychan o ddysgwyr sy'n astudio trwy'r Gymraeg ac yn ddwyieithog yn y sector Addysg Bellach, gan ganolbwyntio ar ddysgwyr galwedigaethol. Cynigia argymhellion i wella'r sefyllfa yng nghyd-destun targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Seilir yr ymchwiliad ar gyfweiliadau lled-strwythuredig â staff mewn ysgolion a cholegau Addysg Bellach ac ar grwpiau ffocws â disgyblion Blwyddyn 11, mewn pedair ardal ar draws Cymru. Canfuwyd bod ffactorau economaidd, diwylliannol ac addysgol yn dylanwadu ar ddewisiadau dysgwyr. Dadleuir dros gynnig rhaglen ymwybyddiaeth iaith er mwyn ehangu disgwrs y Gymraeg fel offeryn cyflogadwyedd, a disgwrs manteision dwyieithrwydd i gynnwys manteision cymdeithasol.

Allweddeiriau: Addysg Bellach, Cymraeg, dwyieithrwydd, galwedigaethol, polisi iaith addysg

Employability, responsibility, had enough of Welsh? Further Education learners' linguistic choices

Abstract: This article explores the reasons for the low number of learners studying through the medium of Welsh and bilingually in the Further Education sector, focusing on vocational learners. It suggests recommendations to improve the situation in the context of the Welsh Government's target of a million Welsh speakers by 2050. The research is based on semi-structured interviews with staff in schools and Further Education colleges, and on focus groups with Year 11 pupils, in four areas across Wales. The study found that economic, cultural and educational factors influence learners' choices. The article proposes a language awareness programme as a means of expanding the discourse of Welsh as an instrument of employability and the discourse of the advantages of bilingualism to encompass social advantages.

Key words: Further Education, Welsh, bilingualism, vocational, language policy in education

Cyflwyniad

Cymhelliad yr ymchwil

Er gwaethaf y cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector statudol ac, yn fwy diweddar, nifer y myfyrwyr sy'n astudio trwy'r Gymraeg yn y sector Addysg Uwch (AU), niferoedd bychain sy'n astudio trwy'r Gymraeg yn y sector Addysg Bellach (AB). Un o brif amcanion *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg* (strategaeth iaith genedlaethol ddiweddaraf Llywodraeth Cymru) yw 'sicrhau bod llai o bobl ifanc yn colli eu sgiliau Cymraeg wrth symud o addysg statudol i AB/AU, a bod rhagor ohonynt yn cyrraedd canol eu hugeiniau wedi dal gafael ar yr iaith' (Llywodraeth Cymru 2017a: t. 31). Mae diffyg darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y sector AB yn broblem hirdymor, yn enwedig mewn pynciau galwedigaethol (e.e. Cymdeithas yr Iaith 1984: t. 2; Baker a Jones 1999: t. 20; Webb 2007: tt. 21–2; Heath 2001: t. 111; Estyn 2008: t. 10). Mae hyn yn bryder mawr wrth ystyried y gofynion am weithlu dwyieithog o fewn meysydd galwedigaethol, ac ar draws y byd gwaith (e.e. Llywodraeth Cymru 2012, 2013, 2014, 2017a: t. 51). Yn ogystal, mae nifer y dysgwyr AB sy'n manteisio ar y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog sydd ar gael yn parhau i fod yn isel (e.e. Arad 2014: t. 76; Estyn 2016: t. 10; 2017: t. 9). Ceir diffyg mawr yn y ddarpariaeth a nifer y dysgwyr sy'n dilyn y ddarpariaeth honno mewn colegau AB yn benodol.¹ Fodd bynnag, bu prinder ymchwil tan yn ddiweddar ar ddewisiadau ieithyddol dysgwyr AB. Cydnabyddir yr angen am weithredu yn y sector hwn yn *Cymraeg 2050* (Llywodraeth Cymru 2017a: t. 40):

Mae angen i'r sector ôl-orfodol o fewn addysg bellach ... 'newid gêr' i ehangu'r cynnig cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Bydd hyn yn golygu recriwtio rhagor o ddysgwyr i barhau i astudio'n rhannol neu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nod yr ymchwil

Bwriad yr erthygl hon yw ymchwilio i ddewisiadau ieithyddol dysgwyr AB, a hynny â'r nod o lunio argymhellion er mwyn cynyddu'r nifer sy'n astudio trwy'r Gymraeg ac yn ddwyieithog ar lefel AB. Dadansoddir rhesymau dysgwyr AB dros astudio pynciau galwedigaethol trwy'r Gymraeg ac yn ddwyieithog, neu dros beidio â gwneud hynny, gan ymchwilio i safbwyntiau disgyblion a staff. Y cwestiwn ymchwil y mae'r erthygl yn mynd ati i'w ateb yw:

- Beth yw rhesymau dysgwyr dros astudio pynciau galwedigaethol trwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog ar lefel AB, neu dros beidio â gwneud hynny?

¹ Yn 2016/17, yr oedd 5.2% o'r gweithgareddau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog (Llywodraeth Cymru 2019: t. 16).

Cefndir damcaniaethol a pholisi

Mae'r erthygl yn ymwneud â'r maes cynllunio ieithyddol a pholisi iaith, o fewn y nod cynllunio o gynnal iaith (Kaplan a Baldauf 1997: t. 77) gan gynnwys adfywio iaith (Williams 2000: t. 8). Mae polisi iaith addysg yn faes pwysig o fewn polisi iaith a chynnal iaith. Ynghyd â chynllunio statws a chynllunio corpws, ychwanegodd Cooper (1989) gaffael iaith, gan gynnwys polisi iaith addysg, fel un o brif gategorïau polisi. Dadleua fod tri nod i gaffael iaith, ac yn yr astudiaeth hon mabwysiedir y nod o 'greu neu wella'r cyfle a'r cymhelliant i gaffael iaith yn gydamserol' (Cooper 1989: t. 159).

Cynhaliwyd yr astudiaeth yng nghyd-destun y targed am filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Noda *Cymraeg 2050* fod dau brif ddull o sicrhau'r nod o filiwn o siaradwyr, sef trosglwyddo'r Gymraeg o un genhedlaeth i'r llall, a datblygu a chynnal sgiliau Cymraeg trwy addysg a hyfforddiant (Llywodraeth Cymru 2017a: t. 31). Fodd bynnag, pwysleisia mai'r system addysg yw'r prif ddull o greu siaradwyr newydd (Llywodraeth Cymru 2017a: t. 31). Ceir targed penodol sy'n cwmpasu'r sector AB, sef 'datblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle' (Llywodraeth Cymru 2017a: t. 32). Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen er mwyn adolygu gweithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Argymhellodd adroddiad Llywodraeth Cymru (2017b) ymestyn cylch gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnwys y sector ôl-16. Derbyniodd Llywodraeth Cymru'r argymhelliad, ac yn dilyn hynny, sefydlwyd Grŵp Cynllunio. Cyhoeddodd y Grŵp Cynllunio gynllun gweithredu ym mis Hydref 2018 o'r enw *Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr. Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg* (Coleg Cymraeg Cenedlaethol 2018).

Adolygiad o'r ymchwil a gyhoeddwyd

Ceir rhai gweithiau sy'n ymchwilio i resymau myfyrwyr dros astudio trwy'r Gymraeg neu beidio ar lefel AU (Williams 2003, Lewis a Williams 2006, Jones 2010, Hinton 2011, Davies a Trystan 2011). Fodd bynnag, nifer fach o astudiaethau sy'n ymchwilio i ffactorau dewis yn y sector AB. Seilir gwaith Heath (2001) ar gyfweiliadau â dysgwyr mewn pedair ysgol Gymraeg a phedwar coleg AB. Un o'r prif resymau pam y dewisodd y dysgwyr astudio trwy'r Gymraeg oedd canfyddiad o fantais yr iaith yn y farchnad lafur (Heath 2001: tt. 355, 361, 378–9). Dylanwadodd ffactorau diwylliannol arnynt hefyd, megis ymdeimlad o gyfrifoldeb i warchod y Gymraeg. Roedd ffactorau ymarferol, sef teimlo bod astudio trwy'r Saesneg yn haws, diffyg hyder yn eu Cymraeg, a diffyg darpariaeth Gymraeg, hefyd yn amlwg (Heath 2001: t. 342). Gwelwyd rhesymau addysgol hefyd, megis canfyddiad o'r iaith fwyaf 'naturiol', awydd am ddilyniant cyfrwng iaith, a diffyg darpariaeth Gymraeg (Heath 2001: tt. 333, 366–8). Adeilada'r astudiaeth hon ar waith Heath, mewn cyd-destun polisi gwahanol, a chan ganolbwyntio ar ddysgwyr galwedigaethol.

Ymchwil mwy diweddar na gwaith Heath yw astudiaeth Davies a Davies (2015: t. 74),

a seiliwyd ar grwpiau ffocws mewn colegau AB ar draws Cymru. Ceir tri phrif ffactor dewis, yn debyg i rai o themâu Heath (2001). Mae canfyddiad o werth y Gymraeg yn y farchnad lafur ac awydd i gyfrannu at barhad y Gymraeg yn gymhelliad i ddysgwyr astudio trwy'r Gymraeg, tra bo diffyg darpariaeth Gymraeg yn rhwystro dysgwyr rhag gwneud hyn (Davies a Davies 2013: t. 75, tt. 77–8). Gesyd gwaith Davies a Davies sail i'r astudiaeth hon, o ran cynnwys a methodoleg. Fodd bynnag, ceir yma safbwynt gwahanol, gan ymchwilio i ddewisiadau dysgwyr sydd wrthi'n gwneud penderfyniadau am eu AB, yn hytrach na dysgwyr sy'n ystyried eu dewisiadau blaenorol.

Ceir rhai astudiaethau eraill sy'n cyfeirio at ddewisiadau ieithyddol dysgwyr AB mewn un ardal yn unig. Canfydda gwaith Morris Jones (2010: tt. 53–5) resymau tebyg i rai Heath (2001), megis diffyg darpariaeth Gymraeg, diffyg hyder yn y Gymraeg, a theimlad bod y Gymraeg yn fwy anodd. Mae hefyd yn canfod bod rhai dysgwyr wedi cael digon o'r Gymraeg (Morris Jones 2010: t. 55). Fodd bynnag, cyfyngwyd ymatebion dysgwyr i opsiynau caeedig holiadur. Mae dewisiadau ieithyddol dysgwyr AB, gan gynnwys dysgwyr galwedigaethol, hefyd yn agwedd ar waith Jones (2017). Teimlai rhai o'r dysgwyr hyn fod y Saesneg yn haws, tra nododd lleiafrif ffactorau diwylliannol fel rheswm dros astudio drwy'r Gymraeg (Jones 2017: tt. 195, 192). Fodd bynnag, seiliwyd yr astudiaeth ar sampl fach o ddysgwyr o fewn un ysgol yn unig.

Methodoleg

Dewiswyd sefydliadau mewn pedwar Awdurdod Lleol (ALl) yng Nghymru, a chanddynt oll natur ddaearyddol, sosio-economaidd ac ieithyddol wahanol, gan gynnwys canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg. Mae gan ALl 1, sydd yng ngogledd Cymru ac sy'n cyfateb yn fras i'r hyn y cyfeirir ato yn anecdotiaidd fel 'y Fro Gymraeg' draddodiadol,² grynodiad uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae ALl 2 yn ne-ddwyrain Cymru, fel y mae ALl 3, ac mae'r ardal hon wedi gweld twf yn y Gymraeg a thwf mewn addysg Gymraeg (Comisiynydd y Gymraeg 2015: t. 52). Mae ALl 4 yn ne-orllewin Cymru, mewn ardal sydd â nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg, ac mae hefyd yn rhan o'r Fro Gymraeg draddodiadol. Dewiswyd un coleg AB ym mhob ALl ynghyd ag un ysgol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog Categori 2A yn nalgylch pob coleg er mwyn cynnal cyfweiliadau lled-strwythuredig â staff.³ Er mwyn cyfyngu ar gwmpas yr ymchwil, canolbwyntiwyd ar bedwar pwnc galwedigaethol, sef Iechyd a Gofal, Gofal Plant, Twristiaeth a Busnes. Meini prawf staff mewn ysgolion, felly, oedd eu bod yn athrawon pwnc galwedigaethol yn un o'r meysydd hyn, yn bennaeth Blwyddyn

² Defnyddiwyd cysyniad y 'Fro Gymraeg' mewn polisi (e.e. Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003: t. 4) ac ymchwil (e.e. Balsom 1985). Fodd bynnag, mae i'r term sawl anfantais, a dadleua rhai, megis Coupland et al. (2006: t. 6) fod y label yn amrwd, a bod iddo ddiffyg ffiniau manwl gywir rhwng ardaloedd, er enghraifft. Yn ogystal, mae'r ddemograffeg wedi newid ers bathu'r term (Comisiynydd y Gymraeg 2015: t. 36).

³ Gan mai bwriad yr astudiaeth hon oedd dod o hyd i'r ffordd fwyaf effeithiol o gynyddu nifer y dysgwyr sy'n dilyn darpariaeth Gymraeg a dwyieithog, canolbwyntiwyd ar ysgolion â'r ganran uchaf o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

11/y chweched, neu'n gydlynwyr pynciau galwedigaethol, ac yn medru'r Gymraeg.⁴ Meini prawf staff colegau oedd eu bod yn ddarlithwyr un o'r pedwar maes galwedigaethol neu'n hyrwyddwyr dwyieithrwydd, ac yn medru'r Gymraeg neu'n dysgu Cymraeg.⁵

Cynhaliwyd hefyd grwpiau ffocws gyda disgyblion Blwyddyn 11 a oedd wrthi'n gwneud penderfyniadau am eu AB, gan gynnwys cyfrwng ieithyddol eu cyrsiau. Y meini prawf ar gyfer aelodau'r grwpiau ffocws oedd eu bod yn ddisgyblion Blwyddyn 11, yn siarad Cymraeg⁶ ac yn bwriadu astudio pwnc neu bynciau galwedigaethol, naill ai yn y chweched dosbarth neu mewn coleg AB. Defnyddiwyd dull ceidwad y porth er mwyn recriwtio cyfranogwyr, gydag aelod staff yn dewis disgyblion a oedd yn bodloni'r meini prawf. Ceisiwyd sicrhau amrywiaeth o ran rhyw, iaith y cartref (Cymraeg neu Saesneg neu'r ddwy); y pynciau galwedigaethol y dymunai dysgwyr eu hastudio a'r sefydliad AB a ddewiswyd – chweched dosbarth neu goleg AB. Cynhaliwyd y grwpiau yn y pedair ysgol a ddewiswyd, ac mewn dwy ysgol arall yn nalgylch y pedwar coleg. Dengys y tabl isod ddosraniad y sefydliadau yn ôl ALL.

Awdurdod Lleol	Coleg	Ysgol ⁷
ALl 1	Coleg A	Ysgol AP
		Ysgol AN
		Ysgol S
ALl 2	Coleg B	Ysgol C
		Ysgol AL
		Ysgol Ch
ALl 3	Coleg C	Ysgol Dd
		Ysgol D
		Ysgol E
ALl 4	Coleg Ch	Ysgol Ff
		Ysgol G

Tabl 1: Sefydliadau yn ôl Awdurdod Lleol

⁴ Gan mai ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog categori 2A a ddetholwyd i fod yn rhan o'r sampl, rhagdybiwyd y byddai holl staff addysgu'r ysgolion hyn yn medru'r Gymraeg.

⁵ Ceisiwyd sicrhau amrywiaeth o ran faint o Gymraeg yr oedd staff colegau yn ei ddefnyddio wrth addysgu, o elfennau o fodiwl, i fodiwl cyfan, i gwrs cyfan, ond mae hyn yn anodd iawn i'w ddiffinio ac yn codi cwestiwn o ran pa ddata sydd ar gael ynghyd â dilysrwydd y data hynny.

⁶ Defnyddiwyd y ffaith bod disgybl yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog categori 2A fel prawf ei fod yn medru'r Gymraeg.

⁷ Ni fu modd cynnal grŵp ffocws yn Ysgol AP, felly cynhaliwyd grwpiau ffocws mewn dwy ysgol arall yn ALl 1. Un grŵp ychwanegol yn unig yr oedd modd ei gynnal yn ALl 4 gan nad oedd ysgolion eraill ar gael.

Dewiswyd dull cyfweiliad lled-strwythuredig er mwyn gallu casglu data manwl am brofiadau'r cyfranogwyr, gan fod y dull hwn yn cynnig cyfle i greu naratifau cyfoethog, ac y ceir elfen o hyblygrwydd i archwilio trywyddau y mae'r rhai sy'n cael eu cyf-weld yn eu codi (Warren 2012: t. 132; Bryman 2016: t. 467). Dewiswyd grwpiau ffocws er mwyn gallu ymchwilio i agweddau, rhesymeg a chredoau dysgwyr, gan fanteisio ar y rhyngweithio rhwng aelodau'r grwpiau, a all sbarduno trafodaeth lawnach (Jupp 2006: tt. 122–3). Yn ogystal, dosbarthwyd holiaduron i ddisgyblion wrth sefydlu'r grŵp ffocws er mwyn casglu gwybodaeth sylfaenol am yr aelodau a defnyddio dull gwahanol gan sicrhau dilysrwydd canfyddiadau'r grwpiau ffocws (sef y dull o 'driongli') (Grinyer a Thomas 2012: t. 248).

Dilynwyd gofynion moeseg BERA (2018) ar ymchwil addysg, gan sicrhau caniatâd gwirfoddol cyfranogwyr, caniatâd rhieni/gwarcheidwaid yn achos disgyblion, yn ogystal â chaniatâd penaethiaid sefydliad. Sicrhawyd bod cyfranogwyr wedi eu hysbysu am bwrpas a dull yr ymchwil, parchwyd eu dymuniad i dynnu'n ôl o'r ymchwil, a sicrhawyd nad oedd neb yn cael ei enwi. Fel rhan o hyn, rhoddwyd ffugenwau i staff, a defnyddiwyd llythrennau ar gyfer sefydliadau. Nid yw disgyblion unigol yn cael eu henwi, ond nodir o ba ysgol y maent yn dod yn ôl y cod a bennwyd ar gyfer yr ysgol honno.

Defnyddiwyd dadansoddiad thematig er mwyn dadansoddi'r data, gan ddilyn diffiniad Kawulich (2017: t. 22). Darllenwyd y trawsgrifiadau gan grynhoi'r testun a'i anodi, ac yna codio'r data yn ddiddwythol ac yn anwythol, gan ddefnyddio meddalwedd NVivo i hwyluso'r broses.

Canfyddiadau

Gellir rhannu rhesymau'r dysgwyr a holwyd dros astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog (neu dros beidio â gwneud hynny) yn ddau brif ddosbarth: ffactorau economaidd ac ymarferol, a ffactorau diwylliannol ac addysgol. Nid yw'n ddicotomi clir ond dyma un dull effeithiol o ddosbarthu'r ffordd yr oedd y dysgwyr yn ystyried eu rhesymau.

Rhesymau economaidd: Mantais cyflogadwyedd

Un o'r prif themâu a gododd yn y data oedd ffactor economaidd, sef gwerth economaidd iaith, a ddylanwadau ar ddewisiadau disgyblion ar draws yr holl grwpiau ffocws. Diffinnir 'gwerth economaidd' yma, ar sail atebion y cyfranogwyr, fel canfyddiad o werth yn y farchnad lafur. Agwedd amlwg ar hyn oedd canfyddiad o fantais iaith ar gyfer cyflogadwyedd; un o'r prif resymau dros ddewis darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog oedd canfyddiad o fantais y Gymraeg. Credai nifer o ddisgyblion y byddai'r Gymraeg yn cynyddu cyfleoedd, ac y byddai mwy o opsiynau ar gael iddynt o ran swyddi. Nodasant, er enghraifft, 'Mae'n rhoi fwy o gyfleoedd i ti' (Ysgol Ch), 'Mae Cymraeg yn gallu helpu chi cael swydd' (Ysgol Dd) a 'Mae'n edrych yn dda ... ar CV' (Ysgol Ch). Tynnodd disgyblion ar enghreifftiau personol wrth resymu ynglŷn â mantais y Gymraeg ar gyfer cael swydd. Meddai disgybl Ysgol C:

Dw i'n gwybod pan oedd dad fi eisiau edrych am swydd arall, 'o'dd llawer o' nhw eisiau rhywun sy'n gallu siarad Cymraeg hefyd, ond 'o'dd e ddim yn gallu siarad Cymraeg, so 'o'dd llai o siawns i fe cael swydd.

Gwelwyd, felly, fod disgwrs y gyfundrefn addysg am fantais y Gymraeg ar gyfer cyflogadwyedd wedi treiddio i feddyliau'r disgyblion. Fodd bynnag, nid oedd disgyblion wastad yn gallu egluro pam y byddai'n fantais. Nododd disgybl Ysgol D, er enghraifft, y byddai'r Gymraeg yn ddefnyddiol yn y dyfodol, ond ni allai gyfiawnhau sut:

Yn y dyfodol. Mae'n gallu bod yn *beneficial*, sa i'n siŵr pa sefyllfa, ond mae'n gallu bod yn *beneficial*.

I'r gwrthwyneb, gwelai rhai disgyblion y Saesneg fel iaith byd gwaith neu teimlai eraill fod mwy o swyddi ar gael yn y Saesneg, ac roedd hyn yn gymhellant iddynt astudio drwy'r Saesneg. Portreadodd rhai'r Gymraeg fel rhwystr yn yr achos hwn, er enghraifft disgybl Ysgol D:

Yn y byd gwaith, mae rhan fwyaf yn Saesneg, *so* os ti'n mynd trwy gyd o addysg yn Gymraeg, bydde fe'n galed pellach mlaen wedyn.

Gwerth sgiliau dwyieithog

Yn dilyn gwerth y Gymraeg neu'r Saesneg ar gyfer cyflogadwyedd, roedd canfyddiad o werth dwyieithrwydd ar gyfer cyflogadwyedd yn thema gref arall ar draws y grwpiau, ac yn ffactor a anogai dysgwyr i astudio drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog. Roedd ymwybyddiaeth fod dwyieithrwydd yn apelio at ddyheadau cyflogwyr, yn arbennig y gallu i gyfathrebu'n ddwyieithog. Nododd disgybl Ysgol C:

Mae pobl mewn swyddi ar draws Cymru yn hoffi pobl sydd yn ddwyieithog, maen nhw'n gallu cyfathrebu mwy gyda pobl draws y byd.

Portreadwyd dwyieithrwydd yn sgîl gan y disgyblion a'r staff fel ei gilydd. Nododd disgybl Ysgol Ch, er enghraifft:

Mae pobl yn rili *impressed* os 'chi'n dweud 'fi'n gallu siarad dwy iaith'.

Roedd mwy o hyblygrwydd o ran swyddi yn agwedd arall ar fantais dwyieithrwydd, a dadleuai'r disgyblion fod hyn yn cynyddu eu siawns o gael swydd, a chyferbynnwyd hyn â siawns person uniaith:

Mae mwy o amrywiaeth swyddi lle ni'n gallu ffitio mewn ... felly mae mwy o siawns o gael swydd wedyn. (Disgybl Ysgol C)

Gwelwyd hefyd beth ymwybyddiaeth o'r symudiad tuag at amlieithrwydd, a phwysigrwydd dwyieithrwydd o fewn y duedd hon, er enghraifft sylw disgybl Ysgol Ff, sef 'mwy o bobl eisiau dwy iaith neu dair iaith'.

Fodd bynnag, ymwybyddiaeth brin a gafwyd o fanteision dwyieithrwydd y tu hwnt i allu cyfathrebu mewn dwy iaith, neu fel offeryn cyflogadwyedd. Cafwyd eithriadau prin megis sylw disgybl Ysgol AN yn nodi mai un o fanteision dwyieithrwydd oedd gwybod termau a chael gwybodaeth mewn dwy iaith. Ychwanegodd disgybl Ysgol AL fod ymwybyddiaeth cyflogwr bod gweithiwr yn medru'r Gymraeg yn bwysicach na defnyddio'r iaith mewn swydd, gan awgrymu fod gan berson dwyieithog briodweddau arbennig.

Ffactorau sy'n effeithio ar werth economaidd iaith

Fodd bynnag, roedd dau ffactor yn effeithio ar y canfyddiad o werth economaidd iaith, sef y pwnc y dymunai disgybl ei astudio a'r lleoliad y dymunai disgybl weithio ynddo. Yn gyntaf, dadleuodd nifer o'r disgyblion fod medru'r Gymraeg a bod yn ddwyieithog yn fanteisiol wrth astudio pynciau galwedigaethol yn gyffredinol gan fod y pynciau hyn yn aml yn arwain at swyddi sy'n ymwneud â phobl. Roedd y syniad o'r cwsmer neu'r cleient yn bwysig iawn, yn benodol y gallu i gyfathrebu â'r cwsmer gan ddangos parch. Meddai disgybl Ysgol C, er enghraifft, 'mae'n fwy parchus i siarad gyda rhywun yn ei iaith, yn lle newid i'r Saesneg'. Serch hyn, cafwyd amrywiaeth barn rhwng grwpiau ac o fewn iddynt am werth sgiliau Cymraeg a dwyieithog i'w meysydd galwedigaethol hwy yn benodol, a dylanwadau hyn mewn gwahanol ffyrdd ar eu dewis i astudio drwy'r Gymraeg, neu i beidio â gwneud hynny. Nid oedd rhaniad clir rhwng meysydd lle yr oedd gwerth i'r Gymraeg a rhai lle nad oedd gwerth yn eu barn hwy, a gwelwyd amrywiaeth o fewn grwpiau gwahanol. Fodd bynnag, cafwyd rhai enghreifftiau o feysydd penodol lle yr oedd cytundeb i raddau helaeth ar draws y grwpiau fod y Gymraeg o fudd neilltuol. Un o'r meysydd hyn oedd gofal plant. Meddai Rose (Coleg B):

Maen ... nhw'n gallu gweld pam maen nhw'n neud yr iaith, mae'r iaith yn fwy pwrpasol ... Er mwyn gweithio 'da plant, mae'r Gymraeg yn *learning area* yn ei hunan, *so* mae'n rhaid iddyn nhw ddatblygu'r sgîl eu hunain i helpu'r plant.

Yr ail ffactor a effeithiai ar ganfyddiad dysgwyr o werth y Gymraeg a dwyieithrwydd o ran cyflogadwyedd oedd ym mhle y dymunent weithio. Yn gyntaf, gwahaniaethwyd rhwng bwriad i aros yng Nghymru a bwriad i adael y wlad, i weithio yn Lloegr neu dramor. Ni theimlai'r disgyblion a fwriadai weithio y tu allan i Gymru y byddai astudio drwy'r Gymraeg yn rhoi unrhyw fantais iddynt:

Os 'ych chi ddim mynd i gael swydd yng Nghymru ... mae'n *useless* mewn gwledydd eraill (disgybl Ysgol AL).

Roedd canfyddiad fod astudio trwy'r Gymraeg yn cyfyngu ar opsiynau, tra bo astudio drwy'r Saesneg yn cynyddu cyfleoedd:

Os y'ch chi'n dewis cwrs Cymraeg, sa' e ddim mor eang, 'san nhw mwy debygol o gorfod aros yng Nghymru. Tasech chi'n neud o'n Saesneg, tasech chi'n gallu trafaelu neu fynd i lefydd gwahanol. (Disgybl Ysgol S)

Dadleuodd nifer fach o ddisgyblion o blaid dysgu ieithoedd tramor yn hytrach na'r Gymraeg, er enghraifft disgybl Ysgol S a ddadleuodd dros ddysgu Arabeg a Mandarin.

Paratoi at y dyfodol

Ffactor ymarferol a ddylanwadai ar ddewis cyfrwng iaith astudio disgyblion oedd awydd i baratoi at y dyfodol, a gwerthusai'r disgyblion swyddogaeth y Gymraeg a'r Saesneg yn y dyfodol hwn. Gwelwyd ôl myfyrio a blaengynllunio gan rai disgyblion; fodd bynnag, nid oedd y disgyblion oll wedi cynllunio'n ofalus ac nid oedd y dyfodol yn flaenoriaeth yn y broses ddewis i bawb. Meddai Morgane, er enghraifft:

Realiti'r sefyllfa yw bod lot o fyfyrwyr jest yn byw yn y foment, a phan bod nhw'n symud o TGAU i Lefel A, 'na gyd sydd yn eu meddyliau nhw yw pa bynciau maen nhw'n mwynhau.

Yr agwedd fwyaf amlwg ar baratoi at y dyfodol a drafododd y disgyblion oedd paratoi ar gyfer y byd gwaith a swyddi arfaethedig. Roedd rhai disgyblion, megis grŵp Ysgol S, yn argyhoeddedig y byddent yn defnyddio'r Gymraeg yn eu swyddi yn y dyfodol. Fodd bynnag, i'r disgyblion na welai le i'r Gymraeg yn eu dyfodol, thema amlwg a gododd ym mhob grŵp namyn dau oedd yr angen i 'neud y *switch*' (disgybl Ysgol Ch) o astudio drwy'r Gymraeg i astudio drwy'r Saesneg, er mwyn ymbaratoi at fyd gwaith. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i ddisgyblion a ddymunai weithio yn Lloegr neu dramor. Gwelai rhai disgyblion newid cyfrwng iaith fel rhywbeth anochel, hyd yn oed os nad oeddent yn dymuno gwneud hynny. Nododd disgybl Ysgol Ch, er enghraifft, 'fi ddim rili moyn *switcho* i'r Saesneg ond bydd rhaid neud y *switch eventually* i mynd mewn swydd'. Un rheswm dros y newid cyfrwng oedd awydd i ddysgu terminoleg Saesneg. Pryder mawr ymhlith y disgyblion ynglŷn â pharhau i astudio drwy'r Gymraeg oedd na fyddent yn gwybod y termau Saesneg ac y byddai dysgu'r rhain yn faich ychwanegol wrth gyrraedd y byd gwaith.

Rhesymau ymarferol: Diffyg darpariaeth

Ffactor pwysig sy'n atgyfnerthu'r ffactorau eraill yw diffyg darpariaeth. Os nad yw'r ddarpariaeth yn bodoli, nid oes modd i ddysgwyr ei dilyn. Canfuwyd diffyg deublyg yn y data: diffyg darpariaeth pwnc galwedigaethol penodol mewn ysgol, a diffyg darpariaeth yn y pwnc hwnnw drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog yn y coleg. Mewn sefyllfa o'r fath,

felly, nid oedd dilyn darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog yn opsiwn i ddysgwyr. Cafwyd sawl enghraifft o ddiffyg darpariaeth pwnc galwedigaethol mewn ysgol. Os mai dewis pwnc oedd bwysicaf i'r disgyblion, roedd yn rhaid iddynt felly fynd i'r coleg. Yn ogystal, gwelai rhai disgyblion gyrsiau'r coleg yn rhai mwy dwys ac arbenigol, ac yn achos disgyblion eraill, roedd yr ysgol yn cynnig y pwnc, ond roedd yn rhaid iddynt deithio i ysgol arall er mwyn dilyn pwnc penodol (disgybl Ysgol Ch). Teimlai rhai dysgwyr fod y coleg yn gweddu'n well iddynt. Os nad oedd darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog ar gael yn y coleg, felly, nid oedd opsiwn i'r dysgwyr hyn astudio drwy'r iaith. Unwaith eto, gwelwyd gwahaniaethu rhanbarthol, ac nid oedd diffyg darpariaeth Gymraeg yn y coleg yn gymaint o broblem i grwpiau ysgolion AN ac S.

Rhesymau diwylliannol: Hunaniaeth a chyfrifoldeb

Un thema ddiwylliannol amlwg yn y data oedd ymdeimlad o hunaniaeth Gymreig, a gwelid astudio drwy'r Gymraeg fel ffordd o fynegi'r hunaniaeth hon. Roedd y thema hon yn un gref yng ngrwpiau ysgolion AN ac S, er na chodai i'r un graddau yn y grwpiau eraill. Meddai disgybl Ysgol S:

Mae e'n rhywbeth unigryw i ni, gallu siarad Cymraeg ... Dim ond ni sydd yn ei siarad o. 'Dan ni'n lwcus cael dysgu fo. Ac mae e'n rhywbeth i fod yn browd ohono fe, gallu siarad Cymraeg.

Hefyd, ceid teimlad o berchnogaeth ar Gymru, er enghraifft, 'ein gwlad ni' (Ysgol S), ac o'r iaith:

Mae e'n rhan ohonom ni, ein hanes, ein hiaith yw e. (Ysgol C)

Fodd bynnag, roedd ymdeimlad o hunaniaeth hefyd yn rheswm a roddodd rhai disgyblion dros beidio ag astudio drwy'r Gymraeg. Portreadodd rhai disgyblion 'siaradwr Cymraeg' fel 'yr arall' a feddai ar nodweddion nad oedd gan y disgybl ei hun. Meddai disgybl Ysgol AL, er enghraifft:

Os o'n i'n un o'r pobl oedd yn siarad fel athrawon neu rywbeth ... ond os ti'n mynd mas 'da ffrindiau ti, fi ddim yn tueddu siarad Cymraeg.

I ddisgybl Ysgol Dd, roedd y Gymraeg yn symbol o statws cymdeithasol, nad oedd yn perthyn iddo ef:

Mae fy nan yn siarad Cymraeg i fi, ond *it's just posh, it's posher than me.*

Thema arall yn y data oedd yr angen i '[g]ladw'r iaith yn fyw' (disgybl Ysgol AN) a chyfraniad dewis astudio drwy'r Gymraeg at wireddu'r nod hwn. Cododd y thema ar draws

y grwpiau ffocws, ond roedd ar ei chryfaf, unwaith eto, yng ngrwpiau ysgolion AN ac S, lle y teimlai'r disgyblion fod ganddynt swyddogaeth warchodol ac amddiffynnol tuag at y Gymraeg. Credai'r disgyblion mai'r system addysg oedd y brif ffordd o hybu'r iaith ac roedd dewis astudio drwy'r Gymraeg yn benderfyniad ymwybodol i gyfrannu at ei chynnal. Meddai disgybl Ysgol S, er enghraifft, 'Mwy o bobl yn astudio, mwy o siawns sydd iddo fe [y Gymraeg] aros'. Nododd disgybl Ysgol AN, er enghraifft, 'Mae'n bwysig cadw'r iaith i fynd, pwy sy'n mynd i'. Fodd bynnag, cafwyd hefyd agweddau difater tuag at gynnal yr iaith. Ymbellhaodd disgybl Ysgol AL oddi wrth y cyfrifoldeb hwn, fel person ifanc, gan nodi y byddai'n poeni am y Gymraeg pan fyddai'n hŷn.

Dewis 'naturiol'

Roedd y cysyniad o 'ddewis naturiol' o gyfrwng iaith yn thema ddiwylliannol amlwg arall a gododd ar draws y grwpiau ffocws. Roedd dau ffactor yn cyfrannu at ganfyddiad y disgyblion o ddewis 'naturiol', sef iaith gyntaf (yn y cyd-destun hwn, label a roddodd y disgyblion iddynt eu hunain) a dilyniant mewn iaith addysg. Yn gyntaf, cafwyd nifer fawr o enghreifftiau o ddisgyblion yn cyfiawnhau dewis astudio drwy'r Gymraeg neu drwy'r Saesneg oherwydd mai honno yw eu hiaith gyntaf. Gwelwyd gwahaniaeth rhanbarthol mawr o ran dylanwad yr iaith gyntaf. Yn Ysgol S, er enghraifft, roedd y disgyblion oll yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf a sonient mai dewis naturiol iddynt hwy, felly, fyddai astudio drwy'r Gymraeg.

Yn ail, roedd iaith flaenorol eu haddysg a'r syniad o ddilyniant yn thema gref a gododd yn y rhan fwyaf o'r grwpiau. Dilyniant mewn addysg Gymraeg yn arwain at awydd i astudio drwy'r Gymraeg oedd y ffactor mwyaf amlwg yma. Cyfeiriodd disgybl Ysgol Dd, er enghraifft, at '[g]ario mlaen gydag arfer'. Roedd y canfyddiad o wybod geiriau, gwybodaeth, sillafu a therminoleg oll yn rhan bwysig o hyn; fel y nododd disgybl Ysgol E, 'gwybod popeth yn Gymraeg yn barod'. Portreadwyd parhau â'r un cyfrwng iaith astudio, yn ogystal, fel elfen o gysondeb mewn cyfnod o newid, wrth drosglwyddo i AB: 'mae llawer o pethau yn newid ar ôl gadael ysgol, mae'n un peth sydd ddim yn wahanol' (disgybl Ysgol E). Roedd y cysylltiad rhwng dylanwad dilyniant ieithyddol a pherfformiad academaidd yn rhan o broses ddewis rhai disgyblion o ran pa iaith i astudio drwyddi. Gwelwyd enghreifftiau o bwysio a mesur ffactorau amrywiol, ac, i rai disgyblion, roedd dilyniant yn trechu ffactorau eraill wrth iddynt ddewis cyfrwng astudio. Meddai disgybl Ysgol S:

Os 'dach chi'n teimlo'n fwy cyfforddus yn iaith eich hun, byse fe'n gweithio'n well i chi. O ystyried bod fi wedi neud y Gymraeg am mor hir, dw i'n ystyried bod e'n gryfach na'r Saesneg.

Fodd bynnag, os oedd y disgyblion wedi astudio pwnc ar lefel TGAU, roeddent yn fwy parod i astudio drwy'r Saesneg ar lefel AB, gan nad oedd dilyniant yn berthnasol. Roedd astudio trwy'r Saesneg yn apelio at y garfan hon o ddisgyblion, ac yn cael ei ystyried fel rhan o ddechreuad newydd. Meddai disgybl Ysgol D, er enghraifft:

'Sen i 'di gallu dewis y cwrs yn *GCSEs* ... dw i'n meddwl baswn i wedi cario mlaen i neud o yn y Gymraeg. 'Dach chi'n dod i arfer i wneud y pwnc, ond achos dw i ddim, dw i am neud o yn y Saesneg. *Fresh start* mewn ffordd.

Rhesymau addysgol: Anos neu haws

Roedd canfyddiad o rwyddineb ac anhawster iaith yn thema amlwg iawn a ddylanwadai ar ddewisiadau cyfrwng iaith astudio disgyblion ar draws y grwpiau. Teimlai nifer helaeth o ddisgyblion fod y Gymraeg yn anos na'r Saesneg. Cafwyd llawer o drafod ar gymhlethdod treigladau a sillafu, a cholli marciau mewn profion am eu hiaith ysgrifenedig. Roedd cysylltiad cryf rhwng canfyddiad disgybl o anhawster wrth ddefnyddio iaith benodol a pha iaith oedd y disgybl yn ei siarad gartref, er nad oedd y gydberthynas hon wastad yn wir. Unwaith eto, pwysleisiodd disgyblion y berthynas rhwng cryfder mewn iaith a llwyddiant academiaidd, a'r awydd hwn i lwyddo a sbardunodd rai disgyblion i astudio trwy'r Saesneg. Meddai disgybl Ysgol C:

Chi gorfod gwybod Cymraeg yn rili gryf i neud yn rili dda, felly os 'ych chi'n gwybod Saesneg mwy, chi'n fwy tebygol o gael graddau uwch yn Saesneg na mewn Cymraeg.

Agwedd bwysig arall oedd teimlad o ddiffyg hyder yn yr iaith, ac unwaith eto gwelwyd cysylltiad rhwng diffyg hyder a'r ffaith mai'r Saesneg yw iaith y cartref. Roedd diffyg hyder dysgwyr yn y Gymraeg yn thema amlwg yng nghyfweliadau'r staff. Crybwyllodd Lise (Coleg Ch) fod y dysgwyr yn ceisio cuddio eu gallu i siarad Cymraeg wrth lenwi ffurflenni cofrestru'r coleg, oherwydd eu diffyg hyder:

Mae'n syndod ... faint o fyfyrwyr sy'n dod aton ni o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg, sy'n nodi ar eu ffurflenni nhw, bod nhw ddim yn rhugl yn y Gymraeg ... P'un ai bod nhw'n ceisio cuddio ... neu'r hyder 'ma, y diffyg hyder.

Cyfeiriodd disgyblion at sawl ffactor a oedd yn gwneud y Gymraeg yn anos. Un ffactor oedd bod llai o gymorth ar gael yn y Gymraeg, gan nad yw cymorth cyfrwng Cymraeg yn cynnwys cymorth gan diwtoriaid preifat a chan rieni y tu allan i'r ysgol. Agwedd arall ar y canfyddiad o anhawster y Gymraeg oedd diffyg adnoddau Cymraeg, megis gwerslyfrau ac adnoddau ar y we. Ffactor pwysig arall sy'n gwneud astudio trwy'r Gymraeg yn anos yn ôl y disgyblion oedd terminoleg. Nododd nifer fawr o ddisgyblion eu bod yn gyfarwydd â thermau Saesneg tra bo termau Cymraeg yn anghyfarwydd iddynt ac yn fwy cymhleth, ac ystyrient fod gorfod eu dysgu'n faich ychwanegol. Meddai disgybl Ysgol D, 'mewn Saesneg, mae'n jest yn dod yn naturiol'. Roedd terminoleg yn fwy o broblem mewn pynciau lle yr oedd termau Saesneg yn arbennig o gyfarwydd ac adnabyddus, megis Busnes. Roedd cysylltiad

hefyd rhwng y graddau y gwelai disgyblion derminoleg yn broblem a'u canfyddiad o iaith y gweithlu yn eu meysydd arfaethedig. Os ystyriai'r disgyblion y gweithle yn lle Saesneg ei iaith, roeddent yn fwy tebygol o weld astudio drwy'r Gymraeg a dysgu termau Cymraeg yn rhwstr, ac roedd mwy o gymhelliant iddynt ddysgu termau Saesneg, fel y nodir uchod. Fodd bynnag, nid oedd canfyddiad o anhawster iaith wedi ei gyfyngu i'r Gymraeg yn unig. Teimlai nifer fach o ddisgyblion fod astudio drwy'r Saesneg yn anos nag astudio drwy'r Gymraeg, thema a oedd ar ei chryfaf yng ngrwpiau Ysgol AN ac Ysgol S.

Profiadau blaenorol o'r Gymraeg

Ffactor addysgiadol amlwg a gyfrannai at ddewisiadau disgyblion ynglŷn â chyfrwng ieithyddol eu cyrsiau oedd eu profiadau blaenorol o'r Gymraeg. Soniodd nifer o'r disgyblion eu bod wedi eu gorfodi neu eu bygwth i siarad Cymraeg. Roedd hon yn thema gref ymysg grŵp Ysgol Ff, er enghraifft:

Bygwth ni i siarad Cymraeg ... Bygwth ni i siarad iaith nhw eisiau.

Fodd bynnag, nid oedd hyn o reidrwydd yn eu gyrru i astudio drwy'r Saesneg. Roedd rhai disgyblion yn gymysg eu barn, yn cydnabod angen ysgol Gymraeg i hybu'r iaith ond yn syrffedu ar orfod siarad Cymraeg drwy'r amser, megis disgybl Ysgol Ff:

F'i'n deall pam bod nhw'n gweud e, achos bod e'n ysgol Gymraeg, ond ...
mae e jest yn *pain* trwy'r amser.

Fodd bynnag, cafwyd hefyd agweddau mwy negyddol gan rai disgyblion tuag at gael eu gorfodi i siarad Cymraeg ac roedd y canfyddiad o'r her hon yn fwy tebygol o ddylanwadu arnynt i astudio drwy'r Saesneg. Yng ngrŵp Ysgol G, bu'r disgyblion yn gwrthgyferbynnu'r syniad o gael eu gorfodi i siarad Cymraeg yn yr ysgol â rhyddid coleg AB:

Yn ysgol, chi'n cael stŵr os 'ych chi'n siarad Saesneg. Yn coleg, ti'n gallu
neud mwy beth ti eisiau.

Roedd y staff a gyfeiriodd at brofiadau dysgwyr oll yn gytŷn bod gorfodi disgyblion i siarad Cymraeg yn y sector statudol yn cael effaith negyddol ar eu hagweddau tuag at y Gymraeg ar lefel AB. Meddai Gabrielle (Coleg Ch), 'maen nhw wedi blino ar gael eu gorfodi gyda'r Gymraeg'. Helaethodd staff ar rai agweddau ar y broblem hon. Sonient fod rhai o'r dysgwyr wedi cael adborth negyddol ar eu hiaith yn yr ysgol, wedi cael eu cywiro ormod gan athrawon, neu wedi cael gwersi Cymraeg diflas, yn gwneud dim ond chwileiriau, er enghraifft.

Wedi cael digon o'r Gymraeg?

Un o'r themâu mewn llenyddiaeth eilaidd yw fod dysgwyr yn dewis mynd i goleg AB oherwydd eu bod wedi cael digon o'r Gymraeg. Er enghraifft, gweler Reynolds (2007: t. 177). Canfuwyd rhai agweddau a oedd yn cadarnhau'r rhagdybiaeth hon, ond nid oedd hyn yn wir yn achos yr holl ddisgyblion ar draws y grwpiau. Ymhlith y disgyblion a deimlai eu bod wedi cael digon o'r Gymraeg, cafwyd datganiadau megis disgrifiad disgybl Ysgol D o'r coleg:

Mae y plant yn mynd yna oherwydd nhw ddim yn hoffi Cymraeg.

Fodd bynnag, ni chafwyd ymwrthod llwyr â'r Gymraeg, hyd yn oed ymhlith y disgyblion hyn. Eglurodd disgybl Ysgol E, er na ddymunai barhau i astudio drwy'r Gymraeg, ei fod yn gwerthfawrogi'r cyfle yr oedd wedi ei gael drwy dderbyn addysg Gymraeg yn y cyfnod statudol: 'Fi'n hapus bod mam fi wedi rhoi fi mewn [ysgol] Cymraeg, ond fi jest ddim yn teimlo fe'. Roedd canfyddiad fod dysgwyr yn dewis mynd i'r coleg oherwydd eu bod wedi cael digon o'r Gymraeg yn thema gref yng nghyfweliadau'r staff, ond nid oedd unfrydedd barn ynglŷn â'r graddau yr oedd hyn yn ffactor arwyddocaol yn newisiadau'r dysgwyr. Nododd Rémy (Coleg Ch) ei fod yn wir yn achos rhai dysgwyr:

Some of them are glad of the opportunity of studying in English ... It's almost as if they've had enough of Welsh-medium education. It's a bit of a generalisation, but I have heard that from learners.

Roedd aelodau staff eraill yn gryfach eu barn ynglŷn â dylanwad y ffactor hwn. Nododd Henri (Coleg B):

Os maen nhw'n gallu siarad Cymraeg, erbyn iddyn nhw ddod man 'yn, maen nhw pallu siarad Cymraeg gydag unrhyw un.

Cafwyd hefyd agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg yn y data, gan ddisgyblion a oedd wedi dewis mynd i'r coleg. Nid ymddangosai fod y disgyblion hyn wedi cael digon o'r iaith. Cafwyd datganiadau megis 'Fi'n hapus yn Gymraeg' (Ysgol G) ac 'fi'n hoffi'r iaith' (Ysgol AN). Unwaith eto, roedd disgyblion a deimlai fod llai o bwysau arnynt i siarad Cymraeg yn llai tebygol o nodi eu bod wedi cael digon o'r iaith, er nad oedd y gydberthynas hon wastad yn wir. Meddai disgybl Ysgol AL:

Does dim real *pressure* arnon ni i siarad Cymraeg trwy'r amser, felly fi'n credu mae rhyddid yn dod a wedyn ti'n teimlo mwy *relaxed* yn siarad e.

Trafodaeth

Yn yr adran hon, canolbwyntir ar un brif ymyrraeth ymarferol er mwyn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio drwy'r Gymraeg ac yn ddwyieithog ar lefel AB, sef rhaglen ymwybyddiaeth iaith.⁸

Ehangu'r ddisgwrs⁹ am y Gymraeg a dwyieithrwydd

Canfyddiad amlwg yn y data oedd bod dysgwyr yn gweld y Gymraeg a dwyieithrwydd fel sgîl er mwyn cael mynediad at gyflogaeth. Mae'r canfyddiad fod y Gymraeg yn fantais ar gyfer cyflogadwyedd yn cyd-fynd â chanfyddiadau astudiaethau blaenorol ar ddewisiadau ieithyddol dysgwyr AB (Heath 2001: t. 378; Morris Jones 2010: t. 69; Davies a Davies 2015: t. 75). Mae'r pwyslais ar werth y Gymraeg ar gyfer cyflogadwyedd hefyd yn cyfateb i ganfyddiadau ymchwil empeiraidd (Blackaby a Drinkwater 1997, Drinkwater ac O'Leary 1997, Henley a Jones 2005) ac yn adlewyrchu sefyllfa gyfreithiol y Gymraeg yn y gweithle ac yn y gymdeithas ehangach, fel y noda Lewis (2010: t. 65). Portreadu'r Gymraeg fel sgîl sy'n hwyluso cyrraedd y byd gwaith oedd un o brif themâu'r data, ond ychydig o drafodaeth a gafwyd ynghylch sut y byddai'r Gymraeg yn gymorth yn y byd gwaith, a thu hwnt iddo. Mae ystyried y Gymraeg fel modd o gael swydd yn unig yn cyfrannu at y ddisgwrs neoryddfrydol mai creu gweithwyr ar gyfer yr economi yw pwrpas addysg (Mufti et al. 2008: t. 6). Fodd bynnag, gallai'r neges hon gael effaith negyddol ar agweddau dysgwyr tuag at y Gymraeg, trwy awgrymu gwahaniaethu o blaid siaradwyr Cymraeg yn y gweithle, h.y. bod yn rhaid i ymgeisydd ar gyfer swydd fod yn medru'r Gymraeg er mwyn cael ei benodi. Yn ogystal, ni nododd y disgyblion sut y byddai'r Gymraeg yn eu cynorthwyo i gael swydd, ac roedd hon yn elfen goll o'r neges. Cyfyd hyn y cwestiwn: i ba raddau y mae dysgwyr yn ailadrodd disgwrs sydd wedi treiddio o bolisiau i'r sector addysg statudol, heb ddeall y rhesymeg y tu ôl iddi. Mae'r neges yn cyrraedd y dysgwyr, felly, ond ceir datgysylltu rhwng y neges a dealltwriaeth ohoni.

Thema gysylltiedig â'r cysyniad o'r Gymraeg fel sgîl sy'n hwyluso mynediad at gyflogadwyedd yn y data oedd bod gan yr iaith werth mewn meysydd galwedigaethol penodol yn unig. Cyfetyb hefyd i ganfyddiadau gweithiau blaenorol ar ddewisiadau AB (Heath 2001: t. 378; Davies a Davies 2015: t. 75). Nid oes modd gwadu nad yw'r Saesneg yn amlwg yn y byd gwaith a bod rhai meysydd lle y mae mwy o werth uniongyrchol i'r Gymraeg ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae angen i gynllunwyr addysg ehangu disgwrs polisiau trwy gyfleu manteision holistaidd y Gymraeg.

Ehangu disgwrs dwyieithrwydd

Thema amlwg arall yn y data oedd y fantais o fod yn ddwyieithog yng nghyd-destun cyflogadwyedd. Nid yw amlygrwydd y thema'n syndod o ystyried y pwyslais ar hyrwyddo

⁸ Cynigir ymyrraeth ychwanegol yn Davies (2019).

⁹ Wrth gymhwyso'r term 'disgwrs' i'r Gymraeg a dwyieithrwydd yn yr adran hon, golygir y negeseuon sy'n cael eu cyfleu i ddysgwyr.

manteision dwyieithrwydd ym maes polisiau iaith ac addysg, gan gynnwys yng nghyd-destun dysgwyr AB yn benodol (e.e. Arad 2016: t. 91). Fodd bynnag, nid oedd dwyieithrwydd yn cael ei werthfawrogi na'i ddathlu y tu hwnt i allu siarad dwy iaith, ar wahân i'r agwedd o hwyluso mynediad at gyflogadwyedd. Nid yw hyn yn debygol o wreiddio gwerthfawrogiad o ddwyieithrwydd yn ddwfn ym mhersonoliaeth y dysgwyr, gan beri iddynt fod eisiau defnyddio'r Gymraeg yn ehangach. Mae angen i'r gyfundrefn addysg fynd y tu hwnt i bortreadu dwyieithrwydd fel y gallu i siarad dwy iaith, gan wneud mwy na phortreadu deddfau iaith a safonau, hefyd. Byddai rhaglen ymwybyddiaeth iaith yn fodd o ehangu'r neges hon. Mae angen i raglen o'r fath gyfleu bod dwyieithrwydd yn arwain at ddealltwriaeth o gymdeithas a diwylliant dwyieithog, a phrofiad o fyw dwyieithrwydd. Eglura Baker a Jones (1998: t. 54), er enghraifft, fod dwyieithrwydd yn ennyn sensitifrwydd i anghenion cyfathrebu sefyllfaoedd. Ymhelaetha García (2009: tt. 98–100) ar hyn gan dynnu sylw at allu pobl ddwyieithog i gyfathrebu mewn ffordd hyblyg, a phwysleisia bwysigrwydd hyn o fewn cyd-destun globaleiddio. Ychwanega fod dwyieithrwydd yn cynyddu ymwybyddiaeth ddiwylliannol unigolyn, yn ei ddwy iaith (García 2009: t. 100). Ceir ymwybyddiaeth o'r dadleuon hyn yn rhaglen waith *Cymraeg 2050* (Llywodraeth Cymru 2017a: t. 38), sy'n nodi'r awydd am bobl ifanc sydd 'yn meddu ar ymwybyddiaeth ddyfnach o werth dysgu'r Gymraeg, gwerthfawrogiad o ddwyieithrwydd a'r manteision ehangach a ddaw yn sgil dysgu ieithoedd'. Fodd bynnag, ni helaethir ar y manteision hyn yn y rhaglen waith.

Neges amlwg arall yn y data oedd y gred nad yw'r Gymraeg o ddefnydd y tu allan i Gymru. Dyma neges arall y gallai rhaglen ymwybyddiaeth iaith gynorthwyo i'w gwrthdroi, drwy gyfleu nad yw astudio trwy'r Gymraeg yn culhau opsiynau dysgwyr ond yn eu cynyddu. Os yw dysgwyr am aros yng Nghymru, byddai modd iddynt wneud swyddi sy'n gofyn am y Gymraeg, yn ogystal â swyddi perthnasol eraill sy'n gofyn am y Saesneg yn unig. Yn ogystal, yn hytrach na phortreadu'r Gymraeg fel rhywbeth sy'n rhwystro rhywun rhag mynd dramor, mae angen ei phortreadu fel rhywbeth sy'n hwyluso hynny. Hefyd, gellir cyfleu sut y mae dwyieithrwydd yn rhoi ymwybyddiaeth o'r modd y mae gweithleoedd dwyieithog yn gweithio, a sut y gellir rhyngwladoli hyn.

Mae cysyniad Bourdieu (1986) o gyfalaf hefyd yn gymorth i gyfleu gwerth y Gymraeg a dwyieithrwydd y tu hwnt i werth economaidd. Diffinia cyfalaf fel 'accumulated labour ... which, when appropriated on a private i.e., exclusive, basis by agents or groups of agents, enables them to appropriate social energy in the form of reified or living labour' (Bourdieu 1986: t. 15). Dadleua fod tri math o gyfalaf yn sail i strwythur a gweithrediad cymdeithas. Yn ogystal â chyfalaf economaidd (cyfoeth economaidd, eiddo), ceir hefyd gyfalaf diwylliannol (megis gwybodaeth, sgiliau, cymwysterau addysg) a chyfalaf cymdeithasol (cysylltiadau) (Bourdieu 1986: t. 15; 1991: t. 14). Y tu hwnt i ystyried y Gymraeg fel cyfalaf economaidd, felly, gellid ei hystyried hefyd fel cyfalaf cymdeithasol a diwylliannol. Cymhwysa Dallimore a Cunnington-Wynn (2017: tt. 67, 70) y ddamcaniaeth at ddewisiadau rhieni ynghylch cyfrwng iaith gofal i'w plant. Dangosant fod rhai rhieni'n dewis gofal plant cyfrwng Gymraeg, nid yn unig oherwydd ymwybyddiaeth o werth economaidd y Gymraeg, ond hefyd ei gwerth diwylliannol a symbolaidd.

Mae'r fantais o ran rhwydweithiau cymdeithasol¹⁰ yn neges arall y gallai'r gyfundrefn addysg ei chyfleu i ddysgwyr trwy raglen ymwybyddiaeth iaith. Dengys gwaith Henley a Jones (2005: t. 319) nad y gallu i siarad Cymraeg sy'n gwneud unigolion dwyieithog yn fwy llwyddiannus yn y farchnad lafur. Yr hyn sy'n arwain at y llwyddiant hwn yw rhinweddau eraill y gellir eu diffinio fel cyfalaf cymdeithasol, gan gynnwys mynediad at rwydweithiau cymdeithasol ehangach:

Bilingual workers may be rewarded for the possession of unobservable human capital that correlates with, but is different from, the possession of bilingual skills. (Henley a Jones 2005: t. 319)

Rhaglen ymwybyddiaeth iaith

Fel y dadleuir uchod, byddai rhaglen ymwybyddiaeth iaith yn gyfrwng i newid y negeseuon sy'n cael eu rhoi i ddysgwyr am y Gymraeg a dwyieithrwydd, ac yn fan cychwyn i newid agweddau. Ni fyddai rhoi gwybodaeth yn unig yn ddigonol i newid ymddygiad dysgwyr ac mae angen mathau eraill o ymyrraeth, megis addasu model y ddarpariaeth, fel a gynigir yn Davies (2019). Serch hyn, mae'n bwysig bod dysgwyr yn deall y rhesymau pam y maent yn dilyn darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog. Mae gan ymwybyddiaeth iaith swyddogaeth bwysig i'w chwarae wrth wneud hyn. Daw Eaves (2015: t. 219) i'r casgliad fod hyfforddiant ar ymwybyddiaeth feirniadol o'r Gymraeg 'yn gyfrwng effeithiol i gyfrannu at ledw gwybodaeth, dyfnhau gwybodaeth a sicrhau cyfranogaeth mewn disgwrs ieithyddol'. Mae ymwybyddiaeth iaith bellach yn un o dargedau rhaglen waith gyfredol *Cymraeg 2050* (Llywodraeth Cymru 2017a: t. 21). Ni fanylir ar y rhaglen hon yn y rhaglen waith, fodd bynnag.

Mae'n bwysig bod y rhaglen ymwybyddiaeth iaith wedi ei seilio ar ymchwil, ac amlinellir sawl neges yn y drafodaeth y dylid eu targedu er mwyn addasu ac ehangu'r negeseuon presennol am y Gymraeg a dwyieithrwydd sy'n cael eu rhoi i ddysgwyr. Awgryma'r data y gall negeseuon y tu hwnt i'r rhai economaidd fod yn fodd o annog dysgwyr i astudio drwy'r Gymraeg ac yn ddwyieithog ar lefel AB. Cefnoga ymchwil economeg ymddygiadol y gred y gall negeseuon emosiynol ddylanwadu'n effeithiol ar newid ymddygiad (Behavioural Insights Team 2010: t. 25). Yn gyntaf, mae angen i'r rhaglen bortreadu dwyieithrwydd a'i fanteision y tu hwnt i'r gallu i siarad dwy iaith, a phwysleisio'r manteision cymdeithasol. Byddai hyn yn fodd o symud ymlaen o ddisgwrs cyflogadwyedd, ac o bosibl yn fodd o ysgogi perthynas fwy personol rhwng dysgwyr a'r iaith, ac yn dilyn hynny, ymrwymiad dyfnach i'r iaith.

Yn ail, byddai addysgu am hanes y Gymraeg yn fodd o ddatblygu'r syniad o bwysigrwydd yr iaith er mwyn dangos parch at gleient neu gwsmer, thema amlwg yn y data wrth drafod gwerth y Gymraeg mewn pynciau galwedigaethol. Byddai hyn yn fodd o bwysleisio'r ochr ddynol, a lle'r Gymraeg mewn hunaniaeth ddiwylliannol, ac eto, o bosibl, yn fodd o ysgogi ymrwymiad emosiynol dyfnach i'r iaith (Behavioural Insights Team 2010: t. 25; Lockton,

¹⁰ Golygir 'rhwydweithiau cymdeithasol' yn yr ystyr ryngpersonol, wyneb yn wyneb a thraddodiadol yma, yn hytrach na gwefannau rhwydweithiau cymdeithasol.

Harrison a Stanton 2010: t. 74) a all gyfrannu at newid ymddygiad. Un o'r prif themâu yn y data oedd y cysylltiad rhwng y Gymraeg a synnwyr hunaniaeth y dysgwyr. Roedd y naratifau am berthyn diwylliannol a hunaniaeth ddiwylliannol yn efelychu safbwyntiau dysgwyr AB mewn astudiaethau gan Morris Jones (2010: t. 112) a Davies a Davies (2015: t. 77). Mae hunaniaeth Gymreig yn gysyniad amlweddog a gafodd ei fynegi yng nghydestun yr ymchwil gyfredol fel ymdeimlad o berthyn i Gymru, neu i'r Gymraeg, neu i'r ddau beth. Gwelwyd gwahaniaethau rhanbarthol yn y graddau yr oedd hunaniaeth yn ffactor dewis i ddysgwyr, a gwelwyd yr ymdeimlad cryfaf yng ngrwpiau ysgolion AN ac S, ill dwy yn ardal A. Nid oes casgliad syml ynglŷn â pherthynas iaith a hunaniaeth, ond awgryma'r data a gasglwyd y byddai neges sy'n pwysleisio cysylltiad hunaniaeth â'r Gymraeg er mwyn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio drwy'r iaith yn profi mwy o lwyddiant mewn ardaloedd a chanddynt ganrannau uwch o siaradwyr Cymraeg. Byddai angen i lunwyr polisi addysg, felly, deilwra'r rhaglen a'i haddasu mewn ardaloedd lle y mae llai o siaradwyr Cymraeg. Gellid rhoi mwy o bwyslais ar hanes ymylol y Gymraeg, er enghraifft.

Agwedd arall ar thema hunaniaeth a godai yn y data oedd disgwrs 'yr arall'. Roedd rhai cyfranogwyr yn adnabod eraill fel 'siaradwyr Cymraeg' yr oedd addysg Gymraeg yn addas ar eu cyfer, ond ni themlent ei bod yn addas iddynt hwy yn bersonol, er eu bod yn medru'r iaith. Roedd synnwyr o ddiffyg hunaniaeth Gymraeg, felly, yn rhwystro dysgwyr rhag parhau â'r iaith. Mae'n glir o'r data bod y cysyniad o 'siaradwr Cymraeg', felly, yn golygu mwy na meddu ar batrymau ieithyddol. Mae cysyniad Bourdieu o gyfalaf cymdeithasol, unwaith eto, yn gymorth i ddeall y canfyddiad hwn. Yn ôl Bourdieu (1991: tt. 57, 62), prif swyddogaeth y system addysg yw atgynhyrchu diwylliant y gymdeithas fwyafrifol, gan gynnwys nodweddion ieithyddol. Meddai:

The educational market is strictly dominated by the linguistic products of the dominant class and tends to sanction the pre-existing difference in capital. (Bourdieu 1991: t. 62)

Gellir dadlau bod llunwyr polisi addysg, sydd yn berchen ar gyfalaf ieithyddol a chymdeithasol penodol, wedi creu archdeip ar gyfer 'siaradwr Cymraeg' nodweddiadol, sy'n berchen ar y cyfalaf hwn hefyd. Mae disgyblion sydd yn siarad y Gymraeg fel iaith gyntaf, ac yn siarad y Gymraeg gartref, yn gweddu i'r archdeip hwn 'yn rhwydd' yn nhermau Bourdieu (1991: t. 21). Fodd bynnag, nid yw mor rhwydd i ddisgyblion nad oes ganddynt y cyfalaf cymdeithasol hwn i weddu i'r ddelwedd hon.

Gwelir hefyd ddylanwad cyd-destun cymdeithasegol lle y cyfyngir y Gymraeg i'r system addysg. Eglura Thompson hyn gan ddefnyddio'r cysyniad o gyfalaf:

Systematic discrepancies may arise between ... the capacities of individuals from differing social backgrounds to produce linguistic expressions appropriate to those markets. (Bourdieu 1991: t. 21)

Er gwaethaf eu haddysg Gymraeg, teimlai'r disgyblion nad ydynt yn siarad y Gymraeg gartref eu bod ar ris is na disgyblion sy'n gweddu i archdeip y gyfundrefn addysg, ac nid oedd ganddynt, felly, yr ymdeimlad o hunaneffeithiolrwydd i barhau i astudio drwy'r iaith. Mae'r cysyniad o gyfalaf cymdeithasol hefyd yn gymorth i ddeall canfyddiad disgybl Ysgol Dd fod siarad Cymraeg yn fwy 'posh' nag ef, sy'n adleisio canfyddiad rhai o gyfranogwyr astudiaeth Madoc-Jones et al. (2012: t. 256). Byddai addysgu disgyblion am hanes yr iaith a'i pherthynas â phobl Cymru yn un modd o wrthdroi'r negeseuon y mae'r system addysg yn eu cyfleu. Gallai hyn annog ymdeimlad o hunaniaeth ymysg carfan ehangach o ddysgwyr, ac yn dilyn hynny eu hannog i barhau i astudio drwy'r Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Thema ddiwylliannol amlwg arall a godai ar draws y grwpiau oedd yr awydd i gadw'r Gymraeg yn fyw. Mae hyn yn cyd-fynd â barn dysgwyr astudiaeth Davies a Davies (2015: t. 77) a fynegai bryderon am farwolaeth y Gymraeg. Cyfetyb hefyd i'r swyddogaeth warchodol ac amddiffynnol a deimlai dysgwyr astudiaeth Heath (2001: t. 382) tuag at yr iaith. Yn debyg i'r hyn a welwyd o ran hunaniaeth, fodd bynnag, cafwyd gwahaniaethau rhanbarthol yn y data a gasglwyd, a disgyblion yng ngrŵp Ysgol S oedd fwyaf ymwybodol o'u swyddogaeth o gyfrannu at barhad yr iaith. Awgryma hyn y byddai neges o'r fath yn llwyddo i raddau gwahanol mewn ardaloedd gwahanol, yn debyg i achos hunaniaeth. Byddai angen i gynllunwyr polisi addysg, unwaith eto, deilwra rhaglen ymwybyddiaeth iaith i ardaloedd gwahanol.

Problem arall a fynegodd disgyblion y gallai ymwybyddiaeth iaith fynd i'r afael â hi oedd y canfyddiad o anhawster y Gymraeg. Mae angen mynd i'r afael â'r rhagdybiaethau gwaelodol y tu ôl i'r fath ddatganiadau, a byddai amlinellu hanes y Gymraeg yn fodd o wneud hyn. Gallai ddangos nad hynodrwydd y Gymraeg sydd wedi rhwystro llawer o bobl rhag dod yn rhugl ynddi, ond yn hytrach, bod nifer o ffactorau hanesyddol wedi cyfrannu at y sefyllfa hon, â'r rheini'n sail arwynebol-anweladwy i'r ddisgwrs.

Yn drydydd, roedd y syniad o gyfrwng iaith fel 'dewis naturiol' yn thema amlwg a gododd ar draws y grwpiau ffocws. Gellir troi'r rhesymeg hon ar ei phen a dadlau bod mwy o gymhellant a budd i ddysgwyr nad yw'r Gymraeg yn famiaith iddynt i astudio drwy'r Gymraeg, a hynny er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith, eto fel rhan o raglen ymwybyddiaeth iaith. Mae hyn yn arbennig o wir wrth ystyried mai datblygu sgiliau yw un o nodau hanfodol addysg. Nid yw disgwrs 'naturioldeb' yn ystyried ffactorau cymdeithasol a sosioieithyddol, a gallai hynny olygu rhywbeth gwahanol i staff ac i ddysgwyr. Mae hefyd yn groes i'r synnwyr o gyfrifoldeb sy'n awgrymu ystyriaeth anymwybodol. Mae cysyniad Bourdieu o *habitus* yn gymorth i ddeall cyfyngiadau disgwrs naturioldeb. Disgrifia *habitus* ieithyddol yn nhermau 'derbynioldeb':

A practical sense of the acceptability and the probable value of one's own linguistic productions and those of others in different markets. (Bourdieu 1991: t. 76)

I ddisgyblion grŵp Ysgol S, er enghraifft, roedd astudio trwy'r Gymraeg yn ddewis 'naturiol', gan fod y Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Roedd gan yr iaith, felly, le blaenllaw a gwerth uchel yng nghyd-destun *habitus* ieithyddol y disgyblion. Roedd parhau i astudio drwy'r Gymraeg yn rhan o'r disgwyliadau cymdeithasol a ddeilliai o'u *habitus*. Dyma gyd-fynd â chanfyddiad Davies a Davies (2015: t. 75) fod astudio drwy'r Gymraeg yn ddewis 'naturiol' i ddysgwyr o ardaloedd lle y mae'r Gymraeg yn gyfrwng cyfathrebu normadol. Mae dewis addysg Gymraeg yn cyd-fynd â *habitus* disgyblion o'r fath, felly, ond nid yw hyn yn wir ar draws Cymru. Ceir gwendid, felly, yn y ddisgwrs 'dewis naturiol' wrth hybu'r Gymraeg.

Mae amseriad rhaglen ymwybyddiaeth iaith yn ystyriaeth bwysig (Behavioural Insights Team 2014: t. 37). Yn sicr, mae angen ei chyflwyno cyn i ddisgyblion gyrraedd AB. Un opsiwn fyddai ei chyflwyno fel rhan o Fagloriaeth Cymru, mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog.¹¹ Mae'n bwysig hefyd fod y rhaglen yn rhan orfodol o'r cwricwlwm, yn hytrach na rhywbeth dewisol, er mwyn osgoi'r angen am ymdrech ychwanegol er mwyn ei dilyn.

Casgliadau

Dengys y canfyddiadau fod cyfuniad o ffactorau economaidd ac ymarferol, diwylliannol ac addysgol yn dylanwadu ar ddewisiadau ieithyddol dysgwyr galwedigaethol AB. Mae i ganfyddiadau'r erthygl hon oblygiadau i wneuthurwyr polisi Llywodraeth Cymru, y Coleg Cymraeg, colegau AB a dosbarthiadau'r chweched mewn ysgolion. Ceir argymhelliad ymarferol ar gyfer strategaeth i hybu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y sector, sef rhaglen ymwybyddiaeth iaith fel cyfrwng i newid y negeseuon sy'n cael eu rhoi i ddysgwyr, ac yn fan cychwyn er mwyn newid eu hagweddau. Dengys y canfyddiadau fod angen i raglen o'r fath ehangu'r negeseuon am fanteision y Gymraeg, y tu hwnt i rai economaidd, a disgwrs cyflogadwyedd. Gallai addysgu am hanes y Gymraeg fod yn fodd o ysgogi ymrwymiad emosiynol dyfnach i'r iaith. Dangosant hefyd fod angen i raglen o'r fath ehangu'r ddisgwrs am fanteision dwyieithrwydd, gan gynnwys y manteision cymdeithasol, a gwerthfawrogi dwyieithrwydd y tu hwnt i'r gallu i siarad dwy iaith.

Mae gan y sector AB swyddogaeth allweddol i'w chwarae wrth wireddu targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Cyfranna'r erthygl hon at ddealltwriaeth o resymau dysgwyr galwedigaethol yn y sector dros astudio drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog, neu dros beidio â gwneud hynny. Cynigir yma ymyrraeth a all gyfrannu at drawsnewid lle'r Gymraeg a dwyieithrwydd yn y sector AB yng Nghymru.

¹¹ Byddai rhaglen o'r fath, wedi ei haddasu'n briodol, hefyd o fudd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, ond mae hyn y tu hwnt i gylch gorchwyl yr erthygl hon.

Llyfryddiaeth

- Arad (2014), *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Astudiaeth o waith yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru).
- Arad (2016), *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad Terfynol* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru).
- Baker, C., a Jones, M. P. (1999), *Dilyniant mewn Addysg Gymraeg* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg).
- Baker, C., a Jones, S. P. (1998), *Encyclopedia of Bilingualism and Bilingual Education* (Clevedon: Multilingual Matters Ltd).
- Balsom, D. (1985), 'The Three-Wales Model', yn Osmond, John (gol.), *The National Question Again* (Llandysul: Gomer), tt. 1–17.
- Behavioural Insights Team (2010), *MINDSPACE* (London: Cabinet Office).
- Behavioural Insights Team (2014), *EAST: Four simple ways to apply behavioural insights* (London: Cabinet Office).
- Blackaby, D. A., a Drinkwater, S. (1997), 'Welsh-speakers and the Labour Market', *Contemporary Wales*, 9, 158–70.
- Bourdieu, P. (1986), 'The Forms of Capital', yn Richardson, John G. (gol.), *Handbook of Theory and Research for the Sociology of Education* (Connecticut: Greenwood), tt. 241–58.
- Bourdieu, P. (1991), *Language & Symbolic Power* (Cambridge: Polity Press).
- British Educational Research Association (2018), *Ethical Guidelines for Educational Research* (London: British Educational Research Association).
- Bryman, A. (2016), *Social Research Methods*, 5ed argraffiad (Oxford: Oxford University Press).
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol (2018), *Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr. Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru).
- Comisiynydd y Gymraeg (2015), *Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2012–2015: Adroddiad 5-mllynedd Comisiynydd y Gymraeg* (Caerdydd: Comisiynydd y Gymraeg).
- Cooper, R. L. (1989), *Language Planning and Social Change* (Cambridge: Cambridge University Press).
- Coupland, N., Bishop, H., a Garrett, P. (2006), 'One Wales? Reassessing diversity in Welsh ethnolinguistic identification', *Contemporary Wales*, 18 (1), Mawrth, 1–27.
- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (1984), *Y Gymraeg mewn Addysg Bellach* (Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg).
- Dallimore, D. J., a Cunningham-Wynn, L. (2017), 'Language Learning and Childcare Choice in Wales', *Wales Journal of Education*, 19 (2), Tachwedd, 51–77.
- Davies, A. J., a Davies, P. M. (2015), 'Asset, affiliation, anxiety? Exploring student perspectives on Welsh-medium study at post-sixteen further education colleges', yn Jones, Mari (gol.), *Planning for Endangered Languages* (Cambridge: Cambridge University Press), tt. 67–79.

- Davies, A. J., a Trystan, D. (2011), “Build it and they shall come?” An evaluation of qualitative evidence relating to student choice and Welsh-medium higher education’, *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 15 (2), 147–64.
- Davies, L. B., ‘Dewisiadau Dysgwyr: cynyddu’r niferoedd sy’n astudio trwy’r Gymraeg ac yn ddwyieithog mewn Addysg Bellach’, traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd, Caerdydd, 2019.
- Drinkwater, S. J., ac O’Leary, N. C. (1997), ‘Unemployment in Wales: Does Language Matter?’, *Regional Studies*, 31 (6), 583–91.
- Eaves, S., ‘Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Feirniadol am yr Iaith Gymraeg, a’i Gyfraniad at Gynllunio Ieithyddol Cynhwysol yng Nghymru’, traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd, Caerdydd, 2015.
- Estyn (2008), *Darpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar gyfer dysgwyr 14–19 oed* (Caerdydd: Estyn).
- Estyn (2016), *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2015–16* (Caerdydd: Estyn).
- Estyn (2017), *Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach* (Caerdydd: Estyn).
- García, O. (2009), *Bilingual Education in the 21st Century: A Global Perspective* (Oxford: Wiley-Blackwell).
- Grinyer, A., a Thomas, C. (2012), ‘The value of interviewing on multiple occasions or longitudinally’, yn Gubrim, Jaber. F., et al. (goln), *The SAGE Handbook of Interview Research: The Complexity of the Craft*, 2il argraffiad (London: SAGE Publications Ltd.), tt. 219–30.
- Heath, R., ‘Language, culture and markets in Further Education/Iaith, diwylliant a marchnadoedd mewn addysg bellach’, traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd, Caerdydd, 2001.
- Henley, A., a Jones, R. E. (2005), ‘Earnings and Linguistic Proficiency in a Bilingual Economy’, *Manchester School*, 73 (3), 23 Mai, 300–20.
- Hinton, D. (2011), “Wales is my home”: higher education aspirations and student mobilities in Wales’, *Children’s Geographies*, 9 (1), 8 Chwefror, 23–34.
- Jones, G. R. (2010), ‘Factors influencing choice of Higher Education in Wales’, *Contemporary Wales*, 23 (1), Awst, 93–116.
- Jones, S. Ll., ‘The Aspirations and Expectations of Young People attending a Welsh-Medium and an English-Medium School in the South Wales Valleys’, traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd, Caerdydd, 2017.
- Jupp, V. (2006), *The SAGE Dictionary of Social Research Methods* (London: SAGE Publications Ltd.).
- Kaplan, R. B., a Baldauf, R. B. (1997), *Language Planning from practice to theory* (Clevedon: Multilingual Matters Ltd).
- Kawulich, B. B. (2017), ‘Coding and Analyzing Qualitative Data’, yn Wyse, D., et al., *The BERA/SAGE Handbook of Educational Research Volume 2*, (London: SAGE Publications Ltd.) tt. 769–90.

- Lewis, H. (2010), 'Y Gymraeg yn amod cyflogaeth: Cam derbyniol o safbwynt Rhyddfrydol?', *Gwerddon*, 6, Gorffennaf, 55–73.
- Lewis, H. G., a Williams, E. (2006), *Adroddiad ar agweddau myfyrwyr ôl-16 at Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg* (Caerdydd: Dysg).
- Llywodraeth Cymru (2012), *Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016–19* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru).
- Llywodraeth Cymru (2013), *Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013–2020: Cynllun Gweithredu Fframwaith—Blynyddoedd 1–3* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru).
- Llywodraeth Cymru (2014), *Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru).
- Llywodraeth Cymru (2017a), *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru).
- Llywodraeth Cymru (2017b), *Adolygiad o weithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol: Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru).
- Llywodraeth Cymru (2017c), *Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus—Datblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ddiwygiedig* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru).
- Llywodraeth Cymru (2019), *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr: Adroddiad blynyddol 2017–18* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru).
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003), *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog* (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru).
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010), *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru).
- Lockton, D., Harrison, D., a Stanton, N. A. (2010), *Design with Intent: 101 patterns for influencing behaviour through design* (Windsor: Equifine).
- Madoc-Jones, I., Parry, O., a Hughes, C. (2012), 'Minority language non-use in service settings: What we know, how we know it and what we might not know', *Current Issues in Language Planning*, 13 (3), 10 Gorffennaf, 249–62.
- Morris Jones, S., 'Mesur y galw am addysg ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg ymhlith disgyblion Blwyddyn 11 sydd yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf mewn tair ysgol uwchradd yng Ngheredigion', traethawd MA, Coleg Prifysgol Y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin, 2010.
- Mufti, E., Kassem, D., a Murphy, L. (2008), *Educational Studies: An Introduction* (London: Open University Press).
- Price, R. (2010), 'Senses of Welsh Identity: Further Education Students' Perceptions of Wales and Welshness', *Contemporary Wales*, 23 (1), Awst, 17–35.
- Reynolds, E., 'Ehangu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg ôl-orfodol', traethawd PhD, Prifysgol Bangor, Bangor, 2007.
- Warren, C. A. B. (2012), 'Interviewing as Social Interaction', yn Gubrim, Jaber F., et al. (goln), *The SAGE Handbook of Interview Research: The Complexity of the Craft*, 2il argraffiad (London: SAGE Publications Ltd.), tt. 129–42.

- Webb, A. (2007), *Addewid a Chyflawniad: Yr Adroddiad ar yr Adolygiad Annibynnol o Genhadaeth a Phwmpas Addysg Bellach yng Nghymru yng nghyd-destun Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru).
- Williams, C. (2003), *Cyfrwng Cymraeg Mewn Addysg Uwch: Tueddiadau a Dyheadau* (Bangor: Prifysgol Cymru).
- Williams, C. H. (2000), 'On Recognition, Resolution and Revitalization', yn Williams, Colin H. (gol.), *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 1–47.

Seduir, seduce, més que dir que han de fer català: Astudiaeth o bolisiau iaith mewn addysg, integreiddio a mewnfudo rhyngwladol yng Nghatalwnia¹

Catrin Wyn Edwards

Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Prifysgol Aberystwyth

Cyflwynwyd: 10 Mawrth 2020; Derbyniwyd: 02 Mehefin 2020

Crynodeb: Mae'r erthygl hon yn dadansoddi llywodraethiant mewnfudo yng Nghatalwnia, gan ganolbwyntio'n benodol ar y mesurau iaith mewn addysg a roddir ar waith i addysgu'r Gatalaneg i fewnfudwyr. Canolbwyntir yn benodol ar y rhaglen Voluntariat per la llengua (VxL), sef prif weithgaredd y Consorci per a la Normalització Lingüística (CPNL), y prif ddarparwr ffurfiol ar gyfer addysgu'r Gatalaneg i oedolion yng Nghatalwnia, ynghyd â swyddogaeth siaradwyr Catalaneg mewn ymdrechion i integreiddio mewnfudwyr yn ieithyddol. Dadleuir bod siaradwyr ieithoedd lleiafrifoedd yn ganolog i'r broses o addysgu Catalaneg i fewnfudwyr, a bod eu cyfranogiad mewn polisiau a phrosiectau ieithyddol yn cyfrannu at gydlynad cymdeithasol a chysylltiadau rhwng grwpiau yn ogystal â chynaliadwyedd y Gatalaneg. Felly, gyda chynllunio iaith pwrpasol, gall mewnfudwyr a siaradwyr iaith leiafrifol gryfhau neu adnewyddu sefyllfa iaith leiafrifol.

Allweddeiriau: mewnfudo, Catalwnia, polisi iaith mewn addysg, Voluntariat per la llengua, rhyngddiwylliannedd.

Seduir, seduce, més que dir que han de fer català: A study of language-in-education policies, integration and international immigration in Catalonia²

Abstract: This article analyses immigration governance in Catalonia, specifically the language-in-education measures implemented to teach Catalan to immigrants. The article focuses specifically on the Voluntariat per la llengua (VxL) programme, which is the main activity of the Consorci per a la Normalització Lingüística (CPNL), the main formal provider of Catalan teaching for adults in Catalonia, and the role of Catalan speakers in efforts to

¹ Cyfieithiad Cymraeg y dyfyniad yn y teitl yw: 'Demu, demu, mwy na dweud bod rhaid iddynt astudio'r Gatalaneg' (cyfieithiad yr awdur).

² The English translation of the quotation in the title is: 'Seduce, seduce, rather than saying that they have to learn Catalan'.

integrate immigrants linguistically. It is argued that minority language speakers are central to the process of teaching Catalan to immigrants, and that their participation in linguistic policies and projects contributes to social cohesion and inter-group relations as well as to the sustainability of the Catalan language. Thus, with purposeful language planning, immigrants and minority language speakers can strengthen or renew the status of a minority language.

Key words: immigration, Catalonia, language policy in education, Voluntariat per la llengua, interculturalism.

Cyflwyniad

Mae dwysáu globaleiddio a'r patrymau newidiol dilynol o fewnfudo rhyngwladol yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at yr hyn a elwir yn *diversification of diversity*, sy'n gyfystyr â mwy o amrywiaeth rhwng grwpiau mewnudwyr a lleiafrifoedd ethnig ac o fewn y grwpiau hyn. Mae'r duedd gyfoes hon, a ddisgrifiwyd fel 'uwch-amrywiaeth' (Vervotec 2010), yn adlewyrchu math o fewnfudo sy'n fwy cymhleth nag a brofwyd yn flaenorol; mae'n ymwneud â nifer o newidynnau megis mamwlad, sianel ymfudo, statws cyfreithiol, cyfalaf dynol ymfudwyr (yn enwedig cefndir addysgol), mynediad at gyflogaeth, ardal, ac ymatebion gan awdurdodau lleol, darparwyr gwasanaethau a thrigolion lleol (Vervotec 2007: 2–3).³ Mae'r ffenomen newydd hon yn cynrychioli heriau a chyfleoedd newydd i'r rheiny sy'n gweithio er mwyn cynnal ieithoedd lleiafrifoedd cenedlaethol; nid yw mewnudwyr bellach yn rhannu iaith a diwylliant cyffredin, ac er y gallant fod wedi eu lleoli'n gorfforol mewn ardal benodol, mae eu cysylltiadau, eu hunaniaethau a'u bywydau beunyddiol yn 'translocal, real and virtual', sy'n effeithio ar strwythur a datblygiad iaith a phatrymau defnydd (Blommaert 2010: t. 7).

Tra bo natur y mewnudo yn cynnig heriau newydd i unigolion a sefydliadau sy'n ymwneud â'r broses o integreiddio mewnudwyr (Hogan-Brun et al. 2009: t. 1), mae addysgu iaith i fewnudwr lle bo'r iaith yn un leiafrifol yn dod â heriau ychwanegol.⁴ Y brif her yw'r ffaith fod mewnudwyr yn tueddu i integreiddio i'r diwylliant a'r iaith ddominyddol yn hytrach na'r iaith a'r diwylliant leiafrifol oni bai fod mesurau polisi cyhoeddus penodol ar waith (Zapata-Barrero 2009: t. 152). Yn ôl Stevens (2013: t. 235), mae'r mewnudwyr hynny nad ydynt yn llwyddo i feistroli ieithoedd swyddogol eu gwledydd newydd yn wynebu sialensiau enfawr gan fod gan ieithoedd swyddogol werth cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol. O ganlyniad, yn aml iawn, dysgu'r brif iaith neu'r iaith swyddogol yw un o amcanion cyntaf mewnudwyr. Serch hyn, nid yw'r dasg o ddysgu ail iaith yn oedolyn yn broses mor syml

³ Y term a ddefnyddir gan Vervotec yw 'super-diversity' (Vervotec 2007).

⁴ Mae'r term 'iaith leiafrifol' yn cael ei ddehongli'n aml yn ôl agweddau meintiol, yn benodol ar sail nifer siaradwyr yr iaith. Eto i gyd, nid yw iaith o anghenraid yn ddiogel ar sail niferoedd y bobl sy'n ei siarad. Mae sawl awdur, megis May (2012), Nelde et al. (1996: t. 1) a Skutnabb-Kangas (1990), yn pwysleisio'r elfen o bŵer a dosbarthiad pŵer ar draws gwahanol gydberthnasau yn hytrach na niferoedd er mwyn diffinio 'iaith leiafrifol'. Yn yr un modd, ceir rhagfarn yn erbyn ieithoedd leiafrifol ar y sail eu bod yn isradol a di-werth (Joppke 2002).

ag ydyw ar gyfer plant (Penfield a Roberts 1959, yn Muñoz 2013: t. 12). Yn ail, tra gellid targedu plant mewnfudwyr drwy'r system addysg statudol, mae'n anos 'cyrraedd' oedolion, yn enwedig teuluoedd (Fishman 1991: t. 95). Yn drydydd, mae integreiddio mewnfudwyr sy'n oedolion yn tueddu i gael ei drafod yng nghyd-destun meysydd eraill megis lles a chyflogaeth (Pitkänen et al. 2002: tt. 8–9). Adlewyrcha hyn y modd y mae integreiddio oedolion yn cwmpasu meysydd sy'n economaidd a chymdeithasol hefyd.

Yn ogystal, mae dewisiadau ieithyddol mewnfudwyr yn mynd at galon cwestiynau perthyn a hunaniaeth. Dadl gyffredin a hirsefydlog sy'n ymwneud ag ymateb cenedlaetholdeb iswladwriaethol i fewnfudo yw fod cenedlaetholdeb iswladwriaethol yn gynhenid gaeedig gan ei fod wedi ei seilio ar genedlaetholdeb ethnig, sy'n elyniaethus i fewnfudwyr ac amrywiaeth (Ignatieff 1993, Williams 2012). Yn aml, mae hyn yn cael ei gyfosod â chenedlaetholdeb gwladwriaethol, sy'n cael ei bortreadu yn fwy dinesig, gwirfoddol a thiriogaethol (Barker 2010: 14, Williams 2012). Mae natur leihau (*reductionist*) y ddadl hon yn achosi problemau am ddau brif reswm. Yn y lle cyntaf, mae'n diystyru'r ffaith nad yw pob cenedlaetholdeb gwladwriaethol yn ddinesig ac nid oes gan bob cenedlaetholdeb sy'n herio'r wladwriaeth wreiddiau ethnig. Yn ail, nid yw'n cydnabod y ffaith y gall cymunedau cenedlaethol lleiafrifol fynd drwy'r broses o 'ailldychmygu' y genedl (Barker 2010: 14). Er y gall cenhedloedd iswladwriaethol feddu ar y cymhelliant i fabwysiadu agwedd waharddol neu gymathol tuag at fewnfudo (Jeram ac Adam 2015: 241), gallant fod yn fwy cynhwysol na'r gwladwriaethau y maent yn aelodau ohonynt (Shafir 1995, Barker 2010: 14). Mae ymchwil a wnaed ar bolisiau integreiddio mewnfudwyr a disgyrsiau mewnfudol yn yr Alban (Hepburn 2009a, Hepburn a Rosie 2014), Catalwnia (Barker 2010, Solé a Parella 2008, Zapata-Barrero 2009) a Québec (Barker 2015, Juteau 2003) yn profi hyn. Wrth gynnig eglurhad amgen o ymateb cenedlaetholdebau iswladwriaethol i fewnfudo, mae'r erthygl hon hefyd yn darparu sail ar gyfer herio'r ddadl fod cenedlaetholdeb iswladwriaethol yn gynhenid gaeedig.

Gall diffyg cymwyseddau mewnfudo arwain at oblygiadau hirdymor i gymunedau iaith lleiafrifol: 'If immigrants become integrated into the dominant culture, then the minority nation may become a minority within its territory' (Zapata-Barrero 2007: t. 7). Mae hon yn her ychwanegol i'r cenhedloedd hynny sydd â hunaniaeth ieithyddol gref ac sy'n seilio'u gofynion am gynrychiolaeth arbennig ar sail eu hynodrwydd diwylliannol. Wrth ddewis iaith a diwylliant y mwyafrif, gall dewis ieithyddol mewnfudwyr danseilio'u honiadau ar gyfer annibyniaeth neu ymreolaeth (Bauböck 2001: t. 33; Barker 2010, 2015; Jeram ac Adam 2015: 241). Gall hyn arwain at bryderon ynghylch cynaliadwyedd ieithoedd lleiafrifol mewn rhanbarthau a chenhedloedd iswladwriaethol sydd wedi cael profiad o fewnfudo. Gall hefyd arwain at ganfyddiadau fod mewnfudo, fel ffenomen, yn amharu ar hunaniaeth ieithyddol (Erk 2003). Eto i gyd, tra bo rhai pleidiau iswladwriaethol yn ystyried mewnfudo fel rhywbeth negyddol, gan ofni ei botensial i danseilio hunaniaeth neu iaith eu tiriogaeth eu hunain, gall pleidiau iswladwriaethol eraill ei ystyried yn gadarnhaol a cheisio cynnwys mewnfudwyr yn eu prosiectau adeiladu cenedl fel modd o gryfhau eu haelodaeth a'u hawliadau dros hunanbenderfyniad (Erk 2003, Bauböck 2001, Kymlicka a Patten 2003, Hepburn 2009b).

Mewn rhai achosion, nid yw'r iaith leiafrifol yn derbyn swyddogaeth allweddol ym model integreiddio'r llywodraeth iswladwriaethol hyd yn oed pan fo'n meddu ar statws swyddogol ar y lefel honno. Dyma'r sefyllfa yng Nghymru. Er gwaethaf y ffaith fod Llywodraeth Cymru yn nodi'r angen i 'sicrhau bod y Gymraeg yn rhan ganolog o'n hymdrechion i greu pontydd rhwng Cymru a'r byd a'i gwneud yn gyfrwng i groesawu a chymathu pobl sy'n symud i Gymru' (2017: t. 69), mae tebygrwydd rhwng y cyswllt a wneir rhwng cydlyniant cymunedol a dysgu'r Saesneg yn y model integreiddio Prydeinig a'r pwyslais a roddir ar y berthynas hon ym mholisiau Llywodraeth Cymru (Augustyniak a Higham 2019: t. 525; Higham 2020). Saesneg, nid y Gymraeg, yw'r brif iaith ar gyfer sicrhau integreiddio:

In the Welsh case, conversely, despite official bilingualism and promoting integrative benefits of Welsh, only English is truly conceptualised as a purposeful language for integration. Only English classes therefore are supported by Government funding, also suggesting a mirroring of UK state and civic integration ideologies. (Augustyniak a Higham 2019: t. 526)

Adlewyrcha hyn ddadl Williams (2012) mai'r Saesneg a bortreedir fel yr iaith ddinesig a chyffredinol y mae cymdeithas amlddiwyllynnol yn cyfathrebu drwyddi, tra bo'r Gymraeg yn perthyn i leiafrif ethnig yn unig. Ymhellach, dadleua Higham (2020: t. 30) mai 'ideoleg sifig Prydeinig, wedi'i gwisgo mewn iaith "Cydlyniant Cymunedol Cymreig", sydd y tu ôl i bolisiau Cymru ar gymhwyso amrywiaeth'.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r llenyddiaeth ar bolisi mudo cymharol wedi esblygu i geisio dadansoddi ymateb cenhedloedd iswladwriaethol i fewnfudo a'r broses o integreiddio'r mewnfudwyr. Mae'r dadansoddiadau hyn wedi canolbwyntio ar genedlaetholdeb iswladwriaethol (Barker 2010, Adam 2013, Oakes 2004), y ddeinameg iswladwriaethol a gwladwriaethol (Keating 1996; Barker 2010, 2015; Labelle a Rocher 2009) a chystadleuaeth bleidiol (Hepburn 2009a, 2009b; Van der Zwet 2016). Er bod y llenyddiaeth hon wedi cyfrannu at ein dealltwriaeth o ymatebion iswladwriaethau i amrywiaeth a mewnfudo, nid yw'n rhoi sylw digonol i swyddogaeth y gymdeithas dderbyn mewn modelau integreiddio, er gwaethaf y ffaith bod rhagolygon ieithoedd leiafrifol a chenhedloedd iswladwriaethol sy'n meddu ar nodweddion ieithyddol a diwylliannol gwahanol wedi eu cydblethu â chaffael iaith mewnfudwyr. Mae hyn yn syndod o ystyried y ffaith fod ymchwil ar fewnfudo wedi rhoi sylw cynyddol i'r mewnfudwyr eu hunain a chymdeithas sifil yn ogystal â ffactorau strwythurol ar lefel facro ers yr 1990au (Penninx 2013: t. 15). Mae'r astudiaethau hyn yn dangos bod y gymdeithas dderbyn yn bwysig ar dair lefel: unigolion (e.e. agweddau ac ymddygiad y bobl frodorol); mudiadau (a all fod yn agored neu beidio tuag at fewnfudwyr); a sefydliadau, rhai cyffredinol a rhai'n ymwneud â mewnfudo (Penninx 2005).

Yn ddiweddar, mae peth ymchwil ym maes polisi iaith wedi mynd i'r afael â statws mewnfudwyr fel siaradwyr 'newydd' a'u hintegreiddiad ieithyddol; ymchwilia Birmingham a Higham (2018) i'r graddau y mae mewnfudwyr fel siaradwyr newydd Cymraeg a Galisieg yn cael eu hystyried yn siaradwyr 'dilys', ac archwilia Augustyniak a Higham (2019) y ffordd y

mae mewnfudwyr yng Ngwlad y Basg a Chymru'n deall, yn derbyn neu'n herio swyddogaeth iaith.⁵ Mae ymchwil Branchadell (2015), Garrido ac Oliva (2015) a Bouffard (2015), sy'n edrych ar fewnfudo a pholisïau addysg mewn cenhedloedd iswladwriaethol, hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig i'n dealltwriaeth o swyddogaeth addysg ar integreiddio mewnfudwyr. Fodd bynnag, mae diffyg gwaith ymchwil ar swyddogaeth y gymuned groeso a siaradwyr rhugl yn y broses o integreiddio mewnfudwyr, a hynny'n benodol mewn cyd-destun lleiafrifol.

Prif nod yr erthygl yw dadansoddi swyddogaeth siaradwyr ieithoedd lleiafrifol wrth gefnogi ymdrechion i geisio integreiddio mewnfudwyr i gymunedau iaith leiafrifol. Gwneir hyn drwy ganolbwyntio ar Gatalwnia a'r rhaglen Voluntariat per la llengua (VxL), sy'n rhoi dysgwyr Catalaneg mewn cyswllt â siaradwyr rhugl er mwyn annog defnydd cymdeithasol o'r Catalaneg ac er mwyn hwyluso cydlynad cymdeithasol. Dadleuir bod siaradwyr ieithoedd lleiafrifoedd yn ganolog i'r broses o addysgu'r Catalaneg i fewnfudwyr, a bod eu cyfranogiad mewn polisïau a phrosiectau ieithyddol yn cyfrannu at gydlynad cymdeithasol a chysylltiadau rhwng grwpiau, yn ogystal â chynaliadwyedd y Catalaneg. Felly, gyda chynllunio iaith pwrpasol, gall mewnfudwyr neu siaradwyr newydd a siaradwyr iaith leiafrifol gryfhau neu adnewyddu sefyllfa iaith leiafrifol. Golyga hyn fod gan asiantaethau ar draws sawl haen o lywodraethiant gyfrifoldeb dros weithgaredd ym maes cynllunio iaith, a gall gweithredwyr ar lefel ficro (e.e. unigolion, teuluoedd, ysgolion, llywodraeth leol, y gweithle) ddylanwadu ar bolisi yn yr un modd â gweithredwyr ar lefel facro (llywodraethau gwladwriaethol ac endidau uwchgwladwriaethol) (Spolsky 2004). Ys dywed Liddicoat a Baldauf:

Language planning is not limited to government bodies with the power to impose their ideas through their own political dominance. These various bodies rely for their influence on much more distributed relationships of power. In some cases, the power involved is that of a charismatic individual or group that affects the opinions of those around them and in so doing affects their actions and behaviours. (2008: t. 9)

Mae gan yr ymchwil ddau brif gyfraniad. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r drafodaeth academaidd ar fewnfudo. Gan fod yr ymchwil yn ddarn o waith empirig wedi ei seilio ar theorïau sy'n bodoli yn y llenyddiaeth ar genedlaetholdeb a chynllunio iaith ac addysg ddwyieithog, mae'r erthygl yn cyfrannu, yn y lle cyntaf, at feysydd academaidd megis cymdeithaseg iaith, polisi a chynllunio iaith ac addysg, astudiaethau mudo, ac yn fwy cyffredinol, at wyddor gwleidyddiaeth.⁶ Yn ail, mae sail empirig yr ymchwil yn golygu y gall fwydo'n

⁵ Defnyddia Birmingham a Higham (2018) gysyniad Bourdieu (1977) o 'iaith ddilys'.

⁶ Gall yr erthygl fod yn sail hefyd i ystyried trafodaethau ym maes cynllunio iaith, yn benodol theori McRae (1975) ynglŷn â'r egwyddorion 'personoliaeth' neu 'diriogaethol'. Dros y blynyddoedd, mae ysgolheigion wedi defnyddio'r ideolegau hyn wrth fynd ati i astudio cymunedau iaith. Mae Myhill (1990), er enghraifft, yn archwilio'r tensiwn honedig sydd rhwng y ddwy brif ideoleg i astudio Québec, Cymru a Chatalwnia. Eto i gyd, mae rhai o'r honiadau a wneir gan Myhill yn broblematig ac mae lle i herio rhai o'i ddadleuon drwy ystyried ymatebion unigolion a sefydliadau islywodraethol i symudiad poblogaeth cyfoes.

ôl i drafodaethau ymarferol ymysg gwneuthurwyr polisi ym maes polisi iaith ac addysg hefyd. Felly, yn ogystal â chyfrannu at drafodaethau academiaidd, mae'r ymchwiler yn darparu ffynhonnell ymchwiler werthfawr i'r rheiny sy'n cyflawni swyddogaeth ymarferol yn y broses o adfer iaith yng Nghymru a thu hwnt, ac yn rhoi syniad o'r hyn y gellid ei wneud yn realistig trwy gyflwyno cyfres o bolisiau.

Yn y lle cyntaf, cyflwynir y dulliau ymchwiler a fabwysiadwyd er mwyn casglu a dadansoddi data ar lywodraethiant mewnfudo a mesurau iaith mewn addysg yng Nghatalwnia cyn troi at oblygiadau hanesyddol mewnfudo a'r Gatalaneg. Yna, canolbwyntir ar ddatblygiad llywodraethiant mewnfudo yng Nghatalwnia, yn ogystal ag ar ymateb gwahanol unigolion a sefydliadau i fewnfudo rhyngwladol a'u swyddogaeth yn y maes, gan gynnwys Llywodraeth Catalwnia (Generalitat de Catalunya), y Consorci per a la Normalització Lingüística (CPNL), siaradwyr Catalaneg a'r gymdeithas sifil.

Dulliau ymchwiler

Y prif ddull ansoddol a ddefnyddiwyd i gasglu data yn ystod yr ymchwiler oedd cyfweiliadau lled-strwythuredig yn ystod dau gyfnod o waith maes dwys yng Nghatalwnia.⁷ Un o brif fanteision defnyddio cyfweiliadau yw eu bod yn cynnig mewnwelediad i ddigwyddiadau na fyddai dogfennau ac adroddiadau yn y wasg yn eu cynnig ar eu pennau eu hunain (Lilleker 2003: 208) a'u bod yn caniatáu i'r ymchwilydd addasu cyfeiriad y cyfweiliad a natur y cwestiynau er mwyn archwilio rhai atebion neu themâu arbennig sy'n ymddangos yn ystod y drafodaeth (Arksey a Knight 1999: t. 7). Cyn dechrau'r broses gyf-weld, ymgwymerwyd â chyfnod o waith ansoddol lle y dadansoddwyd dau fath o ffynhonnell yn thematig: llenyddiaeth cynllunio iaith a thestunau cynradd yn ymwneud yn benodol â mewnfudo, addysg ac iaith ac a gyhoeddwyd ar ôl 1979 pan basiwyd Statud Ymreolaeth Catalwnia. Daeth y ddealltwriaeth a gafodd ei meithrin yn ystod y broses hon yn sail i'r broses gyf-weld; seiliwyd y canllaw cyf-weld ar y wybodaeth a'r bylchau a ddarganfuwyd yn ystod y gwaith ansoddol dechreuol a gwelwyd sut y byddai'r broses gasglu data drwy gyfweiliadau yn esgor ar atebion trwyadl i'r prif gwestiynau ymchwiler.

Gan fod yr ymchwiler yn ymwneud â llunio polisi lefel uchel, a hynny mewn maes arbenigol, sef mewnfudo ac iaith mewn addysg, roedd y broses o ganfod cyfweleion allweddol yn syml. Targedwyd gwleidyddion ac uwch-weision sifil yn adrannau iaith, mewnfudo ac addysg Llywodraeth Catalwnia, megis y Direcció General per a la Immigració, y Direcció General de

⁷ Ymgwymerwyd â'r cyfnod cyntaf o waith maes fel rhan o brosiect ymchwiler ehangach, sef PhD yn dwyn y teitl: 'Cymunedau Iaith Lleiafrifol, Mewnfudo a Pholisïau Iaith mewn Addysg: Astudiaeth Gymharol Ryngwladol'. Prif nod yr ymchwiler PhD, a ariannwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg rhwng 2010 a 2013, oedd pwyso a mesur, yn ogystal â chymharu, effeithiolrwydd polisiau iaith mewn addysg tair llywodraeth iswladwriaethol (Catalwnia, Cymru a Québec) yn eu hymdrechion i integreiddio mewnfydwyr i'w cymunedau iaith lleiafrifol. Cynhaliwyd oddeutu 60 cyfweiliad yn y tair astudiaeth achos. Ariannwyd yr ail gyfnod o ymchwiler waith maes gan Grant Bach y Coleg Gymraeg Cenedlaethol fel rhan o brosiect 'Mewnfudo a pholisïau iaith mewn addysg mewn cymunedau iaith lleiafrifol' yn 2017.

Política Lingüística, a'r Subdirectora General de Llengua i Plurilingüisme.⁸ Hefyd, targedwyd llywyddion, prif weithredwyr ac uwch-swyddogion mewn sefydliadau anllywodraethol ac elusennau (e.e. SOS Racisme, Càritas), mudiadau diwylliannol (e.e. Òmnium Cultural, Plataforma per la Llengua) ac undebau llafur (e.e. Fete-Unio General Treballadors Catalunya (Fete-UGT), Comissions Obreres de Catalunya (CCOO)) a mudiadau pwysu (e.e. Casa Nostra Casa Vostra) allweddol.⁹ Cynhaliwyd 19 cyfweiliad yn ystod 2012/13 ac 13 cyfweiliad yn 2017. Yn unol â safbwynt Charmaz (1990), ni phenderfynwyd ar union nifer y cyfweleion cyn dechrau ar y gwaith maes; yn hytrach, dilynwyd yr egwyddor o ddirlawnder (*saturation*) a phwysigrwyd cywirdeb, safon a dyfnder (Burmeister ac Aitken 2012). Gellid honni bod dirlawnder wedi ei gyrraedd pan fo digon o ddata i ail-greu'r astudiaeth (O'Reilly a Parker 2012, Walker 2012) a phan nad oes data newydd yn cael eu creu neu pan nad yw'n bosibl codio mwyach (Guest et al. 2006).

Cymerwyd sawl cam pellach er mwyn sicrhau dirlawnder. Yn y lle cyntaf, defnyddiwyd canllaw cyf-weld, sy'n sicrhau bod y cyfweleion yn mynd i'r afael â'r un cwestiynau â'i gilydd (Guest et al. 2006). Yn ail, cynhaliwyd sgysiau anffurfiol pellach ag unigolion allweddol ym maes addysg ac iaith.¹⁰ Er na chafwyd anawsterau wrth drefnu'r cyfweiliadau swyddogol a bod parodrwydd i rannu gwybodaeth yn agored, yr oedd y sgysiau anffurfiol yn fodd o wirio canfyddiadau dechreuol, holi ynglŷn â thueddiadau neu ragfarnau'r cyfwelai a chael gwybodaeth answyddogol. Yn hyn o beth, cafwyd mewnwelediad i densiynau ar lefel bersonol, weinyddol a phleidiol, safbwyntiau hanesyddol difyr ac esboniadau ar ddisgyrsiau gwleidyddol. Yn drydydd, mabwysiadwyd y strategaeth ymchwil a elwir yn 'triongli', lle y croesgyfeirir tystiolaeth a gesglir drwy wahanol ffynonellau data (Davies 2001: 78). Yn ogystal â sicrhau bod yr ymchwil yn drylwyr a chynhwysfawr, gall defnyddio triongli arwain at ganlyniadau mwy dibynadwy (Stavros a Westberg 2009) a fydd yn cadarnhau'r canfyddiadau, yn hwyluso'r dehongli ac yn amlygu materion a phrosesau newydd a all ddatblygu neu addasu rhai sy'n bodoli eisoes (Arksey a Knight 1999: t. 25). Penderfynwyd y byddai defnyddio data meintiol yn werthfawr iawn yn y broses o bwyso a mesur polisiâu a defnyddiwyd data meintiol priodol a sicrhawyd drwy ddulliau cadarn, megis ystadegau swyddogol Institut d'Estadística de Catalunya (IDESCAT), sef sefydliad ystadegau Catalwnia.

Ar ôl casglu'r data, aethpwyd ati i ddadansoddi'r cyfweiliadau, drwy broses a oedd yn gofyn am ddiffinio, categorioiddio, damcaniaethu, egluro, archwilio a mapio (Ritchie a Spencer 2002: t. 309). Yna, crynhowyd y dystiolaeth hon ac fe'i croesgyfeiriwyd â'r testunau cynradd ac eilradd ar fewnfudo, addysg ac iaith a ddefnyddiwyd ar ddechrau'r ymchwil. Fel yn achos y broses o gasglu data, yr oedd y broses o ddadansoddi data yn gofyn am sgiliau ieithyddol yn y Gatalaneg, Ffrangeg a Chastileg.

Ymhellach, yn 2017, ymgwymerwyd ag ail gyfnod o waith maes yng Nghatalwnia. Tra oedd yr ymchwil a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod cyntaf (2012/13) yn fwy eang, yr oedd

⁸ Fel y'i gelwid yn 2012 a 2013. Erbyn yr ail gyfnod o waith maes yn 2017, yr adran gyfatebol ar gyfer mewnfudo yn Llywodraeth Catalwnia oedd Secretari de la Secretaria d'Igualtat, Migracions i Ciutadania.

⁹ Cynhaliwyd y cyfweiliadau trwy gyfrwng tair iaith: Catalaneg, Ffrangeg a Saesneg.

¹⁰ Ymhlith y rhain yr oedd cyn-weinidogion a chyn-weision sifil o bleidiau eraill.

yr ail gyfnod o waith maes yn gyfle i archwilio cwestiynau mwy penodol, sef: Beth yw swyddogaeth siaradwyr Catalaneg mewn ymdrechion i addysgu Catalaneg i fewnfudwyr? Sut mae'r model o ryngddiwylliannedd yn cefnogi'r ymdrechion hyn? Yr oedd hefyd yn gyfle i brofi ac archwilio themâu a theorïau yn ymwneud â rhyngddiwylliannedd, cyd-gyfrifoldeb a swyddogaeth siaradwyr Catalaneg, a ddaeth i'r amlwg yn ystod cyfnod yr ymchwiliad PhD ond na lwyddwyd i ymchwilio iddynt yn drwyadl. Yn ddi-os, yr oedd yr ail gyfnod yn allweddol o ran sicrhau trylwyrdd a chanfod parhad, datblygiadau neu newidiadau'n ymwneud yn benodol â mewnfudo a pholisïau iaith mewn addysg rhwng 2012/13 a 2017.

Mewnfudo rhyngwladol

Rhwng 2000 a 2012, cynyddodd poblogaeth Catalwnia o oddeutu 6 miliwn i 7.5 miliwn. Nid mewnfudo mewnol o weddill Sbaen a oedd am gyfrifol am y twf hwn yn y boblogaeth, ond, yn hytrach, y ffenomen o fewnfudo rhyngwladol a ddechreuodd yn ystod yr 1980au a'r 1990au ac a gynyddodd yn sylweddol ar ôl 2000 (Franco i Guillén 2011).¹¹ Yn 2000, dim ond 2.9% o boblogaeth Catalwnia a oedd wedi mudo o'r tu hwnt i ffiniau'r wladwriaeth; ddegawd yn ddiweddarach yr oedd bron i 1.19 miliwn o fewnfudwyr rhyngwladol yn byw yng Nghatalwnia, sef 16% o'r boblogaeth (IDESCAT 2013). Rhwng 1998 a 2009, o holl ranbarthau Sbaen, Catalwnia a dderbyniodd y gyfradd fwyaf o fewnfudwyr.¹² Er gwaethaf yr argyfwng economaidd ledled Sbaen, yn 2009 derbyniodd Catalwnia 21.05% o'r holl fewnfudwyr a ymgartrefodd yn y wladwriaeth, a hynny'n bennaf o ganlyniad i'r ffaith fod y sefyllfa economaidd yn fwy ffafriol yno (INE, Padrón Municipal, 2009 yn Franco i Guillén 2011: 84–5).¹³

Pan dderbyniodd Catalwnia rai o'i mewnfudwyr rhyngwladol cyntaf yn ystod yr 1990au, yr oedd canran uchel ohonynt yn hanu o ogledd Affrica. Mae'r gymuned hon yn parhau'n bwysig hyd heddiw (INE 2009 yn Franco i Guillén 2011: 85). Mae'r rhan fwyaf o'r mewnfudwyr eraill yn hanu o Ewrop ac America Ladin. Yn 2017, ar ôl pobl o Foroco, sy'n cynrychioli 19.9% o gymuned gyfan mewnfudwyr rhyngwladol Catalwnia, mae gweddill y mewnfudwyr yn hanu'n bennaf o Rwmania (8.6%), Tsieina (5.5%), yr Eidal (5.0%) a Phacistan (4.2%). Mae 35.1% o'r boblogaeth wedi eu geni y tu allan i Gatalwnia. Ganwyd 17.5% mewn cymuned ymreolaethol arall yn Sbaen a 17.6% dramor. Mae'r canrannau wedi aros yn sefydlog ers 2008 (Generalitat de Catalunya 2017: t. 7).

¹¹ Wrth drafod y prif gyfnodau mewnfudo i Gatalwnia yn ystod yr ugeinfed ganrif, gellir categorio'r tonnau hyn yn ôl tri chyfnod. Mae a wnelo'r ddwy don gyntaf, i ddechrau yn ystod yr 1920au ac yna rhwng yr 1950au a'r 1970au, â mewnfudo mewnol o weddill Sbaen. Mae'r trydydd cyfnod, a ddechreuodd yn ystod yr 1990au, ac a gyrhaeddodd ei anterth yn ystod y 2000au, yn ymwneud â mewnfudo rhyngwladol. Arafodd y mewnfudo eang o weddill Sbaen ar ddechrau'r 1980au ac nid yw wedi cynyddu'n sylweddol ers hynny (IDESCAT 2009: t. 11).

¹² Ac eithrio 2001 a 2004, pan oedd yn yr ail safle ar ôl Madrid (INE Padrón Municipal 2009 yn Franco i Guillén 2011: 85).

¹³ Mae'r hinsawdd economaidd gyfredol wedi arwain at leihad yn y nifer sy'n mewnfudo, gyda rhai mewnfudwyr rhyngwladol yn dychwelyd i'w gwledydd genedigol (Generalitat de Catalunya, cyfweiliad 3, 2012).

Erbyn heddiw, mae dros 310 o ieithoedd yn cael eu siarad yng Nghatalwnia (Generalitat de Catalunya 2018a: t. 10). Mae hyn yn her i'r llywodraeth ranbarthol, yn enwedig o ystyried mai'r Gastileg oedd mamiaith rhan fwyaf y mewnfudwyr blaenorol, iaith â'r un gwreiddiau ieithyddol â'r Gatalaneg. Ochr yn ochr â'r her ieithyddol hon, mae angen i gynllunwyr polisi ymateb i'r ffaith fod y gymdeithas bellach yn un amlieithog yn hytrach na dwyieithog:

Ara bé, hi ha una diferència essencial en el fet que actualment les persones que arriben a Catalunya ja no procedeixen de l'Aragó, de Múrcia, d'Extremadura o d'Andalusia. Ara provenen del Magrib, de l'Àfrica subsahariana, de l'est i centre d'Europa, d'Amèrica del Sud i Àsia i amb nous i diferents components culturals i religiosos respecte dels predominants. (Generalitat de Catalunya 2001: t. 11)

Yn awr, ceir gwahaniaeth hanfodol yn y ffaith nad yw'r bobl sy'n dod i Gatalwnia ar hyn o bryd yn dod o Aragon, Mwrsia, Extremadura neu Andalwsia. Yn awr, maent yn dod o'r Magreb, Affrica Is-Sahara, canol a dwyrain Ewrop, De America ac Asia, a chanddynt nodweddion diwylliannol a chrefyddol sy'n newydd a gwahanol i'r rhai blaenorol. (Cyfieithiad yr awdur)

Yng Nghatalwnia, mae gan ganran uchel o bobl sgiliau ieithyddol yn y Gatalaneg, gyda 94.4% o boblogaeth y rhanbarth dros 15 oed yn honni eu bod yn deall y Gatalaneg, 85.5% yn gallu ei darllen, 81.2% yn gallu ei siarad, a 65.3% yn gallu ysgrifennu yn y Gatalaneg (Generalitat de Catalunya 2018b: t.10). Mae'r Gatalaneg yn iaith *inicial* i dros ddwy filiwn o bobl yng Nghatalwnia.¹⁴ Eto i gyd, mae'r Gastileg yn iaith *inicial* i bron 3.4 miliwn (ibid. t. 17), sef 52.7% o'r boblogaeth (ibid. t. 19), ac mae dros 97% o'r boblogaeth dros 15 oed yn datgan eu bod yn medru deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Castileg (ibid. t. 12). Yn ogystal, er bod canran sylweddol o bobl yn meddu ar sgiliau llafar, ysgrifenedig, darllen a deall yn y Gatalaneg, y realiti yw mai'r Gastileg yw'r iaith sy'n cael ei siarad fwyaf aml (*habitual*) yng Nghatalwnia, gyda 48.6% o boblogaeth y rhanbarth dros 15 oed yn dweud eu bod yn siarad y Gastileg amlaf, 36.1% yn dweud eu bod yn siarad y Gatalaneg amlaf ac oddeutu 20% yn defnyddio dwy iaith neu fwy, gan amlaf y Gatalaneg a'r Gastileg (IDESCAT 2018).¹⁵ Mae canran y boblogaeth sy'n siarad y Gatalaneg fel iaith arferol yn amrywio o un ardal i'r llall, fel y dangosir isod. Mae dros 70% o boblogaeth Terres de l'Ebre yn defnyddio'r Gatalaneg fel iaith arferol a thros 60% yn yr Alt Pirineu. Yn *Comarques*¹⁶ Girona a Ponent a'r *Comarques*

¹⁴ Diffinnir iaith *inicial* fel yr iaith a siaredir yn y cartref (Generalitat de Catalunya 2018b: t. 17). Y term cyfatebol yw 'mamiaith'.

¹⁵ Yn 2003, y canrannau cyfatebol oedd 50.1% yn siarad y Gatalaneg amlaf a 44.1% yn siarad y Gastileg amlaf, gyda 4.7% yn datgan eu bod yn siarad y ddwy iaith mor aml â'i gilydd (Generalitat de Catalunya 2003: t. 28). Un ffactor eglurhaol am y newid canran rhwng 2003 a 2008 yw dyfodiad cynifer o fewnfudwyr rhyngwladol o America Ladin a De America.

¹⁶ Clwstwr o fwrdeistrefi yw *comarca*.

Canolog, mae'r ganran gyfatebol rhwng 50% a 60%. Defnyddir y Gatalaneg yn llai aml yn yr ardal fetropolitan, sy'n cynnwys pum *comarca*: Baix Llobregat, Barcelonès, Maresme, Vallès Occidental a Vallès Oriental (Generalitat de Catalunya 2018b: t. 21).

	Catalaneg	Y ddwy	Castileg	Araneg	Ieithoedd eraill	Cyfuniadau eraill o ieithoedd
Metropolitan	27.5	7.6	57.9	0.0	3.6	2.9
Comarques Girona	54.1	7.5	29.0	0.0	6.2	2.8
Camp de Tarragona	40.4	7.5	41.4	0.0	5.9	4.2
Terres de l'Ebre	72.2	4.4	11.6	0.0	8.0	3.3
Ponent	57.0	7.2	22.5	0.0	6.9	5.7
Comarques Canolog	59.6	6.4	26.9	0.0	5.0	...
Alt Pirineu i Aran	58.8	6.4	25.6	2.7	3.1	3.2
Alt Pirineu	65.7	6.7	22.5	0.0	...	...
Aran	15.3	4.7	44.9	19.7	...	11.9
Penedès	38.9	7.6	46.9	0.0	4.2	...
Cyfanswm	36.1	7.4	48.6	3.0	4.4	3.0

Tabl 1: Iaith arferol yn ôl ardal (%), 2018 (Ffynhonnell: Enquesta d'usos lingüístics de la població 2018/DGPL i IDESCAT yn Generalitat de Catalunya 2018: t. 21).

Llywodraethiant mewnfudo yng Nghatalwnia

Yn wahanol iawn i'r drafodaeth bresennol ar fewnfudo, sy'n fywiog iawn, ni chafwyd trafodaeth ystyrion ynglŷn â dosbarthiad pwerau ym maes mewnfudo rhwng y llywodraeth ganolog a'r cymunedau ymreolaethol yn ystod cyfnod y *transició* (trawsnewid). O ganlyniad, yr oedd y pwerau mewnfudo a sefydlwyd gan Gyfansoddiad 1978 yn gynrychioladol o'r hen fodel canolog o lywodraethu (Castiñeira 2009: t. 164). Datgenir yn glir yn y cyfansoddiad mai Llywodraeth Sbaen yn unig sydd â'r awdurdod dros faterion yn ymwneud â dinasyddiaeth, mewnfudo, allfudo, estroniaid a chyfraith lloches (Gobierno de España 1978: Erthygl 149.1.2). Eto i gyd, y cymunedau ymreolaethol a'r llywodraethau lleol oedd yn meddu ar y pwerau mewn meysydd yn ymwneud ag integreiddio mewnfudwyr, megis addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd. Arweiniodd y diffyg trafodaeth hwn ar bwerau mewnfudo at drafodaethau neu densiynau mwy dwys ym maes polisi mewnfudo pan gyrhaeddodd y don newydd o fewnfudwyr ar ôl 2000.

Gellir olrhain yr ymdrechion cyntaf i fynd i'r afael â mewnfudo rhyngwladol i ddechrau'r 1990au yn sgil dyfodiad nifer cynyddol o fewnfudwyr rhyngwladol. Yn ystod y cyfnod hwn, cafwyd peth trafodaeth yng Nghatalwnia ynglŷn â pha lefel o lywodraeth ddylai feddu ar yr awdurdod i arwain mewn perthynas â materion yn ymwneud â mewnfudo, a hynny wrth i nifer cynyddol o fewnfudwyr rhyngwladol, a oedd yn aml heb eu dogfennu, ddefnyddio'r darpariaethau addysg a'r gwasanaethau iechyd (Zapata-Barrero 2009: t. 133). Yn rhannol mewn ymateb i'r cyfyng-gyngor hwn, galwodd undebau llafur, mudiadau cymdeithasol a mudiadau mewnfudwyr yng Nghatalwnia am ddeddf newydd i ddisodli deddf mewnfudo Sbaen, a dadleuwyd bod angen sefydlu polisi mewnfudo a fyddai'n caniatáu i lywodraethau'r cymunedau ymreolaethol weithredu yn y maes hwn. Cyhoeddwyd y cynllun cyntaf ar fewnfudo, sef y Pla Interdepartamental d'Immigració 1993–2000 (cynllun rhyngadrannol ar gyfer mewnfudo 1993–2000) (Generalitat de Catalunya 2001: tt. 127–8) a gosododd y cynllun y sail ar gyfer polisi mewnfudo a oedd yn hollgynhwysol ac a oedd yn mynnu hawliau i'r mewnfudwyr (Zapata-Barrero 2009: t. 133).

Yn 2000, dechreuwyd ar gyfnod o ddatblygu polisiâu mewnfudo a diffinio fframwaith sefydliadol er mwyn rheoli'r broses o dderbyn mewnfudwyr yng Nghatalwnia. Crëwyd swydd wleidyddol y Secretaria per la Immigració (ysgrifenyddiaeth ar gyfer mewnfudo) a chyhoeddwyd cynllun mewnfudo newydd, y Pla Interdepartamental d'Immigració 2001–2004 (Generalitat de Catalunya 2001). Drwy adeiladu ar egwyddorion sylfaenol y cynllun blaenorol, cyflwynwyd egwyddorion newydd er mwyn adlewyrchu'r cynnydd a fu mewn mewnfudo i'r rhanbarth. Pwysleisiwyd ymrwymiad i'r Via Catalana d'Integració (Ffordd Catalaneg o integreiddio), sef proses a oedd wedi ei seilio ar integreiddio cymdeithasol ac economaidd, megis hybu cydraddoldeb a sicrhau cynhwysiad cymdeithasol. Er mwyn cyrraedd y nodau hyn, hyrwyddwyd gwersi Catalaneg ymhlith mewnfudwyr (Franco i Guillén 2011: 90). Ymhellach, ceisiodd Llywodraeth Catalwnia drin y ffenomen o fewnfudo mewn modd mwy cynhwysol drwy greu rhwydwaith o gyrff a sefydliadau i weithredu yn y maes, megis mudiadau mewnfudo a chymdeithasol, undebau, sefydliadau anllywodraethol ac elusennau (Generalitat de Catalunya 2001). Yn ystod y cyfnod hwn, datblygwyd y cysyniad o gydgyfrifoldeb a chydweithio rhwng mudiadau cymdeithas sifil a'r llywodraeth (Zapata-Barrero 2009: t. 130).

Gwelwyd newid mewn cyfeiriad strategol a chysyniadol gyda chyhoeddi cynllun Pla de Ciutadania i Immigració 2005–2008 (cynllun dinasyddiaeth a mewnfudo 2005–08), sy'n cyfeirio at y berthynas rhwng mewnfudo a dinasyddiaeth (Generalitat de Catalunya 2005). Diffinnir y ddinasyddiaeth gynhwysol hon fel a ganlyn:

The Plan understands residence citizenship as the combination of a real residence and permanent settlement in a social context. The idea was to promote a pluralistic and civic citizenship as guarantee of a public common culture based on pluralism, equality and civic conduct. (Ferrero-Turrión a Pinyol-Jiménez 2009: t. 353)

Mae'r cynllun yn cydnabod bod mewnfudo'n fater gwleidyddol a chymdeithasol yn hytrach nag un gweinyddol yn unig (Conversi a Jeram 2017: 59). Yn ogystal â chydabod pwysigrwydd amrywiaeth ddiwylliannol a pharch at hawliau cyfunol ac unigolyddol, pwysleisiwyd yr angen i ddiogelu'r Gatalaneg a sicrhau mai hi yw'r brif iaith gyhoeddus (Generalitat de Catalunya 2005). O ystyried y pwyslais ar ddinasyddiaeth, gellid ystyried y cynllun fel y fframwaith sefydliadol cyntaf sy'n ystyried y broses o reoli mewnfudo ar y cyd â'r broses o reoli hunaniaethau (Zapata-Barrero 2009: t. 128).

Gyda llunio'r Statud Ymreolaeth yn 2006, cydnabuwyd pŵer neilltuedig Llywodraeth Catalwnia mewn materion yn ymwneud â'r broses gychwynnol o integreiddio mewnfudwyr a gallu'r llywodraeth i ddatblygu polisiâu mewnfudo ac i sefydlu a rheoleiddio mesurau'n ymwneud ag integreiddiad economaidd a chymdeithasol mewnfudwyr. Mynegwyd hefyd bod y llywodraeth ranbarthol yn meddu ar yr hawl i sefydlu fframwaith cyfreithiol i dderbyn mewnfudwyr – *l'acolliment*¹⁷ (Generalitat de Catalunya 2006: Erthygl 138).¹⁸ Er mai pwerau adweithiol yw'r rhain ac nid yw'r statud yn cyfeirio at bolisi mewnfudo ynddi ei hun (Castiñeira 2009: t. 163), ystyrir Statud Ymreolaeth 2006 fel y fframwaith cyfreithiol cyntaf i drafod y galw am gymwyseddau ym maes polisi mewnfudo mewn ffordd glir ac agored.

Yn 2008, cymerodd Llywodraeth Catalwnia gam arwyddocaol ym maes mewnfudo pan arwyddwyd y Pacte Nacional per a la immigració (PNI) gan dros 32 o sefydliadau a chyrrff gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol mewn ymgais i ymateb i ofynion newydd ac amrywiol y gymdeithas Gatalaneg yn sgil y newidiadau demograffig eang (Generalitat de Catalunya 2008). Roedd y cytundeb hwn yn ganlyniad blynyddoedd o gydweithio rhwng sefydliadau ym maes integreiddio mewnfudwyr (Zapata-Barrero 2009: t. 140). Cyflwynir ynddo dri chyfeiriad strategol: rheoli llif mewnfudo a mynediad i'r farchnad swyddi, addasu gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer cymdeithas amrywiol ac integreiddio mewnfudwyr i ddiwylliant cyhoeddus cyffredin. Mae'r trydydd pwynt yn cyfeirio'n benodol at sicrhau mai'r Gatalaneg yw'r iaith gyhoeddus gyffredin rhwng dinasyddion Catalwnia (Generalitat de Catalunya 2008: t. 69).¹⁹ Yn ôl Zapata-Barrero, mae'r cyfnod hwn yn cynrychioli cyfnod newydd yng ngweithgarwch Llywodraeth Catalwnia wrth i'r llywodraeth geisio cysylltu polisi iaith â pholisi mewnfudo (2009: t. 141).

Yn 2009, cafwyd cynllun mewnfudo newydd, Pla de ciutadania i immigració 2009–2012 (cynllun dinasyddiaeth a mewnfudo 2009–2012) a sefydlodd dri amcan: datblygiad rheolaeth polisiâu mewnfudo, sicrhau mynediad i wasanaethau cyhoeddus ar amodau cyfartal a hybu integreiddio mewnfudwyr i ddiwylliant cyhoeddus cyffredin wedi ei seilio ar amrywiaeth (Generalitat de Catalunya 2009). Yna, yn 2010, pasiwyd y ddeddf Llei d'acollida de les

¹⁷ Mae'r cysyniad o *acolliment* yn gyfuniad o groesawu a derbyn.

¹⁸ Sicrhawyd na fyddai pwerau Llywodraeth Catalwnia yn tresbasu ar awdurdod y llywodraeth ganolog ym maes mewnfudo a bod Llywodraeth Sbaen yn parhau fel y brif uned lywodraethu yn y maes hwn (Generalitat de Catalunya 2010: t. 49).

¹⁹ Er bod y cytundeb yn adlewyrchu'r consensws ar fewnfudo sy'n bodoli ar y lefel wleidyddol ac ymhlith mudiadau cymdeithas sifil yng Nghatalwnia, nid arwyddwyd y cytundeb gan blaid y Partit Popular de Catalunya (PPC), sef cangen Gatalanaidd y blaid adain dde unoliaethol, PP, na'r blaid Ciutadans, sef plaid unoliaethol ryddfrydol.

persones immigrades i les retornades a Catalunya (deddf yn ymwneud â derbyn mewnfudwyr a'r rhai a allfudodd o Gatalwnia) a sefydlodd fframwaith cyfreithiol cynhwysol ar gyfer y broses o dderbyn mewnfudwyr. Cyfeiria'r ddeddf at hawl y mewnfudwyr i ennill cymwysterau sylfaenol yn y Gatalaneg a'r Gastileg, a'r angen iddynt ddysgu'r Gatalaneg yn sgil y ffaith mai hi yw priod iaith Catalwnia a'r iaith gyffredin ar gyfer integreiddio mewnfudwyr (Generalitat de Catalunya 2010: Erthygl 9.4). Hwn oedd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth o'i fath yng Nghatalwnia a Sbaen. Er mwyn ennill y dystysgrif gyntaf, datganwyd bod angen mynd ar dri chwrs: un cwrs ar gymdeithas Catalwnia ac un cwrs ar gyngor cyflogaeth cyfwerth â 15 awr yr un, a 90 awr o ddosbarthiadau yn y Gatalaneg. Mae hyn yn sicrhau bod dysgu'r Gatalaneg yn rhan orfodol o'r broses fewnfudo (Aelod o Senedd Catalwnia, cyfweiliad 6, 2017).

Rhyngddiwylliannedd fel model integreiddio

Yn ôl Conversi a Jeram (2017), rhyngddiwylliannedd yw sail gysyniadol fframwaith a pholisïau mewnfudo Catalonia, ac mae wedi ei phlethu'n dynn â chenedlaetholdeb Catalanadd. Hyd yn ddiweddar, fodd bynnag, dim ond yn achlysurol y mae'r term rhyngddiwylliannedd wedi ymddangos yn ddiamwys yn nogfennau llywodraeth Catalwnia (ibid. t. 60). Ers 2016, mae Llywodraeth Catalwnia wedi ceisio cynnig diffiniad cliriach o rhyngddiwylliannedd. Yng nghynllun dinasyddiaeth a mudo 2017–20, Pla de Ciutadania i de les Migracions 2017–20, er enghraifft, datganwyd ymrwymiad Llywodraeth Catalwnia i fabwysiadu'r safbwynt rhyngddiwylliannol:

Volem abordar la diversitat de la societat catalana des de la perspectiva de l'interculturalisme, des de la qual no es permet que les idees i les accions de cap persona o grup amb identitats culturals específiques estigui per sobre de cap altre. (Generalitat de Catalunya 2016: t. 5)

Rydym am fynd i'r afael ag amrywiaeth cymdeithas Catalwnia o safbwynt rhyngddiwylliannedd, lle na chaniateir i syniadau a gweithredoedd unrhyw berson neu grŵp sydd â hunaniaethau diwylliannol penodol fod yn uwch na'r llall. (Cyfieithiad yr awdur)

Nodir bod rhyngddiwylliannedd yn seiliedig ar gydgyhmwyso grwpiau diwylliannol amrywiol sy'n cyd-fyw yn yr un gymdeithas, a hynny drwy ddeialog barhaus a phwyslais ar gydraddoldeb (ibid. t. 6). Nodir bod angen consensws cymdeithasol ar rhyngddiwylliannedd er mwyn mynd i'r afael ag amrywiaeth cymdeithasol (ibid. t. 10).

Mae'r Pacte Nacional per a la Interculturalitat a basiwyd yn 2018 yn adeiladu ar gynllun 2017–20. Nod y cytundeb cenedlaethol ar gyfer rhyngddiwylliannedd 'yw mynegi ymrwymiad rhanddeiliaid sefydliadol, cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol a dinasyddion er mwyn ymgorffori'r persbectif rhyngddiwylliannol wrth weithredu'n gyhoeddus' (cyfieithiad yr

awdur) (Generalitat de Catalunya 2018c). Y gobaith yw y bydd Llywodraeth Catalwnia a'r gymdeithas gyfan yn cefnogi cydraddoldeb, dealltwriaeth a chydabyddiaeth o amrywiaeth ac yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol ym mhob maes, gan mai 'dyma sut i gyrraedd yr ymdeimlad o berthyn i ddiwylliant cyhoeddus cyffredin sy'n cwmpasu'r holl bobl sy'n byw yng Nghatalwnia' (cyfieithiad yr awdur) (ibid.). O edrych ar swyddogaeth iaith yn y cytundeb, nodir bod dealltwriaeth o ddwy iaith swyddogol Catalwnia, sef y Gatalaneg a'r Gastileg, yn amod angenrheidiol ar gyfer cael eich cynnwys a chymryd rhan, annibyniaeth bersonol a grymuso mewn fudwyr. Ond, pwysleisir bod mewn fudwyr yn tueddu i ddeall a defnyddio'r Gastileg; felly yn hyn o beth, mae'r ddwy iaith yn anghyfartal ac mae'r sefyllfa'n anffafrio'r Gatalaneg. Ymhellach, nodir mai'r Gatalaneg, oherwydd ei statws fel priod iaith, 'yw ein cyfraniad unigryw i amrywiaeth ieithyddol y byd'. Felly, mae gwneud Catalaneg yn iaith gyffredin a rennir gan bawb yn amcan allweddol wrth hwyluso rhyngweithio cadarnhaol, cyfle cyfartal ac amrywiaeth yn y byd (Generalitat de Catalunya 2018a: t. 63).

Mae Cytundeb 2018 yn canolbwyntio ar dair egwyddor: cydraddoldeb, amrywiaeth a rhyngweithio cadarnhaol, a holir beth y gellid ei wneud er mwyn sicrhau'r egwyddorion hyn mewn gwahanol feysydd. Ceir cyfres o gwestiynau (heb atebion) ar gyfer pob maes. Dau gwestiwn pwysig wrth i ni droi at y rhaglen VxL yw: 'Pa fesurau allwn ni eu cymryd er mwyn annog cyplau sy'n siarad yr un iaith â'i gilydd i ddysgu Catalaneg yn ogystal ag ieithoedd mewn fudo? Sut y gallwn ni greu mannau sgwrsio a rhyngweithio cadarnhaol ar gyfer yr arfer o siarad Catalaneg ac ieithoedd mewn fudo?' (Generalitat de Catalunya 2018a: t. 66).

Er bod y ddogfen hon yn allweddol o ran diffinio'r hyn a ddeallir wrth ryngddiwylliannedd a'r ymgais i ymgorffori'r safbwynt mewn polisi cyhoeddus, mae'r pwyslais a roddir ar y Gatalaneg fel iaith gyffredin yn gysyniad y gellid ei olrhain yn ôl i ddeddf groesawu 2010. Ymhellach, datgelodd y gwaith maes yn 2017 nad oedd un diffiniad clir ohono ymhlith gwneuthurwyr polisi. Yn ôl un gwneuthurwr polisi, mae rhyngddiwylliannedd wedi ei seilio ar sicrhau swyddogaeth ganolog i'r Gatalaneg mewn ffordd sydd hefyd yn dathlu amrywiaeth:

Our option is to promote [...] interculturality. How to explain? For us it's important to maintain ... to focus on Catalan language as a basis of all the building. But how to combine this option in favour of Catalan, because it's the space in which all converge, with the conviction that plurilingualism is a good complement to helping people to integrate in our society. (Consell Escolar de Catalunya, cyfweiliad 10, 2017)

Yn ôl diffiniad a gynigiwyd gan un o uwch-weision sifil Llywodraeth Catalwnia, mae rhyngddiwylliannedd yn debyg i gyd-fyw, sef *convivència*:

Interculturalism is, you know, living together, without rejecting anybody because of their origin or way of thinking or because of their religion, so tolerating in cohesion and not only that but also appreciating what

diversity brings to society. This is how I would define it, so you live together, respecting each other and mainly sharing ... so it's like 3 circles, but there's one in the middle that everyone shares, right? (Generalitat de Catalunya, cyfweliad 1, 2017)

Yn ôl Aelod o Senedd Catalwnia, mae rhyngddiwylliannedd yn debyg iawn i'r diffiniad academiaidd o'r cysyniad ac yn ymwneud yn bennaf â rhannu egwyddorion cyffredin:

And what we've done is don't ask anyone to forget who they are but ask everyone to be at the same time Catalans. So with the idea that we have to share some things and there would be diversity in other things. In the most important things in a democratic society we have to share values; we have to share values about equality between men and women, about the right of free sexual orientation, free of religion or the human rights, of course, the rights of the childhood, these kind of things, we have to share everything, and there is no cultural relativity on that kind of things, but, if you agree with the basic things we have to share, then the other things you must feel free. (Cyfweliad 6, 2017)

Mae dinasyddiaeth hefyd yn ganolog i weledigaeth Llywodraeth Catalwnia wrth greu dinasyddion ac aelodau newydd a llawn o'r gymdeithas Gatalanaidd:

Our policies always has had the goal of citizenship, and it influences of the view of population, because if the idea is you people who has arrived recently, your future is that you will be a citizen of this country [...] the more shared idea about migration is that it's a process, you start in a point that probably you don't know about the existence of Catalonia, the vast majority of migrants, when they arrive here, they know nothing about something called Catalan or something called Catalonia, but in the end you will be a citizen of this country. That means equal in rights, equal in duties and engaged with this society. And that is a very different view from these countries that has conceived migrants as guest-workers. (Cyfweliad 6, 2017)

Mae'r drafodaeth uchod yn dangos bod y gefnogaeth ymhlith mudiadau'r gymdeithas sifil a'r negeseuon cadarnhaol parthed dinasyddiaeth Gatalanaidd a'r iaith Gatalaneg yn cryfhau ymdrechion ymarferol i integreiddio mewn fudwyr. Adlewyrcha'r drafodaeth hon bwysigrwydd astudio'r broses o adfer iaith o fewn cyd-destun ehangach, ys dywed Hornberger:

Indigenous language revitalization always occurs within an ecology of languages, in a context of other local and global languages with their relative statuses and uses in domains and social fields such as employment,

religion, government, cultural life, media and others. Indigenous language revitalization is subject to the vagaries of policy, politics, and power.
(2011: t. 1)

Dengys y drafodaeth hefyd yr angen i ystyried llu o ffactorau allweddol wrth dafoli polisïau iaith mewn addysg, gan gynnwys dylanwad gwahanol unigolion a sefydliadau a'r berthynas rhwng gwahanol endidau gwleidyddol ar lefelau amrywiol. Adlewyrcha hefyd yr angen i lenyddiaeth ym maes cynllunio ieithyddol wneud defnydd pellach o gysyniadau a theorïau sy'n cael eu harddel yn y lenyddiaeth ar lywodraethiant amlhaenog, datganoli, pleidiau gwleidyddol a disgwrs wleidyddol er mwyn deall yn llawn y ffactorau sy'n effeithio ar ymdrechion i integreiddio mewnfydwyr.

Troir yn awr i edrych ar swyddogaeth y system addysg anstatudol wrth geisio sicrhau bod y Gatalaneg yn iaith gyffredin ymhlith holl ddinasyddion Catalwnia, cyn dadansoddi'r rhaglen VxL a swyddogaeth siaradwyr Catalaneg yn y broses honno.

Consorti per a la Normalització Lingüística (Y CPNL)

Yng Nghatalwnia, mae'r system addysg wedi chwarae rôl ganolog yn y broses o normaleiddio'r Gatalaneg a chreu cydlynad cymdeithasol ers ailsefydlu democratiaeth ar ddiwedd yr 1970au. Ochr yn ochr â'r drefn statudol, bu i'r drefn addysg anstatudol chwarae rhan bwysig yn yr ymdrechion i normaleiddio'r Gatalaneg a chreu cydlynad cymdeithasol yn ystod yr 1980au. Y CPNL yw'r prif ddarparwr ffurfiol ar gyfer addysgu'r Gatalaneg i oedolion yng Nghatalwnia. Fe'i sefydlwyd ar y cyd rhwng Llywodraeth Catalwnia a sawl bwrdeistref a chyingor lleol ledled y rhanbarth er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth a defnydd o'r Gatalaneg. Yr oedd gweithgaredd CPNL yn arwydd o gyfnod newydd o gydweithredu sefydliadol ym maes normaleiddio'r iaith oherwydd bu cynghorau lleol yn weithgar yn addysgu'r Gatalaneg i oedolion ers dechrau'r 1980au. Ei brif nod yn ystod y blynyddoedd cynnar oedd normaleiddio'r Gatalaneg ymhlith y rhai hynny a oedd yn siarad yr iaith ond nad oedd ganddynt sgiliau ysgrifenedig cryf, ynghyd â sicrhau bod cyfleoedd ar gael i fewnfydwyr o weddill Sbaen i ddysgu'r iaith. Fe'i sefydlwyd ar sail y dybiaeth mai bodoli am dymor byr yn unig y byddai, er mwyn caniatáu i'r ganran o'r boblogaeth nad oedd yn medru'r Gatalaneg i feistroli'r iaith (CPNL, cyfweiliad 9, 2013). Heddiw, mae gan y CPNL 22 o ganolfannau, sy'n cynrychioli rhwydwaith ar hyd a lled Catalwnia, ac mae'n cydweithio â Llywodraeth Catalwnia, y 97 *ajuntaments* (bwrdeistref), y 37 cyngor *comarcals* (rhanbarthol) a *Diputació* (llywodraeth) Girona. Yn 2017, yr oedd gan y CPNL gyllid o 29.050.000,00€ (Generalitat de Catalunya 2017: t. 56).

Dros y blynyddoedd, mae gweithgaredd y sefydliad wedi newid yn ôl anghenion ieithyddol dinasyddion Catalwnia. Er ei fod yn parhau i ddarparu ar gyfer pob oedolyn yn y gymuned, gan gyrraedd mewnfydwyr rhyngwladol, bu'n rhaid ailystyried ei weithgaredd (CPNL, cyfweiliad 9, 2013). Ond, mae amcanion cyfredol y CPNL, sef lledaenu gwybodaeth am y Gatalaneg a hybu defnydd ohoni er mwyn meithrin cydlynad cymdeithasol, yn adleisio amcanion

yr 1980au ym meysydd addysg statudol ac anstatudol (CPNL 2011: t. 10). Dylanwadodd dyfodiad nifer o fewnfudwyr rhyngwladol ar y drafodaeth ynglŷn â pholisi addysg ac iaith mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, yr oedd angen i wneuthurwyr polisi ac ymarferwyr ddygymod â'r ffaith mai hyrwyddo'r Gatalaneg o fewn cyd-destun o amlieithrwydd, nid dwyieithrwydd, yr oeddynt. Yn ail, arweiniodd yr amlieithrwydd cymdeithasol hwn at drafodaethau polisi ynglŷn â pha iaith, y Gatalaneg neu'r Gastileg, y dylid ei haddysgu i'r mewnudwyr (Vila i Moreno 2004: t. 78). Newidiodd y CPNL y ffordd o addysgu'r Gatalaneg yn sylfaenol (CPNL, cyfweiliad 11, 2017). Cynyddwyd y ddarpariaeth o ddosbarthiadau lefel cychwynnol a sylfaenol (lefelau B1, B2 a B3, sy'n cynrychioli lefel A1 *bàsic* yn y Fframwaith Ewropeaidd) a chyflwynwyd lefelau newydd – *inicial* – ar gyfer y rheiny nad oedd â gallu ieithyddol mewn iaith Romáwns neu'n gyfarwydd â sgript Ladin. Sicrhawyd bod y gwersi *inicial* hyn yn rhad ac am ddim er mwyn ei gwneud yn haws i fewnfudwyr fynychu dosbarthiadau (CPNL, cyfweiliad 11, 2017).²⁰

Bellach, mewnudwyr rhyngwladol yw'r rhan fwyaf o'r rheiny sy'n mynychu dosbarthiadau'r CPNL; yn 2018, yr oedd nifer y rhai a oedd yn mynychu dosbarthiadau'r CPNL a anwyd y tu hwnt i Sbaen yn 72.4% o'r cyfanswm (Generalitat de Catalunya 2018a: t. 31). Yn sgil hyn, mae'n rhaid i'r CPNL ddygymod â rhai heriau. Yn gyntaf, mae rhai cymunedau (e.e. Pacistanaid, Tsieinaid, Rwmanaid a Morocaid) yn llai tebygol o fynd ar gyrsiau'r CPNL gan eu bod yn anos eu 'cyrraedd' am resymau sosioeconomaidd neu ddiwylliannol (CPNL, cyfweiliad 9, 2013; VxL, cyfweiliad 11, 2017).²¹ Er enghraifft, bu'n anodd perswadio mewnudwyr sy'n hanu o America Ladin i fynychu gwersi Catalaneg er ei bod hi'n haws i siaradwyr iaith Romáwns ddysgu'r Gatalaneg:

They already had one language, one official language of Catalonia as their mother tongue. Meaning that they, potentially, wouldn't see Catalan as a something to be integrated as they think 'Well, I already have one, why bother take another one?'. (Universitat Pompeu Fabra, cyfweiliad 6, 2013)

Mae'r ail her yn ymwneud â lefelau cyrhaeddiad mewnudwyr gan eu bod yn tueddu i fynychu dosbarthiadau'r lefelau cychwynnol (*inicial*, *bàsic* ac *elemental*) ac nid ydynt yn cyrraedd y lefelau uwch (CPNL 2018: t. 77; VxL, cyfweiliad 11, 2017). Ymhellach, er bod y niferoedd sy'n mynychu cyrsiau Catalaneg wedi cynyddu dros y blynyddoedd, nid tasg hawdd yw denu mewnudwyr i ddysgu'r iaith. Mae angen i'r CPNL geisio denu mewnudwyr: 'seduir, seduce, més que dir que han de fer català, els has d'animar molt, convèncer seduir ... és un treball molt així' (CPNL, cyfweiliad 9, 2013).²² Tra bo'r *lleis d'acollida* (deddf groesawu) a basiwyd yn 2010 yn gwneud y Gatalaneg yn orfodol er mwyn derbyn y dystysgrif breswyllo,

²⁰ Gall y cyrsiau hyn gynnwys rhwng 45 a 90 awr, yn dibynnu ar yr ardal.

²¹ Yn fwy penodol, gall patrymau ac oriau gwaith, credoau crefyddol, lleoliad a chyd-destun sosioieithyddol lle y mae'r mewnudwyr yn byw ddylanwadu ar allu ac awydd rhai o'r cymunedau hyn i ddilyn cyrsiau Catalaneg (CPNL, cyfweiliad 9, 2013; VxL, cyfweiliad 11, 2017).

²² 'Denu, denu, mwy na dweud bod rhaid iddynt astudio'r Gatalaneg, mae angen eu hannog yn daer iawn, dwyn perswâd ... mae hyn yn lot o waith' (cyfieithiad yr awdur).

nid yw'n ddigon i sicrhau eu bod yn dod yn siaradwyr rhugl. Er mwyn sicrhau hyn, mae angen mabwysiadu mesurau a negeseuon mwy hirdymor. Yn hyn o beth, pwysleisia Aelod o Senedd Catalwnia bwysigrwydd denu pobl i ddysgu'r iaith, a hynny drwy sôn am symudedd cymdeithasol:

With soft power of seduction and saying Catalan will be useful for you, and social mobility in Catalonia means that you have to know the two official languages [...] And this is a soft power that works but works after some years living here. (Cyfweliad 6, 2017)

Mae'r CPNL wedi ymateb i'r gwahanol heriau hyn drwy lunio polisiau penodol. Un enghraifft o hyn yw'r rhaglen VxL a drafodir isod.

Y rhaglen 'Voluntariat per la llengua'

Prif weithgaredd y CPNL yn y maes hwn o ddysgu anffurfiol yw'r rhaglen VxL. Mae'r rhaglen hon yn rhoi dysgwyr Catalaneg mewn cyswllt â siaradwyr rhugl er mwyn eu hannog i ddefnyddio'r Gatalaneg ac i hwyluso cydlyniad cymdeithasol (CPNL 2011: t. 11). Ystyrir y rhaglen fel arf yn y broses o addysgu'r Gatalaneg:

Un gran instrument de suport al procés d'aprenentatge de la llengua catalana, però també com una eina de participació social que posava de manifest valors positius associats a l'aprenentatge i l'ús del català, relacionats amb el coneixement mutu entre persones que conviuen en un mateix territori. (CPNL 2012)

Offeryn pwysig i gefnogi'r broses o addysgu'r iaith Gatalaneg, ond hefyd fel offeryn ar gyfer cyfranogiad cymdeithasol sy'n dangos y gwerthoedd cadarnhaol cysylltiedig â dysgu a defnyddio'r Gatalaneg, sy'n ymwneud â chyd-ddealltwriaeth rhwng pobl sy'n byw yn yr un diriogaeth. (Cyfieithiad yr awdur)

Disgwylir i'r parau gyfarfod ddeg gwaith am gyfnod o awr, ond yn aml maent yn mynd yn hwy na hynny ac yn sgwrsio am ugain awr neu ddeg awr ar hugain (VxL, cyfweliad 11, 2017). Mae disgwyl i'r dysgwyr fod wedi cwblhau'r cwrs *bàsic* 2 cyn cyfranogi i'r rhaglen (ibid.).

Sefydlwyd y rhaglen VxL yn 2003 mewn canolfan CPNL yn Cornellà, sef un o fwrdeistrefi Barcelona lle y mae canran uchel o fewnfudwyr mewnol a rhyngwladol. Dros y blynyddoedd, fodd bynnag, mae'r rhaglen wedi datblygu wrth i'r galw gynyddu; tra mai dim ond 19 pâr iaith oedd i'w cael yn 2003, erbyn 2018 yr oedd 10,677 cwpl iaith (CPNL 2018: t. 26).²³ Mae'r rhaglen bellach wedi ei gwasgaru ar draws sawl sector, megis addysg statudol, cyfiawnder,

²³ Cyfrir y parau hyn yn ôl y deg awr cychwynnol. Os yw pâr yn cyfarfod am ugain awr, mae hyn yn cyfrif fel dau bâr (VxL, cyfweliad 11, 2017).

iechyd a diwylliant er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus, busnesau, cymdeithasau chwaraeon a mudiadau hefyd yn cael eu hannog i hwyluso rhoi parau mewn cysylltiad â'i gilydd. Yn 2018, yr oedd dros 4,000 o fudiadau neu sefydliadau'n cydweithio â'r rhaglen VxL, a chymerodd bron i 50,000 o bobl ran yng ngweithgareddau'r rhaglen (ibid. t. 77). Ymhlith pethau eraill, trefnwyd clybiau darllen a siarad, dosbarthiadau coginio, cystadlaethau barddoni, tynnu lluniau ynghyd ag ymweliadau diwylliannol a hanesyddol. Yr oedd y gweithgareddau hyn yn dibynnu ar gydweithio â mudiadau cymdeithas sifil eraill, megis *Òmnium Cultural*, sef corff a sefydlwyd yn 1961 er mwyn hyrwyddo a normaleiddio'r iaith, diwylliant a hunaniaeth Gatalanaidd.²⁴

Yn ôl y CPNL, gellid egluro llwyddiant y VxL drwy'r ffaith bod y cyplau ieithyddol yn cael eu monitro a'u bod yn cynnig ystod o weithgareddau sy'n annog y cyfranogwyr i ryngweithio â'r gymdeithas Gatalaneg. Canlyniad hyn yw bod y cyfranogwyr yn gweld gwerth yn yr iaith a bod y rhaglen yn parhau i fod yn enghraifft o arfer da sy'n blaenoriaethu 'la qualitat per damunt de la quantitat' (CPNL 2011: t. 26).²⁵ Yn ogystal, mae'r egwyddor o gydraddoldeb yn sail i'r rhaglen, gyda'r dysgwr a'r siaradwr rhugl mewn perthynas gydradd â'i gilydd (VxL, cyfweiliad 13, 2017). Mae hyn yn adlewyrchu'r egwyddor o ryngddiwylliannedd, er i'r VxL gychwyn rai blynyddoedd cyn i Lywodraeth Catalwnia fabwysiadu'r term yn swyddogol.

Mae'r VxL bellach yn cael ei chydabod gan y Comisiwn Ewropeaidd fel enghraifft o arfer da o ran sut i annog pobl i ddysgu iaith newydd. Yn ôl y Comisiwn Ewropeaidd, mae'r rhaglen yn cynnig manteision ar gyfer y dysgwyr a'r gwirfoddolwyr; mae'n rhoi'r cyfle i wirfoddolwyr ddysgu am ddiwylliant a gwlad eu partneriaid yn ogystal â chyfrannu at fywyd cymdeithasol, ac mae'r dysgwyr yn magu hunanhyder wrth ddefnyddio'r iaith ac yn dod i deimlo'n fwy cartrefol ac wedi eu hintegreiddio. Ymhellach, ystyrir bod y cynnydd a fu yn nifer y partneriaid a'r ffaith fod y rhaglen wedi ei hymestyn i gyrff eraill yn brawf o'i heffeithlonrwydd (2005: t. 55). Yn ogystal, erbyn hyn, mae rhai o'r mewnfydwyr sydd wedi dysgu'r Gatalaneg yn gwirfoddoli ar y rhaglen, ac mae hyn yn bwysig er mwyn lledaenu negeseuon positif am ddysgu'r Gatalaneg:

Aquí és molt important per nosaltres que entre els catalanoparlants hi hagi 'neocatalanoparlants' perquè són un exemple pels altres, no? Diuen 'però si no és tant difícil eh, jo ho he fet [...]'. (*Òmnium Cultural*, cyfweiliad 16, 2013)

Mae'n bwysig iawn i ni fod yna siaradwyr Catalaneg newydd ymhlith siaradwyr Catalaneg am eu bod yn esiampl i eraill, yndé? I ddweud, 'Ond tydi o ddim mor anodd, dwi wedi gwneud'. (Cyfieithiad yr awdur)

²⁴ Bu'r corff Plataforma per la Llengua hefyd yn weithgar iawn wrth geisio integreiddio mewnfydwyr i'r gymuned iaith Gatalaneg drwy ymgyrchoedd megis '*Lip Dub per la llengua Catalana*' (2011): <<https://www.youtube.com/watch?v=kWm0gqsjuoI>> [Cyrchwyd: 5 Chwefror 2020].

²⁵ 'Safon, nid nifer' (cyfieithiad yr awdur).

Tra bo'r VxL yn fodd effeithiol o addysgu'r Gatalaneg i fewnfudwyr, mae hefyd yn ffordd o greu cysylltiadau a herio rhagfarnau, sy'n gwneud cyd-fyw'n fwy cyraeddadwy:

It's a way not only to practice Catalan if you don't have the *entorno*²⁶ where to practice it because you don't know too much Catalan people. I don't know, if you live in a *barrri*²⁷ where there's a lot of people from Pakistan or Santa Domingo, it is very difficult to hear [...] And also because, it is a way to reach persons from different cultures, to know them, to feel comfortable with persons who are different from you. It's very good to break prejudices. This kind of xenophobia. It is something that makes easier the *convivència*.²⁸ (L'Associació d'Ajuda Mútua d'Immigrants a Catalunya – Unio General Treballadors Catalunya (AMIC-UGT), cyfweiliad 13, 2017.)

Yn hyn o beth, mae'r VxL yn atgyfnerthu'r egwyddorion a bwysleisir yng nghynllun diweddaraf Llywodraeth Catalwnia (2018) ar ryngddiwylliannedd.

Er mwyn annog dysgwyr sy'n rhan o'r rhaglen VxL i ddefnyddio'r sgiliau iaith y maent yn eu datblygu, cynigir cerdyn gostyngiad iddynt. Mae'r cerdyn yn caniatáu iddynt gael gostyngiad mewn busnesau a sefydliadau diwylliannol mewn ardaloedd penodol o Gatalwnia. Mae'r cerdyn yn enghraifft dda o'r modd y gall y sector breifat, sefydliadau diwylliannol a chyrff gwirfoddol gefnogi polisiâu iaith mewn addysg ac ymdrechion i integreiddio dysgwyr. Mae sawl sefydliad adnabyddus yn rhan o'r fenter, e.e. stadiwm Camp Nou a'r Palau de la Música Catalana (VxL, cyfweiliad 11, 2017).

Yn fwy diweddar, mae'r CPNL wedi peilota fersiwn ar-lein o'r rhaglen er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn parhau i ddefnyddio'r Gatalaneg y tu hwnt i Gatalwnia. Yn yr un modd â'r brif raglen, mae disgwyl i gyfranogwyr ymrwmo i o leiaf un awr yr wythnos am gyfnod o ddeg wythnos. Bu nifer o'r dysgwyr eisoes yn gysylltiedig â gweithgareddau'r CPNL drwy VxL neu'r cwrs 'parla.cat' ar-lein, neu'n gysylltiedig â'r Casal de Catalunya, sef canolfan ddiwylliannol Gatalanaidd yn Buenos Aires, yr Ariannin (VxL, cyfweiliad 11, 2017). Dau brosiect arall sydd ar y gweill yw cysylltu parau ar drenau, h.y. wrth iddynt deithio i'r gwaith, yn ogystal â threfnu i wirfoddolwyr ymweld â mewnfudwyr yn y gweithle, a hynny er mwyn targedu'r rheiny na allant fynd ar y cyrsiau oherwydd rhwystrau amser neu rwystrau ymarferol (ibid.).

Yn ddi-os, mae gan y gymdeithas sifil ehangach yng Nghatalwnia swyddogaeth allweddol yn y broses o integreiddio mewnfudwyr i Gatalwnia ac addysgu'r Gatalaneg iddynt. Mewn gwirionedd, mae'r gymdeithas sifil Gatalaneg wedi dylanwadu ar beuoedd cymdeithasol megis addysg ers yr 1980au (Brugué et al. 2009) a gellir olrhain gweithgaredd ar lefel leol

²⁶ Amgylchedd.

²⁷ Cymdogaeth.

²⁸ Ystyr *convivència* yw 'cyd-fyw'.

gan gymdeithas sifil ym maes integreiddio mewnfudwyr yn ôl i'r degawd hwnnw (Generalitat de Catalunya 2010). Mae sawl mudiad yn ymwneud â'r broses o integreiddio mewnfudwyr ac maent yn llwyddo i fynd i'r afael â mesurau a gaiff eu llunio gan y llywodraeth ranbarthol drwy roi rhaglenni integreiddio ac addysg ar waith ar yr un pryd. Y rhai mwyaf amlwg yn hyn oll yw Plataforma per la Llengua ac Òmnium Cultural:

Plataforma per la Llengua, they've done very good work by helping immigrant associations to know Catalan language, Catalan culture [...] they do not reject immigrants, but, on the other hand, they think, I don't know why, spontaneously or because we all have been able to agree, that we can't just turn our back to immigration, from the cultural point of view, Catalan cultural point of view. (Generalitat de Catalunya, cyfweiliad 1, 2017)

Wrth ymgymryd â'r broses o integreiddio mewnfudwyr a gweithredu prosiectau sy'n cydfynd â gweledigaeth y llywodraeth ranbarthol, mae'r mudiadau'n atgyfnerthu'r ddisgwrsg lywodraethol am yr angen i integreiddio mewnfudwyr yn ieithyddol a chymdeithasol er mwyn cyrraedd y nod o ryngddiwylliannedd a chydlynid cymdeithasol:

It is very important because every organisation of this has their own line to work on immigration issues [...] Òmnium Cultural has an immigration department, is like for many institutions and organisation, they're making the same effort to approach foreigner people here. Fifteen years ago, twenty years ago, immigrants were only here to work. And this idea has already changed, immigrants are not here to work and then go back [to] their countries. Immigrants are here to stay. So society has already understood this, I think. (AMIC-UGT, cyfweiliad 13, 2017)

Gwelir mudiadau cymdeithas sifil hefyd yn esblygu er mwyn adlewyrchu realiti newydd y gymdeithas Gatalanaidd:

Another phenomenon is that some of the original immigrants' associations have merged with local associations [...] a few years ago when the *castellers*, the human towers association said, 'We're running out of people, you know, and we see immigration as an opportunity to keep going, otherwise we have to close our association'. And they said, 'That's quite sad, isn't it? [...] we spread our voices to say, why don't we have this project called Tots Som Una Colla'. We're All a Human Tower, something like that. So they found there a lot of people, and they joined this association, so yes, and we always try to make efforts on Catalan, typical Catalan cultural associations to bring in immigrants into them. (Generalitat de Catalunya, cyfweiliad 1, 2017)

Yn ogystal â'r mudiadau iaith hyn, mae undebau llafur megis y CCOO de Catalunya a'r AMIC-UGT de Catalunya yn cefnogi'r llywodraeth yn ei hymdrechion i integreiddio mewn fudwyr drwy gynnig cyngor ar *Llei d'acollida de Catalunya* (deddf groesawu Catalwnia), statws cyfreithiol, trwyddedau gwaith a/neu breswyl, gweithdrefnau ailuno teuluoedd ac ati. Maent hefyd yn egluro pwysigrwydd y Gatalaneg yn gyfreithiol:

Now the Llei d'acollida says that people have to study Catalan for 90 hours. It is a lot. We say this to the people that we see here. 'You have to learn Catalan' [...] We always recommend [to] people that we see that it is very important that they learn Catalan. (AMIC-UGT, cyfweiliad 13, 2017)

Yn hyn o beth, maent yn ddolen gyswllt rhwng y llywodraeth a bywydau'r mewn fudwyr. Mae'r gefnogaeth amlhaenog hon yn golygu bod polisiâu'r llywodraeth yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd strwythuredig ac ar draws ystod o lefelau. Yn ddiamheuol, mae hyn yn gwneud y broses o integreiddio mewn fudwyr yn un haws o lawer. Yn ogystal, mae'r gefnogaeth hon ar lefel cymdeithas sifil yn golygu bod y ddisgwrs ynglŷn â phwysigrwydd y Gatalaneg ar gyfer byw yn y rhanbarth a bod yn Gatalanwr neu'n Gatalanes yn treiddio i sawl pau ieithyddol a chymdeithasol.

Mae'r drafodaeth uchod yn dangos y graddau y gellid adeiladu ar y gefnogaeth a'r diddordeb ymhlith siaradwyr yr iaith leiafrifol fel modd o gefnogi mesurau iaith mewn addysg yn y broses o integreiddio mewn fudwyr, ac mae'n atgyfnerthu dadl Liddicoat a Baldauf (2008) ynglŷn â swyddogaeth unigolion a grwpiau yn y broses o gynllunio iaith. Dengys hefyd y modd y gall mesurau iaith mewn addysg gael eu llunio fel eu bod yn cynnwys y gymuned gyfan a'r gymdeithas sifil. Yn hyn o beth, mae'n adlewyrchu'r angen i gynllunwyr polisi iaith roi ystyriaeth i ystod o ffactorau a sefydliadau allweddol, megis llywodraethiant amlhaenog, dinasyddiaeth, siaradwyr yr iaith leiafrifol a'r gymdeithas sifil.

Cloi

Mae'r erthygl yn amlygu swyddogaeth allweddol siaradwyr iaith leiafrifol wrth gefnogi mesurau iaith mewn addysg a'r broses o integreiddio mewn fudwyr. Yn wahanol i blant sy'n derbyn addysg orfodol, mae'r broses o 'gyrraedd' mewn fudwyr sy'n oedolion yn fwy cymhleth, yn enwedig pan nad oes gan lywodraethau iswladwriaethol gymwyseddau ar gyfer dewis a dethol neu dderbyn mewn fudwyr. Yn ogystal, mae mewn fudwyr yn tueddu i ddilyn cyrsiau lefelau cychwynnol a sylfaenol, ond nid o anghenraid y lefelau uwch. Trwy ganolbwyntio ar addysg anffurfiol a'r VxL, gobaith y CPNL yw annog mewn fudwyr i ddysgu a gwella eu Catalaneg fel eu bod, maes o law, yn ei defnyddio'n naturiol gyda'u ffrindiau, eu cyfoedion a'u plant. Fel rhan o strategaeth o '*dinamizació*' y CPNL, mae'r VxL yn fodd ystyrion o hybu defnydd o'r Gatalaneg, codi ymwybyddiaeth o hunaniaeth a diwylliant Catalanaidd a sensiteiddio ac ysgogi mewn fudwyr i ddysgu. Nid yw'r gweithgareddau hyn wedi eu cyfyngu

i'r dosbarth; yn hytrach, maent wedi eu llunio gyda'r nod o sicrhau bod y mewnfudwyr yn derbyn y profiad o ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol gwahanol. Ymhellach, drwy annog cyswllt rhwng pobl o wahanol gefndiroedd, boed yn ieithyddol, yn gymdeithasol neu'n grefyddol, a hynny ar sail cydraddoldeb, mae'n fodd o feithrin parch at amrywiaeth a herio rhagfarnau. Yn hyn o beth, mae'n ffordd effeithiol o wireddu'r amcanion o sicrhau rhyngddiwylliannedd a chydlynid cymdeithasol.

Er na all siaradwyr iaith leiafrifol ar eu pennau eu hunain gynnig yr holl atebion i wneuthurwyr polisi yn eu hymdrechion i integreiddio mewnfudwyr, dengys yr ymchwil fod siaradwyr iaith leiafrifol yn chwarae rôl arwyddocaol yn y broses o addysgu iaith leiafrifol i fewnfudwyr. Eto i gyd, nid yw'r rhai o'r fframweithiau mwyaf dylanwadol ym maes cynllunio iaith, megis fframweithiau Giles et al. (1977) a GIDS Fishman (1991, 2001), yn rhoi digon o sylw i swyddogaeth y gymuned groeso yn y broses o ddad-wneud shiftt iaith. Tra honna Giles et al. (1977: t. 314) fod mewnfudwyr yn dueddol o fabwysiadu'r iaith fwyafrifol yn hytrach na'r iaith leiafrifol wrth symud i ardal lle y ceir cystadleuaeth rhwng grwpiau iaith gwahanol, dengys yr ymchwil yr angen i dalu mwy o sylw i ymateb y gymuned groeso a siaradwyr yr iaith leiafrifol wrth ddadansoddi'r ffenomen. O edrych ar y llenyddiaeth sy'n canolbwyntio ar ymatebion cenhedloedd iswladwriaethol i fewnfudo, gwelir bod diffyg trafodaeth ar swyddogaeth ac ymateb y gymuned groeso hefyd. O ganolbwyntio ar bynciau megis hunaniaeth genedlaethol, y ddeinameg iswladwriaethol a gwladwriaethol ynghyd â phleidiau iswladwriaethol, mae'r dadansoddiad yn edrych ar y lefel facro a'r lefel feso ac yn diystyru cysylltiadau rhyngddiwylliannol rhwng unigolion a phrosiectau a geir ar lefel ficro. Eto i gyd, mae'r rhyngweithio dyddiol rhwng siaradwyr rhugl a siaradwyr newydd, ynghyd ag ymateb cymdeithas sifil, yr un mor bwysig â'r hyn sy'n digwydd ar y lefel feso neu facro. Felly, gyda chynllunio iaith pwrpasol, gall mewnfudwyr neu siaradwyr newydd a siaradwyr iaith leiafrifol gryfhau sefyllfa'r iaith leiafrifol.

Llyfryddiaeth

- Adam, I. (2013), 'Immigrant Integration Policies of the Belgian Regions: Sub-state Nationalism and Policy Divergence after Devolution', *Regional & Federal Studies*, 23 (5), 547–69.
- Arksey, H., a Knight, P. (1999), *Interviewing for Social Scientists* (Thousand Oaks: Sage).
- Augustyniak, A., a Higham, G. (2019), 'Contesting sub-state integration policies: migrant new speakers as stakeholders in language regimes', *Language Policy*, 18 (4), 513–33.
- Barker, F. (2010), 'Learning to be a majority: Negotiating immigration, integration and national membership in Quebec', *Political Science*, 62 (1), 11–36.
- Barker, F. (2015), *Nationalism, Identity and the Governance of Diversity: Old Politics, New Arrivals* (Basingstoke: Palgrave Macmillan).
- Bauböck, R. (2001), 'Cultural Citizenship, Minority Rights and Self-Government',
- Aleinikoff, A., a Klusmeyer, D. (goln), *Citizenship Today: Global Perspectives and Practices* (Washington, DC: Carnegie Endowment).

- Bermingham, N., a Higham, G. (2018), 'Immigrants as new speakers in Galicia and Wales: issues of integration, belonging and legitimacy', *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 39 (5), 394–406.
- Blommaert, J. (2010), *The Sociolinguistics of Globalization* (Cambridge: Cambridge University Press).
- Bouffard, P. (2015), 'French language education policy for adult immigrants in Quebec', Simpson, J., a Whiteside, A. (goln), *Adult Language Education and Migration: Challenging Agendas in Policy and Practice* (Abingdon: Routledge), tt. 49–65.
- Branchadell, A. (2015), 'Language education for adult migrant in Catalonia: Nation-state ambitions without nation-state resources', Simpson, J., a Whiteside, A. (goln), *Adult Language Education and Migration: Challenging Agendas in Policy and Practice* (Abingdon: Routledge), tt. 82–93.
- Burmeister, E., ac Aitken, L. M. (2012), 'Sample size: How many is enough?', *Australian Critical Care*, 25, 271–74.
- Castiñeira Fernández, Á. (2009), 'Immigration in Multinational States: The case of Catalonia', Zapata-Barrero, R. (gol.), *Immigration and Self-government of Minority Nations* (Bern: Peter Lang), tt. 163–76.
- Charmaz, K. (1990), "'Discovering" chronic illness: Using grounded theory', *Social Science and Medicine*, 30, 1161–72.
- Consortori per a la Normalització Lingüística (2011), *Memòria CPNL 2011* (Barcelona: Consortori per a la Normalització Lingüística).
- Consortori per a la Normalització Lingüística (2012), *Voluntariat per la llengua. Dossier de premsa* (Barcelona: Consortori per a la Normalització Lingüística).
- Consortori per a la Normalització Lingüística (2018), *Memòria del CPNL 2018*, <<https://arxius.cpnl.cat/arxius/memories/memoria2018.pdf>> [Cyrchwyd: 16 Chwefror 2020].
- Conversi, D., a Jeram, S. (2017), 'Despite the crisis: The resilience of intercultural nationalism in Catalonia', *International Migration*, 55 (2), 53–67. <<https://doi.org/10.1111/imig.12323>>
- Davies, P. H. J. (2001), 'Doing Politics. Spies as Informants: Triangulation and the Interpretation of Elite Interview Data in the Study of the Intelligence and Security Services', *Politics*, 21 (1), 73–80.
- Denzin, N. K. (2012), 'Triangulation 2.0', *Journal of Mixed Methods Research*, 6 (2), 80–8.
- Erk, J. (2003), "'Wat We Zelf Doen, Doen We Beter": Belgian Substate Nationalisms, Congruence and Public Policy', *Journal of Public Policy*, 23 (2), 201–24.
- European Commission (2005), *Fifty ways to learn a new language* (Brussels: European Commission).
- Ferrero-Turrión, R., a Pinyol-Jiménez, G. (2009), 'Immigration and the construction of public philosophy(ies) of integration in Spain', yn Guild, E. et al. (goln), *Illiberal Liberal States. Immigration, Citizenship and Integration in the EU* (Farnham, Surrey: Ashgate Publishing), tt. 337–56.

- Fishman, J. A. (1991), *Reversing Language Shift: Theoretical and Empirical Foundations of Assistance to Threatened Languages* (Clevedon: Multilingual Matters).
- Fishman, J. A. (gol.) (2001), *Can Threatened Languages be Saved?* (Clevedon: Multilingual Matters).
- Franco i Guillén, N. (2011), 'Immigration en Catalogne: Politiques et Société', *Migrations Société*, 23 (134–5), 83–93.
- Garrido, M. R., ac Oliva, X. (2015), 'A Multilingual, collaborative and functional approach to nongovernmental Catalan classes', yn Simpson, J., a Whiteside, A. (goln), *Adult Language Education and Migration: Challenging Agendas in Policy and Practice* (Abingdon: Routledge), tt. 94–106.
- Generalitat de Catalunya (2001), *Pla Interdepartamental d'Immigració 2001–2004* (Barcelona: Departament de la Presidència).
- Generalitat de Catalunya (2003), *Estadística d'usos lingüístics a Catalunya 2003* (Barcelona: SPL/IDESCAT).
- Generalitat de Catalunya (2005), *Pla de Ciutadania i Immigració 2005–2008* (Barcelona: Departament de Benestar i Família).
- Generalitat de Catalunya (2006), *Loi organique n° 6/2006, du 19 juillet, de réforme du Statut d'autonomie de Catalogne*. <https://docs.google.com/viewer?url=http%3A%2F%2Fwww.parlament.cat%2Fporteso%2Festatut%2Festatut_frances_100506.pdf> [Cyrchwyd: 6 Awst 2013].
- Generalitat de Catalunya (2008), *Un Pacte Per Viure Junts i Junes. Pacte Nacional per a la immigració* (Barcelona: Departament d'Acció Social i Ciutadania).
- Generalitat de Catalunya (2009), *Pla de ciutadania i immigració 2009–2012* (Barcelona: Departament d'Acció Social i Ciutadania).
- Generalitat de Catalunya (2010), *Llei d'acollida de les persones immigrades i les retornades a Catalunya*. (Barcelona) [Cyrchwyd: 3 Mawrth 2013].
- Generalitat de Catalunya (2016), *Pla de Ciutadania i de les Migracions 2017–2020*, <https://participa.gencat.cat/uploads/decidim/attachment/file/183/Document_Participació_PCM17-20_versió_final_.pdf> [Cyrchwyd: 13 Mawrth 2020].
- Generalitat de Catalunya (2017), *Language Policy Report*, <https://llengua.gencat.cat/web/.content/documents/informepl/arxiu/IPL2017_en.pdf> [Cyrchwyd: 12 Chwefror 2020].
- Generalitat de Catalunya (2018a), *Pacte Nacional per a la Interculturalitat Document marc per al procés participatiu*, <https://participa.gencat.cat/uploads/decidim/attachment/file/1115/2019_10_10_Document_1_PNI_-_v2.pdf> [Cyrchwyd: 8 Mawrth 2020].
- Generalitat de Catalunya (2018b), *Informe de Política Lingüística 2018*, <<https://llengua.gencat.cat/web/.content/documents/informepl/arxiu/IPL-2018.pdf>> [Cyrchwyd: 12 Mai 2020].
- Generalitat de Catalunya (2018c), *Procés participatiu del Pacte Nacional per a la Interculturalitat (PNI)*, <<https://participa.gencat.cat/processes/interculturalitat>> [Cyrchwyd: 2 Mawrth 2020].

- Giles, H. et al. (1977), 'Towards a Theory of Language in Ethnic Group Relations', Giles, H. (gol.), *Language, Ethnicity, and Intergroup Relations* (New York: Academic Press).
- Gobierno de España (1978), *Constitución Española*, <http://es.wikisource.org/wiki/Constituci%C3%B3n_esp%C3%B1ola_de_1978> [Cyrchwyd: 8 Mawrth 2013].
- Guest, G., Bunce, A., a Johnson, L. (2006), 'How many interviews are enough? An experiment with data saturation and variability', *Field Methods*, 18 (1), 59–82.
- Hepburn, E. (2009a), 'Regionalist Party Mobilisation on Immigration', *West European Politics*, 32 (3), 514–35.
- Hepburn, E. (2009b), 'Re-conceptualizing Substate Mobilization', *Regional & Federal Studies*, 19 (4/5).
- Hepburn, E. (2010), 'Citizens of the Region: Party Conceptions of Regional Citizenship and Immigrant Integration', *European Journal of Political Research*, 50 (4), 504–29.
- Hepburn, E., a Rosie, M. (2014), 'Immigration, Nationalism and Politics in Scotland', Hepburn, E., a Zapata-Barrero, R. (goln), *The Politics of Immigration in Multi-level States: Governance and Political Parties*, tt. 241–60 (New York: Palgrave Macmillan).
- Hepburn, E., a Zapata-Barrero, R. (goln) (2014), *The Politics of Immigration in Multi-Level States: Governance and Political Parties* (Basingstoke: Palgrave Macmillan).
- Higham, G. (2020), *Creu Dinasyddiaeth i Gymru: Mewnfudo Rhyngwladol a'r Gymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- Hogan-Brun, G. et al. (goln) (2009), *Discourses on language and integration: critical perspectives on language testing regimes in Europe* (Amsterdam, USA: John Benjamins).
- Hornberger, N. (gol.) (2011), *Can Schools Save Indigenous Language? Policy and Practice on Four Continents* (Basingstoke: Palgrave Macmillan).
- IDESCAT (2009), *Proyecciones de población 2021–2041 (base 2008) Principales resultados* (Barcelona: IDESCAT).
- IDESCAT (2013), *Institut d'Estadística de Catalunya* (Barcelona: IDESCAT).
- IDESCAT (2018), *Població segons llengua habitual* <<https://www.idescat.cat/pub/?id=eulp&n=3192&lang=en>> [Cyrchwyd: 15 Mai 2018].
- Ignatieff, M. (1994), *Blood and Belonging: Journeys into the New Nationalism* (New York: Farrar, Straus and Giroux).
- Jeram, S., ac Adam, I. (2015), 'Diversity and nationalism in the Basque Country and Flanders: understanding immigrants as fellow minorities', *National Identities*, 17 (3), 241–57.
- Joppke, C. (2002), 'Multicultural Citizenship', yn Isin, E. F., a Turner, B. S. (goln), *Handbook of Citizenship Studies*, tt. 245–58 (London: Sage).
- Juteau, D. (2003), 'The Citizen Makes an Entrée: Redefining the National Community in Quebec', *Citizenship Studies*, 6 (4), 441–58.
- Kalekin-Fishman, Deborah, Pitkanen, Pirkko, Verma, Gajendra (goln) (2002), *Education and Immigration: Settlement Policies and Current Challenges* (London: Routledge).
- Keating, M. J. (1996), *Nations against the State: The New Politics of Nationalism in Quebec, Catalonia and Scotland* (Basingstoke: Macmillan).

- Kymlicka, W., a Patten, A. (2003), *Language Rights and Political Theory* (Oxford: Oxford University Press).
- Labelle, M., a Rocher, F. (2009), 'Immigration, Integration and Citizenship Policies in Canada and Quebec. Tug of war between two competing societal projects', yn Zapata-Barrero, R. (gol), *Immigration and self-government of minority nations* (Bern: Peter Lang), tt. 57–86.
- Liddicoat, A. J., a Baldauf, R. B. (2008), 'Language Planning in Local Contexts: Agents, Contexts and Interactions', yn Liddicoat, A. J., a Baldauf, R. B. (goln), *Language Planning in Local Contexts* (Clevedon: Multilingual Matters), tt. 3–17.
- Lilleker, D. G. (2003), 'Doing Politics. Interviewing the Political Elite: Navigating a Potential Minefield', *Politics*, 23 (3), 207–14.
- Llywodraeth Cymru (2017), *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, <<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf>> [Cyrchwyd: 20 Mai 2020].
- May, S. (2012), *Language and Minority Rights*, 2il argraffiad (New York: Routledge).
- McRae, K. D. (1975), 'The principle of territoriality and the principle of personality in multilingual states', *International Journal of the Sociology of Language*, 4, 33–54.
- Muñoz, C. (2013), 'Age Effects in SLA', yn Robinson, P. (gol.), *The Routledge Encyclopedia of Second Language Acquisition* (New York: Routledge), tt. 12–15.
- Myhill, J. (1999), 'Identity, Territoriality and Minority Language Survival', *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 20 (1), 34–50.
- Nelde, P. et al. (1996), *Euromosaic: The Production and Reproduction of the Minority Language Groups of the European Union* (Brussels: European Commission).
- Oakes, L. (2004), 'French – a language for everyone in Québec?', *Nations and Nationalism*, 10 (4), 539–58.
- O'Reilly, M., a Parker, N. (2012), 'Unsatisfactory saturation: A critical exploration of the notion of saturated sample sizes in qualitative research', *Qualitative Research Journal*, 1–8.
- Penninx, R. (2005), 'Bridges between research and policy? The case of post-war immigration and integration policies in the Netherlands', *International Journal on Multicultural Societies*, 7 (1), 33–48.
- Penninx, R. (2013), 'International migration and multilevel governance in Europe', yn Bilger, V., Klinglmair S., a Hofmann M. (goln), *10 observations on the future of migration: costs, benefits and policy responses* (Vienna: International Centre for Migration Policy Development), tt. 109–24.
- Ritchie, J., a Spencer, L. (2002), 'Qualitative Data Analysis for Policy Research', yn Huberman, A. M., a Miles, M. B. (goln), *The Qualitative Research Companion* (Thousand Oaks: Sage), tt. 305–29.
- Shafir, G. (1995), *Immigrants and Nationalists: Ethnic Conflict and Accommodation in Catalonia, the Basque Country, Latvia and Estonia* (Albany, NY: New York State University Press).

- Skutnabb-Kangas, T. (1990), *Language, Literacy and Minorities* (London: The Minority Rights Group).
- Solé, C., a Parella, S. (2008), 'El modelo de gestión de las migraciones en Cataluña: ¿una "vía catalana" de integración?', *Política y Sociedad*, 45 (1), 85–101.
- Spolsky, B. (2004), *Language Policy* (Cambridge: Cambridge University Press).
- Stavros, C., a Westberg, K. (2009), 'Using triangulation and multiple case studies to advance relationship marketing theory', *Qualitative Market Research*, 12 (3), 307–20.
- Stevens, G. (2013), 'Age and Second Language Acquisition Among Immigrants', yn Grigorenko, E. L. (gol.), *US Immigration and Education* (New York: Springer), tt. 235–48.
- Van der Zwet, A. (2016), 'To see ourselves as others see us: identity and attitudes towards immigration amongst civic nationalists', *Journal of Ethnic and Migration Studies*, 42 (8), 1242–56.
- Vertovec, S. (2007), 'Super-diversity and its implications', *Ethnic and Racial Studies*, 30 (6), 1024–54.
- Vervotec, S. (2010), 'Reading "Super-Diversity Representations: Powers and Pitfalls"', yn Anderson, B., a Keith, M. (goln), *Migration: A COMPAS Anthology* (Oxford: COMPAS), <<https://compasanthology.co.uk/reading-super-diversity/>> [Cyrchwyd: 15 Medi 2020].
- Vila i Moreno, F. X. (2004), 'Barcelona (Catalonia): Language, Education and Ideology in an Integrationist Society', yn Van Mensel, L. et al. (gol.), *Language, Attitudes & Education in Multilingual Cities* (Brussel: Koninklijke Vlaamse Academie Van België), tt. 53–86.
- Walker, J. L. (2012), 'The use of saturation in qualitative research', *Canadian Journal of Cardiovascular Nursing*, 22 (2), 37–46.
- Williams, D. G. (2012), 'Your multicultural nation is not necessarily mine', *Institute of Welsh Affairs*, <<https://www.iwa.wales/agenda/2012/11/your-multicultural-nation-is-not-necessarily-mine/>>, 1 Tachwedd [Cyrchwyd: 3 Mai 2020].
- Zapata-Barrero, R. (2006), 'Immigration, autonomie politique et gestion de l'identité: le cas de la Catalogne', *Outre-terre*, 17, 189–209.
- Zapata-Barrero, R. (2007), 'Setting a Research Agenda on the Interaction Between Cultural Demands of Immigrants and Minority Nations', *Journal of Immigrant & Refugee Studies*, 5 (4), 1–25.
- Zapata-Barrero, R. (2009), 'Building a Public Philosophy of Immigration in Catalonia. The terms of the debate', Zapata-Barrero, R. (gol.), *Immigration and self-government of Minority Nation* (Bern: Peter Lang), 125–53.

Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i'r adolygwyr am eu hadborth gwerthfawr ac i'r unigolion hynny yng Nghatalwnia a Québec a gytunodd i gael eu cyf-weld ar gyfer yr ymchwil. Diolch hefyd i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Bwrdd yr Iaith Gymraeg (fel yr oedd bryd hynny) am y cymorth ariannol a hwylusodd yr ymchwil. Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r Athro Ricard Zapata-Barrero a'r Athro Mireia Trenchs-Parera yn Universitat Pompeu Fabra a'r Athro Alain-G. Gagnon yn Université du Québec à Montréal, a estynnodd groeso cynnes i mi tra oeddwn yn ymchwilydd gwadd yn eu canolfannau ymchwil. Bu'r cyfnodau hyn yn amhrisiadwy er mwyn mireinio syniadau ymchwil, er mwyn creu cysylltiadau arbennig a dod i adnabod diwylliant a gwleidyddiaeth Catalwnia a Québec, sef agwedd hanfodol ar y broses o astudio astudiaethau achos.

Egni adnewyddadwy: cyfle i ffermwyr arallgyfeirio mewn amgylchedd busnes heriol?

Robert Bowen a Wyn Morris

Ysgol Reolaeth, Prifysgol Abertawe, a'r Ysgol Fusnes, Prifysgol Aberystwyth

Cyflwynwyd: 16 Medi 2019; Derbyniwyd: 18 Chwefror 2020

Crynodeb: Mae busnesau fferm yn wynebu heriau cynyddol o ran sefydlogrwydd economaidd a dulliau cynhyrchu traddodiadol, felly mae'r erthygl hon yn ystyried rôl cynhyrchu ynni adnewyddadwy i gynnal busnesau o'r fath, wrth ystyried y cyfoeth o adnoddau naturiol yng Nghymru. Mae'r astudiaeth yn defnyddio dulliau cymysg er mwyn cynnal ymchwiliad manwl i rôl cynhyrchu ynni adnewyddadwy wrth gefnogi busnesau amaeth yng Nghymru. Cyfraniad damcaniaethol yr erthygl hon yw segmentiad o ffermwyr trwy ddefnyddio dadansoddiad clwstwr sy'n gwahaniaethu rhwng agweddau gwahanol at incwm y tu allan i'r fferm a mabwysiadu ffynonellau ynni adnewyddadwy. Gall yr ymchwil hefyd gynghori Llywodraeth Cymru ar bolisiau i hwyluso'r cynnydd mewn ynni adnewyddadwy.

Allweddeiriau: economi werdd, amaethyddiaeth, mentergarwch, ynni adnewyddadwy, Cymru.

Renewable energy: an opportunity for farmers to diversify in a challenging business environment?

Abstract: Farm businesses face increasing challenges of economic instability and traditional production methods, therefore this paper considers the role of renewable energy production in sustaining such businesses, given the richness of natural resources in Wales. The study adopts mixed methods as a means of undertaking an in-depth investigation into the role of renewable energy generation in supporting agribusinesses in Wales. The theoretical contribution of this paper is a segmentation of farmers using a cluster analysis which allows for distinctions to be made of different attitudes to off-farm income and the adoption of renewable energy sources. The research can inform Welsh Government regarding policies towards facilitating the increase in renewable energy.

Key words: green economy, agribusiness, entrepreneurship, renewables, Wales.

1. Cyflwyniad

Mae busnesau ffermio'n wynebu heriau cynyddol, yn enwedig rôl amaethyddiaeth yn yr economi wledig ehangach (Marsden a Sonnino 2008, Winter a Lobley 2009) yn ogystal â phryderon ynghylch effaith amaethyddiaeth ar yr amgylchedd o ran adnoddau ac allyriadau. Er bod rhywfaint o newid strwythurol yn digwydd yn yr economi wledig, mae busnesau amaethyddol bach yn parhau i chwarae rhan ganolog. Mae'r sefyllfa'n fwy amlwg mewn rhannau helaeth o Gymru lle y nodweddir amaethyddiaeth gan ffermio defaid yn yr ucheldir. Ystyrir bod gan y busnesau hyn broblemau strwythurol hanesyddol dwfn, gyda gwerth ychwanegol cyfyngedig yn perthyn i weithgareddau'r busnesau hynny (Roberts 2014, Armstrong 2016). Felly, mae ffermydd yr ucheldir yn cael eu hystyried fel y rhai sy'n wynebu'r heriau mwyaf mewn perthynas â diwygio'r polisi amaethyddol oherwydd eu bod yn dibynnu ar daliadau uniongyrchol. Mae dyfodiad Brexit yn cynnig heriau pellach i'r diwydiant o ran cytundebau a safonau masnachu. Fodd bynnag, gyda thirwedd amrywiol, mae gan Gymru gyfoeth o adnoddau ac mae'n lleoliad addas i ddatblygu llawer o ffurfiau gwahanol i gynhyrchu ynni adnewyddadwy, yn enwedig ffermydd gwynt, parciau solar, ynni trydan dŵr neu fïomas. Mae papur ymgynghorol 'Brexit a'n Tir' gan Lywodraeth Cymru (2018) yn ystyried strategaethau y gall ffermwyr eu cymhwyso i'r amgylchedd heriol newydd. Rhan o hyn fydd arallgyfeirio y tu hwnt i gynnyrch bwyd a diod, felly gall egni adnewyddadwy fod yn un ystyriaeth strategol bosibl.

Nod yr erthygl hon yw ymchwilio i'r gwaith o gynhyrchu ynni adnewyddadwy i gefnogi busnesau amaethyddol. Mae'r ymchwil yn defnyddio dulliau cymysg er mwyn archwilio'r posibilïadau i ffermwyr allu manteisio ar gyfleoedd i arallgyfeirio tuag at ynni adnewyddadwy mewn ymateb i heriau ac ansicrwydd yn y byd ffermio ar hyn o bryd. Mae'r erthygl yn ystyried materion Cymru fel lleoliad sy'n addas ar gyfer creu ynni adnewyddadwy. Er y ceir cyfleoedd i gynhyrchu incwm a chynnydd drwy ynni adnewyddadwy, ceir llawer o heriau. Felly, mae'r astudiaeth yn ceisio canfod a deall y cymhellion a'r rhwystrau sy'n effeithio ar fabwysiadu'r broses o gynhyrchu ynni adnewyddadwy fel math o arallgyfeirio ar ffermydd. Yn y rhan nesaf, mae'r erthygl yn edrych ar swyddogaeth amaethyddiaeth yn yr economi wledig ynghyd â themâu polisi amaethyddol, arallgyfeirio ar ffermydd, a chynhyrchu ynni adnewyddadwy yng nghyd-destun amaethyddiaeth yng Nghymru. Eglurir dulliau dadansoddi ansoddol a meintiol yn adran 3 ac fe'u cyflwynir yn adran 4. Mae'r dadansoddiad yn nodi cyfleoedd a rhwystrau ar draws pob cam o fabwysiadu ynni adnewyddadwy a all gynorthwyo ffermwyr a llunwyr polisi.

2. Amaethyddiaeth a'r Economi Wledig

Yn groes i farn gadarnhaol o amaethyddiaeth a phryderon ynghylch effaith amgylcheddol y diwydiant o ganlyniad i arferion ffermio traddodiadol, mae Midmore (2011) yn dweud bod cyfraniad amaethyddiaeth at yr economi wledig yn mynd y tu hwnt i'w gweithrediad economaidd, lle y mae'n darparu gwasanaethau cyhoeddus megis stiwardio'r dirwedd, yn

ogystal â chreu a rheoli bioamrywiaeth. Yn fwy penodol, mae Midmore (2011) yn ychwanegu bod ffermwyr yr ucheldir, yn enwedig, yn dod yn fwyfwy pwysig, er enghraifft, wrth reoli tiroedd mawn ar gyfer dal a storio carbon. Gallai cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar ffermydd fod yn gyfraniad ychwanegol lle y gall amaethyddiaeth gynorthwyo i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a chefnogi'r economi wledig.

Gyda phryderon ynghylch y bwlch cynyddol rhwng economïau trefol a rhai gwledig, fel y nodwyd yn y cynllun gweithredu economaidd: Ffyniant i Bawb (Llywodraeth Cymru 2017a), mae busnesau amaethyddol cynaliadwy yn hanfodol er mwyn cynnal cymunedau yn yr ucheldir. Fodd bynnag, gyda ffermwyr y Deyrnas Unedig (DU) yn wynebu pwysau economaidd parhaus (House of Commons 2011), mae'r diwygiadau diweddar, neu'r 'gwyrrddlasu' (*greening*), o bolisïau amaethyddol yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr gyrraedd targedau amgylcheddol. Yn ogystal, mae'n bosibl bod tir sydd wedi ei ddynodi fel tir dan anfantais, sef y rhan fwyaf o dir amaethyddol Cymru, yn anffrwythlon. Gall y strategaethau a fabwysiedir gan ffermwyr yn yr ardaloedd hyn gynnwys lleihad pellach yn nifer yr anifeiliaid sy'n pori, neu gall ffermwyr ddwysáu'r pori neu dyfu cnydau â'r bio-ynni (Reed et al. 2009). Bydd y strategaethau hyn yn effeithio ar ba mor broffidiol yw'r fferm, ei chyfraniad at yr economi wledig a'r gwasanaethau ecosystem y mae'n eu cynhyrchu. Mae llwyddiant y strategaethau hyn a dyfodol ffermydd teuluol yn dibynnu ar fuddsoddi mewn seilwaith sy'n ymwneud â chysylltedd (*connectivity*), megis band llydan, fel yr amlygir gan Bowen a Morris (2019). Er hynny, gall y buddsoddiad hwn gael effaith andwyol ar yr economi wledig ehangach.

Polisi amaethyddol yng Nghymru

Cafodd polisïau ar amaethyddiaeth a datblygu gwledig yr Undeb Ewropeaidd (UE) eu datganoli i Gymru yn Neddf Llywodraeth Cymru, 1998. Cyflwynwyd y broses o ddatgysylltu'r PAC (Polisi Amaethyddol Cyffredin) i Gymru o 2005 ymlaen ac fe'i harweinir gan gyfres o raglenni datblygu gwledig a gyhoeddwyd rhwng 2007 a 2013, a hefyd rhwng 2014 a 2020 (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007, Llywodraeth Cymru 2014). Roedd hyn yn caniatáu i gymorth Colofn 2 fod yn benodol i Gymru. Yn ystod 2007–13, darparwyd cymorth Colofn 2 drwy amrywiaeth o ymyriadau gan gynnwys cynlluniau amaeth-amgylcheddol, megis Tir Gofal a Thir Cynnal. Roedd cymorth ariannol hefyd yn cael ei ddarparu ar gyfer twristiaeth, ynni adnewyddadwy a gwella technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Ers 2014, mae'r cynlluniau amgylcheddol blaenorol wedi eu gosod o dan un enw, sef 'Glastir'. Mae Glastir yn rhoi blaenoriaeth i liniaru'r newid yn yr hinsawdd, rheoli dŵr a bioamrywiaeth. Mae elfennau eraill yn cefnogi datblygu sgiliau, trosglwyddo gwybodaeth ac arloesedd. Fodd bynnag, mae cyflwyno polisïau'n effeithiol yn dibynnu ar gyfranogiad ffermwyr a rheolwyr fferm (Pollock 2012), ond mae ffermwyr yn wynebu tensiynau rhwng glynu wrth bolisïau a dilyn strategaethau mewn ymateb i'w nodau a'u hamcanion busnes.

Arallgyfeirio ar ffermydd

Ers peth amser, bu arallgyfeirio ar ffermydd yn strategaeth amlwg mewn ardaloedd gwledig wrth i ffermwyr geisio cynyddu'r incwm o'u ffermydd ac edrych ar gyfleoedd busnes. Mae incwm ffermydd yn aml wedi cynnwys cymorthdaliadau, cynhyrchu bwyd, twristiaeth neu fathau eraill o incwm y tu allan i'r fferm, a chydabyddir bod adnoddau naturiol mannau gwledig yng Nghymru yn darparu cyfleoedd ar gyfer twf mewn cynhyrchu ynni cynaliadwy. Wrth ystyried yr uchod, prif nod yr astudiaeth hon yw darganfod y posibilïadau i ffermwyr yng Nghymru ddefnyddio'u hadnoddau ac arallgyfeirio i gynhyrchu ynni cynaliadwy. Nod yr ymchwil yw adeiladu ar y model cysyniadol o arallgyfeirio amaeth-amgylcheddol a sefydlwyd gan Sutherland et al. (2016). Mae'r ymchwil wedi ei seilio ar y model hwn fel y prif fodel sy'n canolbwyntio ar elfennau arallgyfeirio mewn amaethyddiaeth. Hefyd, ystyriwyd teipoleg arallgyfeirio McElwee a Bosworth (2010), ond dewiswyd model Sutherland et al. (2016) oherwydd ei fod yn cymryd golwg cyfannol (*holistic*) ar arallgyfeirio, gyda ffocws penodol ar arallgyfeirio mewn egni adnewyddadwy.

Mae'r model yn amlygu pwysigrwydd nodweddion ffermwyr a nodweddion busnesau fferm wrth fabwysiadu strategaethau arallgyfeirio ar ffermydd. Mae arallgyfeirio ar ffermydd yn un strategaeth a all gael effaith andwyol ar y gymuned ehangach. Gall y ffactor sy'n cymhell arallgyfeirio fod yn gysylltiedig â strwythur y cartref/teulu a'r angen i ddarparu cyflogaeth i aelodau eraill o'r teulu. Ffactor arall posib fyddai'r awydd i gyfrannu at amcanion cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach, megis darparu cyfleoedd cyflogaeth i eraill yn yr ardal wledig benodol neu gyfrannu at ofalu am amwynderau (*amenities*) a thirwedd naturiol (Leck et al. 2014, Suess-Reyes a Fuetsch 2016). Gallai cynhyrchu ynni adnewyddadwy fod yn ateb i'r cymhellion hyn i arallgyfeirio a gall y math hwn o entrepreneuriaeth fod yn allweddol i barhad busnes y fferm deuluol drwy ddefnyddio adnoddau mewn ffyrdd gwahanol i gynhyrchu bwyd prif ffrwd.

Ynni adnewyddadwy

Mae'r UE wedi gosod targedau y bydd 32% o'r ynni a ddefnyddir yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030 (European Commission 2020). Fodd bynnag, mae'r cynllun hwn, ynghyd ag adroddiadau blaenorol, yn canolbwyntio'n sylfaenol ar y sector ynni, a chaiff swyddogaeth y sector amaethyddol o ran cynhyrchu ynni ei hanwybyddu'n gyffredinol. Ar y llaw arall, mae adroddiadau o'r math hwn yn ystyried bod amaethyddiaeth yn broblem wrth gyflawni targedau amgylcheddol oherwydd yr allyriadau a gynhyrchir gan ddulliau cynhyrchu traddodiadol. Mae'n amlwg bod angen rhoi mwy o sylw i swyddogaeth amaethyddiaeth ym maes cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Er bod cyfoeth o ddeunydd ar gael ynghylch arallgyfeirio ar ffermydd, entrepreneuriaeth ac incwm y tu allan i'r fferm, mae'r deunydd ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar ffermydd yn gyfyngedig (ac eithrio Cato et al. 2008, Sutherland et al. 2015, Sutherland et al. 2016). Fodd bynnag, er bod Cato et al. (2008) yn archwilio'r sector ynni adnewyddadwy yng Nghymru, mae'r ffocws ar yr elfennau entrepreneuriaidd. Yr oedd pob achos yn yr astudiaeth yn dangos ymgrych i ddarparu ynni i'r gymuned leol yn annibynnol

ar y Grid Cenedlaethol, gyda'r rhan fwyaf o'r achosion yn ymwneud â chynaliadwyedd. Mewn dau o'r achosion, canfuwyd mai materion ariannol oedd y ffactor pwysicaf. Nododd Sutherland et al. (2016) wrth ddadansoddi arallgyfeirio amaeth-amgylcheddol ar ffermydd yn yr Alban, fod ffermwyr ifanc addysgiedig sy'n derbyn cymorthdaliadau ac sy'n derbyn incwm y tu allan i'r fferm yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau amgylcheddol yn y dyfodol, sy'n cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae hyn yn gyson â gwaith Morris et al. (2017) sy'n dadansoddi strategaethau ffermydd yr ucheldir yng Nghymru. Mae Sutherland et al. (2015) yn cydnabod rôl allweddol amaethyddiaeth mewn trosglwyddo ynni adnewyddadwy gan fod amaethyddiaeth yn gyfrifol am reoli adnoddau allweddol fel tir a biomas.

Mae adroddiad Llywodraeth Cymru (2017b) ar gynhyrchu ynni yng Nghymru yn tynnu sylw at y ffaith bod y defnydd o ynni yng Nghymru wedi gostwng 17% rhwng 2005 a 2017. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth wedi gosod targed y bydd 70% o ddefnydd trydan Cymru yn dod o ynni adnewyddadwy erbyn 2030. Mae'r adroddiad yn nodi bod Cymru eisoes yn cynhyrchu 48% o'r targed hwn. Fodd bynnag, dim ond 22% o'r holl ynni a gynhyrchir yng Nghymru sy'n dod o ffynonellau adnewyddadwy, gan fod Cymru'n allforiwr net o drydan. Yng Nghymru, pŵer gwynt yw 51% o'r ynni adnewyddadwy a gynhyrchir.


Mae adroddiad Llywodraeth Cymru (2017b) yn tynnu sylw at amrywiadau rhanbarthol sylweddol rhwng awdurdodau lleol o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy a'r dulliau o gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Er enghraifft, awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot sy'n cynhyrchu'r swm mwyaf o ynni adnewyddadwy, y rhan fwyaf ohono o brosiectau gwynt ar y tir. Trydan biomas sy'n cael ei ddefnyddio'n bennaf i gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn Nhrefynwy, ond prosiectau trydan dŵr sydd fwyaf cyffredin yng Ngwynedd, tra bod Sir Benfro'n canolbwyntio ar ynni solar. Mae prosiectau masnachol mawr yn dylanwadu ar rai o'r ystadegau hyn; fodd bynnag, mae adnoddau lleol a rheoliadau cynllunio hefyd yn effeithio ar yr amrywiadau rhanbarthol hyn. Mae'n rhaid ystyried ffactorau o'r fath cyn y gall ffermwyr fabwysiadu'r math hwn o arallgyfeirio.

Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r astudiaethau ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy mewn amaethyddiaeth yn gyfyngedig. Fodd bynnag, mae astudiaeth Morris (2018) ar y defnydd o dechnoleg mewn amaethyddiaeth yn defnyddio data ynghylch mabwysiadu ynni adnewyddadwy gan ffermydd mynydd yng Nghymru. Trydan solar oedd y math mwyaf poblogaidd o ynni adnewyddadwy o bell ffordd, gyda 17.2% o ymatebwyr yn meddu ar baneli solar er mwyn cynhyrchu trydan. Mae poblogrwydd y paneli hyn yn gysylltiedig â chymhellion y Llywodraeth, tariffau cyflenwi trydan a'r defnydd o drydan ar ffermydd, yn enwedig ffermydd llaeth. Nid oedd gan 525 (71.1%) o'r 738 o ymatebwyr i'r arolwg unrhyw ynni adnewyddadwy ar y fferm. Mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ei ystyried os yw'n bwriadu cyflawni ei thargedau uchelgeisiol.

3. Methodoleg

Nod yr ymchwili yw archwilio rôl cynhyrchu ynni adnewyddadwy fel modd o gefnogi busnesau amaeth yng Nghymru. Oherwydd hynny, mae'r astudiaeth yn defnyddio dulliau cymysg er

mwyn ymchwilio'n fanwl i'r pwnc. I ddechrau, derbyniwyd 118 o ymatebion i holiadur ar-lein (gweler Ffigwr 1). Roedd y cwestiynau'n canolbwyntio ar weithgareddau incwm fferm ac ar yr ymrwymiad i ynni adnewyddadwy. Gwahaniaethwyd rhwng ffermwyr nad ydynt wedi mabwysiadu ynni adnewyddadwy yn rhan o arallgyfeirio ar y fferm. Yn gyntaf, defnyddiwyd ystadegau disgrifiadol er mwyn dadansoddi'r sampl fel a gyflwynwyd yn ffigyrau 2 a 3. Yna, aethpwyd ati i gynnal dadansoddiad meintiol gan ddefnyddio atchwel logistaidd (*logistic regression*) er mwyn dadansoddi'r berthynas rhwng y gwahanol newidynnau annibynnol.



Ffigwr 1: Lleoliad ymatebwyr i'r holiadur

Cynhaliwyd 15 o gyfweiliadau lled-strwythuredig dilynol er mwyn ymchwilio ymhellach i'r materion o'r holiadur cychwynnol. Defnyddiwyd dull samplu bwriadus (*purposive sampling*) i ganfod ffermwyr sydd eisoes wedi mabwysiadu ynni adnewyddadwy a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny (Yin 1989). Mae Tabl 6 yn amlinellu proffiliau'r cyfweilion. Diben y cyfweiliadau oedd cael dealltwriaeth ddyfnach o ymwybyddiaeth, agweddau a rhwystrau ffermwyr rhag mabwysiadu cynlluniau ynni adnewyddadwy. Roedd y cyfweiliadau (n=15)


yn amrywio rhwng 30 a 50 munud o hyd. Mae nifer y cyfweiliadau'n gyson ag astudiaethau eraill ar amaethyddiaeth (e.e. Warren 2004, Downey et al. 2017). Yn bwysicach, roedd y cyfweiliadau'n cyflawni dirlawnder data (*data saturation*) o ran themâu a chysyniadau (Francis et al. 2010). Dadansoddwyd data'r cyfweiliadau gan ddefnyddio proses chwe cham dadansoddi thematig Braun a Clarke (2006). Yn dilyn hynny, gwnaed cam terfynol y dadansoddi gan ddefnyddio dadansoddiad clwstwr dau gam gyda'r data meintiol ac ansoddol ('trionglu' yw'r term am y dull hwn o ddadansoddi). Llywiwyd y dadansoddiad clwstwr gan waith segmentu Morris et al. (2017) ac fe'i cynhaliwyd ym mhecyn dadansoddi SPSS (*Statistical Package for the Social Sciences*) gan ddefnyddio data arolwg er mwyn ymchwilio i ddata cwmnïau a allai egluro dulliau o ymdrin ag incwm y tu allan i'r fferm (Bacher et al. 2004, Mooi and Sarstedt 2011). Mae Tabl 8 yn amlinellu'r pum clwstwr a gafwyd o'r dadansoddiad. Mae'r adran nesaf yn rhoi canfyddiadau manwl o'r ymchwil.

4. Canlyniadau a Thrafodaeth

Mae'r rhan hon yn cyflwyno'r canlyniadau o'r ddau gymal ymchwil, gyda'r canlyniadau wedi eu seilio ar 118 o holiaduron a gwblhawyd gan ffermwyr, yn ogystal â 15 cyfweiliad dilynol.


Canlyniadau'r holiadur

Mae ystadegau disgrifiadol o'r holiadur yn dangos bod 62.7% o ymatebwyr yn derbyn incwm y tu allan i'r fferm. Mae Ffigwr 2 yn dangos bod ystod eang o weithgareddau ychwanegol yn amlwg, ond contractio oedd y gweithgaredd mwyaf poblogaidd, gyda 25.53% o ymatebwyr yn gwneud hyn. Roedd nifer o ymatebwyr hefyd yn ymwneud â gosod eiddo a thwristiaeth, gyda 11.76% o ymatebwyr yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy.



Ffigwr 2: Gweithgareddau incwm y tu allan i'r fferm

Ymhlith yr ymatebwyr nad oeddent yn ymwneud ag incwm y tu allan i'r fferm, mae'r rhesymau dros beidio â mabwysiadu ynni adnewyddadwy wedi eu cynnwys yn Ffigwr 3. Y rhesymau mwyaf cyffredin oedd diffyg amser ac adnoddau prin. Cyfeiriodd pedwar ymatebwr at gynlluniau i ymddeol yn hytrach na buddsoddi yn y fferm. Mae rhesymau eraill yn cynnwys nad oedd yn ddichonadwy, costau, penderfynu yn erbyn mabwysiadu ynni adnewyddadwy ac ansicrwydd ynghylch beth i'w wneud.



Ffigwr 3: Rhesymau dros beidio â mabwysiadu ynni adnewyddadwy

Atchwel logistaidd (logistic regression)

Cynhaliwyd dadansoddiad atchwel logistaidd er mwyn dadansoddi'r berthynas rhwng gwahanol newidynnau annibynnol, yn seiliedig ar bum elfen o fodel Sutherland et al. (2016) a'r newidyn dibynnol, sef derbyn incwm y tu allan i'r fferm. Dengys y canfyddiadau yn Nhabl 1 nad oedd unrhyw un o'r newidynnau nodweddiadol o ffermwyr yn arwyddocaol yn ystadegol, gan awgrymu nad oes un o'r newidynnau hyn yn dylanwadu ar dderbyn incwm y tu allan i'r fferm.

	Beta	Cyfeiliornad safonol	Arwyddocâd
Rhyw	-0.428	0.533	0.422
Oedran	0.227	0.198	0.252
Addysg	-0.106	0.182	0.562
Profiad	0.172	0.382	0.653
Cysonyn	-1.149	1.689	0.496
Chi ²	4.436		0.350
Cox and Snell R ²	0.037		
Nagelkerke R ²	0.050		
Canran y rhagfynegiadau cywir	61.90%		

Tabl 1: Nodweddion ffermwr

Mae'r canlyniadau yn Nhabl 2 yn dangos yr atchwel logistaidd ar gyfer newidynnau nodweddion busnes fferm. Gwelwyd un newidyn o bwys ystadegol, sef maint y fferm, gyda pherthynas gadarnhaol rhwng y newidyn hwn a derbyn incwm y tu allan i'r fferm yn awgrymu bod y tebygolrwydd o dderbyn incwm y tu allan i'r fferm yn cynyddu wrth i faint y fferm gynyddu.

	Beta	Cyfeiliornad safonol	Arwyddocâd
Ffermio teuluol	-0.063	0.492	0.898
Statws	-0.985	0.524	0.060
Math o fferm	-0.104	0.141	0.463
Maint y fferm	0.594*	0.259	0.022
Cysonyn	-0.700	1.482	0.637
Chi ²	12.077*		0.017
Cox and Snell R ²	0.097		
Nagelkerke R ²	0.133		
Canran y rhagfynegiadau cywir	66.10%		

*Arwyddocâd ystadegol ar lefel 0.05

Tabl 2: Nodweddion busnes fferm

Mae'r canlyniadau yn Nhabl 3 yn dangos nad oedd gan newidynnau arwyddocâd ystadegol ar gyfer y canfyddiadau a'r agweddau.

	Beta	Cyfeiliornad safonol	Arwyddocâd
Cymorthdaliadau oddi wrth y llywodraeth yn bwysig i'r busnes	-0.074	0.265	0.779
Cyfleoedd newydd i arallgyfeirio ers 2005	-0.317	0.281	0.260
Pwysig gadael y tir yn yr un cyflwr ag y'i derbyniwyd	0.402	0.338	0.235
Tir mewn cyflwr gwell na 2005	0.047	0.272	0.863
Manteision i'r amgylchedd yn sgil cynlluniau'r llywodraeth	-0.181	0.196	0.358
Cysonyn	-0.743	1.320	0.573
Chi ²	7.080		0.215
Cox and Snell R ²	0.058		
Nagelkerke R ²	0.079		
Canran y rhagfynegiadau cywir	61.00%		

Tabl 3: Canfyddiadau ac agweddau

Gwelwyd bod gan un newidyn arwyddocâd ystadegol ar gyfer y gwahanol fathau o ymddygiad. Mae Tabl 4 yn dangos perthynas negyddol rhwng newidiadau mewn cynhyrchu adnewyddadwy ers 2005 a derbyn incwm y tu allan i'r fferm. Awgryma hyn fod y rhai sydd wedi newid lefel eu cynhyrchiant adnewyddadwy ers 2005 yn llai tebygol o dderbyn incwm y tu allan i'r fferm.

	Beta	Cyfeiliornad safonol	Arwyddocâd
Arallgyfeirio yn angenrheidiol i'r fferm	-0.238	0.216	0.271
Arallgyfeirio yn bositif i'r fferm	0.016	0.279	0.955
Arallgyfeirio yn gwella safon y fferm	-0.135	0.229	0.557
Cymryd rhan mewn cynllun amaethyddol	0.059	0.443	0.894
Newid i lefel cynhyrchiant ynni adnewyddadwy ers 2005	-1.737**	0.557	0.002
Cysonyn	4.485	1.482	0.002
Chi ²	18.026**		0.003
Cox and Snell R ²	0.142		
Nagelkerke R ²	0.193		
Canran y rhagfynegiadau cywir	67.80%		

**Arwyddocâd ystadegol ar lefel 0.01

Tabl 4: Mathau o ymddygiadau

Dengys y canlyniadau yn Nhabl 5 na welwyd unrhyw newidynnau sydd o arwyddocâd ystadegol o ran y bwriadau ymddygiadol, gan awgrymu nad oedd gan y newidynnau hyn unrhyw ddylanwad ar y tebygolrwydd o dderbyn incwm y tu allan i'r fferm.

	Beta	Cyfeiliornad safonol	Arwyddocâd
Bwriad i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr y fferm	0.121	0.206	0.558
Cymryd rhan mewn cynlluniau amaethyddol	0.171	0.404	0.673
Derbyn ynni adnewyddadwy fel incwm y tu allan i'r fferm	-0.801	0.456	0.079
Newid mewn defnydd o ynni adnewyddadwy yn y dyfodol	0.230	0.489	0.638
Cysonyn	-0.688	1.289	0.594
Chi ²	3.447		0.486
Cox and Snell R ²	0.029		
Nagelkerke R ²	0.039		
Canran y rhagfynegiadau cywir	63.60%		

Tabl 5: Bwriadau ymddygiadol

Canlyniadau'r cyfweiliadau

Cynhaliwyd 15 cyfweiliad dilynol lled-strwythuredig gydag ymatebwyr i'r holiadur. Mae Tabl 6 yn amlinellu proffil y cyfweleion yn ôl maint y fferm, oedran y ffermwr, lleoliad y fferm a'u meddiant (neu ddiffyg meddiant) o ffynonellau ynni adnewyddadwy. Roedd wyth o'r pymtheg ymatebwr yn meddu ar ffynonellau ynni adnewyddadwy.

Cyfweilai	Maint y Fferm (erw)	Oedran	Lleoliad	Ynni Adnewyddadwy
A	600	35–44	Ceredigion	Ie
B	62	65+	Sir Gaerfyrddin	Na
C	650	35–44	Gwynedd	Ie
D	690	45–54	Powys	Ie
E	125	45–54	Sir Gaerfyrddin	Ie
F	250	35–44	Sir Benfro	Ie
G	1800	35–44	Ceredigion	Ie
H	1100	45–54	Gwynedd	Na
I	250	65+	Gorllewin Morgan- nwg	Ie
J	150	65+	Morgannwg Ganol	Na
K	460	45–54	Sir Benfro	Na
L	250	45–54	Gwent	Na
M	862	35–44	Powys	Ie
N	450	55–64	Powys	Na
O	250	45–54	Sir Benfro	Na

Tabl 6: Rhestr o gyfweleion

Dadansoddwyd data'r cyfweiliadau drwy ddadansoddi thematig, yn dilyn proses chwe cham Braun a Clarke (2006). Cafodd trawsgrifiadau gair am air o'r cyfweiliadau eu codio drwy broses o godio cylch cyntaf ac ail gylch (*first and second cycle coding*) (Miles et al. 2014), er mwyn i'r data gael eu cynrychioli gan themâu. Arweiniodd y broses codio cylch cyntaf at 245 cod o'r cyfweiliadau, a gafodd eu lleihau i 163 cod unigryw trwy gael gwared â dyblygu, a'i leihau ymhellach i 85 cod unigryw trwy godio ail gylch. Arweiniodd hyn at ffurfio pum thema (gweler Tabl 7), sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy mewn arallgyfeirio ar ffermydd. Mae'r rhain yn cynnwys adnoddau sydd ar gael i ffermydd, y cyfleoedd i arallgyfeirio, y cymhellion a'r rhwystrau i fabwysiadu ynni adnewyddadwy, a gweithgarwch cyffredinol y fferm. Trafodir pob thema yn y rhan nesaf.

Adnoddau	Cyfleoedd	Cymhellion	Rhwystrau	Gweithgareddau Fferm
- Cyfleoedd yng Nghymru trwy adnoddau naturiol - Argaeledd adnoddau yn lleihau risg - Angen ymchwil cyn mabwysiadu - Gwybodaeth am fusnes yn angenrheidiol - Adnoddau addas er mwyn derbyn ynni adnewyddadwy - Angen amser i fuddsoddi - Angen cymorth ariannol - Cyfleoedd trwy adnoddau tir.	- Arallgyfeirio mewn gweithgareddau ar y fferm a'r tu allan i'r fferm - Elw mawr gydag ynni adnewyddadwy - Datblygu ffermio effeithlon - Buddsoddi yn y fferm dros y cenedlaethau nesaf - Ailfuddsoddi incwm mewn rhagor o ynni adnewyddadwy - Lleoliad y fferm yn addas ar gyfer ynni adnewyddadwy - Arallgyfeirio'n ehangu'r risg o weithgareddau fferm.	- Mynediad i gyngor ar fuddsoddi - Ymwybyddiaeth o gyfleoedd arallgyfeirio - Maint y fferm - Tariffau cyflenwi da - Angen i bolisi'r Llywodraeth gefnogi ffermwyr - Cynhyrchu incwm - Ysgogiad i fuddsoddi - Cymharol hawdd i fabwysiadu ynni adnewyddadwy - Adenillion ar fuddsoddiad ffafriol - Parodrwydd i dderbyn ynni adnewyddadwy - Dichonoldeb ynni adnewyddadwy - Cymorthdaliadau	- Dichonoldeb - Ymwybyddiaeth isel o'r cymorth sydd ar gael - Cost buddsoddi - Mynediad i'r grid cenedlaethol - Capasiti'r grid - Risg ariannol - Fferm mewn lleoliad gwledig - Lefel isel o gysylltedd - Cymorth ariannol prin - Gostyngiad yn y tariff cyflenwi - Adnoddau prin - Cyfyngiadau cynllunio - Rheoliadau - Ansicrwydd mewn ffermio oherwydd Brexit - Cyfraddau gweithredu	- Cadw cydbwysedd rhwng sawl ffordd o arallgyfeirio - Dysgu parhaus mewn ffermio - Arloesedd mewn ffermio - Cadw i fyny â newidiadau mewn ffermio - Rheolaeth fferm yn bwysig ar gyfer ynni adnewyddadwy - Angen i ynni adnewyddadwy fod yn hunangynhaliol - Nid yw pob dull yn addas i bob fferm - Incwm oddi ar y fferm yn digolledu'r cyfnodau anodd ar y fferm - Amseru buddsoddiad yn bwysig.

Tabl 7: Themâu yn deillio o'r broses ddadansoddi

Adnoddau

Mae ymatebwyr yn cydnabod bod digonedd o adnoddau naturiol yng Nghymru yn rhoi cyfleoedd i ffermwyr arallgyfeirio at ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, mae'r math o ynni adnewyddadwy sy'n cael ei fabwysiadu yn amrywio yn ôl amodau penodol y fferm. Ystyrir bod trydan dŵr yn ffynhonnell ynni ddymunol oherwydd adenillion uchel posibl; fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar lefelau llif y dŵr. Mae sawl ymatebwr wedi gosod paneli solar neu dyrbinau gwynt sy'n addas ar gyfer ffermydd. Mae'n bosibl gosod tyrbinau gwynt ar dir fferm, ac mae toeon adeiladau fferm yn addas ar gyfer lleoli paneli solar. Nid yn unig y mae adnoddau fferm yn cynnig cyfleoedd ar gyfer mabwysiadu ynni adnewyddadwy, gwelir mathau eraill o arallgyfeirio, gan gynnwys twristiaeth, cynhyrchu bwyd, garddwriaeth, neu weithgareddau ffermio amgen, megis magu dofednod (*poultry*). Yn ôl ymatebwr G:

Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i wneud y gorau o botensial y fferm.
Mae gan bob fferm agweddau gwahanol y gellir eu defnyddio.

Yn ôl yr ymatebwyr, roedd yr adnoddau a oedd ar gael yn golygu eu bod yn llai tebygol o fabwysiadu dulliau o gynhyrchu ynni adnewyddadwy, sy'n fuddsoddiad sylweddol i ffermwyr. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd fod cymorth yn hanfodol i arwain ffermwyr i fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, yn enwedig adnoddau ariannol, amser a chyngor busnes.

Cyfleoedd

Fel y soniwyd uchod, roedd ymatebwyr yn cydnabod bod adnoddau naturiol yn cynnig cyfleoedd i ffermwyr arallgyfeirio, yn enwedig at ynni adnewyddadwy, ynghyd â thwristiaeth neu weithgareddau ffermio amgen. Roedd y cyfleoedd hyn yn dibynnu ar leoliad y fferm, a olygai fod rhai dulliau o gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn ddichonadwy, megis lleoli tyrbinau gwynt, neu fynediad at lif dŵr ar gyfer trydan dŵr. Dywedodd ymatebwyr fod y gweithgareddau amgen yn ffynhonnell incwm hanfodol er mwyn i'r fferm wneud yn iawn am gyfnodau anodd mewn ffermio, a'r anhawster o ran gwneud bywoliaeth gyfforddus o weithgareddau fferm yn unig. Ystyrir bod gweithgareddau arallgyfeirio y tu allan i'r fferm yn ffordd bwysig o leihau'r risg ariannol sy'n perthyn i bob gweithgaredd fferm, gan fod hyn yn darparu gwahanol ffrydiau incwm ar gyfer y fferm:

I'w wneud yn fusnes dichonadwy, mae angen incwm ar wahân i ddefaid.
Allech chi gadw 500 o ddefaid a fyddech chi'n dal ddim yn gwneud bywoliaeth. Ond wedyn mae gen ti dwristiaeth. A'r peth arall yw ynni adnewyddol. Gan ein bod ni wrth y môr, byddwn i wedi meddwl bod mwy o wynt yma. Dylai hynny gyfiawnhau adeiladu melin wynt. (Ymatebwr B)¹

¹ Cyfweiliad wedi ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg a'r dyfyniad wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg gan yr awduron.

Roedd ymatebwyr C a G yn nodi incwm a gynhyrchwyd o ynni adnewyddadwy fel hanner cyfanswm incwm y fferm. I'r ymatebwyr hyn, mae gweithgareddau ynni adnewyddadwy ar y fferm yn creu elw mawr, sy'n ychwanegu at yr apêl o ran buddsoddi mewn gweithgareddau o'r fath. Cyfeiriodd ymatebwyr at gyfleoedd i ddefnyddio incwm a gynhyrchir o ynni adnewyddadwy cychwynnol er mwyn buddsoddi ymhellach mewn ffynonellau ynni adnewyddadwy yn ddiweddarach. Yn ogystal, cafodd y buddsoddiadau a wnaed mewn ffynonellau ynni adnewyddadwy eu cydnabod fel cyfle i sicrhau dyfodol hirdymor y fferm ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Nid yn unig y mae'r buddion o ynni adnewyddadwy i'w gweld yn yr incwm a grëir, ond mae buddsoddi mewn ffynonellau ynni adnewyddadwy hefyd yn bwysig o ran arbed costau i'r fferm, wrth i'r ynni gael ei ddefnyddio i drydanu gweithgareddau'r fferm, ac felly'n datblygu arfer mwy effeithlon i'r fferm.

Cymhellion

Roedd trydedd thema'r cyfweiliadau yn ymwneud â'r cymhellion i fabwysiadu ynni adnewyddadwy fel ffynhonnell incwm y tu allan i'r fferm. Er gwaethaf y cyfleoedd a nodwyd uchod, cyfeiriodd ymatebwyr at ysgogwyr a ddylanwadodd ar y penderfyniad i fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy. Roedd hyn yn cynnwys dichonoldeb y fferm i gynhyrchu incwm, a gallai maint y fferm ddylanwadu ar hyn. Ystyrid bod ffynonellau ynni adnewyddadwy yn atyniadol os yw'r adenillion ar y buddsoddiad yn ffafriol. Cyfeiriodd ymatebwyr at gymhellion sy'n dylanwadu ar eu penderfyniad i fuddsoddi, gan gynnwys cymorthdaliadau, cymorth ariannol, cyngor a thariffau cyflenwi da. Er gwaethaf hyn, cydnabyddir i'r amodau fynd yn llai ffafriol dros y blynyddoedd diwethaf, pan welwyd gostyngiad yn y tariff cyflenwi, gan wneud buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy yn llai deniadol. O ganlyniad, roedd ymatebwyr yn galw am bolisi gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi ffermwyr i fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy.

Y prif beth ar y pryd oedd y tariff cyflenwi. Roedden nhw jyst mor dda. Hynny a'r cynilion roedd hynny'n eu rhoi i chi. Ni fyddai'r diwydiant adnewyddadwy wedi codi oddi ar ei draed heblaw am y tariff bwydo i mewn ... Daeth y tariff cyflenwi trydan i ben ar 31 Mawrth, felly does dim cymhelliad i unrhyw un arall fuddsoddi ynddo. (Ymatebwr F)²

Rhwystrau

Fel y trafodwyd uchod, nodwyd y gostyngiad yn y tariffau cyflenwi trydan gan ymatebwyr fel mater cyfredol sy'n rhwystr i fuddsoddi ymhellach mewn ynni adnewyddadwy, ac yn wir fel rhwystr rhag mabwysiadu ynni adnewyddadwy. I ymatebwyr heb ynni adnewyddadwy, nodwyd mai'r prif reswm dros beidio â buddsoddi oedd nad oedd yn ddichonadwy. Mae rhwystrau eraill yn cyfeirio at gost buddsoddi, risg ariannol, cefnogaeth gyfyngedig, ac ymwybyddiaeth gyfyngedig o ran lle i gael cymorth. Mae amodau fferm, megis lleoliad

² Cyfweiliad wedi ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg a'r dyfyniad wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg gan yr awduron.

ynysig a chysylltedd cyfyngedig, hefyd yn effeithio ar ddichonoldeb fferm i gynhyrchu digon o incwm o ynni adnewyddadwy. Mae rhwystrau'r amgylchedd allanol yn cynnwys cyfyngiadau cynllunio (megis yn achos ymatebwr C, gan fod ei fferm mewn Parc Cenedlaethol), rheoliadau, ac ansicrwydd yn y diwydiant, yn enwedig oherwydd Brexit, sy'n cymhell ffermwyr i beidio â buddsoddi. Roedd rhwystrau ychwanegol i fuddsoddi pellach mewn ynni adnewyddadwy, yn cynnwys ffermwyr yn cael mynediad i'r Grid Cenedlaethol, yn arbennig oherwydd bod y grid yn llawn, gan gyfyngu ar allu ffermwyr i fwydo ynni i'r grid.

Yn ein hardal ni, mae gwrthwynebiad eithaf llym i dyrbinau gwynt a phaneli solar, a dyw ein cysylltiad â'r grid ddim yn ddigon i ganiatáu hynny. Dydw i ddim yn meddwl bod capasiti sbâr ar ôl yn y grid lleol beth bynnag. (Ymatebwr K)

Gweithgareddau fferm

Roedd yr ymatebion ychwanegol o'r cyfweiliadau yn ymwneud â gweithgarwch fferm yn ehangach. Cydnabuwyd bod arallgyfeirio, yn enwedig mewn ffynonellau ynni adnewyddadwy, yn rhan annatod o weithgaredd fferm ar hyn o bryd; mae hon yn ffordd bwysig o leihau'r risg ar draws ystod o weithgareddau, oherwydd gall yr incwm y tu allan i'r fferm wneud yn iawn am gyfnodau anodd mewn ffermio. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw pob fferm yn addas ar gyfer arallgyfeirio mewn ynni adnewyddadwy, gan fod hyn yn dibynnu ar faint, lleoliad ac adnoddau'r fferm.


Os na all fferm o'r maint hwn ei wneud, does dim llawer o obaith i ffermydd 200 erw. Ac rwy'n credu ein bod ni'n ddigon cryf i basio hynny. Ffermydd llai, hanner y maint, maen nhw'n mynd i gael trafferth. (Ymatebwr A)

O ystyried lefel y buddsoddiad, gall ffermydd ystyried mathau eraill o arallgyfeirio, megis twristiaeth, cynhyrchu bwyd, garddwriaeth, neu ddulliau amgen o ffermio. Mae amseru'r buddsoddiad yn bwysig oherwydd amodau newidiol ffermio, gan gynnwys gwahanol lefelau o elw yn sgil newidiadau yn y tariffau ynni. Cyfeiriodd ymatebwyr at fuddsoddi mewn incwm y tu allan i'r fferm fel modd o fuddsoddi yn y fferm yn yr hirdymor. Byddai'n wasanaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a hefyd yn arloesi'r ffordd y mae'r fferm yn gweithredu, gan ei fod yn golygu buddsoddi mewn technoleg. Er enghraifft, buddsoddodd ymatebydd F mewn awtomeiddio yn ogystal â mabwysiadu ynni adnewyddadwy. Mae hyn yn rhan o ddatblygiad parhaus y fferm ac yn cael ei weld fel rheolaeth dda arni.

O'n i eisiau £100,000 y flwyddyn o incwm y tu allan i'r fferm, fel y byddwn yn gallu neud rhywbeth arall gyda fe, neu petai cyfnod gwael mewn ffermio, fel sy'n gallu digwydd, gallai hynny wedyn gadw'r fferm i fynd. Felly dyna fy nod, beth bynnag.³ (Ymatebwr F)

³ Cyfweiliad wedi ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg a'r dyfyniad wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg gan yr awduron.

Mae'r themâu sy'n deillio o'r dadansoddiad thematig yn tanlinellu nifer o gyfleoedd a rhwystrau y mae ffermwyr yn eu hwynebu wrth arallgyfeirio ar ffermydd, yn enwedig o ran ffynonellau ynni adnewyddadwy. Mae Ffigwr 2 yn amlinellu effaith y materion hyn ar wahanol gamau yn y broses o fuddsoddi mewn cynlluniau ynni adnewyddadwy ar gyfer arallgyfeirio ar ffermydd, eu derbyn a'u gweithredu. Mae cyfleoedd yn y cam buddsoddi'n bodoli ar gyfer arallgyfeirio mewn gwahanol ffyrdd, yn dibynnu ar natur y fferm a'i hadnoddau. Fodd bynnag, mae'r weledigaeth a'r dymuniad yn effeithio ar hyn hefyd wrth geisio mabwysiadu ynni adnewyddadwy ar gyfer creu incwm y tu allan i'r fferm. Mae'r rhwystrau ar y cam hwn yn cynnwys cymorth cyfyngedig, adnoddau cyfyngedig, cyfyngiadau cynllunio, costau uchel a risg, yn ogystal â gallu ffermwyr i newid. Mae cyfleoedd yn y cam mabwysiadu'n cyfeirio at ffermydd yn gwneud defnydd llawn o'u hadnoddau i arloesi ac addasu i newidiadau yn y diwydiant. Gall arallgyfeirio hefyd helpu i leihau'r risg ar draws amrywiaeth o weithgareddau ar y fferm. Mae heriau'n bodoli yn sgil rheoliadau, risg a materion sy'n ymwneud â lleoliad ynysig y fferm, megis diffyg cysylltiadau. Unwaith y bydd cynllun wedi ei osod yn ei le, mae cyfleoedd ar gael i ffermydd ddatblygu twf cynyddol. Mae ynni adnewyddadwy yn cynnig elw sylweddol, felly gallai ffermydd ailfuddsoddi incwm o'r buddsoddiad cychwynnol mewn mathau eraill o ynni adnewyddadwy. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at y posibilrwydd o storio batris fel gweithgaredd a allai fod yn broffidiol, gan y byddai hynny'n galluogi i ynni a ddatblygir drwy ffynonellau adnewyddadwy gael ei storio ac yna ei fwydo i'r Grid Cenedlaethol. Mae rhwystrau'n bodoli ar hyn o bryd, yn enwedig cost cynnal gweithgareddau adnewyddadwy, adenillion anffafriol ar fuddsoddiad a chyfraddau lleoli anffafriol, yn dibynnu ar y math o ynni adnewyddadwy. Roedd ymatebwyr hefyd yn cydnabod cyfyngiadau o ran capasiti'r grid, sy'n cyfyngu ar y cyfleoedd i ffermwyr fwydo ynni yn ôl i'r grid. Yn ogystal, soniodd ymatebwyr am broblemau mewn perthynas â chwmnïau'n manteisio ar gyfleoedd mewn ynni adnewyddadwy, yn enwedig pan oedd tariffau bwydo i mewn yn uchel, a oedd yn ei gwneud yn fwy anodd i unigolion fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy.



Ffigwr 4: Cyfleoedd a rhwystrau ym mhob cam o fabwysiadu ynni adnewyddadwy

Dadansoddiad clwstwr

Cynhaliwyd dadansoddiad clwstwr dau gam yn SPSS, gan ddefnyddio data arolwg er mwyn ymchwilio i ddata cwmnïau a allai egluro dulliau o ymdrin ag incwm y tu allan i'r fferm. Llywiwyd y gwaith gan ymchwil segmentu Morris et al. (2017) a ganfu mai'r '*resource maximisers*', sef y rhai a oedd yn rhan o weithgareddau incwm fferm ac yn cymryd rhan mewn cynlluniau amgylcheddol, sydd fwyaf tebygol o fabwysiadu technoleg adnewyddadwy. Mae Tabl 8 yn amlinellu'r pum clwstwr a gafwyd o'r dadansoddiad, gyda'r mewnbynnau wedi eu rhestru yn nhrefn gwerth y rhagfynegydd, lle y mae maint y fferm ac incwm y tu allan i'r fferm yn cael eu rhestru fel y mewnbynnau pwysicaf (1.0), a newidyn y 'teulu' yw'r mewnbwn lleiaf pwysig (0.05). Mae'r canlyniadau'n dangos cynrychiolaeth gymharol gyfartal o bob clwstwr, gyda meintiau'n amrywio o 18.6% i 21.2%. Ar gyfer pob mewnbwn, rhestrir y categori gyda'r ganran fwyaf, gyda chanran y categori hwnnw wedi ei nodi mewn cromfachau. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod y prif wahaniaethau'n cael eu gweld rhwng y mewnbynnau sy'n ymwneud ag incwm y tu allan i'r fferm, maint ffermydd, addysg, oed ac ynni adnewyddadwy. Mae arsylwadau'n dangos tri chlwtwr gydag incwm y tu allan i'r fferm, a chlwtwr 2 yw'r unig un sy'n meddu ar ffynonellau ynni adnewyddadwy. Mae clystyrau 3 a 4 yn derbyn incwm y tu allan i'r fferm ond heb fynediad at ynni adnewyddadwy. Mae hyn yn awgrymu bod aelodau'r clwtwr hwn yn cydnabod y cyfleoedd i arallgyfeirio, ond eu bod wedi dilyn gweithgareddau eraill. Mae hyn yn golygu y gallai fod potensial i ffermydd o fewn y clystyrau hyn i ddilyn gweithgareddau ynni adnewyddadwy yn y dyfodol. Mae dau glwtwr yn gweithredu heb incwm y tu allan i'r fferm, ac mae gan y ddau ohonynt fynediad at ffynonellau ynni adnewyddadwy. Mae clwtwr 1 yn cynrychioli fferm ddefaid a gwartheg ucheldir, ganolig ei maint, gan fwyaf, tra bod clwtwr 5 yn cynrychioli fferm wartheg a defaid, fechan o ran maint, yn yr iseldir. Gan fod gan y ddau fynediad at ynni adnewyddadwy, mae arallgyfeirio mewn ynni adnewyddadwy yn bosiblwydd. Fodd bynnag, gallai'r rhesymau dros beidio â mabwysiadu ynni adnewyddadwy gynnwys diffyg awydd, yn enwedig yn achos clwtwr 5, gan fod y clwtwr hwn yn bennaf yn cynrychioli ffermwyr yn yr ystod oedran 65 a throsodd a all fod yn ystyried ymddeol yn hytrach na buddsoddi yn y fferm. Er mai hwnnw yw'r mewnbwn lleiaf pwysig, mae canran newidyn y 'teulu' yn uchel ym mhob clwtwr, sy'n dangos bod angen cymorth i deuluoedd ar bob math o fferm, gan awgrymu y gallai'r adnoddau fod yn gyfyngedig.

Mewnbynnau	1	2	3	4	5
Maint y fferm (1.00)	100.01–1000 hectar (66.7%)	50.01–100 hectar (36%)	100.01–1000 hectar (87.5%)	10.01–50 hectar (68.2%)	50.01–100 hectar (82.6%)
Incwm y tu allan i'r fferm (1.00)	Nac oes (91.7%)	Oes (100%)	Oes (62.5%)	Oes (100%)	Nac oes (56.5%)
Statws (0.86)	Perchennog (79.2%)	Tenant (76%)	Perchennog (95.8%)	Perchennog (90.9%)	Perchennog (100%)
Addysg (0.66)	Addysg Bellach (79.2%)	Addysg Uwch (56%)	Addysg Uwch (66.7%)	Addysg Uwch (54.5%)	Ysgol yn unig (52.2%)

Oedran (0.48)	55–64 (54.2%)	55–64 (40%)	55–64 (33.3%)	45–54 (54.5%)	65 a throsodd (52.2%)
Ynni adnewydd- adwy (0.42)	Oes (79.2%)	Oes (76%)	Nac oes (70.8%)	Nac oes (72.7%)	Oes (78.3%)
Rhyw (0.28)	Gwryw (75%)	Gwryw (56%)	Gwryw (91.7%)	Gwryw (90.9%)	Gwryw (100%)
Math o fferm (0.19)	Defaid a gwartheg, ucheldir (37.5%)	Defaid a gwartheg, ucheldir (40%)	Defaid a gwartheg, ucheldir (29.2%)	Defaid mynydd (36.4%)	Defaid a gwartheg, iseldir (34.8%)
Profiad (0.16)	Dros 20 mlynedd (100%)	Dros 20 mlynedd (68%)	Dros 20 mlynedd (70.8%)	Dros 20 mlynedd (86.4%)	Dros 20 mlynedd (91.3%)
Teulu (0.05)	Oes (87.5%)	Oes (76%)	Oes (83.3%)	Oes (63.6%)	Oes (65.2%)
Maint y clwstwr	20.3%	21.2%	20.3%	18.6%	19.5%

Tabl 8: Dadansoddiad Clwstwr

5. Casgliad

Mae'r ymchwil a gyflwynir yn yr erthygl hon yn adeiladu ar waith blaenorol ar strategaethau incwm ffermydd, gweithgareddau arallgyfeirio a mabwysiadu technoleg yng Nghymru gan Morris et al. (2017) a'r model cysyniadol o ymddygiad arallgyfeirio amaeth-amgylcheddol gan Sutherland et al. (2016) er mwyn ymchwilio i faterion arallgyfeirio mewn ynni adnewyddadwy mewn mannau gwledig yng Nghymru. Fel y noda Sutherland et al. (2016), mae'r erthygl hon yn canfod awydd ymhlith ffermwyr Cymru i chwilio am gyfleoedd incwm y tu allan i'r fferm, yn bennaf er mwyn ychwanegu at eu hincwm. Mae canfyddiadau meintiol yn dangos ffermwyr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau arallgyfeirio, ond er gwaethaf cyfleoedd cydnabyddedig mewn ynni adnewyddadwy, 11.76% yn unig o weithgarwch arallgyfeirio y mae hyn yn ei gynrychioli, sy'n gyfartal â thwristiaeth. Mae canfyddiadau ar draws yr astudiaeth yn tanlinellu bodolaeth adnoddau a chyfleoedd i arallgyfeirio tuag at ynni adnewyddadwy, ond fel y dangoswyd yn y cyfweiliadau, mae'r ffaith bod rhwystrau'n bodoli yn golygu bod ffermwyr yn dibynnu ar gymorth, fel mynediad at gymorth ariannol, tariffau cyflenwi ffafriol a chynllunio ffafriol, er mwyn goresgyn yr heriau wrth fuddsoddi mewn ffynonellau ynni adnewyddadwy. Gan fod ffermwyr Cymru yn tueddu i ddangos agwedd adweithiol i fabwysiadu technoleg (Bowen a Morris 2019), mae angen i'r Llywodraeth roi anogaeth i fabwysiadu ynni adnewyddadwy. Mae canlyniadau'r dadansoddiad thematig yn dangos bod cyfleoedd ar gael i ffermwyr arallgyfeirio tuag at ynni adnewyddadwy er gwaethaf yr heriau, fel y dangoswyd yn Ffigwr 4. Er bod y dadansoddiad clwstwr yn dangos bod gan sawl math o fferm y gallu i arallgyfeirio, nid oes gan bob math o fferm y gallu i arallgyfeirio tuag at ynni adnewyddadwy, a hynny oherwydd prinder ynni adnewyddadwy.

Felly, bydd ffermydd yn manteisio o dderbyn cymorth er mwyn datblygu'r seilwaith i sefydlu ffynonellau ynni adnewyddadwy ar y fferm.

Mae'r ymchwil yn tanlinellu bod cyfleoedd ar gael yng Nghymru drwy ei hadnoddau naturiol i hyrwyddo ynni adnewyddadwy, gyda thirwedd addas iawn ar draws y wlad ar gyfer pob math o ynni adnewyddadwy, gan gynnwys ynni gwynt, solar, biomas, neu drydan dŵr. Gyda phwyslais cynyddol ar yr amgylchedd ac ar weithgareddau cynaliadwy, mae rhesymau da dros fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Mae nifer o enghreifftiau o brosiectau cymdeithasol i greu egni adnewyddadwy ar draws Cymru, e.e. prosiect Ynni Ogwen, cymdeithas er budd cymunedol yn Nyffryn Ogwen sy'n cynhyrchu ynni o ddŵr afon Ogwen, gydag unrhyw elw yn cael ei drosglwyddo i gronfa gymunedol er mwyn ariannu prosiectau cymunedol ac amgylcheddol eraill yn Nyffryn Ogwen (Partneriaeth Ogwen 2019). Mae'n bosibl i ffermwyr chwarae rôl allweddol mewn prosiectau tebyg i hyn trwy rannu adnoddau â'r gymdeithas.

Yn dilyn ymchwil empirig ymysg ffermwyr Cymru, cyfraniad yr erthygl yw clystyru busnesau fferm. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod y prif wahaniaethau'n cael eu gweld rhwng y mewnbynnau sy'n ymwneud ag incwm y tu allan i'r fferm, maint ffermydd, addysg ac oedran y ffermwr ac ynni adnewyddadwy. Dengys yr arsylwadau dri chlwstwr sy'n derbyn incwm y tu allan i'r fferm, ond clwstwr 2 yw'r unig un sy'n meddu ar ffynonellau ynni adnewyddadwy. Mae'r categorïddio hwn yn nodi amrywiad yn nifer o nodweddion gwahaniaethol ffermwyr Cymru. Mae'r canfyddiadau'n arwain at segmentu ffermwyr, sy'n caniatáu gwahaniaethu rhwng agweddau gwahanol ar arallgyfeirio a mabwysiadu ffynonellau ynni adnewyddadwy, gan arwain at well dealltwriaeth o entrepreneuriaeth amgylcheddol. Er bod y dadansoddiad atchwel o ddata'r arolwg yn dangos diffyg nodweddion gwahaniaethol sy'n dylanwadu ar incwm y fferm, roedd yn amlwg bod maint y fferm yn bwysig.

Mae goblygiadau'r ymchwil yn amlwg ar gyfer ymarfer a pholisi. Mae'r data yn Ffigwr 4 yn hysbysu'r diwydiant ffermio am gyfleoedd a rhwystrau i arallgyfeirio tuag at ynni adnewyddadwy ym mhob cam o'r broses fuddsoddi, mabwysiadu a gweithredu. O ran polisi, byddai'r ymchwil yn hysbysu Llywodraeth Cymru am bwysigrwydd ynni adnewyddadwy i'r economi wledig a sut y gellid elwa ar adnoddau naturiol mewn mannau gwledig yng Nghymru ar gyfer entrepreneuriaeth amgylcheddol. Yn ogystal, mae canfyddiadau'r ymchwil yn dangos bod angen i Lywodraeth Cymru gynghori ffermwyr i arallgyfeirio, a hefyd i lywio polisiâu tuag at hwyluso'r cynnydd mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy drwy bolisiâu cynllunio, rheoleiddio a seilwaith, gan fod y data ansoddol yn amlygu hynny fel cyfyngiad. O ganlyniad, gallai'r ymchwil hefyd roi gwybod i'r Llywodraeth bod angen iddi gefnogi datblygiad cwmnïau ynni cynaliadwy Cymru drwy fanteisio ar adnoddau naturiol yn y Gymru wledig. Mae'r astudiaeth yn rhoi cipolwg ar y nifer bychan sy'n manteisio ar dechnolegau ynni adnewyddadwy. Mae i'r gwaith ddylanwad ehangach y tu hwnt i Gymru o ran rhoi arweiniad i ardaloedd gwledig a llywodraethau mewn perthynas â'r rôl o gynhyrchu ynni adnewyddadwy wrth gefnogi economïau gwledig. Wrth gloi, argymhellir bod angen buddsoddi'n sylweddol mewn seilwaith o ranbarthau gwledig er mwyn manteisio ar gyfleoedd mewn entrepreneuriaeth amgylcheddol.

Cydnabyddiaeth

Mae'r awduron yn ddolchgar iawn i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am gefnogi'r astudiaeth hon gyda grant bach.

Llyfryddiaeth

- Armstrong, E. (2016), *Research briefing: The farming sector in Wales. National Assembly of Wales*. <<http://www.assembly.wales/research%20documents/16-053-farming-sector-in-wales/16-053-web-english2.pdf>> [Cyrchwyd: 15 Awst 2017].
- Bacher, J., Wenzig, K., & Vogler, M. (2004), *SPSS Two Step Cluster – a first evaluation* (Berlin, DE: Lehrstuhl für Soziologie), tt. 578–88.
- Bowen, R., a Morris, W. (2019), 'The digital divide: Implications for agribusiness and entrepreneurship. Lessons from Wales', *Journal of Rural Studies*, 72, 75–84.
- Braun, V., a Clarke, V. (2006), 'Using thematic analysis in psychology', *Qualitative Research in Psychology*, 3 (2), 77–101.
- Cato, M. S., et al. (2008), 'Entrepreneurial energy: associative entrepreneurship in the renewable energy sector in Wales', *International Journal of Entrepreneurial Behavior & Research*, 14 (5), 313–29.
- Downey, H., Threlkeld, G., a Warburton, J. (2017), 'What is the role of place identity in older farming couples' retirement considerations?', *Journal of Rural Studies*, 50, 1–11.
- European Commission (2020), *Renewable energy directive* <<https://ec.europa.eu/energy/en/topics/renewable-energy/renewable-energy-directive/overview#national-action-plans-and-progress-reports>> [Cyrchwyd: 7 Ionawr 2020].
- Francis, J. J., et al. (2010), 'What is an adequate sample size? Operationalising data saturation for theory-based interview studies', *Psychology & Health*, 25, 1229–245.
- House of Commons (2011), *Environment, Food and Rural Affairs Committee. Farming in the Uplands. Third Report of Session 2010–11, Vol 1*, <<https://publications.parliament.uk/pa/cm201011/cmselect/cmenvfru/556/556.pdf>> [Cyrchwyd: 30 Tachwedd 2018].
- Leck, C., Evans, N. ac Upton, D. (2014), 'Agriculture – Who cares? An investigation of “care farming” in the UK', *Journal of Rural Studies*, 34, 313–25.
- Llywodraeth Cymru (2007), *Cynllun Datblygu Gwledig Cymru: 2007–2013*, <<https://businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/sites/walesruralnetwork/files/documents/Ex-post%20Evaluation%20Report%202007%20-%202013%20CY.pdf>> [Cyrchwyd: 9 Tachwedd 2016].
- Llywodraeth Cymru (2014), *Rural Development Programme: 2014–2020*, <<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/?lang=en>> [Cyrchwyd: 28 Ionawr 2018].
- Llywodraeth Cymru (2017a), *Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi*, <<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi.pdf>> [Cyrchwyd: 12 Rhagfyr 2017].

- Llywodraeth Cymru (2017b) *Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2017*. <<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cynhyrchu-ynni-adroddiad-2017.pdf>> [Cyrchwyd: 1 Gorffennaf 2019].
- Malterud, K., Siersma, V. D., a Guassora, A. D. (2016), 'Sample size in qualitative interview studies: guided by information power', *Qualitative health research*, 26 (13), 1753–760.
- Marsden, T., a Sonnino R. (2008), 'Rural development and the regional state: Denying multifunctional agriculture in the UK', *Journal of Rural Studies*, 24, 422–31.
- McElwee, G., a Bosworth, G. (2010), 'Exploring the strategic skills of farmers across a typology of farm diversification approaches', *Journal of Farm Management*, 13 (12), 819–38.
- Midmore, P. (2011), 'Food and the Economy in Wales', *Welsh Economic Review*, 22, 29–31.
- Miles, M. B., Huberman, A. M., a Saldaña, J. (2014), *Qualitative Data Analysis* (SAGE Publications, Thousand Oaks, CA).
- Mooi, E., a Sarstedt, M. (2011), *Cluster Analysis* (Berlin, Springer).
- Morris, W., 'Technology Adoption, Entrepreneurship and Efficiency in Agricultural Businesses: The Case of Upland Sheep Farmers in Wales', traethawd PhD, Prifysgol Aberystwyth, 2018.
- Morris, W., Henley, A., a Dowell, D. (2017), 'Farm diversification, entrepreneurship and technology adoption: Analysis of upland farmers in Wales', *Journal of Rural Studies*, 53, 132–43.
- Partneriaeth Ogwen (2019), 'Ynni Ogwen', <<https://www.ogwen.org/cy/cynladwyedd/ynni-ogwen/>> [Cyrchwyd: 8 Ionawr 2020].
- Pollock, C. (2012), 'Repairing a fractured pipeline: improving the effectiveness of agricultural R & D in the UK', *International Journal of Agricultural Management*, 2 (1), 1–4.
- Reed, M. S., et al. (2009), 'The future of the uplands', *Land Use Policy*, 26, 204–16.
- Roberts, K. (2014), *Review into the resilience of Welsh farming. Independent review, Welsh Government*, <<http://gov.wales/docs/drah/publications/140128-resilience-review-kevin-roberts-full-report-en.pdf>> [Cyrchwyd: 22 Mehefin 2016].
- Suess-Reyes, J., a Fuetsch, E. (2016), 'The future of family farming: A literature review on innovative, sustainable and succession-oriented strategies', *Journal of Rural Studies*, 47, 117–40.
- Sutherland, L. A., Peter, S., a Zagata, L. (2015), 'Conceptualising multi-regime interactions: The role of the agriculture sector in renewable energy transitions', *Research Policy*, 44 (8), 1543–54.
- Sutherland, L. A., et al. (2016), 'Agri-environmental diversification: Linking environmental, forestry and renewable energy engagement on Scottish farms', *Journal of Rural Studies*, 47, 10–20.
- Warren, M. (2004), 'Farmers online: drivers and impediments in adoption of Internet in UK agricultural businesses', *Journal of Small Business and Enterprise Development*, 11, 371–81.

- Winter, M., a Lobley, M. (goln) (2009), *What is Land For? The Food, Fuel and Climate Change Debate* (Earthscan: London).
- Yin, R. K. (1989), *Case Study Research: Design and methods*, argraffiad a ddiweddarwyd (Sage Publications: Newbury Park, CA).

Cyfranwyr

Huw L. Williams

Mae Huw L. Williams yn uwch-ddarlithydd mewn Athroniaeth ac yn ddarlithydd cysylltiol gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ei ddiddordebau pennaf yw athroniaeth wleidyddol a hanes meddwl gwleidyddol, ac mae'n awdur y golofn 'Socrates ar y Stryd' ar gyfer cylchgrawn *O'r Pedwar Gwynt*. Y mae wedi ysgrifennu'n helaeth ar John Rawls a chyfiawnder byd-eang, ac mae ar fin cyhoeddi cyfrol arall yn y Gymraeg gyda Gwasg Prifysgol Cymru, sef *Ysbryd Morgan: Adferiad y Meddwl Cymreig*. Ef yw Deon y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd.

Wyn Mason

Bu Wyn Mason yn uwch-ddarlithydd yng Nghyfadran y Diwydiannau Creadigol, Prifysgol De Cymru, ers 2005. Yn dilyn ei yrfa fel gwneuthurwr ffilm a theledu, troes ei sylw at ysgrifennu dramâu llwyfan. Ar ôl cipio'r Fedal Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau yn 2015 am ei ddrama *Rhith Gân*, dyfarnwyd iddo ysgoloriaeth oddi wrth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac oddi wrth Brifysgol Abertawe er mwyn astudio tuag at radd PhD mewn ysgrifennu creadigol yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe.

Laura Beth Davies

Graddiodd Laura Beth o Goleg yr Iesu, Prifysgol Rhydychen, mewn Ieithoedd Modern a Chanoloesol, gan dreulio blwyddyn yn addysgu Saesneg yn Llydaw. Cwblhaodd radd Meistr yn y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Caerdydd, gan ganolbwyntio ar bolisi iaith mewn addysg. Derbyniodd ysgoloriaeth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn astudio tuag at ddoethuriaeth, gan ymchwilio i ddewisiadau ieithyddol dysgwyr galwedigaethol yn y sector Addysg Bellach. Yn ystod ei doethuriaeth, bu'n arwain seminarau israddedig ar ddiwylliant a pholisi Cymraeg, ynghyd â dysgu Cymraeg i ddechreuwyr. Dyfarnwyd ei doethuriaeth iddi yn 2019 ac mae bellach yn gweithio fel ymchwilydd addysg yn y sector cyhoeddus.

Catrin Wyn Edwards

Mae Catrin Wyn Edwards yn ddarlithydd mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth. Ar ôl cwblhau PhD yn dwyn y teitl 'Cymunedau Iaith Lleiafrifol, Mewnfudo a Pholisïau Iaith mewn Addysg: Astudiaeth Gymharol Ryngwladol' ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 2013, bu'n ymchwilydd ôl-ddoethurol amlflwyddyn ym Mhrifysgol Ottawa, Ontario. Ymunodd Catrin â'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn 2015, a hynny'n wreiddiol fel darlithydd cyfrwng Cymraeg gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae diddordebau ymchwil ac addysgu Catrin yn ymwneud â'r meysydd canlynol: polisi iaith a mewnfudo, amlddiwylliannedd, cenedlaetholdeb, dinasyddiaeth a phleidiau iswladwriaethol. Mae Catrin wedi treulio cyfnodau fel ysgolhaig ymweliadol ym Mhrifysgol UQAM, Montreal, a Phrifysgol Pompeu Fabra, Barcelona.

Robert Bowen

Mae Robert Bowen yn ddarlithydd mewn mentergarwch rhyngwladol yn yr Ysgol Reolaeth, Prifysgol Abertawe. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys mentergarwch gwledig, yn enwedig twf mewn busnesau bwyd a diod bychain a chanolig. Y mae hefyd wedi cynghori Llywodraeth Cymru ar frandio bwyd a diod Cymreig ar lefel rhyngwladol. Hefyd, bu'n ddarlithydd mewn Busnes gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym Mhrifysgol Aberystwyth, lle y gwnaeth ddatblygu'r rhaglen o gyrsiau Busnes drwy gyfrwng y Gymraeg.

Wyn Morris

Mae Wyn Morris yn ddarlithydd mewn Busnes ym Mhrifysgol Aberystwyth. Cyhoeddodd sawl papur ym maes mentergarwch gwledig, gan ganolbwyntio ar fentergarwch ffermio, yn ogystal â datblygiad technoleg mewn ffermio.

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

ISSN 1741-4261



9 771741 426008